



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 16EG HYDREF, 2025

**(NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB A BWRIEDIR
CAEL TORIAD I GINIO AM 12.30YP – 1.30YP)**

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 8 Hydref 2025)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Beca Brown
Dawn Lynne Jones
Olaf Cai Larsen
John Pughe
Dyfrig Siencyn
Sian Williams

Jina Gwyrfai
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Huw Rowlands
Rhys Tudur
[sedd wag]

Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Beth Lawton
John Pughe Roberts

Gwilym Jones
Dewi Owen
Richard Glyn Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

AELODAU CYFETHLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

[sedd wag]	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
{sedd wag}	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd
Gweno Glyn Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor
Sharon Roberts	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon

Heb Bleidlais:

Elise Poulter	NEU
Gwilym Jones	NASUWT

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 17

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025 fel rhai cywir.

5. STRATEGAETH ECONOMI GWYNEDD

18 - 82

I graffu ar y strategaeth ddrafft ar gyfer datblygu economi Gwynedd rhwng 2025 a 2035.

6. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI

83 - 203

I graffu ar y cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a ddeilliodd o'r gwerthusiad a'r adolygiad gan Estyn.

Bwriedir cael toriad i ginio am 12.30yp – 1.30yp

7. STRATEGAETH CAFFAEL

204 - 254

I roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu ystyried cynnwys y Strategaeth Gaffael a darparu sylwadau.

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL A'R GYMRAEG

255 - 295

I adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Gorfforaethol, yr Adran Gyfreithiol a'r Adran Iaith Gymraeg.

9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2025/26

296 - 299

I gyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 er ei mabwysiadu.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 19 MEHEFIN 2025

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn a Sian Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Elise Poulter (NEU) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr ar gyfer eitemau 5 a 6), a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer eitemau 7-9)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 - Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol), Siwan Llwyd Roberts (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd), Iwan Gwilym Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol) a Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd).

Yn bresennol ar gyfer eitem 8 - Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol) a Ffion Edward Ellis (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad).

Yn bresennol ar gyfer eitem 9 - Y Cynghorydd R Medwyn Hughes (Aelod Cabinet dros Economi), Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi), Roland Wyn Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant) a Llyr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned).

Yn bresennol ar gyfer eitem 10 – Y Cynghorydd Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid), Dewi A Morgan (Pennaeth Adran Cyllid), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid: Digidol) a Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid: Cynladwyedd a Datblygiadau).

Yn bresennol ar gyfer eitem 11 – Y Cynghorydd Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol), Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol), Iwan Gwilym Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol) a Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol).

1. ETHOL CADEIRYDD

Bu i'r Cyng. Cai Larsen gael ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer 2025/26.

2. IS-GADEIRYDD

Bu i'r Cyng. Rhys Tudur gael ei ethol yn is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Dewi Owen a Colette Owen (Aelod Cyfetholedig Yr Eglwys Gatholig).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nododd y Cyng. Dawn Lynne Jones fuddiant ar gyfer eitem 8 gan ei bod yn gweithio gyda phlant, ond gan ei fod yn adroddiad perfformiad nid oedd yn rhagfarnu ac nid oedd angen iddi adael y cyfarfod.

Bu i'r Prif Weithredwr ddatgan buddiant ar gyfer eitem 8 – gan fod ei wraig yn gweithio yn yr adran Addysg, felly bu iddo adael ar gyfer y drafodaeth.

Bu i'r Cyng. Beth Lawton, Gareth Tudor Jones, Richard Glyn Roberts a Sian Williams ddatgan buddiant ar gyfer eitem 9, gan eu bod yn aelodau ar Fwrdd Byw'n Iach, ond nid oedd yn rhagfarnu ac felly nid oedd angen gadael ar gyfer y drafodaeth.

Bu i Sharon Williams adael y cyfarfod yn rhinwedd ei swydd ar gyfer eitem 9.

5. MATERION BRYD

Doedd dim materion bryd i'w nodi.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, 2025 fel rhai cywir.

7. GRŴP TASG A GORFFEN POLISI IAITH ADDYSG DRAFFT

Yn dilyn trafodaeth ar Bolisi Iaith Addysg Drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Ebrill 2025, penderfynwyd ffurfio grŵp tasg a gorffen i drafod geiriad y polisi drafft.

Bu i'r Cynghorydd Rhys Tudur, Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen gyflwyno'r newidiadau a argymhellwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen. Nodwyd bod nifer o'r argymhellion yn tynhau yn eiriol i finiogi'r polisi ond fod rhai yn fwy arwyddocaol.

Roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

1. Mynegwyd yr angen i nodi mai'r ysgol sydd i ddewis pa bynciau trawsgwricwlaidd sy'n cael ei ddysgu yn Saesneg. Nodwyd y byddai hyn yn ei wneud yn fwy clir.
2. Dylid nodi yn y polisi fod gweithgareddau allgyrsiol yn cael eu cynnal drwy'r Gymraeg os oedd adnodd ar gael.
3. Argymhellwyd i ddefnyddio diffiniad o Ysgol Gymraeg sydd yn Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn hytrach na beth sydd wedi ei nodi yn y canllawiau statudol presennol, a drwy hyn bod yn rhagweithiol drwy gydymffurfio a'r ddeddf newydd.

4. Nodwyd y dylai'r polisi fynegi canran darpariaeth Gymraeg yr holl ddisgyblion.
5. Amlygwyd yr angen i ysgolion fod yn manylu ar beth fydd eu cynlluniau cynnydd.
6. A holwyd beth fydd disgwyliad y polisi gydag Ysgol Uwchradd Tywyn ac Ysgol Friars, gan eu bod yn gweithredu i raddau fel ysgolion Saesneg - holwyd os bydd polisi gwahanol neu driniaeth wahanol, gan y bydd yr amcanion yn rhai sirol.

Mynegwyd fod sylwadau wedi ei derbyn gan yr Adran Addysg mewn ymateb i'r newidiadau a argymhellwyd, ond eu bod wedi amlygu heriau ac nid ymatebion i'r argymhellion.

Derbyniwyd sylwadau pellach gan aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen gan fynegi eu siom yn ymatebion yr adran yn benodol gyda newid geiriad i ddiffiniad yn y Bil Addysg yn hytrach 'na'r canllawiau gan y byddai'n Ddeddf yn dilyn derbyn cydsyniad Brenhinol, mynegwyd yr angen i symud ymlaen i gydymffurfio a'r ddeddf.

Mynegwyd yn ogystal fod y Grŵp Tasg a Gorffen o'r farn fod angen i'r polisi fod yn gryf a gydag elfen o ddeheuad yn arbennig wrth edrych ar y shiftt iaith sydd o fewn y sir. Nodwyd fod y grŵp wedi ymgeisio i dynhau'r polisi drafft.

Bu i'r adran gael cyfle i ymateb, a mynegodd y Swyddog Monitro o ran y ddeddf, ei bod ar y ffordd am gydsyniad Brenhinol ond nad yw mewn grym ar hyn o bryd. Ychwanegodd y bydd amserlen gan y Llywodraeth i elfennau ddod i rym a bydd yn oddeutu 4-5 mlynedd cyn y bydd hyn yn digwydd. Eglurwyd y bydd cyfnod trosiannol tra bydd trefn statudol y ddeddf yn cael ei roi mewn lle.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg fod yr adran o'r farn bod y polisi drafft yn dangos ymrwymiad i'r Gymraeg a'r angen i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg. Mynegwyd yr angen i ddod a phobl gyda nhw, wrth roi polisiâu a gweithdrefnau yn eu lle. Amlygwyd fod yr adran yn dangos cyfeiriad i'r ysgolion ond ar ddiwedd y dydd penderfyniad y Cyrff Llywodraethol oedd mabwysiadu'r Polisi. Nodwyd fod ymgynghoriadau wedi bod wrth greu'r polisi drafft a bod Meirion Prys Jones wedi bod yn allweddol wrth eirio'r polisi. Diolchwyd i'r grŵp tasg am eu gwaith gan nodi fod rhai newidiadau y gellir ei ymgorffori, tra bod eraill am wneud y polisi yn anodd i'w weithredu ledled y Sir. Nodwyd yr angen i fod yn ofalus gyda'r elfen ddwyieithrwydd, gan fod angen y balans o bolisi llwyddiannus ond fod plant yn hapus a hyderus ac yn medru'r Saesneg yn ogystal.

Rhoddwyd cyfle i Meirion Prys Jones, a gynorthwyodd yr Adran fel ymgynghorydd allanol i eirio'r polisi drafft, i gyfrannu i'r drafodaeth. Mynegodd wrth lunio polisi fod angen delio a seicoleg gan fod angen meddwl sut mae rheoli materion sydd yn ymwneud ac emosiwn ieithyddol. Pwysleisiwyd fod llwyddiant newid pethau yn ddibynnol ar gario pobl gyda chi, gan nad oes modd deddfu iaith i fodolaeth. Eglurwyd pan yn son am shiftt iaith, bod angen cynllunio gofalus dros gyfnod hir o amser. Ychwanegwyd fod geiriad y polisi drafft yn annog, yn rhoi arweiniad ac yn glir fod elfen o ddewis hefyd, gan fod elfen o ddewis yn dod a phobl efo chi. Nodwyd fod lle i dynhau mewn rhai elfennau ond ei fod yn bwysig cadw mewn cof tŷn y polisi ac felly fod angen defnyddio geiriau yn ofalus.

Yn ystod y drafodaeth penderfynwyd trafod y newidiadau a argymhellwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen fesul pennawd. Nodwyd sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor fel a ganlyn:-

Amlygwyd fod y cyfeiriad at y Saesneg wedi ei dynnu o'r geiriad yn yr amcanion o dan yr ail bennawd. Esboniwyd fod tynnu'r cyfeiriad yn gallu bod yn broblemus gan fod angen sicrhau fod pobl ifanc yn hyderus a gydag iaith graenus yn Gymraeg a Saesneg. Mynegwyd fod cael hyder i siarad Saesneg ddim yn golygu na fydd hyder gan y bobl ifanc i siarad Cymraeg. Pwysleisiwyd yr angen i gyfarch deheuad pobl ifanc i gyrraedd

eu potensial yn y ddwy iaith.

Wrth drafod yr amcanion ymhellach, nodwyd wrth drafod hwyrddefodiad yn mynychu canolfannau trochi, bod yr argymhelliad i newid y geiriad yn rhoi awgrym o orfodaeth. Mynegwyd fod angen i bwysleisio anogaeth, ond ddim yn siŵr sut fydd modd gorfodi. Atebodd yr adran gan nodi fod angen efallai rhoi mwy o gig ar yr asgwrn wrth amlygu sut mae modd i'r adran annog teuluoedd i'w plant fynychu canolfannau trochi.

Nodwyd er bod yr amcanion yn cyfeirio at siarad Cymraeg, bod angen cynnwys ysgrifennu yn ogystal gan mai fel hyn mae mwyafrif o asesu yn cael ei wneud.

Pwysleisiwyd sylwadau Meirion Prys Jones fod tŷn yn holl bwysig ynghyd a seicoleg. Nodwyd yr angen i'r polisi iaith addysg ddod a rhieni efo nhw, gan adlewyrchu barn ysgolion a denu ysgolion i fabwysiadu'r polisi.

Nododd aelodau'r Grŵp yr argymhellwyd tynnu dwyieithrwydd gan fod yr adran wedi nodi mai addysg Gymraeg sydd yng Ngwynedd. Amlygwyd nad yw'r adran wedi ymateb i sut y byddent yn delio ac ysgolion sydd yn fwy dwyieithog, ac felly fod angen amlygu dyheadau'r adran.

Wrth drafod y pennawd Ysgolion Uwchradd, nododd Aelodau'r Grŵp, yn dechnegol ni ellir gorfodi plant i fynychu'r canolfannau trochi ond bod angen mwy nag anogaeth. Mynegwyd fod angen mynd yn groes i sylwadau swyddogion a chyflwyno polisi sydd rhwng anogaeth a gorfodi.

Mynegwyd o bosib fod angen polisi eithrio ar gyfer dwy ysgol uwchradd o fewn y sir gan eu bod yn gweithio fwy fel ysgolion Saesneg. Pwysleisiwyd fod y polisi iaith addysg yn un sirol, ac felly nad oedd yn briodol cyfeirio at ysgolion yn benodol, ac addasu ar eu cyfer hwy yn unig.

Wrth edrych ar bennawd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn y polisi diwygiedig, nodwyd fod hepgor cyfeiriadau at y Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn creu pryderon. Mynegwyd fod angen cymryd y ddeddf ADY i ystyriaeth a'i fod yn greiddiol i'r polisi.

Ychwanegwyd fod efallai angen ymchwil pellach i iaith ag ADY, gan fod arbenigwyr yn aml yn annog teuluoedd i siarad Saesneg gyda phlant ag anghenion dysgu. Mynegwyd angen i edrych i weld os oes tystiolaeth yn gwrthddweud hyn. Nododd yr adran ei fod yn gynllun posib i'w wneud gyda'r Brifysgol yn y dyfodol.

Esboniodd aelodau'r Grŵp fod y ddeddf wedi ei hepgor gan nad oedd manylder o beth oedd y ddeddf yn ei ddweud, ac felly bod angen mwy o fanylion. Nododd y Swyddog Monitro fod y paragraff yn cydnabod y dyletswydd i gydymffurfio gyda'r ddeddf ac felly yn angenrheidiol i'r polisi.

Cafwyd trafodaeth am eiriad penderfyniad y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD

- **Nodi allbwn gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen ond nid oedd consensws ar yr holl addasiadau a argymhellwyd;**
- **Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried yr ystod o sylwadau a gyflwynwyd gan yr Aelodau Craffu wrth lunio'r polisi terfynol.**

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg gan nodi fod y data yn siarad dros ei hun. Nodwyd fod llwyddiannau i'w dathlu, cynlluniau i'w datblygu a'i fod yn edrych ymlaen at roi cyd-destun ar rai cynlluniau gwella yn rhai meysydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Gofynnwyd o ran moderneiddio adeiladau a lleoliadau dysgu, gan fod blaenoriaeth yn cael ei roi i anableddau corfforol gofynnwyd faint o gynllunio sydd yn cael ei wneud ar gyfer anghenion sensorï plant, nid yn unig yr ystafelloedd ond o ran lliwiau ar y waliau, y bylbiau golau sy'n cael eu defnyddio a.y.b.. Atebwyd gan nodi fod canllawiau i'w dilyn wrth adeiladu ysgolion newydd, eglurwyd fod sicrhau darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn rhan o'r canllawiau. Eglurwyd wrth adeiladu ysgolion mae'r adran yn dysgu o un prosiect i'r llall, ac addasiadau wedi ei gwneud o ran cadw drysau lliw naturiol ynghyd ac edrych ar oleuadau. Nodwyd yr angen i gael mwy o fewnbwn yr adran pan fo ysgolion yn cael eu dylunio er mwyn ystyried y mathau yma o anghenion, ac eglurwyd fod yr adran yn defnyddio rhan o arian grant cyfalaf ADY i edrych ar y mater yma ymhellach a'u bod yn cydweithio gyda Therapydd Galwedigaethol.

Tynnwyd sylw yn ogystal gyda'r maes moderneiddio adeiladau a lleoliadau dysgu fod cynlluniau yn Arfon a Dwyfor ond dim sôn am gynlluniau ym Meirionnydd. Mewn ymateb, nodwyd fod arian cyfalaf moderneiddio addysg yn dod mewn gweddau a bod nifer o ysgolion ym Meirionnydd wedi ei datblygu yn ystod y wedd gyntaf gan amlygu cynlluniau ail strwythuro ysgolion yn y Bala, Tywyn a Dolgellau. Bellach, eglurwyd, eu bod yn canolbwyntio yn benodol ar ardal Bangor, ac yna pan fydd y wedd nesaf bydd yn symud i ardal arall o fewn Gwynedd.

Mynegwyd wrth edrych ar gynllun lleihau cost anfon plant i'r ysgol fod y mesuryddion yn goch, a holwyd os oedd plant yn cael eu gwahardd yn barhaol os oes cydnabyddiaeth i'r gost ychwanegol i rieni o symud eu plant i ysgol arall - megis gwisgoedd ysgol a.y.b. Nodwyd fod modd cefnogi teuluoedd yn y maes yma, drwy ddargyfeirio arian gan fod angen sicrhau bod plant yn gallu mynychu'r ysgol.

Wrth drafod yr un maes – holwyd os yw'r adran yn hyderus fod pob cost, gan gynnwys rhai cudd yn cael sylw. Ymatebwyd gan nodi fod gan yr adran hyder eu bod wedi rhoi llawer o sylw i'r prif faterion ac wedi gweithio i fynd o dan groen y problemau. Nodwyd fod yr adran am lunio siarter a fydd yn awgrym i ysgolion wrth ystyried costau megis tripiâu ysgol, cost gwisg ysgol er enghraifft.

Codwyd nifer o sylwadau am bresenoldeb gan ei fod yn fater o bryder cenedlaethol, ac amlygwyd fod cynnydd wedi bod gyda niferoedd yn colli ysgol yn dechrau lleihau. Gofynnwyd beth sydd yn gweithio ac os oes unrhyw strategaeth mewn lle i wella'r sefyllfa. Atebwyd drwy nodi fod presenoldeb wedi bod yn dalcen caled, a bod strategaethau yn ei lle. Mynegwyd mai beth sydd yn gwneud gwir wahaniaeth yw rhoi sylw diddiwedd i'r mater. Ategwyd fod yr ysgolion sydd wedi profi llwyddiant mewn cynyddu presenoldeb gyda phrosesau cadarn a thynn yn ei lle. Eglurwyd fod yr uwchradd yn cael blaenoriaeth yr adran gan ei fod yn fwy o broblem yn yr uwchradd. Eglurwyd fod y patrymau a dorrwyd yn ystod cyfnod covid bellach yn cael eu hail adeiladu, a gobeithio y bydd y ffigyrau yn cyrraedd y canrannau cyn covid dros y blynyddoedd nesaf.

Wrth drafod presenoldeb, nodwyd fod rhai teuluoedd yn cael eu herlyn yn gyfreithiol oherwydd diffyg presenoldeb, gofynnwyd a oes tystiolaeth fod y dacteg yma yn gweithio, a beth yw'r sgil effeithiau'r profiad ar deuluoedd. Ymatebwyd drwy amlygu fod gwahanol fath o erlyniad a dirwyon. Nodwyd fod dirwy o £120 pan disgybl yn cael absenoldeb anawdurdodedig ddim yn un sydd yn cael ei weithredu yng Ngwynedd. Nodwyd mai erlyniad arall sy'n cael ei weithredu gan y Tîm Lles Addysg. Esboniwyd fod proses bendant o weithio gyda theuluoedd i annog presenoldeb. Amlygwyd fod nifer o blant sy'n

cael eu cyfeirio at y Tîm Lles yn gwneud cynnydd pendant, a bod bron i hanner gyda rhesymau dros yr absenoldeb fuasai ddim yn arwain at erlyniad - rhesymau megis iechyd meddwl a phroblemau cymdeithasol. Nodwyd nad yw unrhyw un eisiau erlyn ond bod angen defnyddio pwerau i orfodi plant i fynychu ysgolion. O ran effaith hir dymor, nodwyd fod hanner yn dod yn ôl i'r ysgol a rhai yn dadgofrestru. Eglurwyd yn ogystal nid dirwy yw'r cam olaf ond yn aml mae'r llys yn rhoi gofyniadau a chyfeiriad sut i'r partion weithio gyda'i gilydd i wella'r sefyllfa ac yn rhoi tasgau i'w cyflawni o fewn cynllun amser.

Amlygwyd fod nifer sydd yn dewis addysg ddewisol adref ar gynnydd a gofynnwyd a oedd yn peri pryder, ac os ydynt yn codi pryderon o ran diogelu a lles. Ymatebwyd gan nodi fod y maes hwn yn un cymhleth tu hwnt gyda charfannau gwahanol o fewn y 269 sy'n cael eu haddysgu adref - megis teuluoedd yn dewis addysgu eu plant adref, eraill yn teimlo bod eu plant yn methu mynd i'r ysgol am amrywiol resymau a rhai yn teimlo nad yw anghenion eu plant yn cael eu cyrraedd. Mynegwyd fod holiadur yn cael ei rannu pan yn dad-gofrestru o ysgol i gael gwybod y rheswm dros wneud hyn er mwyn cael dealltwriaeth well. Mynegwyd fod gwaith yn cael ei wneud i weithio gyda theuluoedd i gadw cysylltiad, a bod dau athro ar gael i'w cynorthwyo gyda'r cwricwlwm. Nodwyd nad oes problemau lles a diogelu gan fod nifer yn aberthu eu gyrfaedd i addysgu o adref, a phwysleisiwyd fod nifer yn cael profiadau gwych drwy ddysgu o adref.

Tynnwyd sylw at nifer o fesuryddion gan holi am eu dilysrwydd o ganlyniad i nifer isel o ymatebion, megis y mesurydd ar wella cyfathrebu plant awtistig, gan mai dim ond 2 sydd wedi ymateb. Atebwyd drwy nodi bod yr adran yn cydweld gyda'r sylw, a'i fod wedi ei amlygu gan reolwyr. Nodwyd ei fod yn anodd cael adlewyrchiad teg ond fod mesuryddion am wasanaethau unigol, a bod angen mireinio a sicrhau eu bod yn mesur y pethau cywir.

Wrth edrych ar wasanaeth y canolfannau trochi, amlygwyd nad oedd data o ran faint mae ysgolion yn ei annog, a faint o blant sydd yn gwrthod. Nodwyd y byddai'r data yma yn ddefnyddiol. Ymatebodd yr adran gan nodi fod lleoliadau yn brin iawn yn y canolfannau, a bod yr ysgolion yn eu hannog. Eglurwyd nad oes modd gorfodi'r plant i fynychu ac felly bod disgwyliad ar ysgol i'w hannog. Mynegodd yr adran eu bod yn hapus i ddarparu niferoedd sydd yn mynychu, nodwyd fod lle i wella ond fod yr adran yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hwyluso'r broses drwy gefnogaeth megis cludiant.

Holwyd pryd fydd y Strategaeth Addysg yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Nodwyd y bydd yn cael ei gyflwyno yn ystod Tymor yr Hydref, eglurwyd fod gwaith ymgysylltu angen ei wneud ond eu bod yn gobeithio ei fod yn mynd i'r Cabinet cyn y Nadolig i fod ar waith yn ystod tymor y Gwanwyn.

Holwyd am fesurydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol, a gofynnwyd pam fod Saesneg yn cael ei phwysleisio dros y Gymraeg. Eglurwyd fod y gwasanaeth hwn ar gyfer plant sydd yn dod o wledydd tramor a'r angen i sicrhau eu bod yn cael mynediad i addysg. Pwysleisiwyd ei fod yn dîm bach sydd wedi dros y blynyddoedd diwethaf gefnogi nifer o blant o'r Wcraïn, a fu yn trochi yn y Gymraeg cyn hyd yn oed dysgu Saesneg. Amlygwyd mai term addysg yw teitl y mesurydd.

Nodwyd pryder am y polisi toiledu, gan fod efallai y gofyn i blant fod yn gallu defnyddio'r toiled cyn cychwyn ysgol yn cael ei weld fel rhwystr i rai teuluoedd, yn enwedig plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Pwysleisiwyd fod canllawiau yn glir o ran disgwyliadau ac nad yw hyn yn cynnwys plant a chyflyrau iechyd a gydag anghenion dysgu ychwanegol. Eglurwyd drwy greu'r polisi hwn fod arweiniad cyson ar draws y sir.

Tynnwyd sylw at waharddiadau mewn ysgolion uwchradd, nodwyd bod 3 ysgol wedi gwahardd plant am 100 o ddyddiau neu yn fwy. Gofynnwyd a oes cefnogaeth i'r plant yn ystod y cyfnodau yma. Atebwyd gan nodi fod yr ysgolion ble mae gwaharddiadau yn

uwch angen edrych arnynt ymhellach ac i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd mwyaf o'r gyllideb cynhwysiad sydd ar gael.

Nodwyd fod arian cynhwysiad yn cael ei dderbyn gan ysgolion, ac amlygwyd fod y problemau ar gynydd, holwyd os yw hyn yn bryder? Nodwyd ei fod yn bryder gan nad yw yn gyson ar draws y sir a bod rhai ysgolion yn gwneud gwaith arbennig o dda o gefnogi plant. Cydnabuwyd fod anghenion wedi newid. Eglurwyd fod uned newydd yn cael ei agor i ymateb i heriau ymddygiad. Nodwyd fod yr uned yn Arfon gan fod yr angen yn uchel yn yr ardal, ac er nad oes lleoliad pendant ym Meirionnydd ar hyn o bryd y bwriad yw ymateb yn ddeinamig pan fyddai'r angen yn codi.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau ynghyd â gofyn am weithrediad pellach ar rai o'r sylwadau yng nghyswllt y meysydd canlynol:

- Y Gymraeg a Chanolfannau Iaith
- Amgylchedd dysgu i blant gyda chyflyrau penodol
- Math o adeiladau o ran lleoliadau daearyddol ynghyd â chostau trafnidiaeth
- Absenoldebau plant a chynhwysiad ynghyd â phlant sydd wedi ei eithrio o addysg ac yn cael eu haddysgu o adref
- Dibynadwyedd data ble mae sail y data yn fach
- Costau yn ymwneud a mynediad i addysg yn benodol i deuluoedd incwm isel a phlant sydd yn cael ei gwahardd o ysgol
- Penodi Penaethiaid
- Prydlondeb o ran cyflwyno'r Strategaeth Addysg.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ECONOMI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet gan nodi ei bod wedi bod yn gyfnod prysur iawn i'r adra gydag un cylch grantiau yn dod i ben tra bod un arall ar gychwyn. Amlygwyd fod gan yr adran 4 cynllun blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor, tri yn adran Gwynedd Lewyrchus ac un fel rhan o raglen Gwynedd Ofalgar. Nodwyd fod cynnydd da wedi ei wneud yn erbyn y cerrig milltir, ond mai'r risg sy'n gyffredin i'r pedwar oedd ansicrwydd am ddyfodol y cyllidebau gan eu bod yn cael eu hariannu drwy arian grant.

Tywyswyd drwy'r cynlluniau gan roi blas ar y gwaith sydd yn mynd yn ei flaen, gan dynnu sylw at feysydd megis y gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud i gwblhau gwariant o brosiectau rhaglen ARFOR a Rhaglen Ffyniant Cyffredin. Amlygwyd fod 49% yn llai o arian ar gael i Wynedd a siroedd y Gogledd wrth edrych ar Raglen Ffyniant Cyffredin, ond fod gwaith o adnabod blaenoriaethau 2025/26 eisoes wedi cychwyn.

O ran gwaith dydd i ddydd yr adran, amlygwyd pryder bod nifer y disgyblion sydd yn cael gwersi nofio yng nghanolfannau hamdden yn parhau i ostwng a sialens carthu yn Hafan a Harbwr Pwllheli. Nodwyd fod lefel boddhad cwsmer yn uchel yn nifer o feysydd yn yr adran megis Gwasanaeth archifau, amgueddfeydd, y celfyddydau a'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a chwestiynau a ganlyn:-

Tynnwyd sylw at leihad yn nifer y disgyblion sy'n derbyn gwersi nofio gan amlygu fod hyn yn debygol o ganlyniad i gost uchel cludiant i'r canolfannau. Nodwyd er bod hon yn broblem sydd i'w gweld mewn nifer o ardaloedd gwledig fod yr un darlun i'w gweld mewn ysgolion trefol yn ogystal, yn benodol mewn ardaloedd difreintiedig. Gofynnwyd am ddadansoddiad ystadegau nofio i weld maint y broblem. Wrth drafod nofio gofynnwyd yn

ogystal am ddadansoddiad o ddefnyddwyr canolfannau hamdden Byw'n Iach er mwyn gweld beth yw'r patrymau o ran pa ardaloedd sydd yn defnyddio'r cyfleusterau ac ym mha ardaloedd. Cytunwyd i rannu'r wybodaeth a'r aelodau.

Holwyd am ddatblygiadau TWF Gogledd Cymru, gan ei fod yn ymddangos nad oedd cynnydd. Eglurodd yr adran fod nifer o bethau yn digwydd ond fod newidiadau wedi bod i amryw o gynlluniau o ganlyniad i nifer o resymau. O ran cynlluniau Gwynedd nodwyd fod cynllun Trawsfynydd a gyflwynwyd gan gwmni Eginio yn ôl yn 2019 bellach wedi ei dynnu yn ôl gan nad oedd y safle yn un oedd wedi ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru i ddatblygiadau niwclear pellach. Er i'r Arweinydd ymgeisio i ddargyfeirio'r arian i gynllun amgen, penderfynwyd na fuasai modd i unrhyw gynllun sy'n cael ei dynnu yn ôl i wneud hyn a gosodwyd egwyddor bod rhaid gwneud cais o'r newydd. O ganlyniad, nodwyd fod cais newydd i ddatblygu Parc Gwyddoniaeth ar y safle ar fin cael ei gyflwyno.

Cais arall oedd i'w gweld yng Ngwynedd yn rhan o'r cynllun TWF oedd cais Glynllifon i ddatblygu Canolfan Arloesi Gwledig. Gan ei bod yn gynllun mor fawr roedd angen cais cynllunio ar gyfer mynedfa newydd. O ganlyniad i'r cais yn cael ei wrthwynebu gan sefydliadau statudol, nodwyd fod Coleg Llandrillo Menai hefyd yn edrych i gyflwyno cynllun arall.

Er nad yw'r ddau gynllun uchod yn symud yn ei blaen pwysleisiwyd fod dau gynllun yn symud yn ei flaen ym Mharc Glan Cegin ym Mangor ynghyd a chynllun gan Brifysgol Bangor. Mynegwyd fod cynlluniau yn datblygu a bod yr adran yn hyderus y bydd budd i Wynedd o fod yn rhan o'r cynllun. Cydnabuwyd fod y cynlluniau yn symud yn arafach na ragwelwyd pan arwyddwyd y cytundeb.

Nodwyd siomedigaeth fod cynlluniau yn symud yn eu blaen mor araf, a mynegwyd yr awydd i'r Pwyllgor edrych yn fanylach ar y mater gan edrych yn benodol ar ei gost a beth yw'r budd i Wynedd.

Mynegodd un aelod nad oedd yn ymwybodol o'r cynlluniau yn Nhrawsfynydd a chytunodd yr adran i anfon y cynlluniau gwreiddio ymlaen iddynt gan nodi eu bod wedi dyddio bellach a phwysleisiwyd nad oedd Gwynedd yn rhan o'r cynlluniau gwreiddiol.

Amlygodd un aelod nad oedd cynlluniau TWF i'w gweld yn Ne'r Sir ble mae gwir angen am swyddi a datblygiadau.

Tynnwyd sylw at waith da sydd yn cael ei wneud gan Gynllun Creu'r Amgylchiadau Gorau Posib yng Ngwynedd i Fusnesau a Mentrau Cymunedol Ffynnu, a Chefnogi Pobl Gwynedd mewn i waith, gyda 184 wedi eu cefnogi i ddychwelyd i waith eleni a 232 wedi derbyn help i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da. Gofynnwyd a oes ffigyrau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol i weld y ffigyrau yn eu cyd-destun. Eglurodd yr adran fod y tîm yn gwneud gwaith arbennig o dda, ond eu bod yn llwyr ddibynnol ar grant a bod y sefyllfa ariannol yn un fregus. Mynegwyd fod ffigyrau ar gael a byddant yn cael ei rhannu â'r pwyllgor.

Holodd y Pwyllgor am gydweithio rhwng adrannau, a faint o drafod sydd yn cael ei wneud gydag adrannau megis Addysg o ran gwersi nofio, cyllid gydag effaith trothwy gosod am 184 o ddyddiau ar fusnesau bychan a thai gwyliau, yn ogystal yr adran amgylchedd gyda man welliannau i isadeiledd Gwynedd o ran ei wneud yn lle deniadol e.e. meysydd parcio a phalmentydd. Eglurodd yr adran fod cydweithio yn digwydd gan amlygu'r gwaith ynghlwm â'r Gronfa Ffyniant Cyffredin. Manylwyd bod cyd-weithio agos iawn gyda'r adran Amgylchedd a Prifffyrdd er mwyn adnabod cynlluniau i wella canol trefi, a bod gweithdai wedi eu cynnal gyda chynrychiolaeth o adrannau'r Cyngor i flaenoriaethu cynlluniau.

Nodwyd ymdeimlad nad oedd llawer o gydweithio rhwng yr adran Gynllunio a'r adran o ran datblygiadau cynlluniau twristiaeth gan amlygu cynllun TWF Glynllifon fel enghraifft.

Amlygwyd fod cydweithio agos yn digwydd gyda swyddogion cynllunio yn aelodau o fyrddau prosiect, megis Cynllun Llechi, ond fod cais cynllunio ar safle Glynllifon wedi ei wrthod yn dilyn gwrthwynebiadau gan fudiadau statudol tu hwnt i'r Cyngor ac felly nid diffyg cydweithio oedd y broblem yn yr achos yma.

Tynnwyd sylw at gyhoeddiad pwyllgor Gŵyl Fwyd Caernarfon eu bod am gymryd seibiant am flwyddyn yn rhannol oherwydd y pwysau sydd ar y pwyllgor bach, a gofynnwyd i'r adran am eu cefnogaeth i'w cynorthwyo i'r dyfodol. Mynegwyd cefnogaeth i gynnal trafodaethau ac i weld os oes mwy gall yr adran ei wneud.

Amlygwyd fod Llyfrgelloedd bellach yn fwy na lle i fenthylg llyfrau ac yn hybiau cymunedol. Holwyd gyda Neuadd Dwyfor yn ffynnu, beth oedd wedi achosi newid mor bositif. Ymatebodd yr adran gan nodi fod llyfrgelloedd megis Tywyn yn esiampl o beth all llyfrgelloedd eu cynnig a bod yr adran yn datblygu strategaeth newydd i'r dyfodol a fydd yn ymgorffori'r agenda cefnogi pobl. O ran Neuadd Dwyfor, nodwyd fod y rhaglen fuddsoddi sylweddol, ynghyd â bod yn ymatebol i anghenion yr ardal a thîm da wedi arwain at newid positif. Amlygwyd er bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio llawer mwy nad yw wedi arwain at gynnydd incwm o ganlyniad i gynnydd mewn costau. Nodwyd fod llawer o wersi i'w dysgu ond ei fod yn amlygu fod cyd-leoli gwasanaethau yn holl bwysig.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau;**
- **Bod angen ystyried craffu budd y Cynllun TWF i Wynedd gan gynnwys y cynllun amgen yn Nhrawsfynydd**
- **Gofyn i'r Adran Economi a Chymuned ddarparu data treigl tair blynedd o ran niferoedd sydd wedi derbyn cymorth i ddychwelyd i waith**
- **Gofyn i'r Adran wneud cais i Gwmni Byw'n Iach am ddata defnyddwyr;**
- **Gwneud cais i'r adran edrych am gyllid a chefnogaeth ehangach i Wyl Fwyd Caernarfon ac i ddangos yn gliriach yn yr adroddiad fod cyllid i fentrau cymdeithasol.**

10. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET CYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet gan nodi mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad ar y maes. Mynegwyd fod yr adran yn arwain ar 2 flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor – Rheoli Effaith Toriadau Cyllidol Cenedlaethol a'r Cynllun Digidol. Adroddwyd fod cynnydd i'w weld ar y ddau gynllun.

Nodwyd o ran mesurau perfformiad yr holl adran fod 12% yn adrodd yn ambr, sydd yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r trafodaethau mesur perfformiad, a 12% yn adrodd yn goch, sy'n destun pryder sydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gan adolygu os oes angen cyflwyno mesurydd newydd.

Tynnwyd sylw at y rhai sy'n mesur yn goch. O ran y Gwasanaeth Incwm amlygwyd fod balans gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis yn bron i £2m. Mynegwyd fod adolygiad cynhwysfawr o sefyllfa hen ddyledion ynghyd a phrosesau gweithredu yn parhau.

Yn y Gwasanaeth Trethi ble mae'r ddau fesur arall yn adrodd yn goch, nodwyd fod adolygiad Ffordd Gwynedd yn cael ei gynnal i gryfhau trefniadau adennill, gan fod y cyfraddau casglu ar gyfer Treth Cyngor ac Ardrethu Annomestig yn is nag y maent wedi ei bod yn hanesyddol. Eglurwyd fod gostyngiad yn y gyfradd gasglu hefyd yn rhannol

oherwydd bod nifer uchel o unedau gwyliau hunan ddarpar nad oedd yn cyrraedd y meini prawf o 182 diwrnod ar gyfer Trethi Busnes wedi trosglwyddo yn ôl i Dreth Cyngor yn ystod ail hanner y flwyddyn ac wedi eu hól ddyddio ac felly roedd canran uchel yn parhau heb eu talu erbyn diwedd Mawrth 2025.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Derbyniwyd nifer o sylwadau am y lleihad mewn casglu treth y cyngor o ganlyniad i nifer o dai yn newid i fod yn unedau gwyliau gan dalu trethi annomestig ac effaith peidio cyrraedd y trothwy nifer o ddyddiau gosod llety gwyliau dan y rheolau newydd. Nododd y Pennaeth Adran fod hwn o ganlyniad i benderfyniadau gan Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth a oedd wedi ei ôl ddyddio ac wedi ei gyflwyno yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Nodwyd fod diffyg cyfathrebu wedi bod gan olygu biliau anferthol i unigolion o ganlyniad i'r premiwm a bod yr adran yn ymwybodol o'r poen meddwl roedd hyn wedi ei greu.

Nodwyd yr angen gan Aelodau'r Pwyllgor am Bolisi Eithrio gan fod hyn yn effeithio nifer o drigolion a mudiadau o fewn y sir sy'n amlygu sefyllfa annheg. Mynegwyd fod angen ei greu er mwyn miniogi'r eithrio er mwyn rhoi lefel o degwch ac i fod efo lefel o hyblygrwydd yn y biliau trethi sydd yn cael eu hanfon allan. Ymatebodd yr adran gan nodi ei bod yn sefyllfa gymhleth iawn ond fod yr adran yn gweithio i gyflwyno polisi a chanllaw yn yr Hydref, ond fod casglu trethi yn holl bwysig i ariannu gwasanaethau. Eglurwyd fod yr adran angen fod yn ofalus gan y bydd modd i unigolion ei ddefnyddio fel dihangfa i beidio talu treth. Nodwyd heb bolisi eithrio fod y drefn yn un anhyblyg. Gofynnwyd i unrhyw bolisi gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w drafod.

Wrth drafod yr un maes nodwyd fod angen i'r adrannau fod yn trafod yn well gyda'i gilydd gan fod yr adran gynllunio yn rhoi caniatâd cynllunio i safleoedd gwersylla o bob math, fod yr adran gyllid yn anfon biliau allan i unigolion a bod yr adran economi yn ceisio datblygu twristiaeth gynaliadwy. Nodwyd yr angen i'r adrannau fod yn trafod gyda'i gilydd ymhellach.

Gofynnwyd am wybodaeth bellach am faint o unigolion a oedd yn y bandiau treth isaf sydd yn cael problemau talu, a faint sydd yn mynd i'r llys am fethu a thalu. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor. Nodwyd fod trefniadau penodol mewn lle a bod cymorth ar gael ond fod yn rhaid i unigolion ofyn am y cymorth hwn.

Holwyd o ran y Cynllun Digidol, pa mor ffyddiog oedd yr adran y bydd system cyflogau newydd y Cyngor yn ei le pan fydd yr hen system yn dod i ben ddiwedd 2026. Ymatebodd yr adran drwy nodi nad oes dewis ac y bydd yn rhaid iddo fod yn ei le a bod camau wedi ei wneud i sicrhau fod y cynllun yn symud yn ei flaen megis dechrau'r elfen caffael ynghyd â derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i gael arian un tro i'w ariannu.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau**
- **Derbyn fod angen llunio Polisi Eithrio o ran Premiwm Treth Cyngor**
- **Bod angen ystyried os oes rôl i'r Pwyllgor Craffu wrth greu'r polisi**
- **Gofyn i'r Adran Gyllid rannu data o ran erlyniadau Treth Cyngor gyda'r aelodau.**

11. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL A'R GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet gan nodi ei bod am ddechrau gyda

Gwasanaethau Corfforaethol. Mynegwyd ei bod yn braf dweud fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn y blaenoriaethau strategol y Cyngor, a bod nifer o lwyddiannau i'w gweld yn y perfformiadau meintiol. Nodwyd fod rhai heriau yn parhau mewn meysydd megis iechyd galwedigaethol, salwch staff a chytundebu yn brydlon.

Amlygwyd cynnydd yn y maes caffael gyda chynnydd o 1% yn nefnydd y Cyngor o gwmnïau lleol sydd yn dod a'r ganran i 59%. Nodwyd gwaith sydd wedi ei wneud yn y maes cyflogaeth, ond amlygwyd fod y matrices swyddi bellach i'w gwblhau yn 2025/26, ond amlygwyd fod fframwaith hyfforddi staff cyffredinol bellach ar waith.

Yn y maes cydraddoldeb nodwyd fod fforwm cydraddoldeb staff wedi ei sefydlu a bod gwaith yn cael ei wneud i wefan y Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch. Amlygwyd bellach fod hyfforddiant awtistiaeth a niwroamrwyiaeth ar gael i staff.

Amlygwyd cynnydd yng nghynllun Merched mewn Arweinyddiaeth gyda 45% o'r unigolion bellach wedi symud i swyddi uwch, a nodwyd fod y rhaglen ddatblygu a sgysiau dros baned yn parhau ynghyd â brand newydd i'r prosiect wedi ei lansio.

Aethpwyd ymlaen i drafod y Gwasanaeth Cyfreithiol gan amlygu fod 4 tîm - Cyfreithiol, priodoldeb etholiadau a chofrestru a chefnogaeth i'r gwasanaeth crwner. Amlygwyd fod y swyddogion sy'n derbyn gwasanaeth yn fodlon neu yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a bod adborth blynyddol gan benaethiaid yn adrodd canlyniadau cadarnhaol. Eglurwyd fod sefyllfa staffio'r adran bellach yn iach ac nad oedd locums yn cael eu defnyddio bellach.

Tynnwyd sylw fod y tîm priodoldeb yn cynnal hyfforddiant ar y cod ymddygiad i aelodau, a bod nifer o aelodau yn parhau heb ei gwblhau sy'n fater sy'n codi yn codi yn gyson yn y Pwyllgor Safonau.

Diolchwyd i staff y ddwy adran am eu gwaith.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Amlygwyd fod nifer o brosiectau yn llithro o eleni i'r flwyddyn ganlynol a gofynnwyd a oedd hyn o ganlyniad i ddiffyg staff i gwblhau'r gwaith. Atebwyd gan nodi nad diffyg staff oedd y broblem ond fod llwyth gwaith yn gallu bod yn drwm ac o ganlyniad ei bod yn anodd eu cwblhau heb fod effaith ar waith dydd i ddydd. Amlygwyd y matrices swyddi allweddol fel enghraifft gan nodi fod nifer o gymhlethdodau wedi codi, ond bod gwaith ar y cynllun wedi ail gychwyn gyda capasiti staff uwch yn ei le i orffen y gwaith.

Mynegwyd fod nifer o fesuryddion yn cael ei hamlygu yn goch, gofynnwyd a yw hyn yn codi pryder. Atebwyd gan nodi fod nifer yn goch o ganlyniad i her uchel mae'r adran yn ei roi o ran mesuryddion. Er hyn nodwyd fod rhai pryderon megis y gwasanaeth iechyd galwedigaethol ble mae cynnydd yn nifer y cyfeiriadau ynghyd â phrinder nyrsys yn golygu fod y mesur yn goch.

Tynnwyd sylw at faes blaenoriaeth 'Gwynedd Effeithiol' sydd yn ymgorffori llawer o Ffordd Gwynedd, a nodwyd llawer o rwystredigaeth gyda Ffordd Gwynedd. Amlygwyd fod nifer o enghreifftiau o adrannau yn parhau i beidio ymateb i ymholiadau gan aelodau a'r cyhoedd sydd yn rhwystredig tu hwnt. Gofynnwyd a oedd Ffordd Gwynedd yn gweithio gan fod llawer o arian yn cael ei roi tuag ato, ac os oedd rhai Penaethiaid Adran ddim yn gweithredu yn unol â 'Ffordd Gwynedd' sut mae disgwyl i staff wneud. Atebwyd gan nodi fod cyfraniad Ffordd Gwynedd yn llwyr ddibynnol ar gydweithrediad adrannau. Nodwyd o ran diffyg ymateb i ohebiaeth, fod cynllun Gofal Cwsmer Newydd wedi ei ddatblygu a fydd yn gosod safonau i ymateb i ymholiadau. Mynegwyd dealltwriaeth o'r rhwystredigaeth a'r angen i dracio ymhellach.

Cyfeiriwyd at faes blaenoriaeth 'Gwynedd Gymraeg' a phrosiect hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Nodwyd bod rhaglen waith dwy flynedd mewn lle. Holwyd beth sydd wedi ei

wneud ac oes mesuryddion. Nodwyd fod adroddiad penodol ar y mater yn mynd i'r Pwyllgor Iaith wythnos nesaf, ac eglurwyd gydag thîm bach iawn bellach fod galwadau yn drwm ond eu bod yn ceisio gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

Tynnwyd sylw at geisiadau rhyddid gwybodaeth, gan amlygu fod y perfformiad ychydig yn is a gofynnwyd a oedd meysydd penodol neu batrwm. Eglurodd y Pennaeth Adran fod y Cyngor yn derbyn oddeutu 1000 o geisiadau'r flwyddyn sy'n amrywio yn eu natur. Amlygwyd fod y maes hwn wedi bod yn destun ymchwiliad gan reoleiddwyr allanol a bod adroddiad yn mynd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bydd yn amlygu'r 20 argymhelliad i'w cyfarch a'r rhaglen waith mewn ymateb. Nodwyd fod cynnydd ond bod angen hyfforddi staff i ddelio a nhw yn well ynghyd a chyhoeddi mwy o wybodaeth fel bod y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Amlygwyd fod gwaith da iawn yn cael ei wneud yn y Tim Democratiaeth gyda dogfennau yn cael eu hanfon yn amserol.

Nodwyd o ran holiaduron gan yr adrannau yn y Gwasanaeth Cyfreithiol, mai dim ond un rhan o dair o'r penaethiaid sydd wedi ymateb. Holwyd am y partïon eraill megis unigolion sydd yn disgwyl am gytundebau 106 yn deillio o amodau caniatâd cynllunio. Nodwyd fod boddlonrwydd adrannau yn dangos y gefnogaeth maent yn ei dderbyn i gyflawni eu gwaith, ac felly ei fod yn amlygu adnodd pwysig. O ran yr un rhan o dair yn ymateb nodwyd yr angen i ofyn i benaethiaid ymateb i'r holiadur blyneddol. Nodwyd o ran y partïon eraill ei bod yn anodd mynd atynt i gael ei barn a pa mor briodol fuasai gwneud.

Gofynnwyd faint o waith sy'n cael ei allanoli a faint sy'n cael ei gadw yn lleol. Nodwyd fod yr adran yn ceisio peidio allanoli ond ei fod yn ddibynnol ar natur a risg y gwaith. Amlygwyd eu bod yn defnyddio bargyfreithwyr ynghyd a chyfreithwyr mewn meysydd arbenigol, ond eu bod yn ceisio cadw'r budd yn lleol.

Tynnwyd sylw at erlyniadau yn benodol rhai am ddiffyg presenoldeb plant mewn ysgol, gofynnwyd a oes mwy o wybodaeth, os oes cynnydd yn y nifer ac oes costau yn cael eu trosglwyddo i rieni. Eglurwyd y buasai gwell ateb gan yr adran Addysg a bod angen edrych ar y data a gweithio gyda'r adran i roi darlun llawn o'r broses. O ran costau cael eu trosglwyddo – mater i'r Llys oedd dyfarnu costau nid yw hyn yn nwylo'r Cyngor.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y peilot cofrestru etholwyr yn awtomatig sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Nodwyd fod y cynllun ar gyfer Gwynedd gyfan, a bod y Cyngor yn un o 5 sir yn rhan o'r peilot. Mynegwyd fod Gwynedd yn edrych yn benodol ar grwpiau anodd eu cyrraedd ac yn gweithio gyda mudiadau fel GISDA i gefnogi'r Cyngor i symud y cynllun yn ei flaen.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau**
- **Croesawu bod rhaglen waith manwl yn cael ei llunio er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn dilyn archwiliad o drefniadau'r Cyngor o ran ceisiadau rhyddid gwybodaeth**
- **Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad am y Cynllun Gofal Cwsmer fel mae'n datblygu**
- **Bod angen annog Penaethiaid Adran i ymateb i'r holiadur blyneddol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol**
- **Gofyn bod y Pwyllgor Craffu yn derbyn gwybodaeth am erlyniadau yn ymwneud ag absenoldebau disgyblion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 4.50 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	16 Hydref 2025
TEITL	Strategaeth i economi Gwynedd (2025 i 2035): cyflwyno dogfen drafft
RHESWM DROS GRAFFU	Ar gais y Pwyllgor a dymuniad i sicrhau mewnbwn Aelodau i ddatblygu strategaeth ar gyfer economi Gwynedd.
AWDURON YR ADRODDIAD	Sioned Williams Pennaeth Economi a Chymuned Dylan Griffiths Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu Economaidd Nia Bowden Rheolwr Rhaglen Cefnogi Busnes
AELOD CABINET	Cyng. R. Medwyn Hughes Aelod Cabinet Economi a Chymuned

1. PAM FOD ANGEN EI GRAFFU?

- 1.1. Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, cyflwyno drafft o strategaeth ar gyfer datblygu economi Gwynedd rhwng 2025 a 2035.
- 1.2. Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Craffu gynnig sylwadau ac adborth ar y strategaeth ddrafft cyn iddo gael ei ddatblygu ymhellach.

2. BETH YN UNION SYDD ANGEN EI GRAFFU?

- 2.1. Nid oes strategaeth ffurfiol ar gyfer datblygu economi Gwynedd yn ei gyfanrwydd.
- 2.2. Mae Gwynedd Llewyrchus yn un o flaenoriaethau [Cynllun y Cyngor](#). Mae wedi amlygu fod pwyslais cynyddol ar gydweithio rhanbarthol, a fod ansicrwydd ynglŷn ag ariannu prosiectau i gryfhau economi Gwynedd i'r dyfodol. O fewn y cyd-destun hwn cytunwyd fod angen datganiad o fwriad clir gan bartneriaid Gwynedd o sut dymunwn i'r economi lleol ddatblygu.
- 2.3. Yn dilyn ymchwil sylweddol ac ymgynghori helaeth – gan gynnwys gyda'r Pwyllgor Craffu – mae'r Adran Economi a Chymuned wedi llunio drafft cychwynol o strategaeth ar gyfer economi Gwynedd sy'n adlewyrchu'r mewnbwn derbyniwyd.
- 2.4. Dymunir nawr derbyn mewnbwn ac adborth pellach gan rhanddeiliaid a phartneriaid y Cyngor cyn cadarnhau cynnwys y strategaeth.

3. CRYNODEB A'R MATERION ALLWEDDOL

- 3.1. Gofynnir am sylwadau ac adborth gan y Pwyllgor Craffu ar y canlynol:
 - Gweledigaeth y Strategaeth a'r disgrifiad o'r newid sydd ei angen (tud. 7, 19).

- Y tair thema sydd wedi eu hadnabod; mentergarwch, lle a pobl (tud. 7, 20 - 23).
- Y chwe blaenoriaeth a'r meysydd gweithredu cysylltiedig (tud. 7, 20 - 23).
- Y bwriad i weithio mewn partneriaeth i wireddu'r strategaeth (tud. 24).
- Ffurf a strwythur y cynllun gweithredu arfaethedig (tud. 27 ac ymlaen).

4. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi

- 4.1. Ym [mhwyllgor Ionawr 2024](#) craffwyd y prosiect 'Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith' o fewn blaenoriaeth Gwynedd Llewyrchus Cynllun y Cyngor. Nodwyd fod yr angen i sicrhau ddatganiad clir or anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer economi Gwynedd yn dod i'r amlwg.
- 4.2. Ym [mhwyllgor Chwefror 2025](#) cadarnhawyd y bwriad i ddatblygu strategaeth i economi Gwynedd; darparwyd gwybodaeth am sefyllfa'r economi ac adborth cychwynnol rhanddeiliaid. Roedd ymrwymiad i ddychwelyd i'r Pwyllgor Craffu gyda drafft o'r strategaeth i dderbyn mewnbwn pellach yr Aelodau.

Cyd-destun gweithredu

- 4.3. Nid oes cynllun strategol yn ei le ar gyfer datblygu economi Gwynedd yn ei gyfanrwydd. Mae cynlluniau eraill wedi'u mabwysiadu sy'n ymdrin naill ai'n rhannol â'r economi yn y cyd-destun corfforaethol, neu sy'n rhoi sylw i agweddau economaidd penodol.
- 4.4. Mae [Cynllun y Cyngor](#) yn adnabod Gwynedd Llewyrchus un o saith blaenoriaeth gan sefydlu pedair prosiect o fewn y flaenoriaeth. Mae [Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri](#) yn canolbwyntio ar un rhan o'r economi a [Cynlluniau Adfywio Lleol Ardal Ni](#) yn cyfeirio at anghenion economaidd cymunedau ond nid oes cynllun strategol ffurfiol ar gyfer datblygu'r economi yn ei gyfanrwydd dros y tymor hwy.
- 4.5. Mae strwythur ariannu'r maes ar gyfer y dyfodol hefyd yn llai sicr o herwydd:
 - fod y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn dod i ben flwyddyn nesaf ansicrwydd ynglŷn â dyfodol ARFOR a dim olynnydd i'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF) sydd ariannu'r rhaglen Llewyrch o'r Llechi.
 - Pwyslais cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gydweithio rhanbarthol, yn enwedig yng nghyd-destun Uchelgais Gogledd Cymru a'r cyfrifoldeb lles economaidd sydd gan y Cydbwyllgor Corfforedig.
 - Buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG ym Mhorthladd Rhydd Ynys Môn a Pharth Buddsoddi Fflint a Wrecsam, ond dim cynlluniau cyfatebol ar gyfer Gwynedd.

Sail y strategaeth

- 4.6. Mae'r strategaeth yn deillio o ddadansoddiad meintiol o berfformiad economi Gwynedd a mewnbwn ansoddol ystod eang o rhanddeiliaid.
- 4.7. Ymchwiliwyd i berfformiad a chyfansoddiad yr economi o'i gymharu â'r rhanbarth, Cymru a'r DG ac ystyriwyd y cyd-destun - lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol - mae economi Gwynedd yn gweithredu ynddo. Cynhaliwyd adolygiad o strategaethau / cynlluniau ardaloedd eraill hefyd i geisio adnabod arfer da
- 4.8. Yn hydref 2024, gwahoddwyd busnesau yng Ngwynedd i ymateb i Arolwg Busnes. Roedd yn gyfle iddynt fynegi'r cyfleoedd a'r heriau a wynebant, eu bwriad i'r dyfodol a pha gymorth byddai'n fuddiol iddynt.
- 4.9. Mae cylch o gyfweiliadau hefyd wedi'u cynnal â rhanddeiliaid er mwyn deall y cyd-destun strategol a pholisi a weithredir ynddo. Roedd yn gyfle i rannu arbenigedd a deall cyfleon, heriau a phosibiliadau cyd-weithio. Yn allanol, mae'n cynnwys y sefydliadau canlynol:
- Llywodraeth Cymru
 - Uchelgais Gogledd Cymru
 - Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
 - Busnes Cymru
 - Prifysgol Bangor.
 - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
 - ADRA
 - Ffederasiwn Busnesau Bychain (FSB) Cymru
 - Partneriaeth Twristiaeth Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035
 - Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFW) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
 - Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd
 - Mantell Gwynedd
 - GISDA
- 4.10. Ar 9 Gorffennaf 2025, cyflwynwyd eitem i Grŵp Ymgynghorol SPF Gwynedd fel modd o ymgysylltu ag ystod bellach o rhanddeiliaid ar draws y sectorau preifat, y drydedd sector a'r sector gyhoeddus.
- 4.11. O fewn y Cyngor, mae sgysiau wedi'u cael â swyddogion yn y timau canlynol:
- Swyddogion Iaith Cymraeg (Gwasanaethau Corfforaethol)
 - Swyddogion yr Uned Gaffael (Gwasanaethau Corfforaethol)
 - Swyddogion y Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy (Economi a Chymuned)
 - Swyddogion y Strategaeth Llechen Lân (Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol).

Ffur y strategaeth

- 4.12. Amgaeir drafft cychwynnol o strategaeth i economi Gwynedd yn Atodiad 1 ar gyfer

derbyn adborth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu, partneriaid y Cyngor yn datblygu'r economi lleol a rhanddeiliaid allweddol.

4.13. Mae'r ddogfen yn cynnwys dwy ran:

Rhan un:

EIN STRATEGAETH I DDATBLYGU ECONOMI GWYNEDD AR GYFER 2025 I 2035

Y rhan yma sy'n adnabod yr angen ac yn gosod allan y cyfeiriad hirdymor ar gyfer datblygu economi sy'n gweithio er budd trigolion lleol a'n cymunedau.

Yma mae:

- Rhinweddau a nodweddion Gwynedd wedi eu crynhoi
- Yr achos dros weithredu a'r newid sydd ei angen
- Gweledigaeth wedi ei osod
- Themâu ar gyfer gweithredu wedi eu hadnabod
- Blaenoriaethau ar gyfer pob thema gyda meysydd gweithredu
- Dull o fesur cynnydd yn erbyn gweledigaeth a blaenoriaethau'r strategaeth

Mae rhan yma o'r ddogfen hefyd yn cynnwys adran ar roi'r strategaeth ar waith (adran 8). Fe welwch fod sicrhau strategaeth i ardal Gwynedd (nid i'r Cyngor yn unig) a gweithio mewn partneriaeth yn rhinweddau creiddiol sy'n cael eu hadlewyrchu yn y dymuniad i sefydlu 'Fforwm Economi Gwynedd'.

Rhan Dau

EIN CYNLLUN CYFLAWNI I DDATBLYGU ECONOMI GWYNEDD YN 2025/26

O'i natur mae strategaeth yn pwysleisio ymdrech hirdymor sydd i'w gwireddu drwy ystod o weithgareddau dros amser.

Mae angen trosi amcanion y strategaeth yn weithred ac i'r perwyl hwn bydd cynllun gweithredu blynyddol i'r strategaeth wedi ei ddatblygu gan Fforwm Economi Gwynedd, a bydd yn cael ei ddiweddarau'n barhaus.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn rhestru a) cynlluniau i ddatblygu'r economi sydd ar waith a b) y cynlluniau hynny sydd yn y broses o gael eu datblygu, gyda'r bwriad o dargedu arian pan fydd ar gael.

Bydd cynlluniau gweithredol ac arfaethedig yn cael eu mesur yn erbyn blaenoriaethau'r strategaeth a'r ardaloedd fydd yn elwa.

Bydd cynllun gweithredu cyntaf y strategaeth ar gyfer 2026/27 yn cael ei baratoi gan Fforwm Economi Gwynedd wedi iddo gael ei sefydlu. Yn y cyfamser mae enghraifft darluniol o ffurf arfaethedig y Cynllun Gweithredu wedi ei gynnwys yn y ddogfen drafft sydd ynghlwm (atodiad 1).

5. YMGYNGHORI

- 5.1. Fe amlinellir yr ymgynghori sydd wedi bod yn sail i'r strategaeth drafft yn 4.6 i 4.11 uchod

6. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

- 6.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrannu at lesiant cenedlaethau heddiw, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n ystyried llesiant mewn modd cyfannol, gan gynnwys agweddau economaidd a chymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- 6.2. Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein hasesiad Deddf Llesiant ar gyfer y Strategaeth. Mae'n cyflwyno Strategaeth Economaidd Gwynedd, a'r modd y'i datblygwyd, a sut mae'n bodloni gofynion a phwrs y Ddeddf, gan gynnwys yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy (h.y., y Pum Ffordd o Weithio) a'r Saith Nod Llesiant.

7. EFFAITH AR NODWEDDION CYDRADDOLDEB A'R GYMRAEG

- 7.1. Mae Atodiad 3 yn amlinellu'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn Strategaeth Economaidd Gwynedd. Mae'n adnabod prif nodweddion y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi yng Ngwynedd, ac yn dangos sut mae'r Strategaeth yn ymateb i'r nodweddion hyn er mwyn cryfhau'r Gymraeg.
- 7.2. Bydd yr Aseiad Cydraddoldeb yn cael ei baratoi wrth gwblhau'r Strategaeth ar ei ffurf terfynol.

8. Y CAMAU NESAF

- 8.1. Mae'r ddogfen drafft yn cael ei rhannu nawr gyda partneriaid lleol a rhanddeiliaid allweddol.
- 8.2. Ar sail unrhyw adborth, bydd y strategaeth yn cael ei haddasu ac yna ei dylunio yn barod i'w mabwysiadu.
- 8.3. Bydd y Strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd yn gynnar yn flwyddyn newydd ac yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor llawn yn y gwanwyn.
- 8.4. Yn y cyfamser, bydd Fforwm Economi Gwynedd yn cael ei sefydlu'n anffurfiol i lunio cynllun gweithredu 2026/27.

DRAFFT AR GYFER SYLWADAU

(Dogfen terfynol i'w ddylunio / gosod allan)

TUDALEN FLAEN

GWYNEDD 2035:

**Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel
sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleon newydd
ac yn cyfrannu at lesiant pawb.**

I. RHAGAIR

Yma yng Ngwynedd, mae gennym hanes economaidd gref y gallm ymfalchïo ynddo. O'n cymunedau chwarelyddol byd-enwog i'n prifysgol a'n pwerdai – mae pob cwr o Wynedd yn dyst i ddyfeisgarwch a blaengarwch sylweddol.

Ond nid ydym am fodloni ar y gorffennol. Heddiw, mae digon o botensial yng Ngwynedd – yn ein trigolion, ein cymunedau a'n entrepreneuriaid; ond nid yw'r potensial hwnnw o reidrwydd yn cael ei ryddhau pob tro. O hyd, mae bwlch sylweddol rhwng perfformiad yr economi yng Ngwynedd a gweddi Cymru a'r DG.

Braint felly yw cael cyflwyno'r strategaeth economaidd hon sy'n gosod yn glir ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau hirdymor ar gyfer economi Gwynedd:

“Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.”

Nid twf er ei fwyn ei hun yw ein bwriad. Rhaid creu economi sy'n dod a bydd i bawb - sy'n creu cyflogaeth newydd, yn lleihau tlodi ac yn codi ansawdd bywyd ledled y sir; sy'n rhoi i'n pobl y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu a chael aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd, gyda'r Gymraeg a'r amgylchedd wedi'u cryfhau a'u gwarchod. Ac wrth hanfod hyn, bod mentrau Gwynedd yn cyrraedd eu llawn botensial, yn wydn ac yn tyfu - a bod y cyfoeth a grëir yn aros yn lleol.

Mae'n weledigaeth sy'n ymateb i'r alwad am lewyrch a fynegwyd gan drigolion Gwynedd yn yr ymgynghoriad Ardal Ni: galwadau am swyddi cyflog uwch llawn-amser; am economi mwy sefydlog ac amrywiol; am ganol trefi bywiog; ac am gyfleoedd i'n pobl ifanc ffynnu yng Ngwynedd.

Rydym eisiau economi sy'n rhoi cyfle i bawb i fyw bywydau cyflawn a chyrraedd eu llawn botensial, a bod y cyfoeth naturiol a diwylliannol (yr amgylchedd a'r Gymraeg) sy'n gwneud ein sir mor unigryw, yn cael eu cryfhau gan yr economi.

Llewyrch sydd nid yn unig yn gynaliadwy felly, ond sy'n gynhwysol a theg ac yn adfer cyfoeth cymunedol, naturiol a diwylliannol ein sir.

Gyda newidiadau economaidd sylweddol ar droed, mae cyfle cyffrous o'n blaen i wneud Gwynedd yn gyrchfan rhagoriaeth mewn diwydiannau newydd – yn y diwydiannau creadigol a digidol; mewn gwasanaethau proffesiynol; mewn ynni glân a gweithgaredd carbon isel; y gwyddorau bywyd; gweithgynhyrchu uwch ac awyrfod. Yn yr un modd, rhaid ein bod yn gefn i'r diwydiannau hynny sydd eisoes yng Ngwynedd ac yn hanfodol i'n cymunedau, mentrau a'n trigolion – gyda'r ail arwynebedd mwyaf yng

Nghymru o ran tir amaeth, er enghraifft, rhaid meithrin ac ychwanegu gwerth at ein sectorau traddodiadol fel sylfaen cadarn a rhan lawn o economi modern ac arloesol.

Yn sgil hyn, mae angen llais clir a chryf i lywio datblygu sy'n effeithio arnom a chadw buddion yn lleol. I'r pwrpas hwn y lluniwyd y Strategaeth Economaidd hon. Mae'n cydnabod y bydd angen cyd-weithio â phartneriaid ar bob lefel a dylanwadu arnynt os am fanteisio ar gyfleoedd a goresgyn heriau, ac wrth i'r tirlun ariannu a pholisi economaidd newid, bydd gwerth a phwysigrwydd cyd-weithio yn cynyddu.

Edrychaf ymlaen at weld y strategaeth economaidd hon yn cyflawni'i gweledigaeth.

Cyng. R. Medwyn Hughes,
Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd

Rhan Un

**EIN STRATEGAETH I DDATBLYGU ECONOMI
GWYNEDD AR GYFER 2025 I 2035**

DRAFT

II. CRYNODEB

Mae Gwynedd yn sir unigryw. Yn ei chymunedau clos, ei harddwch naturiol ac ym mywiogrwydd y Gymraeg yn y sir, mae ganddi hunaniaeth ac apêl unigryw sy'n rhoi iddi ei lle ymhlith y lleoedd gorau i fyw a gweithio yng Nghymru a thu hwnt.

Mae yma hefyd economi fodern ac arloesol gyda photensial sylweddol; potensial yn y mentrau a geir yn barod ledled y sir, a chyfleoedd mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd am ddyfodol llewyrchus i bobl Gwynedd.

Ond, mae llawer o'r potensial hwn eto i'w ryddhau. Yn ôl sawl dangosydd, mae bwlch sylweddol rhwng economi Gwynedd a gweddill Cymru a'r DG. Yn rhannol o'r herwydd, teimlir yn rhy aml nad oes yma y cyfleon, y mathau gwaith priodol a'r cyflogau sydd eu hangen ar gyfer byw bywydau cyflawn.

Mae'r Strategaeth hon yn ymateb i'r bwlch hwn, yn asesiad gonest o'r economi heddiw ond yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Bydd yn weithredol hyd at 2035. Trwy adnabod ein cryfderau a'n gwendidau, y cyfleoedd a geir yn y sir, a'r meysydd hynny sydd angen gwella, pwrpas y Strategaeth yw rhyddhau potensial llawn ein pobl a'n mentrau, a chreu buddion a chyfleoedd newydd. Nid Strategaeth y Cyngor yn unig mo'r Strategaeth hon. Bydd angen cyd-weithio â phartneriaid ar bob lefel yn lleol, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol - er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf posibl. Ein gweledigaeth felly yw creu:

“Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.”

Nid twf er ei fwyn ei hun yw'r bwriad. Pwrpas y Strategaeth yw cryfhau'r economi yn gynhwysol a chynaliadwy; fod pawb yng Ngwynedd - yn unigolion, yn fusnesau ac yn fentrau cymunedol - yn cael budd gwirioneddol o'r economi. Mae'n weledigaeth sydd, wrth ei hanfod, yn canolbwyntio ymdrechion ar y gwerthoedd hynny sydd yn golygu fwyaf i bobl Gwynedd:

- **Cael byw ag urddas:** Y dylai pawb gael digon i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, i fyw heb eisiau, yn llawn ac yn hapus.
- **Cyfleon:** Y dylai pob unigolyn allu cyrraedd y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflawni llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.
- **Tegwch:** Na ddylai unrhyw ardal, berson neu gymuned fod wedi'u gadael ar ôl.
- **Gwreiddiau lleol:** Mai mentrau Gwynedd yw hanfod economi Gwynedd, ac mai trwyddyn nhw y gellid cadw'r cyfoeth a grëir yng Ngwynedd yn lleol.
- **Cynaliadwyedd:** Y dylid meithrin a gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd sydd, fel ei gilydd, yn gwneud Gwynedd yn le mor arbennig i fyw, gweithio a mentro.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, mae fframwaith fonitro a chynnydd wedi'i ddatblygu er mwyn mesur yr effaith a geir ar draws y Strategaeth ym mhob rhan o'r sir.


Mae'n weledigaeth sy'n rhoi pobl, cymunedau a mentrau Gwynedd yn ganolog. Er mwyn ei gweithredu, ceir tair thema, *Mentergarwch*, *Lle* a *Phobl*.

Mae pobl a mentrau angen ei gilydd os am lewyrchu a chyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau.

Mae mentrau lleol - masnachol a chymunedol - yn allweddol i gynhyrchu cyflenwad o gyfleoedd i bobl leol digoni eu hanghenion a chyflawni eu potensial.

Yn yr un modd, mae angen sicrhau fod digon o bobol fedrus ar gael i fentrau os ydynt am lwyddo.

Mae pobol a mentrau, yn eu tro angen bod mewn lle sy'n helpu nhw i lwyddo.



Ar gyfer pob un o'r tri maes mae dwy flaenoriaeth strategol wedi eu hadnabod:

EIN GWELEDIGAETH:

Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.

- THEMA MENTERGARWCH

Mentrau Lleol Llewyrchus sy'n Rhagori

- **BLAENORIAETH UN**

- Uchafu gwerth ein heconomi bresennol**

- Rhyddhau potensial, codi gwerth a chryfhau gwydnwch y mentrau a'r sectorau a geir yng Ngwynedd yn barod, a'u cefnogi i leihau allyriadau

- **BLAENORIAETH DAU**

- Manteisio ar gyfleoedd newydd**

- Manteisio ar a chefnogi diwydiannau a gweithgareddau newydd â photensial sylweddol, a sicrhau fod y llewyrch a grëir yn aros yn lleol

- THEMA LLE

Yr amodau gorau i ffynnu

- **BLAENORIAETH TRI**

- Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl**

- Gweithredu am well cysylltedd ac isadeiledd busnes i hybu'r economi

- **BLAENORIAETH PEDWAR**

- Lle da i fyw, gweithio a mentro**

- Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwydych i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu ein hunaniaeth arbennig

- THEMA POBL

Gweithlu medrus a chynhwysol

- **BLAENORIAETH PUMP**

- Sicrhau gweithlu medrus**

- Meithrin, denu a chadw talent, ac ymateb i anghenion sgiliau hirdymor y sir

- **BLAENORIAETH CHWECH**

- Cefnogi ein pobl**

- Cefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleoedd yn lleol.

III. GWYNEDD


Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru o ran maint. Wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Cymru, mae Gwynedd yn ymestyn o Fae Ceredigion yn y gorllewin hyd at yr Afon Menai, gyda Pharc Cenedlaethol Eryri yn gorchuddio rhan sylweddol o'r sir. Mae dosbarthiad gofodol y boblogaeth yn cael ei siapiaio gan y ddaearyddiaeth hon, gyda'r mwyafrif yn byw ar hyd yr arfordir a'r tir isel, yn enwedig yng ngogledd y sir, a'r gweddill mewn pentrefi, trefi llai neu aneddiadau sengl.

Mae Gwynedd yn sir arbennig gyda chyfoeth diwylliannol ac amgylcheddol eithriadol. Gwynedd yw'r sir yng Nghymru â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg - ac mae 92% o ardaloedd lleol y sir (LSOA) uwchlaw trothwy dwysedd Cymraeg uchel y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae'r sir hefyd yn amgylcheddol gyfoethog ac yn cynnwys mynyddoedd Eryri, Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, a Pharth Biosffer Bro Dyfi. Mae yma hefyd dreftadaeth fyd-enwog ac unigryw, a adlewyrchir yn y ddau Safle Treftadaeth y Byd UNESCO - Cestyll Edward I a Thirwedd Llechi Gwynedd.

Poblogaeth
117,000

Arwynebedd
2,535km²

Dwysedd poblogaeth
46 person fesul km²



***Isod l'w cyflwyno ar ffurf graffeg.**

Y FARCHNAD LAFUR

- Mae 72.1% o boblogaeth Gwynedd mewn cyflogaeth, sydd yn rhywbeth tebyg i raddfa Cymru gyfan (73.4%) ond yn sylweddol uwch na'r raddfa dros y Deyrnas Gyfunol.
- Mae cyfradd y gweithlu sy'n hunangyflogedig dros 50% yn uwch yng Ngwynedd nag yng Nghymru, 26% yn uwch na dros y DG.
- Mae gweithwyr Gwynedd yn ennill rhai o'r cyflogau isaf yn y DU - £610.60 i gymharu â £684.40 dros Gymru, a £728.30 dros y DG.

CYNHYRCHIANT

- O ran cynhyrchiant, mae GVA fesul person weddol debyg i'r ffigwr ar draws Gogledd Cymru, a Chymru gyfan, ond yn 33% llai na lefel y DG.
- Wrth ystyried GVA ar sail pob swydd sy'n cael ei lenwi, mae Gwynedd yn perfformio ar lefel 27% yn llai na'r Deyrnas Gyfunol, ac 11.4% yn llai na Gogledd Cymru
- Mae ffigyrau GVA fesul yr awr a weithir yn dangos nid yn unig fod Gwynedd yn dangos y ffigwr isaf dros Gymru a Gogledd Orllewin Lloegr, ond ei fod hefyd wedi profi'r twf lleiaf rhwng 2004 a 2022.

SGILIAU

- Mae llai o bobl o oedran gwaith heb unrhyw gymwysterau yng Ngwynedd (6.4%) nag yng Ngogledd Cymru (7.6%), na'r DG (8.2%).
- Mae gan boblogaeth Gwynedd cymwysterau uwch na Gogledd Cymru a'r DU, gyda 44.2% o'r boblogaeth yn meddu ar gymhwyster uwch na Lefel A.

MENTRAU'R SIR

- Mae yna bron i 13,000 o fusnesau cynhenid yng Ngwynedd
- Mae 93.4% o'r rhain yn cyflogi llai na 10 o bobl- mae'r canran yma'n debyg iawn dros Gymru a'r DG
- Er mai dim ond 225 o fusnesau "mawr" sy'n bodoli yn y Sir, mae'r canran yma (1.7%) yn sylweddol uwch nag yng Ngogledd Cymru a Chymru gyfan.
- Yn ei dro, felly, mae gan Gwynedd a Môn y ganran isaf o gwmnïau maint canolig (1% i gymharu â 1.6% dros y DG).
- Mae busnesau Gwynedd yn fwy tebygol o oroesi 5 mlynedd, gyda dros hanner y rhai a sefydlwyd yn 2018 yn parhau i fasnachu erbyn 2023. Mae'r canran yma 39% yn fwy na ffigwr Cymru gyfan, a 29% yn fwy na ffigwr y DG.

SECTORAU

- Mae gan Gwynedd y ganran uchaf yn y Gogledd o fusnesau lletygarwch (14%) ac amaeth (23% efo Môn) - sectorau sy'n gysylltiedig â chyflogau isel a chytundebau tymhorol.
- Ar y pegwn arall, mae ganddi'r ganran isaf o fusnesau gweithgynhyrchu (4% gyda Conwy) dros y rhanbarth, a all ddod a chyflogaeth sefydlog, gwerth-uchel.

DRAFT

IV. YR ACHOS DROS WEITHREDU

Yn ôl sawl dangosydd, mae bwlch sylweddol rhwng yr economi yng Ngwynedd a gweddill Cymru a'r DG. Mae'n cynrychioli anghyfartaledd strwythurol ddofn ac yn rhoi pobl Gwynedd dan anfantais gymharol - yn cyfyngu ar allu ein pobl i gael gwaith gweddus sy'n cynnig sicrwydd a chyflogau teg, a photensial yr economi leol i wella safonau byw a chyfleoedd bywyd.

Yn ôl y [Mynegai Cystadleurwydd \(2025\)](#), mae Gwynedd ymhlith yr 10% o siroedd sy'n tanberfformio fwyaf yn economaidd ledled Cymru a Lloegr - yn y 308^{fed} safle ar draws 330 o ardaloedd lleol, ac y 8^{fed} isaf ymhlith siroedd Cymru.

Mae'n her ganolog sy'n cael effaith uniongyrchol ar lesiant y boblogaeth yng Ngwynedd. Yn wir, fel y gwelir isod, mae'r bylchau mwyaf yn dangos tanberfformiad Gwynedd ym mwy nag un [Dangosydd Llesiant Cenedlaethol](#) sy'n ymdrin ag economi Cymru:

BYLCHAU YN ECONOMI GWYNEDD

1. BWLCH GWEITHLU

Cyfradd diweithdra yn isel, ond cyfradd anweithgarwch y sir (h.y. cyfran y boblogaeth 16-64 nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru a'r DG.

(Dangosydd Llesiant 21: Cyfran y boblogaeth mewn gwaith)

2. BWLCH POBLOGAETH

Poblogaeth yn heneiddio'n fwy cyflym na Chymru a'r DG, gyda chyfran uwch o bobl hŷn mewn oed ymddeol a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc.

3. BWLCH CYFLOG

Cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a'r DG.

(Dangosyddion Llesiant 10: Incwm Gwario Gros Aelwydydd y Pen)

4. BWLCH AMODAU GWAITH

Cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogeion rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a'r DG.

(Dangosydd Llesiant 16: Canran y boblogaeth sydd mewn gwaith, ar gontractau parhaol ac sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol).

5. BWLCH LLESIANT

Cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a'r DG.

(Dangosyddion Llesiant 18: Canran o aelwydydd mewn tlodi o gymharu â'r DG)

(Dangosydd Llesiant 19: Canran yr aelwydydd mewn amddifadedd materol)

6. BWLCH CYNHYRCHIANT

Gwerth yr hyn a gynhyrchir yng Ngwynedd (fesul pob awr a weithir; fesul pob swydd a lenwir) yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG yn 2023, a chyfradd twf cynhyrchiant yng Ngwynedd yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG ers 2004.

(Dangosydd Llesiant 09: Gwerth ychwanegol gros [GVA] fesul yr awr a weithir o gymharu â chyfartaledd y DG)

7. BWLCH DIWYDIANNOL

Amrywiaeth cymharol gul o ddiwydiannau, gyda chyflogeion a mentrau yn fwy niferus mewn ystod llai o ddiwydiannau.

8. BWLCH MENTERGARWCH NEWYDD

Y gyfradd geni busnes yng Ngwynedd ymhlith yr isaf ar draws siroedd Cymru yn 2023, yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DG.

9. BWLCH PERFFORMIAD UCHEL

Canran y mentrau a welodd cynnydd o 20% yn nifer y cyflogeion dros gyfnod tair blynedd yn gyson is yng Ngwynedd na Chymru a'r DG rhwng 2018 a 2023.

10. BWLCH CYSYLLTEDD DIGIDOL

Canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â'r cysylltedd gwan (<30 Mbps). Cyrhaeddiad 4G – a 5G hefyd yn is yng Ngwynedd.

(Dangosydd Llesiant 50: Cynhwysiant digidol)

DRAFT

V. Y NEWID SYDD EI ANGEN

Mae'r bylchau sy'n wynebu Gwynedd yn dangos angen clir am newid sylfaenol yn yr economi: newid sydd, ar un llaw, yn lleihau tanberfformiad cymharol yr economi ac yn creu'r amodau gorau posibl i'n mentrau, ac; ar y llaw arall, newid sy'n cael effaith bositif uniongyrchol ar lesiant ein pobl a chyfleoedd bywyd yng Ngwynedd. Mae'r Strategaeth wedi'i ddatblygu er mwyn egino a chefnogi'r mathau hyn o newid.

Ar lefel yr economi gyfan, mae'n cynnwys:

- **Codi lefelau cynhyrchiant ein mentrau a'n gweithwyr** er mwyn ysgogi cyflogau uwch ac amodau gwaith gwell.
- **Cynyddu cystadleurwydd ein mentrau cynhenid** fel eu bod yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn gwireddu'u hamcanion busnes hir-dymor ac yn creu swyddi o safon.
- **Cryfhau cysylltedd digidol a than-adeiledd busnes y sir** er mwyn creu'r amodau gorau posibl ar gyfer mentro.
- **Creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol** gyda mentrau lleol mewn ystod o ddiwydiannau yn creu cyfleoedd newydd ac economi mwy gwydn.
- **Cefnogi ein pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt** fel eu bod nhw, ynghyd a'r mentrau sy'n eu cyflogi, yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleon.
- **Cadw mwy o'r cyfoeth a grëir yn lleol yng Ngwynedd** er mwyn uchafu buddion i bobl, mentrau a chymunedau Gwynedd.
- **Adeiladu economi sero net a naturiol Gymraeg** sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol a diwylliannol.

Gweithredir y newidiadau hyn yn bennaf er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl Gwynedd. Y canlyniadau pwysicaf sy'n effeithio pobl Gwynedd yw:

- Cyflogau ac incwm gros aelwydydd yn uwch;
- Mwy o bobl wedi'u cyflogi mewn swyddi sefydlog;
- Lefelau is o dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol;
- Amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith yn lleol;
- Mwy o bobl yn gallu aros, byw a gweithio yn eu cymunedau lleol;
- Mwy o bobl yn mwynhau eu gwaith ac yn cyrraedd eu llawn botensial;
- Economi werdd sy'n amddiffyn amgylchedd naturiol eithriadol y sir, ac
- Economi Gymraeg sy'n cynyddu defnydd a gwelededd yr iaith gyda chwsmeriaid ac yn y gweithle ledled Gwynedd.

VI. DATBLYGU'R STRATEGAETH I ECONOMI GWYNEDD

Datblygwyd y Strategaeth trwy ymchwil pen-desg ac ymgysylltu helaeth â rhan-ddeiliaid rhwng 2024 a 2025. Mae'n asesiad gonest o'r economi ond yn uchelgeisiol hefyd, ac fe'i cynlluniwyd yng ngolau'r cyfleon, heriau ac anghenion a geir yng Ngwynedd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bosib ei gyflawni gan Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid.

Ymchwil ac ymgysylltu

Ystyriwyd proffil economi Gwynedd yn gyntaf - ei nodweddion a'i pherfformiad, sut mae'n cymharu ag ardaloedd eraill o Gymru a'r DG, a'r materion y mae angen ymateb iddynt fwyaf. Trwy ymarferiadau SWOT a PESTLE, amlygwyd y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a'r Bygythiadau sy'n wynebu Gwynedd, ynghyd â'r dylanwadau ehangach sy'n effeithio ar Wynedd heddiw neu sy'n debygol o wneud yn y dyfodol. Law yn llaw â'r ymchwil hyn, mapiwyd y cyd-destun strategol a pholisi - yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol (Cymru a'r DG) - er mwyn adeiladu ar, ategu a chael y budd gorau posibl i Wynedd o'r ystod fwyaf posibl o weithgareddau datblygu economaidd.

Ymgysylltwyd yn helaeth â rhan-ddeiliaid hefyd, yn bartneriaid strategol i'r Cyngor, ac yn fusnesau a thrigolion y sir. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd unigol â phrif bartneriaid y Cyngor yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y maes datblygu economaidd ac, er mwyn ennyn mewnbwn gan gymuned fusnes Gwynedd, defnyddiwyd Arolygon Busnes y Cyngor yn 2024 a 2025; y negeseuon gan fusnesau am eu bwriad i'r dyfodol, y cyfleoedd a'r heriau a wynebant, a'r mathau o gymorth a ddymunir.

Defnyddiwyd hefyd yr ymgynghoriadau cyhoeddus sydd gan y Cyngor eisoes. Mae'n cynnwys, yr ymgynghoriad sylweddol a wnaethpwyd am economi a chymunedau Gwynedd – Ymgynghoriad Ardal Ni; negeseuon gan bobl Gwynedd am yr hyn a deimlant sy'n dda am eu hardaloedd lleol, pethau sydd ddim cystal, a'r hyn a deimlir sydd angen newid. Mae'n fesur defnyddiol o'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd a'r math o economi a ddymunir ei weld.

Grymoedd a chyd-weithio

Mae gan fusnesau, mentrau cymunedol a chyflogwyr yng Ngwynedd ran allweddol i'w chwarae ar draws y Strategaeth hon. Trwyddyn nhw y bydd llawer o'r newidiadau a geisir yn dwyn ffrwyth, ac mae'n gofyn ein bod yn eu cefnogi – boed â grymoedd uniongyrchol y Cyngor, neu ein partneriaid. Mae'r meysydd sydd o fewn dylanwad lleol yn gallu cynnwys:

- Grantiau datblygu busnes;
- Benthyciadau datblygu;
- Cynlluniau harddu ac adfywio;

- Gweinyddu trethi busnes ac annomestig – gostyngiadau a rhyddhad;
- Trwyddedau busnes a safonau masnachu;
- Tir, eiddo ac unedau busnes;
- Cynllunio a rheolaeth adeiladu;
- Caffael, tendro a gwariant cyhoeddus;
- Cymorth a chyngor gyrfaol, ac;
- Addysg a sgiliau.

Wrth gwrs, mae llawer o'r meysydd hyn yn cael eu siapio gan bolisi cenedlaethol – ac mae llawer o'r grymoedd mwyaf wedi'u lleoli yn yr haenau llywodraethu hynny; yn Llywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru. Mae'n gofyn am gyd-weithio a gwaith dylanwadau er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i Wynedd.

Y cyd-destun strategol a pholisi

Mae'r gwaith cyd-weithio hwn yn gofyn am ddealltwriaeth lawn o'r cyd-destun polisi a strategol a weithredir ynddo, yn enwedig ym meysydd datblygu economaidd. Mae'r Strategaeth yn ymateb i'r cyd-destun hwn ac yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn ei le, hynny er mwyn ychwanegu gwerth a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Wynedd. Bydd y cyd-destun hwn yn cael ei fonitro dros lawn cyfnod y Strategaeth, 2025-35, er mwyn sicrhau bod y gweithredu a wneir o'i herwydd yn fyw i newidiadau polisi ehangach.

Ardaloedd lleol

- [Ardal Ni: Cynlluniau Adfywio Lleol](#): Yn 2022, dyma Cyngor Gwynedd yn ymgymryd ag ymarferiad ymgynghori gyda chymunedau ledled y sir; ffrwyth y gwaith oedd 13 o gynlluniau adfywio lleol. Mae'r cynlluniau yn ddogfennau byw sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol gyda mewnbwn y cymunedau ac ar y cyd maent yn ffurfio fframwaith adfywio i'r sir. Mae materion yn gysylltiedig â'r economi yn thema gyffredin ar draws y cynlluniau ac mae eu cynnwys wedi hysbysu'r strategaeth hon. Yn ei dro mae'r strategaeth yn fodd o ddiwallu rhai o'r anghenion cyffredin.
- [Cynlluniau Adfywio Trefi](#): Mae wyth o gynlluniau i wella prif ganolfannau masnachol Gwynedd wedi eu llunio, fydd yn ganllaw ar gyfer buddsoddiad i'r dyfodol.
- [Cynlluniau Lleol a chymunedol](#): Ledled Gwynedd, mae rhwydweithiau sy'n gweithredu'n lleol, yn gynghorau tref a chymunedol, ac yn fforymau lleol ehangach. Mae gan nifer o'r cyrff hyn ddogfennau sydd yn gosod allan blaenoriaethau ac anghenion lleol.

Gwynedd

- [Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28](#): Mae cynllun corfforaethol y Cyngor yn adnabod Gwynedd Lewyrchus ymhlith ei flaenoriaethau strategol. Y bwriad yw “cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng”. Mae'r Cynllun yn amlinellu blaenoriaethau Cyngor Gwynedd o fewn y maes am y cyfnod dan sylw.
- [Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035](#): Mae'r Cynllun Strategol wedi ei fabwysiadu gan Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wireddu eu hegwyddorion economi ymweld i dathlu, parchu a gwarchod ein cymunedau, iaith, diwylliant a threftadaeth; cynnal a pharchu ein hamgylchedd a sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn fwy nac unrhyw anafanteision. .
- [Cynllun Eryri <https://cynlluneryri.org/cy/>](https://cynlluneryri.org/cy/): Cynllun Eryri yw Cynllun Rheoli Statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i warchod rhinweddau unigryw Eryri. Mae'n gynllun ar y cyd gyda phartneriaeth eang ac mae sicrhau fod Eryri yn lle gwych i fyw, datblygu a gweithio ynddo ymhlith y canlyniadau a ddymunir.
- [Polisi Cynllunio](#): o ran cynllunio gwlad a thref mae tiriogaeth Gwynedd wedi ei rannu rhwng awdurdodau cynllunio [Cyngor Gwynedd](#) ac [Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#), o ganlyniad mae dau Cynllun Datblygu Lleol yn rheoli defnydd tir gan gynnwys tir ar gyfer cyflogaeth.

Rhanbarthol

- [Cynllun Twf Gogledd Cymru](#): Drwy law Uchelgais Gogledd Cymru mae'r Cynllun Twf wedi sicrhau cyllid o £120 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £120 miliwn gan Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn detholiad o brosiectau ar draws pum rhaglen. Mae'r Cynllun yn anelu i gynhyrchu 4,000 o swyddi erbyn 2036; mae bellach dan arweiniad Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n dod â chwe Awdurdod Lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri at ei gilydd i ymdrin â'r blaenoriaethau rhanbarthol
- [Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025](#): Mae Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru yn adnabod anghenion cyflogwyr a chyflogai o fewn yr economi ac yn cynnig arweiniad i sefydliadau ar sut i gyfarch y galw.
- [Fframwaith economaidd rhanbarthol gogledd Cymru](#): Yn 2021 dyma Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru (ynghyd â rhanbarthau eraill Cymru) yn cyhoeddi fframwaith yn amlinellu sut mae'r rhanbarth yn gweithio tuag at flaenoriaethau cyffredin.
- [Rhaglen ARFOR](#): Mae ARFOR yn bartneriaeth gan gynghorau Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr sydd wedi ei ariannu gan Llywodraeth Cymru. Mae ARFOR yn edrych ar yr heriau economaidd-gymdeithasol sy'n cael effaith ar hyfywedd y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny â

dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg gan ganolbwyntio ar gynllunio economaidd fydd yn elwa cymunedau Cymraeg cynhenid a, drwy hynny, yn buddio'r iaith.

Cymru

- [Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru: fframwaith](#): Dyma gyhoeddiad Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu eu dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y maes buddsoddi rhanbarthol, gan gyfuno gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- [Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach](#): Dyma flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu economi fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrdddech ar sail pedwar maes blaenoriaeth; *llewyrch gwyrdd a thrawsnewid cyfiawn, cefnogi pobl ifanc, cyd-weithio rhanbarthol cryfach a buddsoddi mewn twf*. Mae'r dogfen hefyd yn pwysleisio twf sy'n gynhwysol.
- [Economi sylfaenol: datganiad cenhadaeth](#): Y genhadaeth yw'r datganiad o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sectorau maent yn ystyried yn sylfaenol i'r economi gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal, rheoli tai cymdeithasol, adeiladu cartrefi ac adeiladau masnachol, ynni a chyfleustodau, bwyd, siopau a gwasanaethau'r stryd fawr, twristiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus
- [Strategaeth arloesi i Gymru](#): Strategaeth Llywodraeth Cymru ar sut i ddefnyddio arloesedd i wella bywydau pobl yng Nghymru a sbarduno'r economi.
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#): Gosodir cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried llesiant y boblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol, ac i weithredu yn unol â'r Pum Ffordd o Weithio a'r Saith Nod Llesiant. Mae'r Strategaeth hon wedi'i hadeiladu ar egwyddorion a phwrpas y Ddeddf hon, ac fe eglurir hyn yn llawn yn Atodiad A.

Y Deyrnas Gyfunol

- [Cenhadaeth Economi](#): Twf economaidd yw blaenoriaeth pennaf y llywodraeth bresennol yn Llundain. Y nod yw cynyddu cynhyrchedd a chreu economi gystadleuol, amrywiol ac arloesol.
- [Strategaeth ddiwydiannol, 2035](#): Mae strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DG, *Invest 2035*, yn ganolog i Genhadaeth Economi Llywodraeth y DG. Mae'n adnabod wyth sector twf strategol bwysig ar sail eu potensial twf, ac yn adnabod cyfuniad o ymyraethau i'w cefnogi. Mae Cynllun Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial y Llywodraeth hefyd yn ganolog i'r agenda twf ac yn ceisio cynyddu y defnydd a wneir o'r dechnoleg ymhlith mentrau Gwynedd a'r economi ehangach.

DRAFT

VII. BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH

EIN GWELEDIGAETH:

Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleon newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.

DRAFT

Thema Mentergarwch

Mentrau Lleol Llewyrchus sy'n Rhagori

BLAENORIAETH UN: Uchafu gwerth ein economi bresennol

Nod (beth?):

Rhyddhau potensial, codi gwerth a chryfhau gwydnwch y mentrau a'r sectorau a geir yng Ngwynedd yn barod, a'u cefnogi i leihau allyriadau

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 1.1. Cefnogi mentrau i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, a chreu mwy o werth.
- 1.2. Cefnogi mentrau i ddod yn fwy effeithlon, a lleihau costau a gwastraff.
- 1.3. Cefnogi mentrau i fabwysiadu ac/neu ymateb i dechnolegau newydd.
- 1.4. Cefnogi mentrau lleol i gyrraedd marchnadoedd newydd
- 1.5. Cefnogi cynlluniau olyniaeth sy'n cadw perchnogaeth yn lleol.
- 1.6. Cadw mwy o wariant cyhoeddus yn lleol.
- 1.7. Ymgysylltu rheolaidd â mentrau Gwynedd er mwyn dwyn sylw at gyfleon a gwybodaeth busnes.
- 1.8. Cefnogi'r newid at economi sero net a manteisio ar gyfleon.
- 1.9. Annog mentrau maint micro a bychain i gyd-weithio er mwyn adeiladu ar gryfderau ei gilydd.

BLAENORIAETH DAU: Manteisio ar gyfleon newydd

Nod (beth?):

Manteisio ar a chefnogi diwydiannau a gweithgareddau newydd â photensial sylweddol, a sicrhau fod y llewyrch a grëir yn aros yn lleol

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 2.1. Manteisio ar fuddsoddiadau sylweddol yn rhanbarth y Gogledd, er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Wynedd.
- 2.2. Cyfeirio adnodd at fentrau lleol sydd â photensial mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd, er mwyn cadw llewyrch yn lleol.
- 2.3. Cefnogi mentrau lleol i fanteisio ar gyfleon buddsoddiad amgen a phreifat.

- 2.4. Gwneud y mwyaf o'n hasedau strategol â photensial i ddenu datblygiadau sylweddol.
- 2.5. Denu a sicrhau bod datblygiadau newydd yng Ngwynedd yn cyfrannu at y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.
- 2.6 Sicrhau fod yr Gwynedd yn manteisio ar gyfleon yn deillio o newidiadau mawrion yn yr economi fyd-eang.

DRAFT

Thema Lle

Yr amodau gorau i ffynnu

BLAENORIAETH TRI: Y cysylltedd a'r is-adeiledd gorau posibl

Nod (beth?):

Gweithredu am well cysylltedd, gofodau ac is-adeiledd busnes

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 3.1. Ehangu mynediad at y cysylltedd digidol gorau posibl mewn ardaloedd ble mae'n wan.
- 3.2. Pwysu am welliannau mewn trafnidiaeth er mwyn hwyluso symudedd pobl yn lleol.
- 3.3. Pwysu am welliannau yn rhwydwaith ffyrdd Gwynedd er mwyn hwyluso datblygiad busnes.
- 3.4. Pwysu am welliannau yng nghapasiti'r grid yn lleol ac is-adeiledd cyfleustodau.
- 3.5. Cefnogi cynlluniau adfywio canol trefi.

BLAENORIAETH PEDWAR: Lle da i fyw, gweithio a mentro

Nod (beth?):

Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwyd i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu ein hunaniaeth arbennig

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 4.1. Cryfhau hunan-hyder a'r gred y gellir llwyddo'n lleol yng Ngwynedd.
- 4.2. Egnïo a chefnogi sîn ddiwylliannol a chymdeithasol unigryw Gwynedd.
- 4.3. Cryfhau defnydd a gwelededd y Gymraeg fel agwedd unigryw o economi Gwynedd.
- 4.4. Ymgysylltu â "diaspora" Gwynedd er mwyn denu profiad, arbenigedd a chymdeithas gwahanol yn ôl i Wunedd.
- 4.5. Annog mwy o bobl a mentrau i brynu'n lleol.

Thema Pobl

Gweithlu medrus a chynhwysol

BLAENORIAETH PUMP: Sicrhau gweithlu medrus

Nod (beth?):

Meithrin, denu a chadw talent, ac ymateb i anghenion sgiliau hir-dymor y sir

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 5.1. Cefnogi mentrau Gwynedd i oresgyn heriau recriwtio ac anghenion sgiliau.
- 5.2. Cyd-weithio â phartneriaid sector addysg er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion sgiliau hir-dymor.
- 5.3. Cadw cyswllt â phobl ifanc sy'n gadael Gwynedd, neu sy'n cysidro gwneud, a dangos y cyfleon gwaith a geir yng Ngwynedd.
- 5.4. Hyrwyddo cynlluniau denu a datblygu talent
- 5.5. Cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg i fanteisio ar gyfleon a chyrraedd eu llawn potensial.
- 5.6. Cefnogi cyfleon gwirfoddoli.

BLAENORIAETH CHWECH: Cefnogi ein pobl

Nod (beth?):

Cefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleon yn lleol

Meysydd gweithgaredd (sut?):

- 6.1. Cefnogi pobl i waith sy'n ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol.
- 6.2. Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i gyrraedd swydd gwell â chyflogau uwch neu amodau gwaith mwy sicr.
- 6.3. Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith cyflogwyr y sir
- 6.4. Hyrwyddo mathau cynhwysol o gyflogaeth i'w gwneud yn haws i bobl allu gweithio.
- 6.5. Hyrwyddo cyfleon gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl Gwynedd.
- 6.6. Cefnogi pobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio a gwirfoddoli, ble maent eisiau gwneud hynny.

VIII. Y STRATEGAETH AR WAITH

Gweithio drwy bartneriaeth

Nid yw'r Strategaeth yn ddogfen ar gyfer sefydliad unigol, bydd ei wireddu angen ymdrech ar draws sefydliadau a sectorau.

Byddwn yn adeiladu ar y profiad cadarnhaol o weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG a'r gwerthfawrogiad mae sefydliadau wedi ei ddatgan o'r cyfle i ddod ynghyd i gydweithio, cydlynu eu hymdrechion, a lleisio anghenion eu rhanddeiliaid, ac yn sefydlu **'Fforwm Economi Gwynedd'** er mwyn gweithredu'r Strategaeth.

Bydd aelodaeth y Fforwm yn cynnwys y prif sefydliadau sy'n cyfrannu i lewyrch lleol, a'r cyrff sy'n gweithio i ddatblygu economi sy'n buddio ein cymunedau. Bydd y Fforwm yn dod a phartneriaid lleol ynghyd o'r sector gyhoeddus, sector breifat a'r drydedd sector. Bydd sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol hefyd yn rhan o'r Fforwm.

Byddwn yn sicrhau llais i rannau gwahanol o Wynedd er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r amrywiaethau ar draws y sir.

Bydd y Fforwm yn cwrdd yn ffurfiol tair gwaith y flwyddyn, er mwyn:

1. Llunio a chydlynu Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer y Strategaeth
2. Monitro gweithgareddau unigol a'u hallbynnau / canlyniadau unigol a chyfansawdd
3. Cynnal gorolwg o'r cynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth
4. Adolygu a diweddarau'r Strategaeth yn ôl yr angen
5. Cynnal gorolwg o'r maes a datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i economi Gwynedd gan lobio o blaid ein hanghenion.
6. Hyrwyddo a hwyluso cydweithio ymhlith sefydliadau gyda rôl yn datblygu economi'r sir a phartneriaethau / fforymau eraill.

Cynllun gweithredu'r Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn sefydlu'r nod ac yn adnabod dull o fynd i'r afael â'r heriau economaidd hirdymor sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd.

Bydd Cynllun Cyflawni yn cael ei lunio yn flynyddol dan arweiniad Fforwm Economi Gwynedd i weithredu'r Strategaeth. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithgaredd sydd eisoes ar waith, a phrosiectau sydd ar y gweill gan nodi eu haliniad gyda'r Strategaeth a'r ardaloedd fydd yn elwa.

Bydd y cynllun hefyd yn fodd i'r Fforwm adnabod bylchau mewn darpariaeth ac o ddylanwadu ar gynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol.

Monitro, gwerthuso ac adolygu

Mae angen gallu mesur yr hyn mae cynlluniau a gweithgareddau yn cyflawni yn unigol a'u heffaith cyfansawdd yn allweddol.

I'r perwyl rydym wedi pennu cyfres o ddangosyddion i fesur:

- ALLBYNNAU
Cynnyrch uniongyrchol prosiect neu weithgaredd
- CANLYNIADAU
Dangosyddion tymor canol yn deillio o gynlluniau / gweithgareddau yn adlewyrchu newid mewn ymddygiad
 - EFFAITH
Dangosyddion o newid hirdymor, strategol dros gyfnod o flynyddoedd

Drwy gael detholiad cyson o ddangosyddion bydd modd gwerthuso effaith gweithgareddau ac adolygu ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau'r Strategaeth.

Mae'r dangosyddion sydd wedi eu hadnabod yn adlewyrchu'r newid sydd ei angen a'r blaenoriaethau o fewn y Strategaeth:

27

Rhan Dau

**EIN CYNLLUN CYFLAWNI I DDATBLYGU ECONOMI
GWYNEDD YN 2025/26**

Cynlluniau / gweithgareddau **ar waith**

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Da i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Ardudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Pentruwdeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Codi 10 uned gwaith newydd yn Parc Busnes Eryri yn Minffordd Buddsoddiad: £2.95M Cyngor Gwynedd yn arwain – gwaith adeiladu i'w gwblhau <u>Medi 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 10 uned gwaith wedi eu hadeiladu 10 busnes wedi lleoli o fewn unedau gwaith wedi eu hadeiladu	✓✓		✓✓✓					✓		✓							✓+		
Cynllun 'Camau Cefnogol' – darparu cefnogaeth i atal myfyrwyr bregus yn Addysg Pellach rhag gadael Buddsoddiad: £368k Grŵp Llandrillo-Menai yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 200 o fyfyrwyr yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth gweithwyr allweddol 200 o fyfyrwyr mewn addysg neu hyfforddiant						✓✓✓	✓+	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓+	✓	✓	✓	✓+	✓
Cynllun 'EGNI' i hyfforddi gweithwyr yn y maes adeiladu ac eraill i gael sgiliau technoleg gwyrdd a busnes Buddsoddiad: £330k Grŵp Llandrillo-Menai yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u>	✓				✓✓	✓✓✓	✓+	✓	✓	✓	✓+	✓	✓	✓+	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfeion Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynudeiraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Prif allbynnau / canlyniadau: 80 o weithwyr yn ennill cymhwyster neu'n cwblhau cwrs hyfforddi																			
Darparu Cronfa Gwytnwch i helpu busnesau leihau costau a/neu gynyddu incwm Buddsoddiad: £1.07M Cyngor Gwynedd yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 70 o fentrau yn derbyn grantiau 170 o fentrau yn cael cymorth anariannol 15 o swyddi wedi eu creu 30 o swyddi wedi'u diogelu	✓✓✓	✓					✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Darparu talebau i fusnesau dderbyn arbenigedd / hyfforddiant o Brifysgol Bangor Buddsoddiad: £90k Prifysgol Bangor yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 10 menter yn cael cymorth anariannol	✓✓✓	✓✓					✓+	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun 'Môr Ni Gwynedd' i helpu'r diwydiant pysgota lleol Buddsoddiad: £175k Prifysgol Bangor yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: Hyrwyddo'r busnesau bwyd môr i 500 o bobl	✓✓✓						✓	✓	✓		✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfeion Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynedeiraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Cynllun ‘Manteisio o Weledigaeth Twf Gogledd Cymru’ i annog a cefnogi mentrau a cymunedau lleol i fanteisio o raglenni ynni a digidol y cynllun twf Buddsoddiad: £68k Uchelgais Gogledd Cymru yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 13 o fusnesau amaethyddol wedi cael cymorth i gynyddu eu defnydd o dechnoleg	✓✓✓	✓✓	✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Darparu cefnogaeth arbenigol i fentrau cymdeithasol o ran gofynion cyfreithiol ac ariannol, ac i fusnesau aeddfed drawsnewid i fod dan berchnogaeth y gweithlu Buddsoddiad: £135k Cwmpas yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 12 o fentrau wedi cael cymorth anariannol 4 o fentrau newydd wedi eu creu 24 o swyddi wedi eu diogelu	✓✓✓	✓					✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cynnal darpariaeth Hwb Menter yng Ngwynedd i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i sbarduno cychwyn mentrau newydd a helpu grwpiau wedi eu tangynrychioli. Buddsoddiad: £210k Menter Môn yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 63 o fentrau wedi cael cymorth anariannol 18 o fentrau newydd wedi eu creu	✓✓✓	✓✓	✓	✓		✓✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arduadwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penthyndeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Rhaglen o welliannau gweledol i drefi a phentrefi Gwynedd Buddsoddiad: £1.35M Cyngor Gwynedd yn arwain gyda cynghorau tref a chymuned - gwaith i'w gwblhau <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 55 o gynghorau tref a chymuned wedi derbyn grant 22 o amwynderau neu gyfleusterau wedi eu creu neu wella	✓		✓	✓✓✓			✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+	✓+
Cynllun 'Potensial sgiliau a gwaith pobl Gwynedd' i ddarparu cefnogaeth pellach i atal pobl ifanc rhag bod yn segur, a chefnogi pobl i ddychwelyd i waith neu sicrhau swydd well. Buddsoddiad: £1.14M Cyngor Gwynedd gyda chymdeithasau tai Gwynedd a Gisda - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 66 o bobl mewn cyflogaeth 36 o bobl mewn addysg neu hyfforddiant 383 o bobl wedi cael cymorth â sgiliau sylfaenol 300 o gartrefi wedi cael cymorth sgiliau rhifedd	✓				✓✓	✓✓✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun 'Diwylliesiant' – pecyn buddsoddiad / cymorth a chefnogaeth i'r sectorau celf, diwylliant, hamdden a twristiaeth. Buddsoddiad: £1.37M Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u>	✓✓			✓✓✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfeion Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Ardudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penthyndeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Prif allbynnau / canlyniadau: 30 o sefydliadau yn derbyn grantiau £150k o gynnydd mewn gwariant gan ymwelwyr 20 o raglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol wedi eu harwain gan y gymuned																			
Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau – cronfa i gefnogi sefydliadau i arwain a datblygu prosiectau sydd yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol Buddsoddiad: £973K Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 14 o amwynderau neu gyfleusterau wedi eu creu neu wella 36 o fentrau wedi cael cymorth anariannol	✓✓		✓	✓✓✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cronfa Sector Wirfoddol - buddsoddiad o fewn cymunedau sy'n creu cyfleoedd i bobl o bob oedran ddod ynghyd. Buddsoddiad: £650K Mantell Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 75 digwyddiad lleol wedi eu cefnogi 50 o gyfleoedd gwirfoddoli wedi eu creu 15 o sefydliadau yn derbyn grantiau	✓✓			✓✓✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arduadwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penthyndeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Cynllun ‘Iach ac Actif’ sy’n hyrwyddo gweithgarwch corfforol a lles mewn cymunedau sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i fyw'n iach. Buddsoddiad: £70K Gogledd Cymru Actif yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 15 digwyddiad lleol wedi eu cefnogi 8 o sefydliadau yn derbyn grantiau						✓✓✓				✓	✓			✓					
Cynllun ‘Gwydnwch Cymunedol Gwynedd’ – pecyn o gefnogaeth i bobl gael mynediad at wasanaethau lleol fydd yn eu galluogi i fyw yn hirach, iachach a hapusach yn eu cymunedau. Buddsoddiad: £850K Cyngor Gwynedd yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 295 o bobl â sgiliau sylfaenol yn dilyn cymorth 157 o gyfleoedd gwirfoddoli wedi eu creu					✓✓	✓✓✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun ‘Ailwefru’ i helpu cynaliadwyedd mentrau lleol drwy cyngor ar sut i weithio’n fwy effeithlon neu arallgyfeirio Buddsoddiad: £50K Cyngor Gwynedd yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Medi 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 25 o fusnesau yn derbyn cyngor arbenigol	✓✓✓	✓					✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)													
	Mentergarwch		Lle		Pobl		Bangor	Bro Ardudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynudeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn	
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl														
• 25 o fentrau yn fwy cynhyrchiol o ganlyniad i gefnogaeth																				
Cynllun cymorth i bobl ifanc dan anfantais i chwilio am swydd, a help i oedolion sy'n gweithio ond mewn tlodi gynyddu eu hincwm Buddsoddiad: £240k Cyngor Gwynedd yn arwain – wedi ei ariannu hyd at <u>Medi 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 60 yn derbyn cefnogaeth i wella sgiliau 45 yn sicrhau swydd o ganlyniad i gefnogaeth 30 yn sicrhau cymhwyster	✓				✓✓	✓✓✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Cynllun ‘Cymunedau i waith a mwy’ yn darparu cefnogaeth i unigolion sydd erioed wedi gweithio neu heb weithio ers amser maith oherwydd anghenion cymhleth. Buddsoddiad: £397k Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2026</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 270 yn derbyn cymorth i sicrhau swydd 138 yn sicrhau swydd wedi iddynt dderbyn cymorth	✓				✓✓	✓✓✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Cronfa Ynni Glan Gogledd Cymru – cefnogaeth i brosiectau ynni glân a datgarboneiddio i leihau costau, gwella effeithlonrwydd a datgloi cyfleoedd newydd. Buddsoddiad: £4.1M (ar sail rhaniad hafal ledled y rhanbarth)	✓✓	✓✓✓	✓✓				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arduadwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynudeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Uchelgais Gogledd Cymru yn arwain - wedi ei ariannu hyd at 2030? Prif allbynnau / canlyniadau (ar sail rhaniad hafal): 25 Swydd newydd £16.6M o GVA ychwanegol																			
Sefydlu Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn safle Henfaes, Bangor Buddsoddiad: £3.5M Prifysgol Bangor yn arwain – prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru - wedi ei ariannu hyd at XXX Prif allbynnau / canlyniadau: 16 Swydd newydd (ar sail 25% o'r cyfanswm rhanbarthol) £3.75M o GVA ychwanegol (ar sail 25% o'r cyfanswm rhanbarthol)	✓✓	✓✓✓					✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓+	✓	✓	✓	✓
Datblygu Canolfan Prosesu Signalau Digidol, Bangor drwy gynyddu'r ystod offer Buddsoddiad: £3.5M Prifysgol Bangor yn arwain – prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru - wedi ei ariannu hyd at XXX Prif allbynnau / canlyniadau (ar sail rhaniad hafal): 16 Swydd newydd (ar sail rhaniad hafal): £3.75M o GVA ychwanegol (ar sail rhaniad hafal):	✓✓	✓✓✓					✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓+	✓	✓	✓	✓
Cynllun 'Di-wifr Uwch' i ddarparu cymorthdaliadau i helpu buddsoddiad yn technoleg newydd gan sefydliadau preifat a cyhoeddus.	✓✓	✓✓✓	✓✓				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynedeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Buddsoddiad: £3.1M (ar sail rhaniad hafal ledled y rhanbarth) Uchelgais Gogledd Cymru yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>2029</u> Prif allbynnau / canlyniadau (ar sail rhaniad hafal): 52 Swydd newydd £21.6M o GVA ychwanegol																			
Cynllun ‘4G a mwy’ i hwyluso buddsoddiad yn isadeiledd band eang symudol Gogledd Cymru. Buddsoddiad: £31.03M (ar sail rhaniad hafal ledled y rhanbarth) Uchelgais Gogledd Cymru yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>2029</u> Prif allbynnau / canlyniadau (ar sail rhaniad hafal): Ymestyn mynediad i wasanaeth digidol o safon	✓✓	✓✓✓	✓✓				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Adeiladu pedwar uned gwaith parod yn Parc Bryn Cegin, Bangor. Buddsoddiad: £6M Uchelgais Gogledd Cymru yn arwain – targed i gwblhau adeiladu erbyn 2026 Prif allbynnau / canlyniadau: 50 Swydd newydd £20M o GVA ychwanegol	✓✓	✓✓✓	✓✓				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gwedd gyntaf Hwb Economi Gwledig Glynllifon: Parlwr Llaeth Defaid Buddsoddiad: £16.8M	✓✓	✓				✓✓	✓	✓	✓	✓	✓+	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfeion Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynedeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Grŵp Llandrillo-Menai yn arwain – prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru – targed i gwblhau adeiladu erbyn 2027 Prif allbynnau / canlyniadau: 95 Swydd newydd yn anuniongyrchol £30M o GVA ychwanegol																			
Rhwydwaith Talent Twristiaeth – cynllun i ddatblygu sgiliau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y dyfodol Buddsoddiad: £19M (ar sail rhaniad hafal) Grŵp Llandrillo-Menai yn arwain – prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru – wedi ei ariannu hyd at 2029 Prif allbynnau / canlyniadau (ar sail rhaniad hafal): £10M o GVA ychwanegol - Lleoli'r Gogledd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer y sector twristiaeth a lletygarwch	✓				✓✓✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Menter Siopau Gwag Bangor – Cynllun peilot i wneud gwelliannau i siopa gwag yng nghanol Bangor er mwyn eu hadfer yn ofod masnachol. Buddsoddiad: £2.27M Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at Mawrth 2026 Prif allbynnau / canlyniadau: Adfer 4 eiddo masnachol	✓		✓✓	✓			✓+												
Ail-Ddatblygiad Amgueddfa Lechi Cymru – Trawsnewid yr amgueddfa yn Llanberis i sicrhau ei dyfodol a'i chyfraniad i'r economi ymweld leol	✓✓			✓			✓		✓	✓	✓	✓+			✓	✓	✓		

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)													
	Mentergarwch		Lle		Pobl		Bangor	Bro Arduwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penthyndeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn	
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl														
Buddsoddiad: £22.1M Amgueddfa Cymru yn arwain – rhan o raglen Llewyrch o'r Llechi - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: • 14 swydd wedi eu diogelu • 1900 o gyfleoedd gwirfoddoli wedi eu creu • Dros 70 mil o ymwelwyr i atyniad diwylliannol																				
Uwchraddio Parc Padarn – Rhan o becyn o fuddsoddiadau mewn is-adeiledd strategol yn yr ardaloedd rhaglen Llewyrch o'r Llechi Buddsoddiad: £2.78M Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: • 2 swydd wedi eu diogelu • 3km o lwybrau troed wedi eu huwchraddio • 7 adeilad treftadaeth wedi cael eu hadfer	✓		✓	✓		✓					✓+									
Uwchraddio Neuadd Ogwen, Bethesda – Rhan o becyn o fuddsoddiadau mewn is-adeiledd strategol yn yr ardaloedd rhaglen Llewyrch o'r Llechi Buddsoddiad: £701K Cwmni Tabernacl yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: • 4 swydd wedi eu diogelu	✓			✓											✓+					

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfeion Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arduwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynudeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Datblygu Yr Hen Bost, Bethesda – Rhan o becyn o fuddsoddiadau mewn is-adeiledd strategol yn yr ardaloedd rhaglen Llewyrch o'r Llechi Buddsoddiad: £2.8M Partneriaeth Ogwen yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 7 uned masnachol wedi eu creu	✓		✓	✓											✓+				
Datblygiadau llwybrau a chysylltedd i'r tirwedd llechi – Rhan o becyn o fuddsoddiadau yn yr ardaloedd rhaglen Llewyrch o'r Llechi Buddsoddiad: £4.3M Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 5.7km o lwybrau troed neu feicio wedi eu huwchraddio 1.5km o lwybr troed newydd wedi ei greu	✓✓			✓					✓+						✓+				
Buddsoddiad canol tref Blaenau Ffestiniog – prynu, datblygu ac uwchraddio 3 eiddo yn rhan o raglen Llewyrch o'r Llechi Buddsoddiad: £1.58M Antur Stiniog yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 3 swydd wedi eu diogelu	✓		✓	✓					✓+										

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Ardudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penthyndeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
• 3 uned masnachol wedi eu creu																			
Gwelliannau Canol Trefi a Chadwraeth - rhan o becyn o fuddsoddiadau yn yr ardaloedd rhaglen Llewyrch o'r Llechi Buddsoddiad: £1M Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau: 1,500m² o ofod gwyrdd/las wedi ei wella	✓			✓✓					✓+		✓+								
LleCHI LleNI – rhaglen o weithgareddau i rymuso cymunedau llechi Gwynedd i fanteisio ar statws Safle Treftadaeth y Byd Buddsoddiad: £2M Cyngor Gwynedd yn arwain - wedi ei ariannu hyd at <u>Mawrth 2028</u> Prif allbynnau / canlyniadau wedi eu cyrraedd: 48 o ddigwyddiadau wedi eu cynnal 2,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau				✓✓✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓			✓		✓		

Cynlluniau / gweithgareddau yn rhagbaratoi

(yn datblygu'r cynllun / targedu arian)

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓ canolig; ✓ cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfeion Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Ardudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penrhynudeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Rhagbaratoi cynlluniau Bangor (Gwersyll Rhufeinig, cyrion Storiol / Pontio ac adnoddau hamdden) Cyngor Gwynedd yn arwain gyda cynghorau tref a chymuned - rhagbaratoi i'w gwblhau <u>Mawrth 2026</u> Buddsoddiad posib: i'w gadarnhau Prif allbynnau / canlyniadau arfaethedig: - Canfyddiadau o'r ganolfan masnachol - Cynnydd yn nifer defnyddwyr y ganolfan masnachol	✓			✓✓✓			✓+												
Llunio strategaethau arwyddo i Bala a Pwllheli Cyngor Gwynedd yn arwain gyda cynghorau tref a chymuned - gwaith i'w gwblhau <u>Mawrth 2026</u> Buddsoddiad posib: i'w gadarnhau Prif allbynnau / canlyniadau arfaethedig: - Canfyddiadau o'r ganolfan masnachol - Cynnydd yn nifer defnyddwyr y ganolfan masnachol	✓			✓✓✓														✓+	✓+
Sefydlu Canolfan Gwyddoniaeth ar safle cyn bwerdy Trawsfynydd i geisio cynnal y cyflenwad o swyddi lefel uwch yn yr ardal. Cwmni Eginio mewn partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd a'r NDA – rhagbaratoi i'w gwblhau <u>haf 2026</u> . Buddsoddiad posib: £15M Prif allbynnau / canlyniadau arfaethedig: Unedau gwaith wedi eu hadeiladu	✓✓	✓✓✓	✓✓✓		✓✓			✓		✓+				✓			✓		✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓canolig; ✓cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfleon Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arudwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penthyndeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
- Mentrau mewn meysydd gwerth uwch wedi derbyn cefnogaeth i sefydlu / tyfu - Datblygiadau mawrion wedi ymgysylltu																			
Rhaglen ‘Cysylltu a Gwaith’ Llywodraeth y DG yng Ngwynedd i helpu unigolion gyda heriau yn gysylltiedig â iechyd yn bennaf i sicrhau gwaith. Cyngor Gwynedd (a siroedd eraill y Gogledd) – rhagbaratoi i'w gwblhau <u>Hydref 2025</u>. Buddsoddiad posib: £2.3M Prif allbynnau / canlyniadau arfaethedig: 625 unigolyn yn derbyn cefnogaeth i sicrhau swydd 500 yn sicrhau swydd wedi iddynt dderbyn cefnogaeth	✓				✓✓	✓✓✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu Hwb Iechyd Bangor i ddenu ymwelwyr a gweithwyr i ganol y dinas Cyngor Gwynedd (a siroedd eraill y Gogledd) – rhagbaratoi i'w gwblhau <u>Mawrth 2028</u>. Buddsoddiad posib: £30M Prif allbynnau / canlyniadau arfaethedig: - Swyddi wedi adleoli i Canol Bangor - Cynnydd yn nifer defnyddwyr y ganolfan masnachol	✓			✓✓✓			✓+												
Ail wedd Hwb Economi Gwledig Glynllifon: Canolfan technoleg / menter gwledig a bwyd Buddsoddiad: i'w gadarnhau Grŵp Llandrillo-Menai yn arwain – prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru – rhagbaratoi i'w gwblhau erbyn diwedd 2026	✓✓	✓		✓		✓✓	✓	✓	✓	✓	✓+	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Amlinelliad o'r cynllun / gweithgaredd	Aliniad i'r Strategaeth (✓✓✓ uchel; ✓✓canolig; ✓cymedrol)						Ardal gweithredu / yn buddio (✓+ lleoli o fewn; ✓ yn elwa)												
	Mentergarwch		Lle		Pobl														
	1. Uchafu Gwerth Ein Economi Bresennol	2. Manteisio ar Gyfeion Newydd	3. Y Cysylltedd a'r Is-adeiledd Gorau Posibl	4. Lle Dai i Fyw, Gweithio a Mentro	5. Sicrhau Gweithlu Medrus	6. Cefnogi Ein Pobl	Bangor	Bro Arduadwy	Bro Dysynni	Bro Ffestiniog	Bro Lleu / Nantlle	Bro Peris	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Ogwen	Pen Llŷn	Porthmadog / Penthyndeudraeth	Pwllheli	Y Bala a Phenllyn
Prif allbynnau / canlyniadau: - Swyddi newydd yn anuniongyrchol - GVA ychwanegol																			



ATODIAD 2

TEITL **Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

AWDUR Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned

1. PWRPAS YR ASESIAID

- 1.1. Yn yr asesiad hwn, cyflwynir Strategaeth Economaidd Gwynedd, ac yn egluro'r modd y cafodd y Strategaeth ei datblygu, a sut mae'n bodloni gofynion a phwrrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. GOFYNION Y DDEDDF

- 2.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrannu at lesiant cenedlaethau heddiw, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n ystyried llesiant mewn modd cyfannol, gan gynnwys agweddau economaidd a chymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- 2.2. Gofynnir fod y penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus yn bodloni dau ofyn – y Pum Ffordd o Weithio a'r Saith Nod Llesiant Cenedlaethol. Mae'r Pum Ffordd o Weithio yn adnabod cyfres o gamau y dylid gweithredu arnynt wrth wneud penderfyniadau, ac mae'r Saith Nod Llesiant yn amlinellu'r canlyniadau hir-dymor y dylid cyfrannu tuag atynt.

Pum Ffordd o Weithio (Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Cymru):

- Cynnwys
- Gweithredu hir-dymor
- Atal
- Integreiddio
- Cyd-weithio

Nodau Llesiant Cenedlaethol:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

3. CYMRU LEWYRCHUS

- 3.1. Er fod y nodau llesiant yn gyfannol ac yn gyd-ddibynnol, *Cymru Lewyrchus* sy'n edrych fwyaf ar faterion economaidd. Fe'i diffinnir yn y modd canlynol:

“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur – gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy [...] waith teg.”

Mae'n cydnabod gwerth a phwysigrwydd cynhyrchiant, ond yn pwysleisio nad twf er ei fwyn ei hun yw “llewyrch”. Yn hytrach, rhoddir pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol – ar ganlyniadau bywyd, nid dangosyddion economaidd traddodiadol, a hynny heb or-ddefnyddio adnoddau'r blaned.

- 3.2. Yn ei [Adroddiad Blynyddol](#) yn 2025, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nad yw polisi economaidd yng Nghymru wedi symud ddigon at fodel economi llesiant (tud. 86.), ac y dylid gwneud hynny ar bob lefel, gan gynnwys llywodraeth leol. Yn ei ddiffiniad, mae'n cynnwys gwaith gweddus, caffael teg a lleol, economïau lleol, sgiliau ar gyfer y dyfodol a chymdeithas carbon isel.

- 3.3. Yng ngolau'r diffiniadau hyn, dadleuir fod gweledigaeth y Strategaeth yn asio'n agos iawn at ystyr y nod llesiant a bwysleisir gan y Comisiynydd:

“Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleon ac yn cyfrannu at lesiant pawb.”

Diffinnir y weledigaeth yn erbyn pum o egwyddorion sy'n canolbwyntio ar anghenion llesiant pobl Gwynedd:

- **Cael byw ag urddas:** Y dylai pawb gael digon i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, i fyw heb eisïau, yn llawn ac yn hapus.
- **Cyfleon:** Y dylai pob unigolyn allu cyrraedd y cyfleon sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflawni llawn potensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.
- **Tegwch:** Na ddylai unrhyw ardal, berson neu gymuned fod wedi'u gadael ar ôl.
- **Gwreiddiau lleol:** Mai mentrau Gwynedd yw hanfod economi Gwynedd, ac mai trwyddyn nhw y gellid cadw'r cyfoeth a grëir yng Ngwynedd yn lleol.
- **Cynaliadwyedd:** Y dylid meithrin a gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd sydd, fel ei gilydd, yn gwneud Gwynedd yn le mor arbennig i fyw, gweithio a mentro.

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

FFORDD O WEITHIO	SUT Y'I RHODDWDYD AR WAITH?
CYNNWYS Ennyn mewnbwn gan unigolion a grwpiau gyda diddordeb ac/neu arbenigedd mewn materion perthnasol, ac adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir.	▪ Defnyddiwyd y negeseuon a gyflëwyd gan bobl Gwynedd yn yr <i>Ymgynghoriad Ardal Ni</i> (2022) er mwyn adnabod yr hyn y mae pobl Gwynedd yn teimlo sy'n dda am eu hardaloedd lleol, a'r pethau hynny sydd angen gwella. Ymgorfforwyd y negeseuon hyn yng ngweledigaeth y Strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae'n adnodd ddefnyddiol ar gyfer deall barn trigolion Gwynedd, ac amrywiaeth barn yng ngwahanol rannau'r sir. ▪ Gwahoddwyd mentrau yng Ngwynedd i ymateb i ddau <i>Arolwg Busnes</i>, y cyntaf yn 2024 a'r ail yn 2025. Er fod busnesau lletygarwch wedi'u gor-gynrychioli rhyw ychydig, cafwyd ymatebion gan fusnesau mewn ystod amrywiol o ddiwydiannau. Cyflëwyd negeseuon am fwriad busnesau i'r dyfodol, yr heriau a wynebant a'r mathau o gymorth a werthfawrogir. Mae'r Strategaeth yn ymateb i'r mewnbwn hwn, yn enwedig wrth drin â mentrau Gwynedd – yn ymateb, e.e., i'r heriau a nodwyd ganddynt, gan gynnwys recriwtio. ▪ Mae'r maes economi yn gymhleth ac yn cynnwys actorion polisi ar sawl lefel. Er mwyn ennyn mewnbwn gan yr amrywiaeth fwyaf posibl o actorion a dwyn eu harbenigedd, trefnwyd cyfres o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda'r cyrff canlynol: Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru; Ffederasiwn Busnesau Bychain Cymru; yr undebau amaethyddol (FUW, NFU Cymru); Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru; Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru; Parc Cenedlaethol Eryri; Prifysgol Bangor; Grŵp Llandrillo-Menai; Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd, ac; Mantell Gwynedd ar gyfer y maes gwirfoddol yng Ngwynedd.
GWEITHREDU HIR-DYMOR Adnabod tueddiadau hir-dymor a chynllunio ar eu cyfer mewn modd sydd wedi'i gyd-bwyso ag anghenion tymor byr.	▪ Mae'r cyd-destun polisi a chynllunio economaidd yn ansicr ac yn newid yn gyflym yng Nghymru. Nid oes sicrwydd o ran dyfodol cynlluniau ariannu gan lywodraethau Cymru a'r DG, ac mae pwyslais cynyddol ar gyd-weithio rhanbarthol. Mae'r Strategaeth hon yn ymateb i'r ansicrwydd hyn, yn gosod cyfeiriad strategol hir-dymor, waeth beth fo'r cynlluniau ariannu a drosglwyddir i'r Cyngor a'i bartneriaid. ▪ Mae'r Strategaeth yn ymateb i gyfres o "fylchau" sy'n adlewyrchu tan-berfformiad strwythurol yr economi yng Ngwynedd dros y tymor hwy, pan y'i cymherir â Chymru a'r DG. Mae dros hanner ohonynt yn Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol ac yn dangos anfantais cymharol Gwynedd o ran lles economaidd: ○ Bwlch Cynhyrchiant (Dangosydd Llesiant 09): Gwerth yr hyn a gynhyrchir yng Ngwynedd (fesul pob awr a weithir; fesul pob swydd a lenwir) yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG yn 2023, a chyfradd twf cynhyrchiant yng Ngwynedd yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG ers 2004. ○ Bwlch Diwydiannol: Amrywiaeth cymharol gul o ddiwydiannau, gyda chyflogeion a mentrau yn fwy niferus mewn ystod llai o ddiwydiannau.

	○ Bwlch Mentergarwch Newydd: Y cyfradd geni busnes yng Ngwynedd ymhlith yr isaf ar draws siroedd Cymru yn 2023, yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DG. ○ Bwlch Perfformiad Uchel: Canran y mentrau a welodd cynnydd o 20% yn nifer y cyflogeion dros gyfnod tair blynedd yn gyson is yng Ngwynedd na Chymru a’r DG rhwng 2018 a 2023. ○ Bwlch Cysylltedd Digidol (Dangosydd Llesiant 50): Canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na chyfartaleddau Cymru a’r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â’r cysylltedd gwannaf (<30 Mbps) yn unig. Cyrhaeddiad 4G – a 5G yn enwedig – hefyd yn is yng Ngwynedd. ○ Bwlch Gweithlu (Dangosydd Llesiant 21): Cyfradd diweithdra yn isel, ond cyfradd anweithgarwch y sir (h.y., cyfran y boblogaeth 16-64 nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru a’r DG. ○ Bwlch Poblogaeth: Poblogaeth yn heneiddio’n fwy cyflym na Chymru a’r DG, gyda chyfran uwch o bobl hŷn mewn oed ymddeol a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc. ○ Bwlch Cyflog (Dangosydd Llesiant 10): Cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a’r DG. ○ Bwlch Amodau Gwaith (Dangosydd Llesiant 16): Cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogeion rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a’r DG. ○ Bwlch Llesiant (Dangosyddion Llesiant 18 & 19): Cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a’r DG. ▪ Ynghyd â’r “bylchau” hir-dymor hyn, adnabuwyd tueddiadau hir-dymor eraill hefyd sy’n debygol o gael effaith ar y Strategaeth a’i heffeithiolrwydd: ○ Symudiad at economi sero net a charbon isel yn gyfle economaidd; ond, os am gadw’r cyfoeth newydd a grëir yn lleol, mae angen sicrhau fod gan bobl Gwynedd y sgiliau er mwyn manteisio ar gyfleon gwaith a busnes. ○ Technolegau newydd, e.e., deallusrwydd artiffisial yn gyfle; ond yn peri risgiau, yn enwedig os nad yw pobl a busnesau Gwynedd yn fyw i’r datblygiadau diweddaraf ac yn gallu ymateb iddynt yn effeithiol. ○ Shiftt iaith yng Ngwynedd yn cael ei ddylanwadu’n rhannol gan yr economi (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024); e.e., trosglwyddiad iaith yn is mewn aelwydydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
GWEITHREDU ATALIOL Atal problemau rhag ddigwydd y cyntaf neu waethygu.	▪ Mae’r Strategaeth yn ymateb yn fwriadol i gyfres o “fylchau” ble mae Gwynedd yn perfformio islaw cyfartaleddau cenedlaethol neu gymeiriad, ac sy’n creu problemau lles economaidd-gymdeithasol. Gweithredir felly am y newidiadau canlynol sydd, wrth eu hanfod, yn ceisio lliniaru’r “bylchau” neu’u hatal rhag waethygu. Ar yr un llaw, newid strwythurol yn yr economi, gan gynnwys: ○ Codi lefelau cynhyrchiant ein mentrau a’n gweithwyr, er mwyn ysgogi cyflogau uwch ac amodau gwaith gwell;

	○ Cynyddu cystadleurwydd ein mentrau cynhenid, fel eu bod yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn gwireddu’u hamcanion busnes hir-dymor ac yn creu swyddi o safon yn lleol; ○ Cryfhau cysylltedd digidol a than-adeiledd busnes y sir, er mwyn creu’r amodau gorau posibl ar gyfer mentro; ○ Creu sylfaen ddiwydiannol sy’n fwy amrywiol, gyda mentrau lleol mewn ystod o ddiwydiannau yn creu cyfleon newydd ac economi mwy gwydn; ○ Cefnogi ein pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt, fel eu bod nhw, ynghyd a’r mentrau sy’n eu cyflogi, yn gallu manteisio’n llawn ar gyfleon; ○ Cadw mwy o’r cyfoeth a grëir yng Ngwynedd yn lleol, er mwyn uchafu buddion i bobl, mentrau a chymunedau Gwynedd, ac; ○ Adeiladu economi sero net a naturiol Gymraeg, sy’n gynaliadwy yn amgylcheddol a diwylliannol. ▪ Gwneir hyn yn bennaf oll er mwyn atal neu leihau’r heriau lles economaidd-gymdeithasol a wynebwr yng Ngwynedd. I’r pwrpas hwn, bydd y newid a weithredir ar ei gyfer yn cynnwys: ○ Mwy o bobl wedi’u cyflogi mewn swyddi nad ydynt yn ansicr; ○ Cyflogau ac incwm gros aelwydydd yn uwch; ○ Lefelau tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn is; ○ Amrywiaeth ehangach o gyfleon gwaith yn lleol; ○ Mwy o bobl yn gallu aros, byw a gweithio yn eu cymunedau lleol; ○ Mwy o bobl yn cael mwynhad yn eu gwaith ac yn teimlo’u bod yn cyrraedd eu llawn potensial; ○ Economi werdd sy’n amddiffyn amgylchedd naturiol eithriadol y sir, ac; ○ Economi Gymraeg sy’n cynyddu defnydd a gwelededd yr iaith ledled Gwynedd, hynny gyda chwsmeriaid ac yn y gweithle.
INTEGREIDDIO Gweithredu mewn modd sy’n gydnaws â chynlluniau a blaenoriaethau eraill, ac sy’n ychwanegu gwerth atynt yn hytrach na’u tanseilio.	▪ Adeiladir ar y cyfeiriad strategol sydd wedi’i osod eisoes yng Nghynllun y Cyngor: “[C]ryfhau’r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng”. Mae’r Strategaeth yn derbyn y cyfeiriad hwn, ond oherwydd ei fod yn un mewn nifer o flaenoriaethau corfforaethol, pwrpas y Strategaeth hon yw diffinio’r weledigaeth economaidd mewn dyfnder pellach a rhoi sylw penodol i’r economi; hynny er mwyn sicrhau blaenoriaethau a gweithredu ystyrlon. ▪ Mae’r Strategaeth Economaidd newydd yn gorwedd ochr-yn-ochr â Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, yn dilyn y cyfeiriad sydd wedi’i osod yn y Cynllun hwnnw ym maes twristiaeth, ac yn ategu’r weledigaeth sydd ynddo am economi llesiant gynaliadwy. ▪ Gwynedd Ni yw fframwaith adfywio lleol Cyngor Gwynedd. Mae’n canolbwyntio ar 13 o ardaloedd lleol ledled y sir. Er mwyn sicrhau gweithredu ystyrlon ym mhob un o’r ardaloedd lleol hyn, bydd cynlluniau gweithredu unigol yn cael eu paratoi ar eu cyfer ac yn cael ei ychwanegu at y fframwaith. Bydd cynnwys y cynlluniau hyn yn cael eu cyd-ddatblygu â phartneriaid y Cyngor yn lleol – yn

	gynrychiolwyr lleol, yn fentrau cymunedol ac yn gyrff preifat ac elusennol. ▪ Datblygwyd y Strategaeth ar y cyd â Chynllun Caffael newydd y Cyngor, gan olygu’u bod yn asio’n agos iawn at ei gilydd, yn enwedig wrth geisio cadw buddion gwariant cyhoeddus yn lleol.
CYD-WEITHIO Gweithredu ar y cyd â phartneriaid (mewnol ac allanol), a chyda mentrau a phobl Gwynedd.	▪ Mae’r Strategaeth wedi’i ddatblygu yng ngolau’r mewnbwn a roddwyd gan gyfres o bartneriaid, fel y’u rhestrir uchod yn y Rhan Cynnwys. Mae’n cydnabod y bydd angen cyd-weithio â hwy er mwyn uchafu gwerth y Strategaeth ac na all y Cyngor fel corff unigol weithredu’n annibynnol. Felly, mae’r Strategaeth hyn fyw i’r grymoedd sydd yn nwylo’r Cyngor, yn ogystal â’r grymoedd sy’n gorwedd mewn cyrff eraill. ▪ Mae’r Strategaeth yn cydnabod mai pobl a mentrau Gwynedd yw hanfod yr economi leol. Felly, bydd y Cyngor yn parhau i ennyn mewnbwn ganddynt dros lawn cyfnod y Strategaeth, gan gynnwys yr Arolygon Busnes blynyddol. Bydd angen parhau i gyd-weithio hefyd wrth weithredu ar brosiectau’r Strategaeth. ▪ Bydd y cynlluniau gweithredu lleol a ddatblygir yng ngolau’r Strategaeth yn cael eu cyd-greu â phartneriaid y Cyngor yn lleol – yn gynrychiolwyr lleol, yn fentrau cymunedol ac yn gyrff preifat ac elusennol. Bydd hyn yn sicrhau cyd-gynhyrchu a chyd-gweithredu dros lawn gyfnod bywyd y Strategaeth, 2025-35.

5. SUT Y CAIFF Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL EU BODLONI?

Cymru Lewyrchus

“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd bydeang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur – gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd; ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy [...] waith teg.”

Gweler Rhan 3. Eglurir priod weledigaeth y Strategaeth yn asio’n agos iawn at ddiffiniad Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol o’r nod Cymru Llewyrchus, h.y., economi sy’n rhoi pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth, nid dangosyddion macro traddodiadol.

Cymru Gydnerth

“Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid.”

Mae gan Wynedd gyfoeth naturiol eithriadol sy’n ei gwneud yn un o’r lleoedd gorau i fyw a gweithio. Felly, mae amddiffyn a meithrin yr amgylchedd yn ganolog i’r Strategaeth,

Bwriedir gweithredu i leihau gwastraff (1.2.), annog dulliau cylchol a gwyrdd o wneud busnes (1.8.), hybu a chymryd mantais o gyfleon newydd yn yr economi werdd (2.7.), a phwyso am welliannau yng ngapasiti’r grid yn lleol (3.4.) er mwyn gwneud datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn fwy dichonadwy yng Ngwynedd.

Cymru Iachach

“Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.”

Gwyddys fod pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, sy’n wynebu cyflogau isel, ansicrwydd gwaith neu dlodi, yn fwy tebygol o wynebu iechyd corfforol a meddyliol salach. Gweithredir am welliannau yng nghyflog ac amodau gwaith yn y Strategaeth – ac bydd hyn, maes o law, yn cael effaith strwythurol positif ar ganlyniadau iechyd.

Cydnabyddir hefyd yn y Strategaeth fod iechyd meddyliol yn cael ei siapio’n rhannol gan y mwynhad a geir o waith, neu beidio. Felly, mae sicrhau fod pobl yng Ngwynedd yn cael gafael ar waith a fwynheir hefyd yn bwysig.

Cymru sy’n fwy Cyfartal

“Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial [...], waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau.”

Mae rhyddhau potensial pobl Gwynedd yn amcan ganolog yn y Strategaeth, ac fe’i pwysleisir ar sawl tro yn y ddogfen ei hun. Ar y foment, mae’r “bylchau” sy’n golygu fod Gwynedd yn tanberfformio’n economaidd pan y’i cymherir â Chymru a’r DG, yn golygu fod pobl Gwynedd yn wynebu anfantais cymharol – ac, o’r herwydd, yn wynebu heriau strwythurol yn cyrraedd eu llawn potensial. Felly, gweithredir i liniaru’r “bylchau” a’u hatal rhag waethygu ar draws chwe blaenoriaeth y Strategaeth.

Yn benodol, mae'r chweched flaenoriaeth – *Cefnogi Ein Pobl* – yn ymdrin yn benodol ar gefnogi pobl i gyrraedd eu llawn potensial: *“Cefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleon yn lleol.”* Mae'n cynnwys y gweithrediadau canlynol:

- Cefnogi pobl i waith sy'n ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol;
- Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i gyrraedd swydd gwell â chyflogau uwch, neu amodau gwaith mwy sicr.
- Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith cyflogwyr y sir.
- Hyrwyddo mathau cynhwysol o gyflogaeth i'w wneud yn haws i bobl allu gweithio.
- Hyrwyddo cyfleon gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl Gwynedd.
- Cefnogi pobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio ac/neu wirfoddoli, ble maent eisiau gwneud hynny.

Gwyddys hefyd fod llawer o'r pobl ifanc sy'n gadael Gwynedd yn gwneud hynny nid am eu bod eisiau gadael o reidrwydd, ond eu bod yn teimlo fod angen gwneud am resymau gwaith. Oherwydd hyn, ymdrinnir â'r her mudo yn benodol (5.3.) er mwyn cefnogi pobl ifanc i allu llwyddo'n lleol, waeth beth fo'u cefndir a'u dyheadau.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

“Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.”

Mae cysylltedd yn rhan hanfodol o'r Strategaeth, yn enwedig yn ngolau'r “bwllch” digidol sy'n golygu fod cysylltedd band-eang yn wannach yng Ngwynedd. Gweithredir felly am welliannau mewn cysylltedd band-eang (3.1.), yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n wynebu'r cysylltedd digidol mwyaf gwan.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

“Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.”

Mae'r Gymraeg yn derbyn sylw canolog yn y Strategaeth. Gwyddys fod y dylanwadau economaidd strwythurol yn cael effaith ar hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024), gan gynnwys Gwynedd – ac mae'r Strategaeth yn derbyn hynny'n llwyr. Bydd y Strategaeth yn gweithredu i liniaru neu wrth-droi'r shifftiau iaith a wynebwr yng Ngwynedd a'u gyrrir yn rhannol gan yr economi, yn ogystal â chynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg yn fwy cyffredinol yng Ngwynedd, hynny ymhlith cwsmeriaid ac yn y gweithlu.

Mae'r shifftiau iaith mwyaf yn cynnwys:

- Allfudo pobl ifanc – Yn fwy tebygol o fod yn siarad Cymraeg.
- Pobl lleol wedi'u tan-gynrychioli yn y swyddi rheolaethol

uchaf yng Ngwynedd, ac;

- Aelwydydd ag un rhiant neu fwy yn siarad Cymraeg ond sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn llai tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i blant.

Bydd unrhyw gorff, menter neu fusnes sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor, boed yn gymorth ariannol neu anariannol, yn gorfod dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg; ac mae dogfen fonitro newydd wedi'i datblygu i'r pwrpas hwn.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod mor bwysig yw sîn ddiwylliannol Gwynedd, yn enwedig wrth greu egni a bywyd cymdeithasol gyfoethog yn lleol – ac fel un agwedd bwysig o'r economi. Oherwydd hyn, ymdrinnir â diwylliant yn benodol (3.2.) yn nhrydedd flaenoriaeth y Strategaeth.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

“Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant bydeang.”

Mae gogwydd rhyngwladol i'r Strategaeth. Mae'n cydnabod fod gan Wynedd a Chymru “ddiaspora” rhyngwladol sydd, llawer tro, yn edrych yn ôl i Gymru ac eisiau gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau y maent yn dod ohonynt yn wreiddiol. Mae'n gyfle i ddod ag adnodd, arbenigedd a phersonau talentog yn ôl i Wynedd, ac fe'u targedir yn y Strategaeth (3.4.) er mwyn gwneud hynny.

Tu hwnt i'r cyfle hwn, mae'r Strategaeth yn cefnogi'r symudiad at economi sero net oherwydd yr argyfwng newid hinsawdd yn rhyngwladol.

6. CASGLIAD

- 6.1. Yn dilyn yr asesiad hwn, deuir i'r casgliad fod Strategaeth Economaidd Gwynedd yn bodloni gofynion a phwrrpas y Ddeddf Llesiant yn agos iawn. Cafodd y Pum Ffordd o Weithio eu hymgorffori'n llawn wrth ddatblygu'r Strategaeth, ac mae gogwydd llesiant clir i'w weld yn ei chynnwys – gogwydd sy'n gochel rhag ffocws traddodiadol ar dwf economaidd er ei fwyn ei hun, tuag at fodel datblygu economaidd newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth.



ATODIAD 3

TEITL Strategaeth Economaidd Gwynedd a'r Gymraeg

1. PWRPAS YR ADRODDIAD?

- 1.1. Yn yr adroddiad hwn, amlinellir yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn Strategaeth Economaidd newydd Gwynedd. Mae'n adnabod prif nodweddion y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi yng Ngwynedd, ac ar ddiwedd yr adroddiad yn Ffigur 1, yn dangos sut mae'r Strategaeth yn ymateb i'r nodweddion hyn er mwyn cryfhau'r Gymraeg.

2. Y GYMRAEG A'R ECONOMI YNG NGWYNEDD

- 2.1. Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021, roedd 73,560 o bobl (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd, neu 64.4% o'r boblogaeth gyfan. Mae'n cynrychioli gostyngiad o un pwynt canran o'i gyharu â Chyfrifiad 2011, pan oedd 65.4% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.¹
- 2.2. Mae'r Arolwg Defnydd Iaith Cenedlaethol, 2012-22, yn ymdrin â'r amllder y siaredir Cymraeg ymhlith pobl sy'n medru gwneud hynny yng Ngwynedd. Dylid nodi mai arolwg yn unig yw'r Arolwg Defnydd, gyda sampl penodol a chyfyngedig o bobl, a bod y Cyfrifiad, mewn cyferbyniad, yn cynnwys y boblogaeth gyfan. Serch hynny, ymddengys fod canran sylweddol o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg yng Ngwynedd ddim yn ei defnyddio'n ddyddiol. Roedd y gyfran o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd a nododd eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, a hynny'n fwy nag ambell air, yn 61% yn 2019-20 ac yn 60% ar gyfer 2021-22.² Mae'r gweithle yn ofod pwysig ar gyfer cynyddu defnydd y Gymraeg – ac yn neilltuoel bwysig i'r sawl nad ydynt yn defnyddio Cymraeg yn y cartref neu mewn rhwydweithiau cymdeithasol beunyddiol.
- 2.3. Edrychodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar ddylanwadau economaidd-gymdeithasol sy'n cael effaith ar hyfywedd a bywiogrwydd y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys Gwynedd. Mae adroddiad y Comisiwn yn amlygu'r cysylltiadau canlynol rhwng yr economi a'r Gymraeg yng Ngwynedd:
- 2.3.1. Pwysleisir pwysigrwydd strwythurol y diwydiannau hynny yng Ngwynedd sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn weithredol ynddynt, sef amaethyddiaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, a'r diwydiant adeiladu.

- **Amaethyddiaeth:** 84% yn siaradwyr Cymraeg.
- **Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd:** 74% yn siaradwyr Cymraeg.

¹ Cyngor Gwynedd, *Strategaeth Iaith Gwynedd* (2023), Tud. 4. [Ar-lein]: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Atodiad-2-Strategaeth-Iaith-2023-2033.pdf>

² *Ibid.*

- **Y diwydiant adeiladu:** 74% yn siaradwyr Cymraeg.³

- 2.3.2. Dengys hefyd fod siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi’u tan-gynrychioli yn y categorïau NS-SEC (S. National Statistics Socio-economic Classification) mwyaf breintiedig sef L1, L2 a L3 – galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch. Mae siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 55% o’r holl bobl yn y categorïau breintiedig hyn yng Ngwynedd – tua 10 pwynt canran yn is na chyfran y siaradwyr Cymraeg ar draws y boblogaeth gyfan yn y sir. Yn ôl y Comisiwn, mae’n adlewyrchu peth “anfantais strwythurol mewn rhai amgylchiadau”.⁴
- 2.3.3. Ar y pegwn lleiaf breintiedig, L14.1 ac L14.2, sef unigolion nad ydynt wedi gweithio erioed ac sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir, ymddengys fod siaradwyr Cymraeg wedi’u tan-gynrychioli o rhyw 10 pwynt canran. Yn nhyb y Comisiwn, “[g]ellir rhagdybio bod y dwysedd is o siaradwyr Cymraeg yn y categorïau sosio-economaidd hyn yn gynnryrch, a hefyd yn cynhyrchu, amgylchiadau llai ffafriol i ddefnyddio’r Gymraeg”.⁵ Mae’n tanlinellu pa mor bwysig yw ehangu mynediad y garfan hon at waith o safon – nid yn unig wrth fynd i’r afael â thlodi, ond i feithrin hyder a chynyddu defnydd iaith y garfan mewn gweithleoedd sy’n defnyddio’r Gymraeg eisoes, neu sydd â’r potensial i’w defnyddio’n ehangach gyda chefnogaeth.
- 2.3.4. Caiff hyn ei ategu gan ddata ar drosglwyddiad iaith yn y teulu. Ar aelwydydd yn y categorïau economaidd-gymdeithasol lleiaf breintiedig gydag un oedolyn neu fwy yn medru’r Gymraeg, mae dwywaith yn fwy o blant yn ddi-Gymraeg yng Ngwynedd o gymharu ag aelwydydd yn y categorïau mwyaf breintiedig.⁶ Yn nhyb y Comisiwn, mae’n “tystio i gloffrwm sosio-economaidd ar allu’r grŵp iaith i’w atgynhyrchu ei hun yn effeithiol dros amser”,⁷ ac i’r perwyl hwn, pa mor bwysig yw lleihau anfantais cymharol yng Ngwynedd er mwyn cynyddu tebygrwydd trosglwyddiad iaith.
- 2.3.5. Mae’r Comisiwn yn adnabod allfudo yn nhrwch ifanc y boblogaeth fel “her economaidd ac ieithyddol strwythurol i gymunedau Cymraeg”.⁸ Bydd maint y gweithlu yn crebachu, yn enwedig ymhlith y sawl sydd â’r sgiliau uchaf, a bydd perfformiad a chynhyrchedd economaidd yn dioddef o’r herwydd. At hynny, bydd heriau recriwtio yn dwysau, a bydd cymunedau’n colli unigolion sy’n medru’r Gymraeg. Mae’r rhesymau sy’n cymell allfudo a mudo dychweliadol yn gymhleth, yn benderfyniadau personol iawn, ac yn cynnwys ffactorau economaidd, cymdeithasol a syniadaethol sy’n torri ar draws ei gilydd. O ganlyniad, mewn adroddiad ar fudoledh pobl ifanc gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth, dylid mynd i’r afael â’r pwnc yn holistaidd a gochel rhag “canolbwyntio ar

³ Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Adroddiad Terfynol: Grymuso Cymunedau, Cryfhau’r Gymraeg* (2024), Rhan 2.5., Tud. 22-3 [Ar-lein]: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-08/grymuso-cymunedau-cryfhau-gymraeg.pdf>

⁴ *Ibid.*, Rhan 2.7., Tud. 23-4.

⁵ *Ibid.*, Rhan 2.8., Tud. 23-5.

⁶ *Ibid.*, Tud. 25.

⁷ *Ibid.*, Tud. 24.

⁸ *Ibid.*, Rhan 4.3., 4.16., Tud. 57-8, 69-70.

un neu ddau ffactor allweddol”.⁹ Yn benodol, gwneir y pwyntiau canlynol:

- Er mor bwysig yw cymhellion economaidd fel swyddi, gyrfaoedd a chyflog, dylanwadir ar fudoleddd gan ystyriaethau ehangach am fywyd cymdeithasol a phwysau syniadaethol – h.y., y gred fod yn rhaid gadael “er mwyn llwyddo”.¹⁰
- Bod mudo dychweliadol yn ystyriaeth a ddaw’n fwyfwy blaenllaw ar adegau penodol mewn bywyd, ac y dylid trin y 30au cynnar fel cyfnod arbennig o arwyddocaol wrth i bobl feddwl am deulu a “setlo i lawr”.¹¹
- Na ddylid cymryd “arholwyr” yn ganiataol neu anghofio amdanynt wrth ymdrin â mudoleddd.¹²

3. POLISI CYNLLUNIO IEITHYDDOL YNG NGWYNEDD A CHYMRU

3.1. Prif nod *Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-33* yw “[c]ynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio’r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau”. Mae’n gweithredu am y newid hwn trwy bum maes gweithredu:

- **1. Iaith y blynyddoedd cynnar:** Rhoi’r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant o ran defnydd iaith, a chryfhau trosglwyddiad iaith yn y teulu.
- **2. Iaith Dysgu:** Sicrhau cyfleoedd i bobl o bob oed i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu Cymraeg.
- **3. Iaith Gwaith a Gwasanaeth:** Cynyddu defnydd a gwelededd yr iaith gyda chyflogwyr, yn y gweithle, a chyda chwsmeriaid.
- **4. Iaith y Gymuned:** Annog defnydd iaith mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol.
- **5. Ymchwil a thechnoleg:** Cynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg ar fforymau digidol.

3.2. *Cymraeg 2050* yw strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae’r strategaeth yn seiliedig ar dair thema:

- **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr** – Trwy addysg Cymraeg, trosglwyddiad iaith yn y teulu a chyfleon i ddysgu’r iaith.
- **Thema 2: Cynyddu defnydd y Gymraeg** – Trwy greu a chynnal cyfleoedd i’w defnyddio, gan gynnwys yn economaidd ac yn y gweithle.
- **Thema 3: Creu amodau ffafriol** – Sicrhau polisiau sy’n cefnogi’r iaith.

Mae’r strategaeth yn pwysleisio cydweithio rhwng cymunedau, sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys cyflogwyr.

⁹ Lewis, H., & Cunnington Wynn, L. (2024). *ARFOR, allfudo a’r Gymraeg: Gwersi o ymchwil cyfoes ym maes allfudo i gefnogi gwaith rhaglen ARFOR II*. Tud. 3. [Ar-lein]:

<https://pure.aber.ac.uk/ws/portalfiles/portal/86522827/Adroddiad.pdf>

¹⁰ *Ibid.*, Tud. 3., 10-11, 14-15.

¹¹ *Ibid.*, Tud 4., 12-13.

¹² *Ibid.*, Tud. 4., 14-15.

FFIGUR 1. STRATEGAETH ECONOMAIDD GWYNEDD A'R GYMRAEG

Y GYMRAEG A'R ECONOMI	YMATEB Y STRATEGAETH	BLAENORIAETHAU PERTHNASOL
2.2. Canran sylweddol o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg yng Ngwynedd ddim yn ei defnyddio'n feunyddiol.	Mae'r her hon yn gofyn ein bod yn gweithredu i gynyddu gofodau sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destun economaidd, hynny ymhlith cyflogwyr, yn y gweithle ac wrth ymwneud â chwsmeriaid. Mae cryfhau'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn yn bwysig am sawl rheswm: ▪ Statws y Gymraeg: Mae cynyddu statws y Gymraeg fel iaith fusnes yn rhoi iddi werth ychwanegol fel sgil yn y gweithle, yn annog mwy o bobl i'w hymarfer a'i defnyddio, ac yn cryfhau cymhelliant rhieni i drosglwyddo'r iaith i'w plant maes o law. ▪ Dilyniant iaith: Parhad defnydd a datblygiad sgiliau iaith wrth symud o un cam bywyd i'r nesaf, yn enwedig o'r ysgol, coleg neu brifysgol i'r byd gwaith. ▪ Defnydd beunyddiol o'r Gymraeg: Mae creu gofodau Cymraeg yn y gweithle yn neilltuoel bwysig i'r sawl nad ydynt yn defnyddio Cymraeg yn y cartref neu mewn rhwydweithiau cymdeithasol beunyddiol, ond yn gallu gwneud hynny ym myd gwaith. Felly, gweithredir i gynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg yn yr economi trwy'r ymyraethau canlynol: ▪ Dylanwadu ar ddefnydd iaith trwy raglenni ariannu busnes a weinyddir gan y Cyngor: Bydd y Cyngor yn gofyn i fentrau adnabod cyfres o ymrwymadau iaith y disgwylir iddynt eu gweithredu wrth dderbyn arian grant. Bydd cwmpas, uchel-gais ac effaith tebygol yr ymrwymadau hyn eu sgorio fel un agwedd o'r cais gwreiddiol – ac, os caiff arian ei glustnodi, bwriedir monitro cynnydd yn erbyn yr ymrwymadau a adnabwyd dros gyfnod y grant. Bydd tystiolaeth o ddefnydd a gwelededd iaith sydd eisoes yn gryf hefyd yn derbyn ystyriaeth ffafriol. ▪ Cynnig Cymraeg: Byddwn hefyd yn annog mentrau i geisio am y Cynnig Cymraeg sef achrediad iaith Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n tystio defnydd gynhwysfawr o'r iaith gan gyflogwyr, yn y gweithle ac wrth ymwneud â chwsmeriaid, ac yn cynrychioli fframwaith iaith mwy ffurfiol a chyson. Mae'n benodol ddefnyddiol ar	Blaenoriaeth 1, 2, 4, 5 & 6.

	gyfer y mentrau hynny sydd eisoes yn dangos defnydd a gwelededd cryf o'r iaith ac am dystio hynny'n ffurfiol. ▪ Caffael: Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn rhoi pwyslais newydd ar fuddion cymdeithasol, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn gweithio i sicrhau fod camau rhagweithiol i ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn derbyn ystyriaeth priodol fel rhan o osod cytundebau masnachol. Yn ogystal â grymoedd ariannu uniongyrchol y Cyngor, byddwn hefyd yn annog a chefnogi defnydd, gwelededd a hyder yn y Gymraeg trwy rannu adnoddau iaith defnyddiol, megis: ▪ Twlcit recriwtio dwyieithog: Arferion da sy'n cynnig arweiniad ymarferol i gyflogwyr wrth geisio denu a recriwtio unigolion â gwahanol lefelau o hyfedredd yn y Gymraeg. ▪ Ap ARFer: Fframwaith hawdd a hwyliog i grwpiau o staff ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle. ▪ Helo BLOD: Gwasanaeth cyfieithu a chymorth iaith Gymraeg am ddim a gynigir gan Lywodraeth Cymru i fusnesau, elusennau a sefydliadau dielw.	
2.3.1. Pwysigrwydd strwythurol y diwydiannau hynny yng Ngwynedd sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn weithredol ynddynt	Mae'r lefelau cynhyrchiant sylweddol isel a geir yng Ngwynedd yn her hir-dymor i gystadleurwydd a chynaliadwyedd y diwydiannau a geir yng Ngwynedd yn barod, gan gynnwys y diwydiannau hynny a restrir uchod sydd â lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg. Oherwydd hyn, blaenoriaeth cyntaf y Strategaeth yw uchafu gwerth ein economi bresennol, h.y., rhyddhau potensial, codi gwerth a chryfhau gwydnwch y busnesau a'r mentrau a geir yng Ngwynedd yn barod. Rydym am weld cystadleurwydd a gwydnwch y diwydiannau hynny sy'n strwythurol bwysig i'r Gymraeg yn cynyddu. E.e., yn y diwydiant bwyd-amaeth, sef y diwydiant â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd (84%), mae'n cynnwys: ▪ Cytundeb Twf Gogledd Cymru: Sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn lleol o raglen bwyd-amaeth Uchelgais Gogledd Cymru, e.e., Hwb Economi Wledig Glynllifon.	Blaenoriaethau 1, 2 & 3.

	▪ Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru: Cefnogi ffermwyr i gael y buddion mwyaf posibl o raglen cymorthdaliadau newydd Llywodraeth Cymru. ▪ Caffael: Cynyddu'r bwyd a phrynir yn lleol gan gyrff cyhoeddus. ▪ Cyd-weithio: Dwyn sylw at gefnogaeth ehangach yn y diwydiant amaethyddol, e.e., gwasanaethau Cyswllt Ffermio.	
2.3.2. Siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi'u tan-gynrychioli yn y categorïau economaidd-gymdeithasol mwyaf breintiedig – h.y., galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch.	Mae'r rhesymau am dan-gynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg mewn swyddi uwch yn aneglur yn nhyb y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (2024, tud. 24). Serch hynny, gyda phwyslais cynyddol gan Lywodraeth y DG ar ddiwydiannau gwerth uchel, yn enwedig yn y Strategaeth Ddiwydiannol newydd, <i>Invest 2035</i>, rhaid sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd o dan anfantais cymharol wrth geisio am swyddi lefel uwch, boed yng Ngwynedd neu mewn siroedd cyfagos. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn pwysu am: ▪ Cynlluniau datblygu talent lleol: Sicrhau fod y cyflogwyr mwyaf a datblygiadau sylweddol yn mabwysiadu cynlluniau denu a datblygu talent—arweinyddiaeth, graddedigion a phrentisiaethau—sy'n cydnabod trigolion lleol fel rhan-ddeiliaid craidd, yn eu cefnogi i gyrraedd y swyddi uchaf, ac yn rhoi statws penodol i'r Gymraeg fel sgil. ▪ Mudo dychweliadol: Ymhlith y sawl sy'n gadael Gwynedd, gor-gynrychiolir unigolion â sgiliau a chymwysterau uwch neu arbenigol, gyda chanran sylweddol ohonynt wrth reswm yn siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn eu cefnogi a'u hannog i ddychwelyd, fel y bydd recriwtio ar lefel uwch yn cynnwys mwy o unigolion â sgiliau arbenigol sy'n medru'r Gymraeg.	Blaenoriaeth 2, 5 & 6.
2.3.3. Amgylchiadau llai ffafrïol i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith unigolion yn y categorïau economaidd-gymdeithasol lleiaf breintiedig – h.y., unigolion nad ydynt wedi gweithio erioed ac sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir.	Mae unigolion sy'n anweithgar yn economaidd yn llai tebygol o gael mynediad at ofodau sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae'n neilltuoel bwysig i'r sawl nad ydynt yn defnyddio Cymraeg yn y cartref neu'n gymunedol, ond y byddai'n gallu gwneud hynny ym myd gwaith. Mae chweched blaenoriaeth y Strategaeth yn rhoi sylw i'r garfan hon – yn eu cefnogi i gyrraedd gwaith o safon. Wrth wneud hyn, law-yn-llaw â chynyddu defnydd busnes o'r Gymraeg yn fwy cyffredinol ym myd busnes, bydd mynediad y garfan at ofodau Cymraeg yn cynyddu.	Blaenoriaeth 6.

2.3.4 Ar aelwydydd yn y categorïau economaidd-gymdeithasol lleiaf breintiedig gydag un oedolyn neu fwy yn medru'r Gymraeg, mae dwywaith yn fwy o blant yn ddi-Gymraeg yng Ngwynedd o gymharu ag aelwydydd yn y categorïau mwyaf breintiedig	Wrth gefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleon yn lleol, gweithredir i leihau tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn y garfan. Gwyddys fod unigolion mewn amodau llai breintiedig yn llai tebygol o drosglwyddo'r iaith i'w plant. Felly, wrth gynyddu lles economaidd-gymdeithasol y garfan, mynediad y garfan at ofodau Cymraeg a dealltwriaeth am ei gwerth, cryfheir trosglwyddiad iaith yn y teulu.	Blaenoriaeth 6.
2.3.5. Lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc yn her economaidd ac ieithyddol strwythurol i Wynedd.	Mae'r Strategaeth yn cydnabod fod cymhellion unigolion sy'n gadael Gwynedd neu sy'n cysidro gwneud, neu sy'n cysidro dychwelyd hefyd, yn gymhleth. Mae'n gofyn am ymyraethau holistaidd sy'n croes dorri ffactorau economaidd a chymdeithasol. I'r perwyl hwn, mae pedwaredd flaenoriaeth y Strategaeth – Lle da i fyw, gweithio a gwneud busnes – yn cyfarch y tri peth; bod modd byw bywyd cyflawn a llwyddo ym myd gwaith a busnes yng Ngwynedd. Ledled y Strategaeth, rydym yn gweithredu am well swyddi, gyrfaoedd a chyflogau, ond mae'r flaenoriaeth hon yn edrych yn benodol ar y cymhellion cymdeithasol dros aros neu ddychwelyd, gan cynnwys cryfder y Gymraeg yn y sir. Rydym hefyd yn rhoi sylw i'r “arhoswyr” yn yr ymdrech hon, yn sicrhau fod gan hwythau swyddi o safon fel nad oes angen iddynt gysidro gadael. Byddwn yn gweithredu i'w darbwyllo fod Gwynedd yn lle da i fyw a gweithio, ac yn eu dathlu am “lwyddo'n lleol”.	Blaenoriaeth 1, 2, 4, 5 & 6.

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	Hydref 16eg, 2025
TEITL	Cyfundrefn Addysg Drochi
RHESWM DROS GRAFFU	<i>Mae'r Gyfundrefn Drochi yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023- 2028 – Gwynedd Gymraeg, Ym Mawrth 2025, bu i Estyn arolygu darpariaeth Y Gyfundrefn Drochi a chyhoeddwyd yr adroddiad ym Mai 2025. Mae'n amserol felly i'r Pwyllgor Craffu fanylu ar gynnwys adroddiad Estyn.</i> <i>Ers sefydlu'r Gyfundrefn Drochi ar ei newydd wedd, mae'r Adran Addysg wedi ymrwymo i gynnal gwerthusiad ohoni pan fo hynny'n amserol. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar 13 Chwefror 2025, ac estynnwyd gwahoddiad i ddychwelyd i'r pwyllgor i gyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad.</i>
AWDUR	Siwan Llwyd Roberts, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd.
AELOD CABINET	Y Cyngorydd Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar Chwefror 13eg 2025, craffwyd diweddariad am y broses werthuso yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi.

1.2 Penderfynwyd byddai'r Pwyllgor yn craffu cynllun gweithredu argymhellion gwella'r Gyfundrefn Addysg Drochi yn deillio o'r gwerthusiad.

1.3 Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r Gyfundrefn Addysg Drochi yn ystod mis Mawrth 2025. Bu i Estyn wneud un argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol i barhau i wella

1.4 Drwy graffu'r cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion yn deillio o'r gwerthusiad ac arolwg Estyn bydd modd i'r Pwyllgor dderbyn sicrwydd y cymerir camau i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- 2.1** Cynnwys adroddiad Estyn ar y Gyfundrefn Drochi a'r camau gweithredu sy'n ymateb i argymhelliad Estyn.
- 2.2** Cynnwys adroddiad ar werthusiad o'r Gyfundrefn Drochi gan Brifysgol Bangor Archwilio effeithlonrwydd y model Trochi Iaith Gymraeg mewn ysgolion yng Ngwynedd: Astudiaeth Achos Fanwl a'r camau gweithredu sy'n ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion.
- 2.3** Cyfleoedd sydd wedi eu hadnabod i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Ym mis Mawrth 2025 arolygwyd y Gyfundrefn Drochi gan Estyn. Dyma'r tro cyntaf i'r Gyfundrefn gael ei harolygu a hynny yn unol â'r canllawiau newydd gyflwynwyd yn 2024. **(Atodiad 4)**

Mae'r adroddiad yn nodi bod Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn ddarpariaeth arloesol a gwerthfawr i ddisgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r Gymraeg. Disgrifir sut mae'r ddarpariaeth yn trochi siaradwyr newydd yn effeithiol a nodir eu bod yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu Cymraeg gan feistrolï geirfa a phatrymau iaith. Bu i Estyn wneud un argymhelliad i helpu'r awdurdod i barhau i wella sef :-

“Datblygu strwythur arweinyddiaeth a phrosesau hunanwerthuso i ddarparu digon o gyfleoedd i staff fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gynyddol effeithiol.”

3.2 Yn 2024 comisiynwyd Prifysgol Bangor i archwilio pa mor effeithiol yw'r model trochi iaith mewn ysgolion yng Ngwynedd a llunio astudiaeth achos fanwl. Rhannwyd yr adroddiad ddiwedd Gorffennaf 2025. Mae'r gwaith ymchwil yn nodi cryfderau amlwg ac yn cynnig pedwar argymhelliad i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

3.3 Gofynnir am farn aelodau'r Pwyllgor Craffu ar y camau gweithredu, mewn ymateb i'r argymhellion yn y ddau adroddiad. Dymunwn sicrhau bod unrhyw addasiadau i'r model trochi yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gydlynol ac yn gynaliadwy.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Arolygiad Estyn

Yn 2024 cyflwynodd Estyn fframwaith arolygu newydd a phenodol ar gyfer darpariaethau trochi yn nodi sut byddai trefniadau trochi yn cael eu harolygu a'u gwerthuso . Mae'r canllawiau yn nodi bod darpariaethau trochi i'w harolygu yn unol â'r tri maes arolygu canlynol :-

Meysydd arolygu		
Mae'r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a beth mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo yn 1 – 3, ond maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd.		
Bydd yr adroddiad arolygu'n cwmpasu pob un o'r meysydd arolygu. Mi fydd bob amser yn adrodd ar bob un o'r prif ffocysau, ond nid yn nhrefn y llawlyfr hwn, o reidrwydd. Dyma'r prif ffocysau ar gyfer pob maes arolygu:		
1. Addysgu a dysgu	2. Gofal, cymorth a lles	3. Arwain a gwella
Ffocws Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm, asesu ac addysgu yn cynorthwyo'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i: - ddysgu a gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg? - ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau? - ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu?	Ffocws Pa mor effeithiol yw'r trefniadau gofal a chymorth o ran sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i: - yn ddiogel a saff? - yn mynychu'n rheolaidd? - yn cael eu parchu a'u trin yn deg? - yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldeb? - yn derbyn yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, gan gynnwys cymorth tra yn eu hysgolion cofrestredig?	Ffocws Pa mor effeithiol y mae arweinwyr: - yn rheoli trefniadaeth y darparwyr ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys trefniadau derbyn? - yn rheoli'r adnoddau ar gyfer trochi yn y Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol? - yn sicrhau bod pob digybl yn dysgu ac yn gwneud cynnydd mewn caffael y Gymraeg? ((Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o ganlyniadau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi'n effeithio arnynt, ag ADY neu rwystrau a nodwyd i ddysgu.) - yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles yr holl ddisgyblion? - yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a rheoli? - yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o'r staff i gyflawni eu rolau?

Arolygwyd Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd Drochi gan Estyn ym mis Mawrth 2025 a derbyniwyd adroddiad cadarnhaol iawn yn nodi bod Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn ddarpariaeth arloesol a gwerthfawr i ddisgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r Gymraeg.

(**Adroddiad Estyn - Atodiad 1**)

Yn yr adroddiad esbonnir bod athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio profiadau creadigol, gan ddefnyddio adnoddau cyfoethog, gan gynnwys adnoddau rhithwir, sy'n cynnal diddordeb disgyblion ac yn datblygu eu hyder i siarad Cymraeg mewn amgylchedd cynhwysol a Chymreig.

Nodir bod staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol, yn gosod disgwyliadau uchel, ac yn cefnogi lles disgyblion. Trwy ddarparu cyfleoedd dysgu amrywiol ac ysgogol, mae

disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol a chyflym wrth gaffael y Gymraeg, gan feistrolï geirfa a phatrymau iaith.

Nodir yn glir yn yr adroddiad fod y cydweithio rhwng staff yr unedau trochi ac arweinwyr a staff yr ysgolion yn werthfawr a bod hynny'n cefnogi'r disgyblion yn briodol wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgolion bob dydd Gwener, ac ar ddiwedd y cwrs.

Esbonnir fod adnoddau sy'n cael eu rhannu gyda'r ysgolion yn gyfrwng defnyddiol i staff eu defnyddio i gefnogi'r disgyblion yn barhaus i atgyfnerthu geirfa a phatrymau brawddeg. Trwy hynny, mae disgyblion yn parhau i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn ogystal, adroddir bod staff yn ymchwilio ac yn rhannu arferion trochi effeithiol gydag ysgolion, ac yn cydweithio'n fedrus ag athrawon yr awdurdod a myfyrwyr Prifysgol Bangor. Nodir bod athrawon yn yr ysgolion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth wrth iddynt freinio eu harferion addysgu iaith ymhellach ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Yn ogystal, mae athrawon trochi yn treulio amser yn fuddiol wrth ymchwilio ymhellach i addysgeg a methodoleg trochi effeithiol, er enghraifft syniadau am ddulliau i gefnogi parhad yn y dysgu wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, a sut i gynnwys y rhieni yn y broses caffael iaith.

Mae'r unig argymhelliad yn yr adroddiad yn cyfeirio at brosesau hunanwerthuso'r Gyfundrefn.

4.2 Adroddiad Prifysgol Bangor

Comisiynwyd astudiaeth gan Ysgol Addysg Prifysgol Bangor yn Hydref 2024 er mwyn gwerthuso a yw'r model trochi presennol yn cyflawni'r addewid ac yn rhoi'r sylfaen angenrheidiol i ddisgyblion yng Ngwynedd gaffael y Gymraeg wrth gychwyn ar eu taith ieithyddol i ddod yn siaradwyr newydd. Ystyriwyd a yw'r model yn addas ac effeithiol ar gyfer cynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn eu hysgolion, yn cefnogi llesiant yn ystod y cyfnod trochi, yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg i'w llawn

botensial, ac yn darparu unrhyw gyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg ymhellach yn y canolfannau a'r ysgolion.

Amlyga'r astudiaeth gryfderau niferus o fewn y ddarpariaeth drochi wrth gefnogi datblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg ac wrth gefnogi lles disgyblion.

Nodir bod y dulliau addysgu cadarn a'r defnydd effeithiol o strategaethau addysgu o ran integreiddio iaith, diwylliant a llythrennedd yn amlwg. Mae'r astudiaeth yn amlygu bod disgyblion yn hapus yn yr amgylchedd ddysgu ac yn creu rhwydweithiau cefnogaeth cadarn ymysg cyfoedion eraill sy'n dysgu'r iaith.

Yn ystod y cyfnod arsylwi gwelwyd enghreifftiau o ddysgu iaith ymestynnol effeithiol a hynny drwy gemau adnabod i ddysgu geirfa newydd, cyn mynd ymlaen i ffurfio brawddegau mwy cymhleth. Gwelwyd tystiolaeth gref o athrawon yn gosod amcanion dysgu iaith yn fwriadus, gan sicrhau bod y dysgwyr yn medru deall ac atgyfnerthu elfennau penodol cyn eu defnyddio mewn cyd-destun ehangach.

Amlyga'r adroddiad bod y defnydd cyson o gerddoriaeth ar draws y ddarpariaeth drochi yn atgyfnerthu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith a'r diwylliant ac yn datblygu mynegiant diwylliannol wrth i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau iaith. Mewn holiaduron a chyfweiliadau mynegwyd yn glir gan ddisgyblion a rhieni bod y profiad o ddysgu'r Gymraeg yn un cadarnhaol.

Esbonnir yn yr adroddiad nad oedd y tîm wedi gweld cydweithio hwylus rhwng y canolfannau a phob ysgol oedd yn rhan o'r astudiaeth. Roedd prysurdeb diwedd tymor a pharatoadau ysgolion at gyngherddau a gwasanaethau Nadolig yn sicrhau ffactorau oedd yn cyfrannu at hynny. Ystyriaeth arall oedd y gymhareb rhwng staff a dysgwyr mewn rhai ysgolion. Cesglir felly nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol gan bob disgybl trochi ym mhob ysgol ar ddyddiau dychwelyd.

Mae'n werth nodi mai dysgwyr Bl. 2-4 sydd bellach yn mynychu'r canolfannau trochi cynradd o gymharu â dysgwyr Bl. 3-6 yn y model blaenorol. Mae'n werth nodi hefyd fod y ddarpariaeth bresennol, fel y ddarpariaeth wreiddiol, yn cynnig yr un nifer o ddyddiau sef 40 diwrnod mewn canolfannau trochi i ddisgyblion oedran uwchradd .

Nodir gan y tîm ymchwil bod sylfaen gadarn yn bodoli ar gyfer datblygu model a allai arwain y sector yn genedlaethol, os sicrhewir y buddsoddiad a'r weledigaeth briodol.

4.3 Argymhellion

Estyn

Datblygu strwythur arweinyddiaeth a phrosesau hunanwerthuso i ddarparu digon o gyfleoedd i staff fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gynyddol effeithiol.

Prifysgol Bangor

i. Addasu'r model trochi presennol i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at ddigon o oriau cyswllt mewn gofod trochi. Newid y model presennol o ddychwelyd i'r ysgolion ar ddyddiau Gwener i un o fod yn y prif lif ar ddyddiau Llun. Mabwysiadu defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi cyswllt parhaus gyda'r prif ffrwd. Ystyried newid y patrwm trefniant presennol drwy sicrhau bod dysgwyr yn dychwelyd yn raddol i'r ysgol yn ystod ail hanner y cyfnod trochi o ddeg wythnos.

ii. Ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol, archwilio sut i gryfhau llwybrau dysgu proffesiynol i athrawon prif ffrwd, athrawon llanw a chymorthyddion er mwyn datblygu strategaethau addysgu trochi effeithiol i gefnogi caffael y Gymraeg, gan eu gwreiddio yn addysgeg pob athro.

iii. Datblygu strwythurau cydweithio mwy effeithiol rhwng y canolfannau iaith a'r ysgolion prif lif yn ystod y cyfnod trochi a thu hwnt. Edrych ar sut y defnyddir y staff trochi yn y prif ffrwd er mwyn cefnogi a chynnal y disgyblion yn fwy effeithiol o fewn yr ysgol, yn hytrach na thynnu'r disgyblion o'r dosbarth i weithio'n ynysig gyda'r athro trochi.

iv. Archwilio dulliau ysgol-gyfan yn yr ysgolion prif lif er mwyn hybu hyder plant wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Rhoi sylw arbennig i ddiwylliant ieithyddol y buarth, gan fod yr amgylchedd anffurfiol hwn yn greiddiol i ddatblygiad ieithyddol disgyblion trochi, ond hefyd i ethos ysgol.

4.4 Ymateb i'r argymhellion

Estyn

O fewn Cynllun Gwella 2025 – 2026 Y Gyfundrefn Drochi mae ymateb i argymhelliad Estyn wedi ei nodi fel blaenoriaeth.

Blaenoriaeth 2: Datblygu strwythur arweinyddiaeth a phrosesau hunanwerthuso i ddarparu digon o gyfleoedd i staff fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth.

Amserlen Tymor 1

21-10-25	Meithrin dealltwriaeth a hyder o ran prosesau hunanwerthuso Defnydd o hunanwerthuso effeithiol wedi'i gefnogi gan brosesau monitro, adolygu a gwerthuso (MAG) trylwyr i ddatblygu arweinyddiaeth ac arwain gwelliant ysgol. - Estyn Monitro Safonau Llafaredd.docx - Google Drive - Pennu meysydd penodol i fonitro a gwerthuso - Adnabod cyfleoedd i gyd arsylwi a dod i farn.
Gwyliau Diolchgarwch 27- 10-25 – 31-10-25	
4-11-25	Meithrin dealltwriaeth a hyder o ran prosesau hunanwerthuso Defnydd o hunanwerthuso effeithiol wedi'i gefnogi gan brosesau monitro, adolygu a gwerthuso (MAG) trylwyr i ddatblygu arweinyddiaeth ac arwain gwelliant ysgol. - Estyn Monitro Safonau Llafaredd.docx - Google Drive
11-11-25	Cyd arsylwadau yn y canolfannau – amserlen i'w rhannu.
18-11-25	Adborth yn dilyn arsylwadau – meysydd i'w datblygu ymhellach.

Prifysgol Bangor

Ceisir barn aelodau'r Pwyllgor Craffu ar addasrwydd un o'r modelau isod fel ymateb i'r argymhelliad canlynol:-

Addasu'r model trochi presennol i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at ddigon o oriau cyswllt mewn gofod trochi. Newid y model presennol o ddychwelyd i'r ysgolion ar ddyddiau Gwener i un o fod yn y prif lif ar ddyddiau Llun. Mabwysiadu defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi cyswllt parhaus gyda'r prif ffrwd. Ystyried newid y patrwm trefniant presennol drwy sicrhau bod dysgwyr yn dychwelyd yn raddol i'r ysgol yn ystod ail hanner y cyfnod trochi o ddeg wythnos.

Model	Trochi (dyddiau)	Canolfan (dyddiau)	Ysgol(dyddiau)	Diwrnod yn yr ysgol?	Cyllid ychwanegol	Ymateb i argymhelliad Bangor	Risg
1	50	40	10	Bob dydd Gwener am 10 wythnos	£0	Parhau â'r trefniant presennol gan gryfhau'r	Rhai disgyblion mewn rhai ysgolion yn dychwelyd i gyfnodau dysgu

						cydweithio gyda'r ysgolion. <i>Gweler isod</i>	llai strwythuredig
2	50	40	10	Bob dydd Llun am 10 wythnos	£0	Ymateb i'r argymhelliad o newid diwrnod yn yr ysgol.	Disgyblion yn llai parod i fynd i'r canolfannau gan fod gwaith yr wythnos yn cael ei gyflwyno yn yr ysgol. Effaith negyddol ar lesiant disgyblion.
3	50	40	10	2 ddiwrnod bob wythnos yn ystod wythnosau 5 i 10	£0	Patrymau sylfaenol yn cael eu dysgu cyn i'r siaradwyr newydd ddychwelyd i'r ysgolion yn ystod ail hanner y cwrs	Dim cyswllt gyda chyfoedion am 5 wythnos. Effaith negyddol ar lesiant. Risg nad yw siaradwyr newydd yn hapus ac yn barod i ddysgu yn yr ysgolion na'r canolfannau yn ystod wythnosau 5 – 10. Llai o drochi dwys yn y cyfnod pan fo'r iaith yn gwreiddio.
4	50	45	5	Diwrnod bob wythnos yn ystod ail hanner y cwrs (Wythnosau 5 i 10)	Cynnydd o 12.5 % o ran costau teithio. Hyn yn cyfateb i <i>gynnydd</i> o £8k bob tymor.	Cyfle i adolygu a gwreiddio patrymau iaith o fewn y canolfannau yn ystod hanner cyntaf y cwrs. Cynnydd yn hyder disgyblion i siarad Cymraeg yn yr hysgolion.	Dim cyswllt gyda chyfoedion am 5 wythnos a chyswllt am ddiwrnod yr wythnos yn unig yn ystod wythnosau 5 i 10 ac felly effaith negyddol ar lesiant. Costau teithio ychwanegol sylweddol. Amharodrwydd rhieni i fanteisio ar y ddarpariaeth yn

							arbennig o ran disgyblion hŷn.
--	--	--	--	--	--	--	--------------------------------

Nid yw defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi cyswllt parhaus rhwng y canolfannau a'r ysgolion yn addas nac yn bosib o ystyried bod disgyblion o hyd at 10 ysgol wahanol yn mynd i bob canolfan bob tymor. Mae datblygu mwy o adnoddau parod a'u rhannu mewn dull mwy hylaw gyda'r ysgolion a llunio rhaglen hyfforddi gynhwysfawr wedi cael eu hadnabod fel camau i'w gweithredu o newid y model presennol neu beidio. Gweler **4.5** isod.

4.5 Ymateb ehangach heb ystyriaethau ail fodelu.

Mae'r canlynol eisoes wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella'r Gyfundrefn Drochi ar gyfer 2025 – 2026 :-

- darparu mwy o adnoddau parod i ysgolion.
- newid y drefn o ran gweithio yn yr ysgolion ar ddyddiau Gwener gan flaenoriaethu cefnogi yn y dosbarthiadau yn hytrach na thynnu disgyblion allan.
- paratoi a rhannu adnoddau ôl ofal / gloywi iaith hirdymor gan gynnwys cyd weithio ag adrannau Cymraeg ysgolion uwchradd Gwynedd i baratoi adnoddau newydd i ddisgyblion Blynyddoedd 10 ac 11.
- datblygu gwefan newydd i rannu gwybodaeth am y ddarpariaeth ac i rannu adnoddau mewn dull mwy hylaw a hygyrch na Google Classroom.
- datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr er mwyn gwreiddio defnydd athrawon o egwyddorion trochi yn yr ysgolion.
- ail lawnsio a chyfoethogi rhaglen y Siarter Iaith i gyd fynd â'r Gwobrau Ansawdd Cenedlaethol. Rhoi sylw cyhoeddus, dyledus i lwyddiannau ac uchelgais y Siarter Iaith

4.6 Costau

Yn hanesyddol, Grant y Gymraeg oedd prif ffynhonnell gyllidol y Canolfannau Iaith, ond fel sy'n gyffredin gyda nifer o grantiau gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r grant a dderbynnir yn cyfarch chwyddiant na chynnydd mewn costau, ac mae hynny wedi arwain at ddiffyg cyson yn y gyllideb. Wrth sefydlu'r Gyfundrefn Drochi ar ei newydd wedd yn 2021, sefydlwyd

model ariannu mwy cynaliadwy i gyfarch y bwlch, gan sicrhau ymrwymiad gan ysgolion i gyfrannu at gyllido'r Gyfundrefn Drochi, ynghyd â'r Adran Addysg.

Nid yw'r ymrwymiad i dderbyn cyfraniad gan yr ysgolion wedi'i weithredu hyd yma. O ystyried mai dim ond 40% (£400k) o gostau'r Gyfundrefn Drochi y mae Grant y Gymraeg bellach yn ei gyfarch, mae'n debygol y bydd rhaid ystyried cyfraniad gan yr ysgolion maes o law wrth i gostau barhau i gynyddu'n sylweddol yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn cyflogau.

Mae'r cyd-destun cyllidol hwn felly'n ystyriaeth allweddol wrth gloriannu'r opsiynau uchod e.e. O fabwysiadu **model 4**, byddai cynnydd o oddeutu £24,000 y flwyddyn yng nghostau cludiant dysgwyr i'r Canolfannau Iaith.

At hyn, bydd cost un tro sylweddol o ran rhyddhau staff i lunio rhaglenni hyfforddiant a datblygu adnoddau newydd. Rhagwelir yr angen am fuddsoddiad o £80,000 o ran costau staffio ac hyd at £15,000 er mwyn datblygu safle digidol / gwefan. Rhagwelir y bydd modd ariannu hyn eleni drwy'r Grant Trochi Hwyr.

5.Ymgynghori

5.1 Ymgynghori sydd wedi digwydd

17/9/25. Grŵp Penaethiaid – ysgolion disgyblion sy'n mynychu'r canolfannau Hydref 2025

Dymuniad y grŵp hwn ydy cadw at y patrwm presennol. Yn eu barn hwy mae'r drefn yn gweithio'n llwyddiannus a staff ysgolion wedi magu perthynas waith effeithiol gyda staff y canolfannau trochi. Mae'r cyswllt wythnosol gyda'r canolfannau yn bwysig er mwyn cael gwybodaeth am gynnydd disgyblion. Byddai'r ysgolion yn dymuno cael mwy o adnoddau parod.

Tymor yr Hydref 2025 - Staff y Gyfundrefn

Nodwyd y byddai cwrs trochi dwys (Model 4) yn rhoi cyfle i'r Gymraeg wreiddio ond bod risg na fyddai disgyblion iau na'r rhai hynaf yn barod i dreulio cymaint o amser yn y canolfannau.

Nodwyd nifer o heriau ymarferol o fynd i'r ysgolion am ddau ddiwrnod gan ymateb i holl amserlenni a threfniadau ysgolion (Model 3) a rhagwelwyd na fyddai ysgolion yn ffafrio'r model hwn. Byddai treulio dim ond 3 diwrnod bob wythnos yn y canolfannau yn ystod ail hanner y cwrs yn golygu cyfnod llai o drochi dwys pan yw'r patrymau'n gwreiddio a'r hyder yn cynyddu. Yn ystod ail hanner y cwrs mae'r pwyslais ar ddefnyddio, ac adeiladu ar yr holl eirfa a phatrymau iaith sydd wedi eu cyflwyno yn ystod yr hanner cyntaf.

Er bod dysgu cyfunol a defnyddio technoleg i gysylltu gyda'r ysgolion yn cynnig nifer o bosibiliadau, byddai'n dod â nifer anghymesur o heriau yn ei sgil hefyd e.e gofod a goruchwyliaeth bwrpasol ac addas, gosod amserlen ac ymateb i gwricwlwm pob ysgol unigol. Nodwyd nad yw dysgu digidol gyfwerth â'r profiad o ddysgu wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth ymarfer iaith lafar ac ystum.

Nodwyd y byddai'n well gan staff y canolfannau trochi gadw at y model presennol (Model 1) os nad ydy cynyddu'r dyddiau yn y gofod trochi (Model 4) yn bosib.

1/10/25 - Penaethiaid Adrannau Cymraeg Ysgolion Uwchradd

Nodwyd y byddai cynyddu'r amser yn y canolfannau trochi yn ystod hanner cyntaf y cwrs yn rhoi cyfle i'r Gymraeg wreiddio ond y byddai gweithredu model 3 a chefnogi disgyblion trochi mewn ystod eang o bynciau yn heriol. Nodwyd nad yw'n ymarferol bosib i staff gynnal trafodaeth wythnosol gyda staff y canolfannau. Croesawyd cyfle i gyd weithio gyda'r Gyfundrefn Drochi i greu adnoddau parod i drochwyr hŷn.

5.2 Ymgynghori pellach yn ystod yr wythnosau nesaf :-

Penaethiaid Ysgolion Cynradd (GYDCA) - Hydref 14eg
Penaethiaid Uwchradd (GCSU) – Hydref 15fed

Bydd modd adrodd yn ôl ar lafar i aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Hydref 16eg.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 O ran cydweithio a chynnwys eraill, rydym eisoes wedi cynnal grwpiau ffocws gyda rhieni, dysgwyr, staff a phenaethiaid ysgolion Gwynedd ac wedi derbyn sylwadau gan

unigolion. Rydym yn bwriadu cydweithio gydag ysgolion, yr Athrofa Genedlaethol a Phrifysgol Bangor o ran darparu adnoddau a threfnu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr.

Mae cynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi yn cydnabod yr angen i adnabod cryfderau a materion i'w gwella i sicrhau gwasanaeth gorau posib i drigolion Gwynedd.

Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn datblygu'n ddinasyddion hyderus dwyieithog yn gwella cyfleoedd iddynt yn addysgol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yn yr hirdymor ac yn cyfoethogi eu profiad o fyw a gweithio trwy'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Mae grymuso Cyfundrefn Addysg Drochi y Sir yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu dinasyddion dwyieithog ac yn cydymffurfio hefo statws yr iaith Gymraeg yng nghyd destun Cyrff Cyhoeddus.

7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae asesiad effaith amserol a chymesur ar y gweill.

Mae'r ystyriaethau isod yn dangos yn glir fod y Gyfundrefn Drochi rhoi **sylw dyledus i leihau anghydraddoldeb** ac yn cyd-fynd â dyletswyddau'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cydraddoldeb** :

- Sicrhau cludiant ar gyfer disgyblion ac ystyried ehangu cyfleoedd trochi o fewn y canolfannau
- Addasu dulliau addysgu a chynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy'n profi anfantais
- Sicrhau bod lleisiau teuluoedd o bob cefndir yn rhan o ddatblygu a gwerthuso'r ddarpariaeth.
- Cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb cyn cyflwyno polisïau neu gynlluniau newydd.
- Mesur effaith trochi nid yn unig ar sgiliau iaith ond hefyd ar gyfranogiad cymdeithasol, hyder a thegwch cyfleoedd.

Y Gymraeg : - Mae unrhyw newidiadau yn narpariaeth y Gyfundrefn Drochi yn sgil ymrwymiad i sicrhau tegwch ieithyddol a chymdeithasol i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir. Mae'r iaith yn rhan o'n hunaniaeth a sgiliau dwyieithog yn cynyddu cyfleoedd gwaith ac yn cryfhau'r economi. Anelir i adeiladu sylfeini ieithyddol cadarn er mwyn cynnal y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, sicrhau nad yw plant yn colli'r cyfle i ddod yn rhugl yn y Gymraeg trwy weithredu'n gynnar, cysylltu ag addysg, diwylliant, iechyd a chydardoddeb a chynnal partneriaethau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni i ddarparu llwybrau trochi. Rhown lais i deuluoedd a dysgwyr wrth lunio a datblygu trefniadau trochi.

8 . Camau Nesaf

- Ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid allweddol gweler **5.2**
- Ymgysylltu gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, Hydref 16eg
- Cyflwyno cynnig i'r Cabinet
- Gweithredu'r penderfyniad

9. Atodiadau

Atodiad 1 : Adroddiad Estyn – Trefniadau trochi yn y Gymraeg Cyngor Sir Gwynedd
Dyddiad yr arolygiad : Mawrth 2025

Atodiad 2: Adroddiad Prifysgol Bangor- Archwilio effeithlonrwydd y model Trochi Iaith Gymraeg mewn ysgolion yng Ngwynedd: Astudiaeth Achos Fanwl

Atodiad 3: Sut rydym yn arolygu (y broses arolygu) Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Ar gyfer arolygiadau o 2024.

Atodiad 4 : Beth rydym yn ei arolygu : Trefniadau Trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Ar gyfer arolygiadau o 2024.

Atodiad 5 : Asesu Effaith ar Bobl Gwynedd

Adroddiad

Trefniadau Trochi yn y Gymraeg

Cyngor Sir Gwynedd/Gwynedd County Council

**Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Chyngor Sir Gwynedd/Gwynedd County Council

Enw'r darparwr	Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd - Cyngor Sir Gwynedd/Gwynedd Immersion Education System - Gwynedd County Council
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Dyddiad dechrau'r arolygiad	10/03/2025
Cyd-destun Cafodd Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd ei ailstrwythuro ym mis Ionawr 2023. Trwy hyn, sefydlwyd chwe uned drochi iaith mewn tair ardal ledled Gwynedd, sef yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Nod yr unedau trochi yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i newydd ddyfodiaid am 10 wythnos er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn at brofiadau addysg ddwyieithog. Croesewir disgyblion Blwyddyn 2-Blwyddyn 4 i'r tair uned gynradd a disgyblion Blwyddyn 5-Blwyddyn 9 i'r tair uned bontio. Darperir cludiant am ddim i'r disgyblion o'r cartref i'r unedau am bedwar diwrnod yr wythnos, gyda'r disgyblion yn mynd i'r ysgolion prif lif ar y dyddiau Gwener. Fel rhan allweddol o'r ddarpariaeth, mae staff y chwe uned drochi yn cefnogi'r disgyblion yn yr ysgolion prif lif ar y ddyddiau Gwener a phan maent wedi dychwelyd yn barhaol i'r ysgolion hyn. Fel rhan bwysig o'r ddarpariaeth, mae gan athrawon fynediad at adnoddau sy'n hygyrch ar lwyfan digidol er mwyn cefnogi'r disgyblion i barhau i gaffael y Gymraeg dros gyfnod. Mae hyn o fudd i'r disgyblion wrth iddynt ddatblygu eu medrau ymhellach ar draws y meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	

Crynodeb

Mae Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn ddarpariaeth hynod werthfawr i ddisgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r Gymraeg. Caiff y gyfundrefn ei harwain gan bennaeth medrus sydd wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn arloesi i'w chyfnod nesaf yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau ysgogol i ddisgyblion sy'n seiliedig ar bentref, 'Aberwla'. Law yn llaw â'r cynllun, darperir adnoddau buddiol, sy'n cynnwys adnoddau rhithwir, i ddisgyblion eu defnyddio i ennyn a chynnal eu diddordeb wrth ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus.

Nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw bod athrawon a chymorthyddion yn arddel egwyddorion trochi iaith yn effeithiol, sy'n helpu disgyblion i fagu hyder wrth ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a Chymreig. Mae ganddynt berthynas waith hynod gadarnhaol â'r disgyblion sy'n annog parch a chwarteisi yn gyson. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac yn meithrin eu lles yn werthfawr wrth iddynt eu cefnogi i ddysgu o'u camgymeriadau a bod yn barod i fentro. At eil gilydd, nid yw staff yn cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau monitro wrth hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn gynyddol effeithiol.

Mae staff yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau diddorol a chreadigol sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol wrth gaffael y Gymraeg. Trwy hyn, o'u mannau cychwyn, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd hynod gadarn yn eu medrau Cymraeg o fewn hyd y cwrs.

Mae disgyblion yn mwynhau rhyngweithio'n frwdfrydig ag ystod gyfoethog o brofiadau dysgu, sydd yn ei dro, yn eu helpu i gaffael geirfa a phatrymau brawddeg yn gynyddol fedrus. Rhennir gwybodaeth werthfawr gyda staff yr ysgolion prif lif wrth i'r disgyblion drosglwyddo iddynt yn wythnosol ac ar ddiwedd eu cyfnod yn yr unedau trochi.

Un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth yw'r modd mae athrawon yn ymchwilio i arferion trochi iaith effeithiol ac yn eu rhannu â staff unedau ac ysgolion eraill. Mae hyn yn datblygu'r ddarpariaeth drochi yn ei chyfanrwydd yn hynod werthfawr yn lleol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae staff yn cydweithio'n fedrus ag ystod o bartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd go iawn i ddisgyblion gaffael y Gymraeg a dwysáu eu dealltwriaeth o hanes a thraddodiadau Cymru a'r byd ehangach.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol i barhau i wella:

- A1. Datblygu strwythur arweinyddiaeth a phrosesau hunanwerthuso i ddarparu digon o gyfleoedd i staff fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gynyddol effeithiol

Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Prif werthusiad

Mae pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn arweinydd cadarn ac angerddol dros ddatblygu darpariaeth drochi iaith sy'n seiliedig ar addysgeg effeithiol. Mae ganddo weledigaeth uchelgeisiol wrth sicrhau bod y gyfundrefn yn arloesi'n gyson. O fewn y trefniant cyfredol, mae'r unedau trochi yn parhau i fod yn rhan allweddol o weledigaeth yr awdurdod lleol. Mae datblygu'r ddarpariaeth i'w chyfnod nesaf yn rhan greiddiol o bolisiâu'r awdurdod, fel y Polisi Iaith a'r Cynllun Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg. Mae strwythur y gyfundrefn yn cymell cydweithio cyson ac atebolrwydd perthnasol rhwng y pennaeth a'r staff, swyddogion yr awdurdod, ynghyd â'r cynghorwyr.

Mae angerdd a brwdfrydedd staff yr unedau trochi yn hybu cymuned ddysgu gartrefol a byrlymus. Maent yn rhoi profiadau dysgu ysgogol a phwrpasol i'r disgyblion gan adeiladu'n grefftus ar ddulliau caffael iaith. Mae'r cynllunio yn cael ei gyflawni'n systematig, gyda'r athrawon yn darparu cyfleoedd i ailymweld ac adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol. Gwna'r staff hyn drwy ddefnyddio ystod o symbyliadau ysgogol i ennyn a chynnal diddordeb disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn rhyngweithio â gemau rhithiol ac ymarferol, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau canu a drama amrywiol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion atgyfnerthu geirfa a phatrymau brawddeg yn gyson wrth iddynt gydweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau bychan a charfanau mwy.

Cynllunio bwriadus i sicrhau dilyniant a pharhad wrth gefnogi disgyblion i gaffael medrau Cymraeg mewn cyd-destun cyfoes

Mae cydweithio'r athrawon ar y cynllun 'Aberwla' wrth gyfoesi'r ddarpariaeth flaenorol yn eu cefnogi i adeiladu'n systematig ar yr egwyddorion allweddol wrth i ddisgyblion gaffael y Gymraeg.

Mae athrawon yn gweithredu'r cynllun i ddarparu ystod o weithgareddau cyson a difyr, sy'n galluogi'r disgyblion i gaffael geirfa a phatrymau brawddeg yn fwriadus a chydlynus. Trwy gyfrwng adnoddau arloesol sy'n cefnogi'r dysgu yn werthfawr, darperir profiadau dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio adnoddau rhithwir wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn cyd-destun pwrpasol a chynhwysol, er enghraifft wrth ymweld ag ystod o adeiladau ym mhentref 'Aberwla'.

Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fagu hyder y disgyblion a'u mwynhad wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu cymuned.

Mae medrau cyfathrebu Cymraeg staff yr unedau trochi yn hynod gadarn. Maent yn angerddol dros ddatblygu medrau gwrando a siarad y disgyblion ac yn sgwrsio'n fyrlymus yn gyson drwy ddefnyddio ystum corff ac ailadrodd pwrpasol er mwyn iddynt efelychu geirfa a phatrymau brawddeg cywir. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio dulliau holi effeithiol i wirio dealltwriaeth a dyfnhau dysgu'r disgyblion. Mae athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol wrth werthuso'r dysgu yn gyson. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd hynod gadarn o'u mannau cychwyn yn eu medrau Cymraeg, o fewn hyd y cwrs.

Mae gan staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o gefndiroedd amrywiol y disgyblion, ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion lles a dysgu. Er enghraifft, mae dealltwriaeth staff o effaith trawma ar ddatblygiad plant yn chwarae rhan flaenllaw wrth gynllunio'n ystyrlon a diwallu anghenion y disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin eu lles a chymhwyso eu medrau Cymraeg mewn ystod dda o feysydd dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau dawnsio gwerin, lles emosiynol ac wrth ddysgu sut i dyfu planhigion gyda garddwr enwog.

Un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth yw'r perthnasoedd gwaith hynod gadarnhaol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae athrawon yn sefydlu trefn a disgwyliadau uchel o ran ymddygiad ac agweddau at ddysgu. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae'r parch maent yn ei ddangos at oedolion ac ymwelwyr yn glodwiw.

Mae gan athrawon a chymorthyddion ddisgwyliadau uchel o bob disgybl ac yn dyheu am y lles, cynnydd a'r safonau gorau iddynt yn yr unedau trochi ac wrth iddynt ddarparu'r ôl-ofal ar eu cyfer yn yr ysgolion prif lif. Maent yn hyrwyddo ethos Cymreig, ac yn dathlu hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn dathliad 'ras yr iaith'. Mae athrawon yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau dysgu ac yn defnyddio ystod o adnoddau gweledol yn llwyddiannus. Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb bron bob disgybl ac yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau gwrando a siarad yn gadarn.

Defnyddir cymorthyddion yn hynod effeithiol i ddarparu cefnogaeth fwriadus i ddisgyblion, ac yn yr arfer orau, maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i hybu dyfalbarhad. Mae'r staff yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn werthfawr, sy'n cyfrannu at falchder cynhenid a hyder cynyddol y disgyblion wrth iddynt wneud cynnydd cyflym wrth gaffael y Gymraeg a dod yn ddwyieithog neu'n amlieithog.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus wrth gyddarllen ystod o destunau yn unol â'u cam datblygu. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi geirfa'r disgyblion wrth iddynt gyfranogi mewn sgysiau cyffredinol yn yr amgylchedd dysgu. Mae'r disgyblion yn cadarnhau eu dealltwriaeth o'r storïau amrywiol drwy weithgareddau difyr fel drama byrfyfyr a chwarae gemau bwrdd amrywiol. Mae'r disgyblion hyn yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol wrth gywain gwybodaeth am hanesion Cymru fel boddi cwm Tryweryn a stori Gelert, fel rhan o'r gweithgareddau pontio wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol prif-lif. Yn ogystal, mae athrawon yn trefnu ymweliad â Beddgelert sy'n atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o eirfa a phatrymau brawddeg amrywiol yn llwyddiannus. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn galluogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu mewn gweithgareddau cyfannol ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrïo ar eu dysgu ac i werthuso eu cynnydd yn effeithiol yn erbyn yr amcanion dysgu. Mae'r perthnasoedd cryf a'r amgylchedd dysgu cynhwysol yn galluogi'r disgyblion i ymgysylltu'n effeithiol ag adborth adeiladol staff a chyfoedion. Mae hyn yn helpu bron bob disgybl i ddysgu o'u camgymeriadau a bod yn barod i fentro. O ganlyniad, maent yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu i adnabod eu cryfderau a'u camau nesaf yn gywir wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae athrawes beripatetig y Gymraeg, sy'n addysgu'r disgyblion ieuengaf mewn tair ysgol mewn ardal benodol o'r sir, yn cefnogi'r disgyblion yn fuddiol wrth gyflwyno'r iaith. Darperir ystod o weithgareddau pwrpasol er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddeg syml yn gynyddol hyderus. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at eu hyder wrth iddynt ddysgu a chwarae yn Gymraeg.

Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau hunanwerthuso perthnasol sy'n eu cefnogi i olrhain effaith y ddarpariaeth dros gyfnod. Yn gyffredinol, nid yw'r strwythur arweinyddiaeth a phrosesau hunanwerthuso yn darparu digon o gyfleoedd i staff fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gynyddol effeithiol. Mae arweinwyr yn gweithredu ar flaenoriaethau yn fwriadus er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion lles a ieithyddol y disgyblion. Er enghraifft, mae swyddogion yn defnyddio cyllid yn ddarbodus i ddatblygu'r cynllun 'Aberwla' ymhellach er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cynrychioli'r gymuned gyfoes yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion at y Gymraeg, Cymru a'r byd ehangach.

Mae disgrifiadau swydd a threfniadau rheoli perfformiad y staff yn eu cefnogi i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus mewn amgylchedd cefnogol. Darperir cyfleoedd cyson i staff rwydweithio mewn sesiynau dysgu proffesiynol amrywiol, er enghraifft trwy fynychu sesiynau am ddealltwriaeth pellach o'r cynllun 'Aberwla' ac i ddatblygu eu medrau digidol. O ganlyniad, trwy hybu diwylliant o gydweithio a rhannu addysgeg effeithiol ymysg staff, mae'r trefniadau hyn yn darparu cysondeb ar draws yr unedau sydd, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd hynod gadarn yn eu medrau Cymraeg.

Mae'r cydweithio rhwng staff yr unedau trochi ac arweinwyr a staff yr ysgolion yn werthfawr, er enghraifft wrth iddynt rannu gwybodaeth berthnasol am gynnydd y disgyblion yn eu medrau Cymraeg yn wythnosol. Fel rhan o'r gefnogaeth ôl-ofal, mae'r broses drosglwyddo yn cefnogi'r disgyblion yn briodol wrth iddynt ddychwelyd o'r unedau i'r ysgolion prif lif yn wythnosol, ac ar ddiwedd y cwrs. Mae'r adnoddau sy'n cael eu gosod ar lwyfan digidol yn gyfrwng defnyddiol i staff eu defnyddio i gefnogi'r disgyblion yn barhaus i atgyfnerthu geirfa a phatrymau brawddeg. Trwy hyn, mae disgyblion yn parhau i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau Cymraeg mewn amrywiol gyd-destunau.

Mae staff yr unedau yn rhannu egwyddorion a dulliau trochi effeithiol yn llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid, er enghraifft gydag athrawon yr awdurdod a myfyrwyr Prifysgol Bangor. Trwy'r bartneriaeth hon, mae athrawon yr ysgolion prif lif yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth wrth iddynt fireinio eu harferion addysgu iaith ymhellach ar gyfer yr holl ddisgyblion. Yn ogystal, mae athrawon yn treulio amser yn fuddiol wrth ymchwilio ymhellach i addysgeg a methodoleg trochi effeithiol, er enghraifft syniadau am ddulliau i gefnogi parhad yn y dysgu wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, a sut i gynnwys y rhieni yn y broses caffael iaith. Maent yn cyflwyno'r canfyddiadau yn fwriadus wrth gynhyrchu cyfres o weminarau digidol sydd yn adnodd cenedlaethol hynod werthfawr i staff unedau trochi ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Un o gryfderau'r gyfundrefn yw'r modd mae staff yn manteisio ar gyfleoedd cyson i gyfoethogi profiadau'r disgyblion trwy gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid.

Cydweithio effeithiol rhwng staff yr unedau trochi a pherfformwyr creadigol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau caffael iaith trwy'r prosiect 'Tirwedd'

Mae pennaeth y gyfundrefn drochi wedi gwneud cais am grant refeniw er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hyfedredd a hyder yn eu medrau Cymraeg. Trwy hyn, mae staff wedi cydweithio'n gyson ag ysgolion cynradd mewn dwy ardal wahanol o'r awdurdod ynghyd â pherfformwyr creadigol cwmni drama er mwyn trefnu dathliad creadigol yng nghymunedau lleol y disgyblion.

Mae staff yr unedau wedi hyfforddi perfformwyr creadigol er mwyn eu huwch-sgilio ag arferion trochi effeithiol wrth iddynt gydweithio â'r disgyblion i greu cyweithiau artistig. Trwy hyn, wrth gynnal y gweithdai creadigol, defnyddiodd y perfformwyr ddulliau trochi effeithiol yn gyson gyda'r disgyblion er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio a chymhwyso'r Gymraeg o fewn y celfyddydau mynegiannol.

Darparwyd cyfle i'r disgyblion gyflwyno eu cyweithiau artistig fel rhan o orymdaith Gŵyl Ddewi yn nghymunedau lleol y disgyblion. Trwy gydweithio effeithiol â phartneriaid eraill, er enghraifft y Siarter Iaith a'r mentrau iaith, llwyddwyd i godi balchder a hyfedredd y disgyblion yn Gymraeg. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu gwerthfawrogiad rhieni ac aelodau'r gymuned ehangach o werth a budd y Gymraeg.

Mae'r pennaeth yn defnyddio dulliau cyfathrebu'n effeithiol wrth hyrwyddo'r ddarpariaeth gyda rhieni, er enghraifft wrth gynnal diwrnodau agored yn yr unedau trochi am yr hyn y bydd eu plant yn ei gyflawni wrth gaffael y Gymraeg. Mae staff yn sicrhau bod gan rieni gyfleoedd gwerthfawr i gefnogi eu plant gartref ynghyd â rhannu gwybodaeth â nhw am y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg eu hunain.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff, arweinwyr, a phenaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn arsylwi'r addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- yn cyfarfod â disgyblion (cyfredol a chyn ddisgyblion) i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol o waith y darparwr
- yn cyfarfod â staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion ac eraill i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso
- yn ystyried Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) / cynllun gwella ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. '*y rhan fwyaf o ddisgyblion...*' neu '*ychydig iawn o ddisgyblion...*'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).



**Archwilio effeithlonrwydd y model Trochi Iaith Gymraeg mewn ysgolion yng Ngwynedd:
Astudiaeth Achos Fanwl**

**Ysgol Addysg
Prifysgol Bangor**

Tîm ymchwil

Dr Lowri Mair Jones
Dr Margiad Williams
Dr Anwen Jones
Yr Athro Enlli Thomas

Gorffennaf 2025

Cynnwys yr Adroddiad

<i>Termau Allweddol</i>	4
<i>Ffigyrau</i>	5
<i>Tablau</i>	5
Cyflwyniad	6
Cyd-destun y ddarpariaeth Drochi yng Ngwynedd	6
<i>Nodau'r Ymchwil</i>	7
Methodoleg	8
<i>Cyfranogwyr</i>	8
<i>Arsylwadau</i>	9
<i>Holiaduron Rhieni/Gofalwyr</i>	10
<i>Grwpiau Ffocws Disgyblion</i>	10
<i>Grwpiau Ffocws Athrawon</i>	10
<i>Ystyriaethau Moesegol</i>	11
<i>Cyfngiadau</i>	11
Data o'r Arsywlwadau	13
<i>Integreiddio Cynnwys, Diwylliant, Iaith a Llythrennedd</i>	13
<i>Rhoi Sylw i Dwf Iaith Parhaus a Gwella Cywirdeb</i>	15
<i>Sicrhau bod Mewnbyn yn Gynhwysfawr</i>	16
<i>Creu Amgylchedd Dysgu Cyfoethog yn y Gymraeg</i>	18
<i>Defnyddio Iaith Athro Yn Effeithiol (Iaith Darged)</i>	20
<i>Hyrwyddo Allbwn Estynedig Disgyblion</i>	21
<i>Rhoi Sylw i Anghenion Amrywiol Dysgwyr</i>	22
<i>Casgliad</i>	23
Dadansoddiad Holiaduron Rhieni/ Gofalwyr	24
<i>Agweddau Rhieni tuag at y Gyfundrefn drochi</i>	24
<i>Lles Disgyblion yn y Gyfundrefn Drochi</i>	26
<i>Casgliad</i>	27
Dadansoddiad Thematig o'r Grwpiau Ffocws	28
<i>Y Model Trochi a Lles Disgyblion</i>	29
<i>Amlygiad i'r Iaith Darged ac oriau Cyswllt</i>	29
<i>Ymdeimlad o Berthyn a Pherthnasau Cymheiriaid</i>	30
<i>Cefnogaeth leithyddol ac ymgysylltu Cwricwlaid</i>	31
<i>Trochi i ystod o oedrannau</i>	33
<i>Dilyniant yn y Dysgu</i>	34
<i>Adnoddau</i>	35
<i>Cynnydd Disgyblion</i>	36
<i>Cymhelliant Disgyblion</i>	37

<i>Mewnbwn yr Athro a Dulliau Trochi</i>	38
<i>Dysgu Proffesiynol</i>	39
<i>Cyfathrebu</i>	40
<i>Defnydd Allgyrsiol</i>	44
Cyfleoedd Allgyrsiol yn y cyd-destun Addysg	44
Agweddau a Chefnogaeth y Cartref	45
<i>Casgliad</i>	47
Astudiaethau Achos	48
<i>Astudiaeth Achos 1</i>	48
<i>Astudiaeth Achos 2</i>	49
Casgliad ac Argymhellion	52
<i>Casgliad</i>	52
<i>Argymhellion</i>	55
Llyfryddiaeth	56

Termau Allweddol

Term	Diffiniad
Canolfan Iaith/ Canolfan Drochi	Mae'r Canolfannau iaith yn darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i newydd-ddyfodiaid er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog (Gwynedd, 2022)
Trochi Cynnar	Mae trochi cynnar yn golygu cyflwyno a defnyddio'r Gymraeg fel unig iaith yr addysgu yn y cyfnod sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Yn yr arfer orau, mae hyn yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n fwriadus i ddysgwyr mewn sesiynau iaith penodol, ynghyd â darparu cyfleoedd cyson iddynt gaffael a chymhwyso'u medrau Cymraeg trwy brofiadau cyfoethog o fewn a thu hwnt i'r dosbarth. (ESTYN, 2022)
Trochi Hwyr	Mae trochi hwyr yn golygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog sydd heb brofi cyfnod cyfan o drochi cynnar yn y Gymraeg. Gall y dysgwyr hyn fod yn gwbl newydd i'r Gymraeg neu'n ail ymgysylltu â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. (ESTYN, 2022)
Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)	Amser dynodedig athrawon i gynllunio a pharatoi, ac felly nid ydynt ar yr amserlen addysgu am y cyfnod hwn.
Dysgu Cynnwys ac iaith yn Integredig (Content and Language Integrated Learning) CLIL	CLIL yw dull o fynd ati i ddysgu pwnc a chynnwys y pwnc hwnnw, drwy gyfrwng yr iaith darged.

Ffigyrau

Ffigwr 1: Niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r Ddarpariaeth Drochi	7
Ffigwr 2:Dyluniad y Broses Arsylwi	9
Ffigwr 3: Trosolwg o'r Model Arsylwi	13
Ffigwr 4: Trosolwg o laith y Cartref.....	24

Tablau

Tabl 1: Trosolwg o'r Sampl Cyfranogwyr Terfynol.....	8
Tabl 2: Strategaethau Addysg Drochi i integreiddio Cynnwys laith, Diwylliant a Llythrennedd	14
Tabl 3: Strategaethau Addysg Drochi i Roi Sylw i Dwf laith Parhaus a Gwella Cywirdeb	15
Tabl 4:Strategaethau Addysg Drochi i Sicrhau bod Mewnbwn yn Gynhwysfawr	16
Tabl 5: Strategaethau Addysg Drochi i Greu Amgylchedd Dysgu Cyfoethog yn y Gymraeg	18
Tabl 6:Strategaethau Addysg Drochi i Ddefnyddio laith Athro Yn Effeithiol (laith Darged)	20
Tabl 7:Strategaethau Addysg Drochi i Hyrwyddo Allbwn Estynedig Disgyblion	21
Tabl 8:Strategaethau Trochi i Roi Sylw i Anghenion Amrywiol Dysgwyr.....	22
Tabl 9:Gweithgareddau cefnogi i staff ysgolion a rhieni yn ystod y model	40

Cyflwyniad

Nod yr astudiaeth gynhwysfawr hon yw gwerthuso effaith a chraffu ar ddarpariaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi bresennol yng Ngwynedd i weld os ydyw yn cyflawni'r addewid ac yn rhoi'r sylfaen angenrheidiol i ddisgyblion yng Ngwynedd gaffael y Gymraeg wrth gychwyn ar eu taith ieithyddol i ddod yn siaradwyr newydd. Yn fodel sydd wedi ei selio ar gysyniad sydd wedi hen sefydlu yn y llenyddiaeth o amgylch cynllunio ieithyddol, polisi iaith ac addysg mewn ieithoedd lleiafrifol (Robert 2009; Hodges 2012, 2024),

“Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i newydd-ddyfodiaid er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn i brofiadau addysg ddwyieithog.” (Cyngor Gwynedd, 2025)

Cyd-destun y ddarpariaeth Drochi yng Ngwynedd

Ym mis Ionawr 2023, ailstrwythurwyd y Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd yn sylweddol. Arferai'r ddarpariaeth gynnwys pedair uned drochi ar gyfer y sector gynradd ac un ar gyfer yr uwchradd. Nod y model trochi gwreiddiol oedd cynnig cwrs dwys yn y Gymraeg i ddisgyblion oedd yn newydd-ddyfodiaid, gan eu galluogi i ymdoddi'n llawn i gymdeithas ddwyieithog Gwynedd a bod yn rhan weithredol o fywyd addysgol y sir.


Roedd y model trochi blaenorol yn darparu cwrs 10 wythnos i ddisgyblion cynradd ac wyth wythnos i ddisgyblion uwchradd, gyda phlant yn mynychu'r canolfannau am bum diwrnod yr wythnos, heb unrhyw gyswllt gyda'r ysgol prif ffrwd yn ystod y cwrs trochi.

Yn sgil penderfyniad a wnaed gan Gyngor Gwynedd ym mis Gorffennaf 2021, cytunwyd i gefnogi gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi newydd hyd at y flwyddyn 2032 ac ymlaen. O ganlyniad, sefydlwyd chwe uned drochi newydd wedi eu lleoli yn strategol ar draws tri rhanbarth y sir: Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

O dan y trefniant newydd, cynigir cwrs dwys pedwar diwrnod yr wythnos dros gyfnod o ddeg wythnos i'r disgyblion trochi. Bwriad y strwythur hwn yw caniatáu i'r disgyblion gynnal cyswllt rheolaidd gyda'r ysgolion prif ffrwd, a pharhau i ryngweithio gyda ffrindiau, staff ac agweddau cymdeithasol ehangach o fywyd yr ysgol tra hefyd yn mynychu'r ganolfan drochi.

Mae disgyblion Blwyddyn 2 i Flwyddyn 4 yn mynychu'r canolfannau trochi cynradd a disgyblion Blwyddyn 5 i Flwyddyn 9 yn mynychu'r canolfannau trochi Uwchradd. Yn ogystal, mae staff y canolfannau trochi yn darparu

cefnogaeth i'r disgyblion wrth ddychwelyd i'r brif ffrwd ar ddyddiau Gwener, ac yn dilyn y cyfnod yn y ganolfan pan fyddant yn dychwelyd yn ôl i'r prif ffrwd lawn amser.



Ffigwr 1: Niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r Ddarpariaeth Drochi

Mae niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth drochi yn arddangos patrwm cyson dros y pedair blwyddyn academaidd ddiwethaf, gyda thwf bach wedi bod dros y ddwy flynedd ddiwethaf fel sy'n cael ei arddangos yn Ffigwr 1.

Nodau'r Ymchwil

Prif amcanion yr ymchwil hwn felly, yw gwerthuso pa mor effeithiol ydyw model trochi newydd addysg Gymraeg Gwynedd. Mae'r ymchwil wedi ei ddylunio i ateb y pedwar cwestiwn ymchwil canlynol:

- I. Pa mor addas ac effeithiol ydy'r model wrth sicrhau defnydd disgyblion o'r iaith darged pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd yn ystod y cwrs?
- II. Pa mor effeithiol ydy'r model o safbwynt galluogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg yn ddigonol?
- III. Oes cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg ymhellach yn y Gyfundrefn Drochi ac yn yr Ysgolion prif ffrwd?
- IV. Pa mor addas ac effeithiol ydy'r model wrth ystyried llesiant y disgyblion yn ystod y cyfnod trochi?

Methodoleg

Defnyddiwyd dulliau cymysg ar gyfer y gwerthusiad hwn, gyda phedair elfen wahanol i ddarparu data ansoddol a meintiol: arsylwadau o'r lleoliadau dysgu ac addysgu, arolwg ar-lein, grwpiau ffocws a chyfweliadau lled-strwythuredig. Caniataodd y cyfuniad o ddulliau cymysg i'r tîm ymchwil gasglu data cyfoethog er mwyn gwerthuso effeithlonrwydd y model trochi, ac ateb y cwestiynau ymchwil.

Cyfranogwyr

Bwriad yr ymchwil oedd recriwtio amrywiaeth o gyfranogwyr (disgyblion sy'n mynychu'r canolfannau trochi, rhieni'r disgyblion yn y canolfannau trochi, ac athrawon y canolfannau trochi ac athrawon prif ffrwd) ar gyfer yr elfennau gwahanol o'r astudiaeth. Cynhaliwyd yr ymchwil mewn pedair canolfan iaith yng Ngwynedd, dwy i blant oed cynradd (Blynyddoedd 2-4) a dwy i blant hŷn (Blynyddoedd 5-9). Ar ôl adnabod y pedair canolfan, cafodd disgyblion o fewn y canolfannau eu recriwtio yn dilyn derbyn caniatâd rhiant/gofalwr (gweler y rhan Ystyriaethau Moesegol).

Yn dilyn hyn, cafodd ysgolion prif ffrwd y disgyblion eu hadnabod a chysylltwyd â hwy er mwyn hwyluso recriwtio disgyblion o'r dosbarthiadau trochi iaith ar gyfer yr arsylwadau (gweler yr adran Arsylwi). At ddibenion recriwtio rhieni neu ofalwyr, gofynnwyd i'r canolfannau iaith gysylltu â'r unigolion perthnasol yn uniongyrchol er mwyn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil.

Ar gyfer recriwtio'r athrawon, dosbarthwyd gwahoddiad i bob ysgol a chanolfan iaith ar draws Wynedd, gan roi'r cyfle iddynt gyfrannu at grŵp ffocws i drafod y ddarpariaeth trochi iaith neu gyflwyno adborth drwy gyfrwng holiadur ar-lein anhysbys.

Tabl 1: Trosolwg o'r Sampl Cyfranogwyr Terfynol


Elfen o'r prosiect	Sampl terfynol
Arsylwadau	15 Disgybl
Grŵp Ffocws Disgyblion	21 Disgybl Canolfan iaith mewn 5 grŵp ffocws
Grŵp Ffocws Athrawon/Staff Canolfan	10 Staff Canolfan iaith mewn 4 grŵp ffocws
Grŵp Ffocws Athrawon/ Staff Prif Ffrwd	9 Athro Prif Ffrwd mewn 3 grŵp ffocws
Holiadur Rhieni/Gofalwyr	23 Rhiant/Gofalwr
Nifer yr Ysgolion Prif Ffrwd arsylwyd	8 Ysgol
Nifer y Canolfannau iaith arsylwyd	4 Canolfan

Arsylwadau

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys arsylwi disgyblion ac athrawon mewn dau gyd-destun addysgol gwahanol, sef y ganolfan drochi iaith a'r ysgol brif ffrwd. Cynhaliwyd arsylwadau ar dri disgybl o bob un o'r pedair canolfan drochi iaith ynghyd â'u hathrawon, gan gynnwys pedwar achlysur arsylwi ar wahân: **dau yn y ganolfan iaith, a dau yn yr ysgol brif ffrwd**. Strwythurwyd pob sesiwn arsylwi yn dri cham penodol:

1. arsylwad ffurfiol yn nosbarth yr athro gyda'r disgybl targed;
2. arsylwad o weithgaredd grŵp dan arweiniad yr athro, gyda'r weithgaredd yn cael ei dewis gan yr athro fel rhan o'r wers;¹ ac
3. arsylwad anffurfiol o'r disgybl targed yn rhyngweithio ar y buarth mewn cyd-destun cymdeithasol naturiol.

Mae Ffigwr 2 yn arddangos amserlen arsylwi yr ymchwili dros y cyfnod o ddeg wythnos.



Ffigwr 2: Dyluniad y Broses Arsylwi

Defnyddiwyd Rhestr Wirio Strategaethau Addysgu Trochi (Fortune, 2014) fel fframwaith ar gyfer yr arsylwadau, gan sicrhau dull strwythuredig a chyson o asesu dulliau addysgu trochi ar draws y ddarpariaeth. Mae'r arsylwadau wedi eu fframio o amgylch saith ffocws penodol sy'n deillio o'r fframwaith sy'n craffu ar agweddau allweddol o addysgeg i gefnogi caffael iaith yn effeithiol. Yn yr achos hwn, ffocws yr arsylwadau oedd y Gymraeg. Y saith elfen i'r arsylwi oedd:

- Integreiddio cynnwys, diwylliant, iaith a llythrennedd

¹ Ni welwyd gweithgareddau grŵp ym mhob arsylwad

- Rhoi sylw i ddatblygiad iaith a gwella cywirdeb
- Creu mewnbwn dealladwy
- Creu awyrgylch ddysgu gyfoethog yn yr iaith darged
- Defnydd effeithiol o iaith lafar gan yr athro
- Hyrwyddo allbwn ymestynnol gan y disgybl
- Ymateb i ystod o anghenion

Holiaduron Rhieni/Gofalwyr

Dosbarthwyd holiadur ar-lein dienw i bob rhiant oedd â phlentyn yn mynychu un o'r pedair canolfan drochi iaith. Archwiliodd yr holiadur safbwyntiau'r rhieni ynghylch y rhaglen drochi, gan gynnwys eu barn am effaith y rhaglen ar ddatblygiad iaith a lles eu plant.

Grwpiau Ffocws Disgyblion

Cynhaliwyd grwpiau ffocws wyneb yn wyneb gyda disgyblion yn y pedair canolfan drochi iaith, ar ôl sicrhau caniatâd rhieni/gofalwyr yn ogystal â chaniatâd y disgyblion eu hunain. Cafodd y sesiynau eu recordio ar ffurf sain yn unig a'u trawsgrifio er mwyn eu dadansoddi yn ddiweddarach.

Er mwyn sicrhau bod y dull yn gynhwysol ac yn hygyrch i ddisgyblion ar draws ystod o oedrannau a lefelau gallu iaith, defnyddiwyd delweddau gweledol (wynebau lliw yn cynrychioli emosiynau hapus, niwtral ac anhapus) fel propiau i'r trafodaethau.

Roedd cwestiynau'r grwpiau ffocws yn archwilio amrywiaeth o agweddau am brofiadau'r disgyblion yn ystod y cyfnod trochi iaith. Roedd hyn yn cynnwys eu profiadau o ddysgu'r Gymraeg (elfennau cadarnhaol neu heriol, cyd-destunau defnyddio'r iaith), eu safbwyntiau ar ddulliau ac ymagweddau addysgu (teimladau ynghylch mynychu'r ganolfan iaith, strategaethau addysgu penodol, a sut maent yn teimlo am ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd ar ddydd Gwener), yn ogystal ag effaith dysgu Cymraeg ar eu bywydau, yn academiaidd, yn y cartref, ac yn y gymuned ehangach.

Grwpiau Ffocws Athrawon

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda staff o'r canolfannau trochi iaith yn ogystal â'r ysgolion prif ffrwd. Trefnwyd un grŵp ffocws penodol ar gyfer athrawon y canolfannau iaith, un ar gyfer y staff cynorthwyol yn y canolfannau, a thri grŵp ffocws ar gyfer athrawon ysgolion prif ffrwd, gyda grŵp ar wahân ar gyfer pob un o'r tair ardal yng Ngwynedd; Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yn rhithiol, drwy blatfform Microsoft TEAMS, ac fe'i recordiwyd (ar ffurf sain yn unig) cyn eu trawsgrifio'n fanwl ar gyfer dadansoddiad pellach. Roedd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn y grwpiau ffocws wedi eu haddasu o fframwaith cyfweiliadau a ddefnyddiwyd mewn astudiaeth flaenorol ar raglenni trochi Gaeleg (Duibhir, 2018).

Archwiliwyd nifer o agweddau allweddol o fewn y ddarpariaeth drochi, gan gynnwys hyfedredd iaith disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu'r Gymraeg, cysondeb a chyfathrebu rhwng y canolfannau a'r ysgolion prif ffrwd, effeithiolrwydd y model trochi cyfredol, ynghyd â chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff.

Ystyriaethau Moesegol

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn yn unol â chanllawiau moesegol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA, 2024). Sicrhawyd cymeradwyaeth foesegol cyn cychwyn yr ymchwil gan Bwyllgor Moeseg Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor (rhif cais moesegol 21082024-1202). Gwahoddwyd pob plentyn oedd yn mynychu'r pedair canolfan drochi iaith i fod yn rhan o'r ymchwil, a chan fod yr ymchwil yn cynnwys plant dan 16 oed, casglwyd caniatâd ysgrifenedig rhieni neu ofalwyr yn gyntaf. Gofynnwyd hefyd am ganiatâd rhieni/gofalwyr ar gyfer disgyblion ysgolion prif ffrwd a oedd yn bresennol yn y dosbarthiadau ble roedd y broses arsylwi yn digwydd.

Derbyniodd pob cyfranogwr (disgyblion, rhieni a staff) daflen wybodaeth gynhwysfawr a oedd yn egluro diben yr astudiaeth, rhesymau dros gael eu gwahodd i fod yn rhan ohoni, unrhyw risgiau posibl, sut y byddai'r data yn cael ei reoli a'i storio'n ddiogel, ynghyd â manylion cyswllt yr ymchwilwyr pe bai ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Gwnaed yn glir bod gan gyfranogwyr yr hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg cyn dechrau'r broses dadansoddi data, heb roi rheswm. Cadwyd cyfrinachedd ac anhysbysrwydd pob cyfranogwr trwy gydol y broses ymchwil, gan amnewid unrhyw wybodaeth adnabyddadwy (e.e., enwau, lleoliadau) gyda ffugenwau yn ystod y trawsgrifio. Storiwyd ffurflenni caniatâd wedi'u llofnodi mewn cabinet dan glo ym Mhrifysgol Bangor gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r ymchwilwyr yn unig, neu ar yriant diogel y Brifysgol.

Cyfyngiadau


Er i'r fethodoleg ymchwil roi mewnwelediad dwys i'r ddarpariaeth drochi dros dymor cyflawn yn y flwyddyn academiaidd 24-25, rhaid cydnabod bod cefndiroedd, galluoedd ac ymgysylltiad y disgyblion trochi gyda'r Gymraeg yn flaenorol yn medru amrywio o dymor i dymor. Rhoddodd yr astudiaeth hon fewnwelediad cadarn i safbwyntiau athrawon yn y cyd-destun trochi a'r prif ffrwd gan gynnig trosolwg i safbwyntiau sy'n rhai cyson o fewn y ddarpariaeth. Mae'r data a gasglwyd o setiau data rhieni/ gwarcheidwaid, disgyblion ac arsylwadau yn

cynnig safbwynt empeiraidd o'r cyfnod arsylwi a'r disgyblion penodol oedd yn ymgysylltu gyda'r ddarpariaeth drochi **dros gyfnod yr astudiaeth**.

Data o'r Arsylwadau

Fel yr amlygwyd yn y fethodoleg, roedd arsylwadau yn y Canolfannau Trochi a'r ysgolion prif ffrwd yn rhan ganolog o ddyluniad yr ymchwil hwn er mwyn rhoi mewnwelediad organig a chynhwysfawr i'r gyfundrefn drochi, y gefnogaeth a'r profiadau mae disgyblion yn eu profi.

Cyflwynir y dystiolaeth a gasglwyd o'r arsylwadau gan graffu ar y canolfannau, ac yna'r ddarpariaeth prif ffrwd, fel y gwelir yn Ffigwr 3, gan gynnig ymhygiadau allweddol o'r hyn a gafodd ei arsylwi wrth ystyried y cwestiynau ymchwil.



Ffigwr 3: Trosolwg o'r Model Arsylwi

Nid oes teclyn arsylwi pwrpasol wedi ei ddatblygu ar gyfer arsylwi gweithgareddau cyfundrefnau trochi (Dublin College University, 2023), ond defnyddiwyd addasiad o benawdau rhestr wirio Fortune (2014) i fframio'r arsylwadau ac i adrodd ar yr hyn arsylwyd. Mae'r arsylwadau felly'n cael eu cyflwyno o amgylch saith maes sy'n amlygu strategaethau allweddol wrth addysgu mewn cyd-destun trochi.

Bydd yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod arsylwadau yn y canolfannau, cyn cyflwyno'r hyn arsylwyd yn yr ysgolion prif ffrwd. **Mae'n hanfodol pwysleisio bod y rhan nesaf o'r astudiaeth yn cyflwyno data a gasglwyd yn ystod y cyfnod arsylwi yn unig.** Roedd hyn yn cynnwys dau arsylwad ym mhob canolfan drochi ac ysgol prif ffrwd oedd yn rhan o'r fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth hon, fel yr amlygwyd yn Ffigwr 3.

Integreiddio Cynnwys, Diwylliant, Iaith a Llythrennedd

Mae'r rhan hon yn canolbwyntio ar yr hyn arsylwyd o ran integreiddio cynnwys iaith, diwylliant a llythrennedd o fewn y ddarpariaeth drochi. Edrychwyd ar amcanion iaith sy'n benodol i ddatblygiad y dysgwyr sydd hefyd yn briodol wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r diwylliant, hefyd archwiliwyd unrhyw gyfleoedd ymestynol i gaffael yr iaith tu allan i nodau penodol y wers. Yn ogystal, archwiliwyd y defnydd o adnoddau pwrpasol megis caneuon, cerddi, llenyddiaeth, ac arteffactau i gefnogi dysgu'r iaith a dysgu am y diwylliant.

Tabl 2: Strategaethau Addysg Drochi i integreiddio Cynnwys Iaith, Diwylliant a Llythrennedd

Elfennau a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r model trochi
Pennu amcanion iaith penodol ac addas ym mhob gwers
Adnabod nodau dysgu diwylliannol addas sy'n gysylltiedig â'r nodau dysgu er mwyn datblygu defnydd iaith
Defnyddio caneuon, cerddi, llenyddiaeth, rhigymau, arteffactau dilys i addysgu iaith a diwylliant
Gwerthuso iaith a diwylliant ym mhob gwers

Y Canolfannau Iaith

Gwelwyd sawl enghraifft o ddefnydd effeithiol o strategaethau addysgu o ran integreiddio iaith, diwylliant a llythrennedd. Arsylwyd defnydd cyson ac effeithiol o ganeuon Cymraeg poblogaidd i gefnogi'r dysgu ar draws y canolfannau, ynghyd â defnydd o raglenni teledu Cymraeg. Roedd rhai o'r canolfannau yn ymestyn ar y defnydd hwn i fod yn ddefnydd effeithiol iawn, gan ddefnyddio'r caneuon i ddwyn i gof ddysgu blaenorol (ref), boed hynny drwy ddefnydd effeithiol o ganeuon a rhigymau Cymraeg, caneuon i ddysgu'r wyddor neu lliwiau'r enfys. Roedd y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r gweithgareddau hyn ar y cyfan ac yn ymddangos eu bod yn gyfarwydd gyda'r cynnwys dysgu (caneuon), sydd yn awgrymu cysondeb yn eu defnydd.

Mae enghreifftiau o ddysgu iaith ymestynnol yn effeithiol, drwy gemau adnabod (labelu lluniau a gemau paru) i ddysgu geirfa newydd, cyn mynd ymlaen i ffurfio brawddegau mwy cymhleth ar lafar o fewn cyd-destun y wers.

Roedd tystiolaeth gref o athrawon yn gosod amcanion dysgu iaith yn fwriadus, gan sicrhau bod y dysgwyr yn medru deall ac atgyfnerthu elfennau penodol cyn eu defnyddio mewn cyd-destun ehangach. Enghraifft nodedig oedd dysgu rhifau cyn symud ymlaen at dasg fwy ymestynnol sef gwaith cloc neu ddweud yr amser.

Mae defnydd cyson o gerddoriaeth Gymraeg poblogaidd drwy'r Siarter Iaith yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol ymysg y disgyblion, ond hefyd mwynhad a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymraeg poblogaidd. Mae'r defnydd cyson hwn ar draws y ddarpariaeth drochi yn atgyfnerthu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith a'r diwylliant gan fod yr arferion hyn yn dod yn rhan naturiol o'u diwrnod yn yr ysgol. Mae hyn atgyfnerthu arferion addysgol sydd wedi eu gwreiddio yn y diwylliant Cymraeg ac yn datblygu mynegiant diwylliannol wrth i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau iaith.

Ymhlygiad

Mae lle i ystyried sut y defnyddir cyfryngau megis rhaglenni teledu neu glipiau fideo i ddatblygu sgiliau llafar ymhellach. Gellid cynllunio'r cynnwys dysgu mewn blociau llai o amgylch y cyfrwng digidol gan ystyried cynllunio tasgau llafar a gweithgareddau yn ystod y broses wylio (gweler, e.e., Williams a Thomas, 2017) i ddatblygu sgiliau llythrennedd disgyblion ymhellach yn hytrach na gwyllo rhaglenni cyfan heb fewnbwn ieithyddol.

Ysgolion Prif Ffrwd

Roedd ysgolion prif ffrwd yn defnyddio caneuon poblogaidd mewn cyd-destunau anffurfiol i hyrwyddo iaith a diwylliant yn effeithiol, e.e., yn ystod amser ffrwythau, neu pan oedd disgyblion yn cwblhau tasgau annibynnol. Er hynny, roedd lle i fedru cynllunio'r defnydd o ganeuon poblogaidd yn well er mwyn datblygu sgiliau iaith yn benodol. Gwelwyd enghreifftiau difyr o ysgolion yn defnyddio caneuon Cymraeg i fframio'r cynnwys addysgol gyda'r dasg derfynol yn arwain at recordio perfformid o'r gân. Fodd bynnag, yn yr enghraifft hon, nid oedd y disgyblion trochi yn gyfarwydd gyda'r gân gan iddynt golli'r cyfnod paratoi, felly roedd cyfrannu'n bwrpasol yn heriol iddynt.

Gwelwyd enghraifft arall o ysgolion prif ffrwd yn adnabod nodau dysgu diwylliannol sy'n gysylltiedig gyda thema berthnasol, e.e. Eisteddfodau Lleol. Er i'r cynnwys addysgol fod yn berthnasol i'r dysgwyr oedd yn rhugl yn y Gymraeg, nid oedd y cynnwys addysgol wedi ei addasu i gefnogi anghenion y disgyblion trochi. Roedd idiomau cymhleth yn cael eu trafod, heb sgaffaldau iaith i'r disgyblion trochi. At ei gilydd, roedd y defnydd o'r iaith darged ar lefel amhriodol ac yn llawer rhy gymhleth i'r disgyblion trochi. Collwyd cyfle i egluro cyd-destun eisteddfodau yn effeithiol i ddisgybl oedd heb ddealltwriaeth flaenorol. Arweiniodd hyn at y disgybl yn datgysylltu oddi wrth gynnwys y wers, ac yn troi i ddefnyddio'r Saesneg.

Argymhelliad?

Rhoi Sylw i Dwf Iaith Parhaus a Gwella Cywirdeb

Tabl 3: Strategaethau Addysg Drochi i Roi Sylw i Dwf Iaith Parhaus a Gwella Cywirdeb

Elfennau a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r model trochi
Ennyn ac yn dal pob myfyriwr yn atebol am gywiro eu hunain/cyfoedion
Rhoi sylw i wallau mewn iaith lafar ac ysgrifenedig ²
Defnyddio amrywiaeth o dechnegau adborth effeithiol gan gynnwys ymhelaethu, ciwiau meta-ieithyddol, ceisiadau am eglurhad, ailadrodd, ail-lunio, cywiro eglur a chiwiau di-eiriau
Gwahaniaethu rhwng adborth ar ffurf yn erbyn ystyr
Creu cyfleoedd a gweithgareddau i gynorthwyo disgyblion i sylwi a chynhyrchu iaith gywir a ddefnyddir yn llai aml ar lafar ac yn ysgrifenedig
Canolbwyntio ar gywiro iaith ar sail amcanion ieithyddol y wers a lefel ddatblygiadol y dysgwyr
Cydbwysu'r defnydd o adborth â llif y wers

Y Canolfannau Iaith

² Datblygu'r medrau llafar yw'r prif ffocws yn ystod y cyfnod trochi

Gwelwyd enghreifftiau effeithiol yn y canolfannau o athrawon yn rhoi sylw i dwf iaith parhaus a gwella cywirdeb. Gwelwyd ystod o strategaethau addysgu yn cael eu defnyddio i gefnogi'r disgyblion i gywiro a datblygu eu defnydd iaith i gynhyrchu'r ffurfiau priodol. Rhaid pwysleisio gan i'r arsylwad cyntaf fod yn ystod Wythnos 1, prin iawn oedd defnydd y disgyblion o'r iaith darged.

Er hynny, gwelwyd enghreifftiau o athro yn gofyn i ddisgybl ailadrodd patrwm neu air ar ôl iddo ei ynganu'n gywir, gan gynnig canmoliaeth am ymatebion cywir. Gwelwyd hefyd ddefnydd eang o dechnegau adborth eraill megis

- ciwiau meta-ieithyddol sy'n tynnu sylw'r disgyblion at ffurfiau iaith benodol
- ailadrodd ac ail-lunio ymatebion i gryfhau dealltwriaeth
- cywiro eglur a defnyddio ciwiau di-eiriau fel ystumiau a mynegiant wyneb i gefnogi'r neges.

Roedd athrawon y canolfannau ar y cyfan yn targedu cywiriadau yn benodol ar gyfer y disgybl, er mwyn sicrhau adborth cyson a pherthnasol i lefel datblygiadol y plentyn.

Ysgolion Prif Ffrwd

Nid oedd y strategaethau a arsylwyd yn yr ysgolion prif ffrwd mor eang, perthnasol nac effeithiol â rhai'r canolfannau. Roedd y defnydd yn llawer mwy ysbeidiol, gydag ond ychydig o ysgolion yn ymdrechu i ddefnyddio strategaethau i ddatblygu twf iaith a chywirdeb.

Sicrhau bod Mewnbwn yn Gynhwysfawr

Tabl 4:Strategaethau Addysg Drochi i Sicrhau bod Mewnbwn yn Gynhwysfawr

Elfennau a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r model trochi
Defnyddio iaith y corff, cymhorthyddion gweledol, gwrthrychau neu ddulliau llawdrin i gyfleu ystyr
Ceisio a defnyddio gwybodaeth a phrofiad blaenorol gyda themâu newydd
Defnyddio amrywiaeth o weithgareddau cyn-darllen a chyn-ysgrifennu i wneud iaith a chynnwys yn fwy hygyrch
Rhannu gwybodaeth a phrosesau cymhleth yn rhannau llai
Gwneud defnydd cyson o dasgau sy'n gofyn i ddysgwyr ddangos eu dealltwriaeth
Dewis ac yn addasu deunydd cyfarwyddiadol ar gyfer lefel datblygiadol dysgwyr
Sefydlu arferion ieithyddol sy'n rhoi cyfleoedd i ailadrodd ac ymestyn defnydd iaith

Canolfannau Iaith

Gwelwyd tystiolaeth gadarn yn y canolfannau o athrawon yn sicrhau mewnbwn cynhwysfawr drwy ddefnydd effeithiol o iaith y corff, *Total Physical Response* (TPR), delweddau ayb. Roedd y dulliau addysgu hyn yn hwyluso'r cyfathrebu ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion.

Arsylwyd athrawon yn defnyddio iaith y corff yn rheolaidd drwy symudiadau, pwyntio, enwi gwrthrychau a mynegi teimladau drwy fynegiant wyneb (hapus, trist), neu ystumiau e.e.. dynwared cysgu. Roedd athrawon a chymorthyddion yn modelu'r defnydd hyn i atgyfnerthu iaith, gyda'r plant hefyd yn ei efelychu. Roedd propiau a symudiadau hefyd yn cael eu defnyddio'n gyson i atgyfnerthu'r dysgu wrth gydadrodd penillion, neu ddefnyddio propiau wrth roi'r archeb ginio i mewn.

Roedd athrawon y canolfannau trochi yn cyfoethogi'r mewnbwn drwy dasgau adolygu 'cudd', e.e.. drwy ddefnyddio curiadau yn ystod amser egwyl i gadw curiad ar y "*drwm*". Roedd ailadrodd geirfa allweddol i guriadau yn atgyfnerthu geirfa a chysyniadau megis "i fyny", "i lawr", "ymyl", "canol" ac "ochr".

Roedd y canolfannau yn cysylltu gweithgareddau dysgu blaenorol yn effeithiol gyda themâu newydd er mwyn ymestyn ac atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o'r iaith, boed hynny drwy ganeuon, neu bropiau gweledol. Gwelwyd defnydd effeithiol o strategaethau i dorri tasgau yn rhannau llai er mwyn cefnogi'r dysgu. Un enghraifft o hyn oedd adolygu geirfa 'dillad' drwy ddelweddau wedi eu labelu, cyn mynd ymlaen i'w hatgoffa o eirfa gysylltiedig megis lliwiau a maint ('bach' neu 'mawr'). Dilynwyd hyn gan gwestiynau penodol gan yr athro megis "Pa liw trowsus sydd gan...?" cyn i'r dysgwyr ffurfio brawddegau cyflawn ar lafar.

Roedd pwyslais amlwg ar wirio dealltwriaeth y disgyblion yn gyson yn y ganolfan. Defnyddiwyd technegau penodol fel gosod tasgau dosbarth cyn defnyddio adnoddau digidol, megis y bwrdd gwyn rhyngweithiol, i adolygu ac atgyfnerthu'r dysgu. Yn ystod y gweithgareddau hyn roedd pob dysgwr unigol yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith darged, gan sicrhau bod yr athro hefyd yn medru asesu cynnydd unigol pob dysgwr.

Roedd trefn bendant yn y canolfannau iaith, oedd yn greiddiol wrth sefydlu arferion oedd yn atgyfnerthu ymgysylltu gyda'r iaith ynghyd â chyfleoedd ailadrodd. Yn y sesiynau boreol a arsylwyd, gwelwyd yr un drefn e.e.. pawb yn cyfarch ei gilydd, archebu cinio, holi am weithgareddau'r noson flaenorol (Be' wnest ti neithiwr?), gyda phawb yn ateb yn eu tro.

Roedd rhai tasgau gwahaniaethol yn cael eu paratoi yn y canolfannau iaith, a gwelwyd un enghraifft o wahaniaethu drwy liwiau (Coch, Oren Gwyrdd) oedd yn arfer effeithiol ac yn cynnig hyblygrwydd i'r disgyblion wrth ddewis tasg. Mewn lleiafrif o achosion nid oedd y gwahaniaethu tasgau a welwyd bob tro'n ddigonol i gefnogi'r ystod o ddisgyblion. Roedd hyn yn fwy amlwg wrth geisio cefnogi disgyblion hŷn yn y trochi Uwchradd, ble gall themâu fod yn amherthnasol neu blentynnaidd, neu ddysgwyr gyda chefnidiroedd diwylliannol gwahanol nad oeddent yn deall cyd-destunau Cymreig neu '*boblogaidd*' y cynnwys dysgu bob tro. Roedd hyn yn gwneud ymgysylltu gyda'r mewnbwn addysgol yn fwy heriol i rai dysgwyr ar brydiau.

Ymhlygiad

Mae lle i archwilio datblygu adnoddau trochi i gefnogi disgyblion hŷn.

Ysgolion Prif Ffrwd

Roedd rhai adnoddau gwledol i'w gweld ar waliau'r ysgolion prif ffrwd i gefnogi disgyblion gyda'r iaith darged. Gwelwyd un enghraifft yn yr ysgolion prif ffrwd o athro yn defnyddio delweddau i atgyfnerthu'r iaith darged yn effeithiol.

Mae cyfleon lled gyson yn yr ysgolion prif ffrwd i ddisgyblion ymgysylltu gyda siaradwyr rhugl yn y dosbarth, sy'n arfer dda. Er hynny, nid oedd cynllunio wedi digwydd i gefnogi lefel ddatblygiadol iaith unigol y disgyblion trochi bob tro. Golygai hyn nad oedd y disgyblion yn medru ymgysylltu'n effeithiol, ac o'r herwydd, roedd yn ymddangos ei fod yn cael effaith negyddol ar eu hyder yn yr iaith.

Cynigir hyfforddiant i staff prif ffrwd gan y gyfundrefn drochi er mwyn sicrhau bod mewnbwn yn gynhwysfawr, e.e. cefnogaeth i addasu taflenni gwaith, rhannu egwyddorion trochi. Ni welwyd tystiolaeth yn ystod yr arsylwadau o daflenni gwaith wedi eu haddasu'n ieithyddol ar gyfer y disgyblion trochi yn yr ysgol prif ffrwd.

Creu Amgylchedd Dysgu Cyfoethog yn y Gymraeg

Tabl 5: Strategaethau Addysg Drochi i Greu Amgylchedd Dysgu Cyfoethog yn y Gymraeg

Elfennau a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r model trochi
Ymestyn <i>repertoires</i> iaith disgyblion trwy addysgu cyfystyron a gwrth ystyron
Arddangos amrywiaeth o eiriau, ymadroddion, testun ysgrifenedig ledled yr ystafell ddosbarth a chynteddau
Gwahodd siaradwyr brodorol i gymryd rhan yn y dosbarth
Darparu amrywiaeth o ddeunydd darllen iaith darged ac adnoddau megis geiriaduron, thesawrws, gwyddoniadur, ac ati.
Amgylchynu'r dysgwr gyda mewnbwn iaith lafar ac ysgrifenedig helaeth ³

Canolfannau

Gwelwyd tystiolaeth ymysg disgyblion hŷn o athrawon yn datblygu defnydd iaith drwy addysgu cyfystyron. Roedd y strategaethau hyn yn codi'n naturiol yn yr uned, e.e.. wrth drafod chwarae pêl-droed, roedd yr athro yn amlygu'r gwahaniaethau rhwng 'ennill' a 'churo'. (*Wnaethoch chi ennill? Chi wnaeth guro tîm Llanfairgogogoch?*)

Gwelwyd cyfleoedd cyson yn y canolfannau trochi i ddisgyblion ymgysylltu gyda siaradwyr rhugl, e.e. drwy ryngweithio gyda staff y gegin wrth roi archeb cinio i mewn, neu ymwelwyr i'r ganolfan.

³ Nid yw'r ddarpariaeth drochi yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ysgrifenedig, felly ni arsylwyd mewnbwn ysgrifenedig yn y canolfannau iaith.

Ymhlygiad

Mae modd ystyried datblygu'r ymgysylltiad gyda siaradwyr rhugl ymhellach drwy ymestyn y defnydd iaith a'r patrymau arferol wrth i ruglder y disgyblion ddatblygu.

Mae'r canolfannau yn gwneud defnydd effeithiol wrth arddangos geiriau ac ymadroddion yn yr ystafell ddosbarth. Mae pob dosbarth wedi ei ddylunio'n effeithiol i gefnogi'r cynllun trochi gyda'r pentref dychmygol a chymeriadau'r pentref wedi eu harddangos, ynghyd â geiriau allweddol, labeli rhannau o'r corff, lliwiau, berfau, map Cymru a siartiau bwyd wedi eu harddangos. Roedd gwrthrychau'r ystafell ddosbarth wedi eu labelu hefyd, er mwyn cefnogi disgyblion i fedru gweithredu yn y dosbarth a defnyddio'r Gymraeg.

Ysgolion Prif Ffrwd

Gwelwyd defnydd o iaith weledol yn yr ysgolion prif ffrwd. Roedd yr iaith yn cael ei chyflwyno mewn modd mwy cwricwlaidd yn y prif ffrwd e.e.. mapiau, anogwyr llythrennedd, cerddi ac idiomaau ac ati. Roedd y math o gynnwys yn amrywio ar draws grwpiau blwyddyn yn y prif ffrwd, yn ôl oedran neu gamau cynnydd, ac felly yn aml iawn tu draw i lefel ieithyddol y disgyblion trochi. Gellir felly ystyried bod yr amgylchedd ddysgu sy'n cael ei dylunio o amgylch y cyd-destun addysgol heb ystyried ysgogiadau iaith syml yn effeithio ar ymgysylltiad disgyblion trochi gyda'r amgylchedd dysgu yn y cyd-destun prif ffrwd.

Gwelwyd rhai enghreifftiau o'r ysgolion prif ffrwd yn amgylchynu'r dysgwyr gyda mewnbwn iaith lafar helaeth. Un enghraifft oedd y gwasanaeth boreol. Mae gofod fel hyn yn gyfle gwerthfawr i drwytho'r disgyblion yn niwylliant ac iaith lafar yr ysgol wrth ddychwelyd.

Ni wnaed defnydd effeithiol o'r adnoddau a rannwyd gan y canolfannau iaith i gefnogi'r Gymraeg. Er bod adnoddau ar y cyfrwng *Google Classroom*, yn fwy aml na pheidio roedd y disgyblion trochi yn cwblhau tasgau syml nad oedd yn cefnogi datblygiad iaith, os nad oeddent yn medru cyfrannu at dasg y dosbarth pan oeddent yn dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd.

Ymhlygiad

Byddai cynllunio cynnwys ieithyddol a strategaethau penodol i ailadrodd a datblygu iaith darged y disgyblion trochi gan ddefnyddio'r adnoddau parod gan y canolfannau trochi, yn cryfhau'r profiadau i ddisgyblion trochi wrth ddychwelyd i'r prif ffrwd.

Defnyddio Iaith Athro Yn Effeithiol (Iaith Darged)

Tabl 6: Strategaethau Addysg Drochi i Ddefnyddio Iaith Athro Yn Effeithiol (Iaith Darged)

Elfennau a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r model trochi
Mynegi ac yn ynganu'n glir
Arafu ac yn symleiddio iaith pan fo hynny'n briodol i ddatblygiad
Arallleirio ac yn ailadrodd negeseuon mewn amrywiaeth o ffyrdd
Amrywio goslef i adlewyrchu negeseuon
Ailgylchu geirfa a strwythurau iaith y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn fwriadus
Modelu defnydd cywir o iaith
Cyfyngu ar faint o iaith athro a ddefnyddir

Canolfannau Trochi

Mae amryw enghreifftiau o'r athro yn y canolfannau iaith yn defnyddio'r iaith darged yn effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Arsylwyd enghreifftiau cadarn a chyson o fynegiant eglur ac ynganu pwrpasol i gyfleu ac ategu seiniau'r iaith darged. Mae athrawon y canolfannau trochi yn hyderus wrth amrywio iaith e.e.. arafu, pwysleisio, newid goslef, i atgyfnerthu'r dysgu.

Gwelwyd sawl enghraifft o'r athrawon trochi yn arallleirio neu'n ailadrodd y cynnwys ieithyddol os nad oedd y disgybl yn medru ymateb yn briodol.

Er bod athrawon a staff cefnogi'r canolfannau yn gwneud defnydd effeithiol a chyson iawn o'r iaith darged, ystyriwyd bod yna le leihau mewnbyn yr athro ar brydiau, yn enwedig yn ystod tasgau grŵp neu barau, er mwyn i'r disgyblion gael mwy o gyfle i ddefnyddio geirfa neu batrymau newydd. Byddai hyn o bosib yn eu paratoi'n well i ymdopi gyda defnyddio'r iaith darged yn yr amgylchedd prif ffrwd. Athynny, ystyriwyd bod yma le i ddatblygu'r cysyniad o 'amser i ymateb', cyn i'r athro neu'r cymhorthydd roi'r ateb i'r disgyblion.

Ysgolion Prif Ffrwd

Yn y mwyafrif o arsylwadau gwelwyd bod yr athrawon yn eglur eu mynegiant ac yn ynganu'n briodol i gefnogi dysgu'r disgyblion, ond dim ond yn y lleiafrif o ysgolion prif ffrwd gwelwyd athrawon yn arafu a symleiddio'r iaith i gefnogi'r disgyblion gyda'r Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd tuedd i'r athrawon newid i'r Saesneg pan roedd yn ymddangos nad oedd y disgyblion yn medru ymateb yn hytrach na cheisio annod y defnydd o'r Gymraeg drwy amryw strategaethau addysgol posib.

Ar y cyfan, nid oedd ysgolion prif ffrwd (ac eithrio un; gweler Astudiaeth achos A), yn cynllunio a pharatoi gan roi ystyriaeth ddigonol i'r disgyblion trochi. Roedd cyfleoedd yn cael eu colli i fedru cefnogi datblygiad iaith

disgyblion drwy baratoi geirfa allweddol, syml, o fewn y maes pwnc, e.e. mewn gwers Addysg Gorfforol - mainc, pêl, pwynt, ayb.

Ymhlygiad

Mae cyfle i ystyried datblygu llwybrau dysgu proffesiynol i gefnogi athrawon gyda strategaethau addas i ddatblygu defnydd o'r iaith darged yn effeithiol ar gyfer disgyblion trochi.

Hyrwyddo Allbwn Estynedig Disgyblion

Tabl 7: Strategaethau Addysg Drochi i Hyrwyddo Allbwn Estynedig Disgyblion

Elfennau a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r model trochi
Cynllunio ac yn defnyddio technegau holi sy'n annog disgwrs estynedig ac yn meithrin meddwl lefel uwch
Strwythuro ac yn hwyluso gweithgareddau disgybl-ganolog sydd yn ennyn ddiddordeb
Defnyddio gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar allbynnau, megis chwarae rôl, efelychiadau, drama, dadleuon, cyflwyniadau, ac ati.
Defnyddio amrywiaeth o grwpiau rhyngweithiol megis deuadau, meddwl-pâr-rhannu, grwpiau bach, ac ati.
Hyrwyddo dysgu gan a gyda chyfoedion, e.e., golygu cyfoedion, tiwtora cyfoedion
Cyfathrebu disgwyliadau clir ynghylch defnydd iaith yn gyson, ac yn atgyfnerthu'r disgwyliadau hynny
Meithrin amgylchedd dysgu anfygythiol
Gwneud defnydd effeithiol o amser aros yn ystod rhyngweithiadau

Canolfannau iaith

Gwelwyd arferion cadarnhaol yn y canolfannau iaith o athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau i geisio hyrwyddo allbwn estynedig. Rhaid cydnabod bod amseriad yr arsylwad cyntaf, sef Wythnos 1, yn golygu ei bod yn anodd iawn i'r athrawon ddefnyddio'r strategaethau hyn gan bod gan nifer o'r disgyblion cyn-lleied o'r iaith darged.

Er hyn, roedd gweithgareddau yn cael eu cynllunio mewn modd hwyliog, e.e.. gemau bwrdd, chwarae rôl ayb, er mwyn ceisio ennyn diddordeb y disgyblion. Er hynny nid oedd rhai gweithgareddau wedi eu strwythuro nac yn hwyluso diddordeb rhai disgyblion Uwchradd yn yr iaith darged. Arsylwyd rhai gweithgareddau anaddas i ddiddordebau ac oedran y disgyblion hŷn, e.e.. gwyllo rhaglenni teledu oedd yn addas i blant iau, y modd y rhoddwyd disgyblion mewn grwpiau, neu gemau bwrdd oedd yn cyflwyno cymeriadau plentynnaidd.

Roedd y canolfannau yn defnyddio system wobrwyo *Class Dojo* yn effeithiol iawn wrth atgyfnerthu disgwyliadau clir o ran defnydd iaith. Roedd y system bwyntiau yn cael ei waeu yn rhan naturiol o rediad dyddiol gweithgareddau'r ganolfan, ac roedd yn arf pwerus i atgyfnerthu'r dysgu ymysg y disgyblion a datblygu defnydd ymestynnol o'r iaith.

Ymhlygiad

Mae lle i ystyried gweithgareddau a diddordebau ystod o ddisgyblion yn fwy manwl wrth gynllunio gweithgareddau i hyrwyddo allbwn ieithyddol estynedig yn benodol yn y ddarpariaeth drochi Uwchradd.

Ysgolion Prif Ffrwd

Er bod tystiolaeth o weithgareddau yn yr ysgolion prif ffrwd a allai hyrwyddo allbwn ieithyddol estynedig, yn y mwyafrif o'r arsylwadau, nid oedd y tasgau hyn wedi eu cynllunio'n fwriadus o amgylch gofynion ieithyddol y disgyblion trochi. Er bod enghreifftiau o waith grŵp, yn aml iawn roedd y disgyblion trochi heb iaith ddigonol i fedru cyfrannu heb sgaffaldau iaith ychwanegol, neu gefnogaeth gan yr athro.

Roedd defnydd disgyblion o iaith mewn cyd-destunau anffurfiol, e.e. amser chwarae, yn bennaf drwy'r Saesneg, ac eithrio un ysgol a arsylwyd.

Rhoi Sylw i Anghenion Amrywiol Dysgwyr

Tabl 8: Strategaethau Trochi i Roi Sylw i Anghenion Amrywiol Dysgwyr

Elfennau a gafodd eu harchwilio fel rhan o'r model trochi
Cynnwys ystod o alluoedd iaith, gwybodaeth flaenorol, a sgiliau cymdeithasol mewn grwpiau hyblyg o ddisgyblion
Cynllunio ar gyfer anghenion amrywiol disgyblion yn seiliedig ar gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol
Darparu ystod o ddeunyddiau, gweithgareddau dysgu, ac ystod o dasgau asesu ar gyfer galluoedd a diddordebau disgyblion
Cynnal arolwg o ddiddordebau disgyblion

Y Canolfannau Trochi

Mae'r ystod o anghenion ieithyddol, oedrannau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cynnig her i'r canolfannau trochi wrth ddiwallu anghenion amrywiol disgyblion. Pan mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol prif ffrwd a'r canolfannau trochi, nid oes gwybodaeth benodol amdanynt yn aml iawn ar gael. Mae hyn yn peri sefyllfa heriol i'r athrawon wrth eu cefnogi a chynllunio ar gyfer gwahaniaethu.

Mae ystod eang iawn o weithgareddau yn cael eu darparu i gefnogi anghenion disgyblion yn y canolfannau trochi, ond mae lle i ystyried ffactorau allanol ymhellach wrth gynllunio a dylunio'r rhain o ystyried yr amrywiaeth ieithyddol sy'n rhan o'r ddarpariaeth drochi erbyn hyn (gweler Ffigwr 4 yn yr adran holiaduron rhieni).

Ysgolion Prif Ffrwd

Ni arsylwyd unrhyw strategaethau penodol ar waith yn yr ysgolion prif ffrwd a gafodd eu harsylwi i gefnogi anghenion penodol disgyblion trochi oedd yn dychwelyd i'r dosbarth. Er hynny, arsylwyd bod pwysau enfawr ar

ysgolion prif ffrwd i gefnogi ystod o anghenion ieithyddol o fewn y dosbarth arferol, yn aml iawn gyda heriau staffio ar ddyddiau Gwener. Arsylwyd mewn sawl achos mai athrawon llanw oedd yn arwain rhannau o'r addysgu ar ddyddiau Gwener yn y prif ffrwd oherwydd ei bod yn gyfnod paratoi ac asesu (CPA) i'r athro dosbarth. Mae ystod eang o anghenion ieithyddol yn y dosbarth yn ychwanegol i'r rheini sy'n mynychu'r canolfannau iaith, yn cynnig heriau pellach i'r prif ffrwd ar ddydd Gwener.

Ymhlygiad

Mae lle i edrych ar arferion da yn genedlaethol wrth gefnogi dysgwyr amlieithog mewn gofodau dysgu Cymraeg a Chymreig.


Casgliad

Gwelwyd yn yr arsylwadau bod cryfderau niferus iawn i'w gweld yn y Canolfannau Trochi wrth gefnogi datblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg ac wrth gefnogi lles disgyblion. Roedd y disgyblion yn hapus yn yr amgylchedd ddysgu ac roeddent wedi creu rhwydweithiau cefnogaeth cadarn ymysg cyfoedion eraill oedd yn dysgu'r iaith. Dengys y dystiolaeth fod ysgolion prif ffrwd yn ei chael yn anodd cefnogi disgyblion i ailintegreiddio'n llwyddiannus ar ddyddiau Gwener. Roedd cyfleoedd cyfyngedig i'r disgyblion ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg, gan leihau effeithiolrwydd y model trochi o dan y drefn gyfredol.

Dadansoddiad Holiaduron Rhieni/ Gofalwyr

Mae'r adran hon yn dadansoddi canlyniadau'r holiadur ar-lein a ddosbarthwyd i rieni plant oedd yn mynychu un o'r pedair canolfan drochi iaith. Gofynnwyd i'r rhieni am eu barn ar y rhaglen drochi.

O'r 23 o ymatebion i'r holiadur a anfonwyd at rieni a gwarcheidwaid, nodwyd mai Saesneg oedd prif iaith y cartref mewn 19 o'r cartrefi. Er hynny, cofnodwyd presenoldeb amrywiaeth ieithyddol ehangach, gyda chyfanswm o saith iaith yn cael eu henwi gan ymatebwyr. Mewn pump o'r cartrefi hyn, adroddwyd bod y rhieni'n siarad yr iaith honno gyda'u plant yn y cartref hefyd.



Ffigwr 4: Trosolwg o iaith y Cartref

Agweddau Rhieni tuag at y Gyfundrefn drochi

Roedd pob un o'r farn fod gwerth mewn dysgu Cymraeg, gyda'r mwyafrif o rieni yn mynegi brwdfrydedd gref dros y gyfundrefn drochi, gan ei disgrifio mewn geiriau megis:

"Fantastic" (Rhiant 6 ac 17)

"Very good" (Rhiant 8, 9 ac 11);

"...that it's been very helpful" (Rhiant 10).

Roedd sawl rhiant yn nodi bod eu plant yn mwynhau'r profiad ac yn dysgu'n gyflym. Roedd eraill yn sôn bod eu plant yn canu caneuon Cymraeg gartref ac yn mwynhau rhannu'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu.

"My daughter really enjoys the learning, she seems to be picking it up very quickly after attending the language unit" (Rhiant 2)

“She’s really enjoying it, sings the Welsh songs at home with her older brother and loves telling what she has learned and what it means when translated to English” (Rhiant 4)

Y prif fanteision a nodwyd oedd cael y cyfle am brofiad dysgu newydd (n=6), a hynny mewn awyrgylch ddiogel a chefnogol.

“Fantastic opportunity for them to learn another language” (Rhiant 16)

“Excellent opportunity for them to develop Welsh in a 'safe' environment, as in it’s [sic] directed for learners” (Rhiant 18)

“Wonderful learning opportunity, the teaching of Welsh will support him through school” (Rhiant 3)

Ymhelaethodd rhai ar hyn drwy ddweud fod y cyfle a roddir nid yn unig yn cefnogi eu dysgu, ond hefyd yn gymorth wrth i'r plant fagu hyder ac integreiddio i'r ysgol a'r gymuned ehangach gydag wyth rhiant yn crybwyll hyn fel mantais.

“It’s a great idea, it will help him integrate more in his school, and in his village” (Rhiant 5)

“It is helpful in integration and socialising” (Rhiant 18)

Holwyd rhieni am unrhyw bryderon posib oedd ganddynt o amgylch anfon eu plant i'r ganolfan drochi. Roedd llai na hanner y rhieni yn mynegi pryderon cychwynnol am y model cyfredol (n=11), gyda rhai yn teimlo y gall tynnu'r disgyblion o'r ysgol prif ffrwd fod yn heriol i'r plant, gan nodi eu bod yn pryderu am yr effaith gymdeithasol e.e. gweld eisiau eu ffrindiau a'u cylchoedd cymdeithasol. Er hynny, nid oedd yn ofid parhaus ymysg rhieni, gan iddynt nodi bod disgyblion yn gwneud ffrindiau newydd yn gyflym yn y canolfannau trochi.

“They had only been at their 'new' school a few weeks before moving to the unit, so would miss new friends. This hasn't happened, they've just made new friends (Rhiant 14)

“Missing friends, social circle from school but Fridays have maintained this” (Rhiant 17)

“No concerns regarding the unit itself. Mainly not being able to settle in their new school but that will come” (Rhiant 22)

Roedd rhai rhieni'n poeni am effaith negyddol ar gynnydd academiaidd ac addysgol eu plant o dan y model cyfredol, oherwydd yr amser oddi wrth y prif gwricwlwm, yn enwedig efallai ar gyfer plant oedd newydd symud

i'r Deyrnas Gyfunol (DU) neu eu hysgol Prif Ffrwd, gyda rhai plant yn cymryd mwy o amser i ymgartrefu yn eu hysgol gynradd ar ôl mynychu'r uned.

"For these few weeks it might affect his studies in the village school. My child only came to the UK in May this year so immersion in the Welsh unit is one more stress for him to cope with, even though I wholeheartedly support the work of the unit" (Rhiant 4)

"10 weeks away from the main curriculum focus, although we are fully aware the language barrier was a concern before attending the unit" (Rhiant 11)

Er hyn, llai na hanner y rhieni wnaeth godi unrhyw bryder, gyda'r mwyafrif yn gweld manteision mynychu'r ddarpariaeth drochi, neu'n gweld cyfle i ymestyn y cyfnod trochi fel bod disgyblion yn y ganolfan am gyfnod hirach.

"Maybe not long enough." (Rhiant 8)

"No adverse issues of missing mainstream school, mainstream school states he uses Welsh at school..." (Rhiant 11)

Ychydig iawn o rieni wnaeth godi pryderon am yr ystod o oeddrannau oedd yn y canolfannau uwchradd, yn enwedig o ran rhyngweithio cymdeithasol rhwng disgyblion oedd ym mlwyddyn naw a phlant Cynradd.

"I'm not sure primary children should be mixed with Secondary especially before Christmas. My child cried when she was told there was no Santa. She was also told she was an attention seeker by older pupils" (Rhiant 5)

Nododd bron hanner y rhieni eu bod yn cefnogi eu plant gyda dysgu Cymraeg gartref. Rhannwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn cwblhau tasgau gartref ar y *Google Classroom*, gyda'r rhan fwyaf o gefnogaeth oedd angen arnynt yn dod gan rieni sydd hefyd yn dysgu Cymraeg, aelodau eraill o'r teulu (brodyr/chwiorydd hŷn, nain/taid), a *Google Translate* fel adnodd defnyddiol.

Adroddodd y mwyafrif o rieni gynnwyd yn nefnydd eu plant o'r Gymraeg, yn y cartref ac yn y gymuned, ers mynychu'r ganolfan drochi.

Lles Disgyblion yn y Gyfundrefn Drochi

Holwyd rhieni am effaith mynychu'r ddarpariaeth drochi ar les eu plant. Nododd lleiafrif o rieni (n=7) eu bod yn gweld gwahaniaeth yn les eu plant. Roedd y newidiadau hynny yn rhai cadarnhaol, gyda phedwar yn datgan bod eu plant yn ymddangos yn hapusach ac yn fwy hyderus.

“Happier and more confident when in the community, attending events where Welsh is the primary language, though he still may need clarification as his learning continues” (Rhiant 12)

“He was very shy now he is more relaxed and happy there is no stress anymore” (Rhiant 13)

Adroddodd y rhieni bod eu plant yn gyffrous eu bod yn cwrdd â ffrindiau newydd yn y ganolfan ac yn meithrin perthnasau cymdeithasol cadarnhaol sy'n cyfrannu at eu hymdeimlad o berthyn.

“They are excited learning a new language and meeting new friends at the centre” (Rhiant 21)

Er nad yw'r dyfyniadau uchod yn cyfeirio'n benodol at effeithlonrwydd y model trochi cyfredol wrth gefnogi lles disgyblion, mae'n arddangos effaith gadarnhaol y ddarpariaeth drochi ar hyder a datblygiad y disgyblion o fewn y gymuned leol.

Casgliad

Gwelir felly bod agweddau'r mwyafrif o rieni tuag at y ddarpariaeth drochi yn un gadarnhaol iawn. Mynegwyd brwdfrydedd a gwerthfawrogiad cryf o'r cyfle i'w plant ddysgu Cymraeg mewn amgylchedd gefnogol a diogel.

Er bod pryderon cychwynnol wedi eu mynegi, roedd manteision allweddol megis cefnogaeth i'w plant wrth integreiddio i'r gymuned leol a datblygu hyder wrth ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol i'w gweld fel cryfderau ehangach.

Dadansoddiad Thematig o'r Grwpiau Ffocws

Wrth ddatblygu'r fethodoleg ymchwil, penderfynwyd bod y cwestiynau ymchwil yn galw am ddull dadansoddi anwythol er mwyn archwilio'n fanwl sut mae'r model trochi yn dylanwadu ar ddefnydd disgyblion o'r Gymraeg a'u taith ieithyddol wrth ddychwelyd i'r ysgolion prif ffrwd. O ystyried cymhlethdod yr ymatebion unigol i'r model trochi, roedd yn hanfodol ystyried dull fyddai'n dal ystod o safbwyntiau, profiadau a'r heriau yn eu cyfanrwydd, yn hytrach na'u gorfodi a'u fframio o fewn strwythur damcaniaethol parod, e.e. drwy ddull codio diddwythol.

Mae'r dull dadansoddi anwythol yn cynnig dull strwythuredig ond hyblyg i goladu a dadansoddi themâu sy'n dod i'r amlwg o'r data yn uniongyrchol, er mwyn deall pa mor effeithiol ydy'r model wrth sicrhau defnydd disgyblion o'r iaith darged yn y prif ffrwd. Gall y dull hwn dynnu sylw at batrymau ymddygiad ieithyddol, yr heriau a wynebir, a'r strategaethau cefnogi mwyaf effeithiol.

Yn yr un modd, wrth asesu effeithiolrwydd y model o ran galluogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg yn ddigonol, mae'r dull anwythol yn amlinellu pa ffactorau sy'n hwyluso neu'n rhwystro caffael y Gymraeg yn llwyddiannus.


Drwy archwilio'r themâu heb ffrwyn ddamcaniaethol, mae'n rhoi cyfle i archwilio'n ddwfn i'r patrymau, sy'n cynnwys y cyfleoedd a'r heriau yn yr ymgais i gryfhau'r Gymraeg yn y Gyfundrefn Drochi ac yn yr ysgolion prif ffrwd. Yn ogystal, o ran deall dylanwad y model ar lesiant disgyblion yn ystod y cyfnod trochi, mae dadansoddi thematig anwythol yn caniatáu i leisiau disgyblion ddod i'r amlwg yn naturiol, gan dynnu sylw at unrhyw effaith emosiynol neu gymdeithasol o fewn y model yn unol â'r cwestiynau ymchwil.

Gan nad oes fframwaith ddamcaniaethol wedi'i sefydlu'n llawn ar gyfer mesur effaith y model trochi ar draws yr holl feysydd hyn, mae'n hanfodol defnyddio dull sy'n galluogi'r data i siapia ein dealltwriaeth o'r sefyllfa. Gall y mewnwediadau a gynhyrchir trwy'r dull anwythol, wedyn, osod y sylfeini ar gyfer ymchwil pellach neu ddatblygiad modelau damcaniaethol i'r dyfodol.

Y Model Trochi a Lles Disgyblion

Yn ystod y broses ddadansoddi anwythol, ymddangosodd nifer o themâu oedd yn cyd ymddangos sy'n amlygu nifer o ystyriaethau pellach wrth weithredu'r model trochi cyfredol yn y dyfodol, yn arbennig wrth ystyried lles disgyblion yn y ddarpariaeth drochi. Un pryder sylweddol yw'r cyfyngiadau amser a'r gostyngiad yn yr amser addysgu a dysgu, gan fod y model wedi ei leihau o 20% yn y canolfannau iaith (ac eithrio blwyddyn 7,8 a 9).

Amlygiad i'r iaith Darged ac oriau Cyswllt



Ffigwr7: Lleihad yn Nifer y dyddiau Trochi yn y Ddarpariaeth Gynradd

Gall y gostyngiad hwn yn yr oriau dysgu a'r cyswllt addysgol ei gwneud yn fwy heriol i'r disgyblion i gaffael y Gymraeg yn effeithiol, gan leihau eu hamlygiad i ryngweithiadau sy'n iaith-gyfoethog, gan hefyd leihau'r cyfleoedd i atgyfnerthu eu defnydd o'r Gymraeg (gweler trafodaeth bellach yn adran Prif ffrwd).

Awgrymir ymchwil bod dulliau trochi iaith effeithiol yn dibynnu ar amlygiad cyson a chynaliadwy (Baker a Wright, 2017), a byddai lleihad yn yr oriau cyswllt yn medru gwanhau effaith a llwyddiant hirdymor y model, yn arbennig wrth ystyried bod llai o oriau cyswllt i'r disgyblion yn y canolfannau iaith, ond bod disgwyl i'r cynnydd ieithyddol barhau i fod yr hyn ag yr oedd o dan yr hen drefn.

Er hynny, mae safon yr addysgeg a'r gwaith cwricwlaidd yr un mor bwysig wrth ystyried amlygiad i'r iaith darged (Genesee, 2013), ac mae'n hanfodol bwysig bod pob amlygiad i'r iaith, boed hynny yn y canolfannau iaith, neu yn yr ysgol prif ffrwd yn gyfle i amlygu'r disgyblion i'r iaith darged mewn modd bwriadus. Ni ddylai peidio bod yn y canolfannau trochi felly, olygu nad ydy'r disgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Ymdeimlad o Berthyn a Pherthnasau Cymheiriaid

Thema arall sy'n codi o'r dadansoddiad yw pwysigrwydd dysgu gan? gymheiriaid ac integreiddio cymdeithasol wrth ddysgu iaith. Mae disgyblion mewn canolfannau trochi yn elwa'n sylweddol o ryngweithio â'u cyfoedion, gan fod ymgysylltiad cymdeithasol yn meithrin datblygiad iaith ac ymdeimlad o berthyn (García & Lin, 2017).

Disgybl 13

"I feel really settled in here. And I have all my friends. And it's really fun learning Welsh because we get to do activities and acting and lots of things that make me feel happy when I learn Welsh."

Mae dydd Gwener yn medru bod yn broblemus i ddisgyblion sy'n dychwelyd o ganolfannau trochi i'r ysgolion prif ffrwd, yn bennaf oherwydd natur gweithgareddau'r diwrnod. Mewn ysgolion cynradd yn arbennig, mae dydd Gwener yn medru bod yn ddiwrnod cwblhau gwaith yr wythnos, ynghyd â gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol yr wythnos drwy 'Amser Aur'. Mae ymchwiliad yn dangos y gall dulliau addysg hyblyg fel hyn achosi heriau i athrawon, yn enwedig o ran cynllunio gwersi, asesu cynnydd disgyblion a sicrhau dilyniant dysgu (Maxwell et al., 2020). Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol brif ffrwd, y ganolfan a'r rhieni yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant modelau o'r fath (Parsons & Lewis, 2010). Mae trefniadau addysg hyblyg yn dibynnu ar systemau cryfion sy'n sicrhau cysondeb mewn profiadau addysgol ac yn lleihau amhariadau posibl ar ddilyniant dysgu disgyblion (Ofsted, 2019).

Mae rhai athrawon yn pwysleisio nad oes gwahaniaeth pa ddiwrnod sy'n cael ei ddewis ar gyfer dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd, gan fod natur y model ei hun yn creu heriau sylweddol.

Er hynny, mae'n werth ystyried beth yw effaith y cyswllt parhaus gyda'r ysgol prif ffrwd pan mae disgybl yn dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd llawn amser.

Ymhlygiad

Mae angen cryfhau effeithlonrwydd y model o safbwynt cysoni strwythurau o amgylch y model 'hyblyg' a'r dychwelyd i'r prif ffrwd. Mae lle i staff y ganolfan ac ysgolion prif ffrwd gydweithio'n agosach i sicrhau bod strwythur y model cyfredol yn gwella cysondeb o amgylch meithrin perthnasau a llesiant disgyblion.

Cysondeb Darpariaeth ysgolion Prif ffrwd

Mae ymdeimlad o gysur a sicrwydd o fewn y canolfannau trochi sydd yn nodweddiadol fach yn eu maint, yn cyferbynnu â'r her o ailintegreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd, yn enwedig mewn ysgolion sy'n fwy o faint. Dangosodd rhai disgyblion ansicrwydd o ran integreiddio'n ôl i'r cyd-destun hwn, a'r her o fedru defnyddio'r

Gymraeg, yn enwedig yn wyneb heriau eraill megis diffyg adnoddau, dryswch mewn prosesau cyfathrebu lle nad yw'r amlygiad a'r gefnogaeth ieithyddol felly'n parhau.

Disgybl 3

"I don't understand most of this stuff. So I'm just there, trying to figure out what it is."

Disgybl 13

"Because [aneglur] substitute people... It's quite hard. The substitute teacher doesn't know you come here."

Yn y lleiafrif o achosion, gwelwyd bod athrawon y prif ffrwd yn ymgysylltu gyda'r deunyddiau oedd yn cael eu rhannu gan y canolfannau trochi drwy'r cyfrwng digidol. Er hynny, mae heriau ymarferol wrth geisio gweithredu strategaethau addysgol i gefnogi defnyddio'r iaith darged yn y dosbarth prif ffrwd ar y dyddiau Gwener.

Amlygwyd bod yr heriau hyn yn fwy presennol i ysgolion prif ffrwd mwy eu maint.

Meithrin Perthnasau a Rhyngweithio Anffurfiol

Dengys y dadansoddiad anwythol bod pryderon o amgylch llesiant emosiynol a'r pwysau meddwl posib a ellir ei brofi gan ddisgyblion yn ystod y bloc deg wythnos, yn enwedig pan maent yn dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd ar ddydd Gwener.

Disgybl 12

"I've got a little bit of friends to play with. But it's quite annoying because they always like talk, and I don't know what they're talking about 'cause normally they're talking about what they did yesterday or something."

Mae'r symudiad o grwpiau bychain, cyfarwydd yn y ganolfan drochi i gyd-destun mwy, gyda chymheiriaid nad ydynt yn eu hadnabod cystal, yn medru dylanwadau'n negyddol ar les disgyblion ble nad ydy'r perthnasau gyda chymheiriaid wedi eu sefydlu cystal yn y prif ffrwd. Mae tystiolaeth yr astudiaeth yn awgrymu bod y newid lleoliad dysgu ar ddydd Gwener yn cynyddu cyfraddau pryder, tra'n lleihau hyder, gan danseilio parodrwydd disgyblion i rhyngweithio gyda'r iaith (Dewaele & MacIntyre, 2014). Gwelwyd sawl enghraifft yn y data arsylwi o ddisgyblion trochi'n ynysig pan oeddent yn dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd.

Cefnogaeth Ieithyddol ac ymgysylltu Cwricwlaidd

Amlygodd rhai athrawon trochi bod ymweld â'r ysgolion prif ffrwd ar ddyddiau Gwener yn aml iawn yn anodd, gan nodi bod y cyfnod ymweld yn medru disgyn yn ystod cyfnodau ble mae'r disgyblion yn ymgysylltu gyda thasgau neu weithgareddau maent yn eu mwynhau.

Athro Trochi 9

"Dwi'n teimlo fod bore dydd Gwener yn well a bod y pnawn dipyn bach yn anoddach. Achos yn pnawn maen nhw'n cael yr amser aur. A dwi'n teimlo, o, dwi'n tynnu'r plant bach 'ma allan amser aur. A hwnna 'di'r amser maen nhw 'di joio ac maen nhw'n edrych ymlaen am fwya', a 'dyn nhw'm yn cael cymryd rhan."

Gall hyn felly amharu ar ymgysylltiad y disgyblion gyda'r gweithgareddau hwyliog hyn. Mae sawl enghraifft ble mae'r disgyblion yn cael eu tynnu o dasgau creadigol a hamddenol megis 'Amser Aur'. Mae elfennau sosio-seicolegol yn allweddol wrth ystyried teimladau disgyblion gyda dysgu Cymraeg, yn benodol cymhelliant integreiddiol (Baker, 1997) (Baker, 2011). Cysylltir 'Amser Aur' fel arfer gydag amser ymlacio a hamddena, sy'n atgyfnerthu'r cysyniad o gymhelliant integreiddiol a gall amharu ar y profiadau hyn gyfrannu at rwystredigaeth bellach a theimladau negyddol (Deci & Ryan, 2000), ac felly effaith negyddol ar les disgyblion, a'u cynnydd maes o law.

Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil sy'n dangos bod dysgu iaith yn gysylltiedig â phrofiadau emosiynol, a gall cysylltiadau negyddol ffrwyno cymhelliant y disgybl ac ymgysylltiad hirdymor y disgybl i barhau â chaffael y Gymraeg (MacIntyre et al., 2019).

Disgybl 3

"Last week, I had to send a poster to ALDI, and I could win £20. But I didn't get to finish it."

Mae'n deg nodi felly bod y data ansoddol yn arddangos cydberthynas gymhleth rhwng dyluniad strwythurol modelau trochi a lles disgyblion. Mae effeithiolrwydd y model yn dibynnu ar ystyriaethau gofalus o amgylch prosesau pontio, integreiddio cymdeithasol, a chefnogaeth emosiynol. Mae'r patrymau a welwyd yn dangos bod lle pendant i ailedrych ar y model, gan archwilio lles a sicrwydd emosiynol ochr yn ochr â datblygiad ieithyddol, i sicrhau pa mor briodol ac effeithiol yw unrhyw fodel wrth gefnogi lles disgyblion wrth ddychwelyd i'r ysgol prif ffrwd ar ddydd Gwener.

Ymhlygiad

Mae lle i edrych ar fodelau fwy hybrid sy'n defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi ymgysylltiad y disgyblion trochi gyda'r ysgol prif ffrwd am gyfnod, cyn dychwelyd yn fwy graddol tuag at ail hanner y bloc trochi. Mae cyfle i'r ddarpariaeth drochi weithio gydag arbenigwyr i ddatblygu darpariaeth hybrid.

Trochi i ystod o oedrannau

Mae'r term Trochi Cynnar fel rheol yn cyfeirio at ddechrau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o'r Cyfnod Sylfaen hyd at saith oed. Defnyddir y Gymraeg fel unig neu brif iaith yr addysgu ar draws yr holl weithgareddau ar gyfer plant ifanc (ESTYN, 2022). Mae athrawon trochi fel arfer yn cyflwyno'r Gymraeg trwy brofiadau cyfoethog sy'n seiliedig ar chwarae, caneuon, storïau ac arferion dyddiol.

Roedd pryderon yn codi ymysg rhai athrawon prif ffrwd pan mae'n dod i drochi cynnar, a chynnwys plant Blwyddyn 2 yn y ddarpariaeth drochi. Roedd rhai athrawon yn teimlo bod cynnwys plant blwyddyn 2 yn y ddarpariaeth drochi yn heriol.

Mae oedran yn parhau i fod yn fater dadleuol yn y llenyddiaeth wrth ystyried priodoldeb trochi cynnar (Genesee, 2013). Dadleuir Genesee (2004) eto, bod trochi cynnar yn rhoi gofod i fanteisio ar allu naturiol plant ifanc i ddysgu iaith, gan ddadlau bod dulliau addysgu iaith megis Dysgu Cynnwys ac Iaith yn Integredig (CLIL) yn haws i'w gweithredu gan fod y gofod addysgol yn fwy arbrofol a dysgwr ganolog, efallai o'i gymharu â'r sector Uwchradd, ble mae gofyn am fwy o hyfedredd mewn sgiliau ieithyddol i gyd-fynd gyda'r cynnwys cwricwlaidd sy'n fwy cymhleth. Eto, mae lle i ystyried datblygu a chefnogi staff prif ffrwd i ddatblygu strategaethau addysgol addas ac effeithiol.

Ar y cyfan, nid yw ymchwil yn arddangos bod unrhyw anfanteision o drochi cynnar, ond yn hytrach yn amlygu manteision (Steele et al., 2017; Trebits et al., 2021; Genesee, 1983; Genesee & Jared, 2008). Mae ystyriaeth allweddol bod cynnig cyfle i bob plentyn gael eu trochi yn yr iaith leol yn sicrhau cynnig teg a chynhwysol, cynnig all sicrhau bod y disgyblion yn medru ymgysylltu'n llawn gyda'r iaith a'r ardal leol, tra eu bod hefyd yn dod yn siaradwyr newydd, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac yn eu tro, gyfrannu at wireddu rai o nodau Thema 1, Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr (Llywodraeth Cymru, 2017, tud 32), gan gynnwys y sgiliau academaidd yn yr hir dymor.

Mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn gallu dylanwadu ar lwyddiant addysgol plant, ond gall rhaglenni trochi helpu i liniaru'r anghydraddoldebau hyn i blant o gefndiroedd llai breintiedig (Trebetis et al., 2021). Mae'n allweddol sicrhau bod y ddarpariaeth drochi yn cael ei haddasu'n briodol lle bo' angen i ddiwallu anghenion disgyblion yn llawn.

Mae gweithrediad effeithiol yn dibynnu ar athrawon sydd wedi eu hyfforddi'n benodol mewn dulliau trochi ac ar argaeledd adnoddau addysgol priodol.

Dilyniant yn y Dysgu

Mae'r model trochi newydd yn arwain yn aml iawn at heriau wrth gefnogi datblygiad academiaidd o fewn y model 10 Wythnos. Mae hyn yn wir o safbwynt datblygiad disgyblion wrth gaffael y Gymraeg, ond hefyd yn y gwaith academiaidd yn yr ysgolion prif ffrwd. Fel yr amlygwyd yn barod, roedd colli 20% o amlygiad yn y canolfannau yn ennyn ymatebion negyddol ar draws y data ansoddol, ond hefyd mae'n golygu heriau wrth ddychwelyd i'r ysgol prif ffrwd o ran dilyniant ac ymgysylltu yn ystod y deg wythnos. Roedd rhai disgyblion sy'n dychwelyd ar ganol y cylch dysgu (ar ddydd Gwener) yn ei gweld yn heriol ymgysylltu gyda'r gwaith yn yr ysgol prif ffrwd (e.e. modelu, drafftio, aildrafftio) sy'n arwain at heriau wrth gefnogi profiadau dysgu a chymhwyso gwaith yn briodol ar ddydd Gwener.

Athro 1

"Mae'r plant 'di bod yn gweithio ar rywbeth drwy'r wythnos. Mae o'r un peth hefo mathemateg. Os 'da ni 'di bod yn dysgu sgil mathemateg drwy'r wythnos, maen nhw'n cyrraedd dydd Gwener lle 'da ni'n datrys problem neu resymu, dydyn nhw ddim 'di bod yma ar gyfer y camau yna chwaith... bod nhw'n cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd pan maen nhw'n dod i mewn."

Gwelwyd arferion cryf mewn rhai ysgolion prif ffrwd, ble roedd cynllunio bwriadus drwy sgaffaldau neu bersonoli'r cwricwlwm i gefnogi dysgu ar ddydd Gwener. Mae lle i ystyried rhannu'r arferion cadarn hyn ar draws yr ysgolion prif ffrwd, i sicrhau cyfle teg i bob disgybl trochi fedru cymhwyso'r iaith mewn cyd-destunau academiaidd ymestynnol tu allan i'r ganolfan drochi yn effeithiol.

Er hynny roedd heriau o amgylch diffyg staff (addysgu a chefnogol) yn golygu nad oedd gan ysgolion prif ffrwd yn fwy aml na pheidio'r gallu i gynnig cefnogaeth wedi ei theilwra i'r disgyblion sy'n dychwelyd ar ddydd Gwener.

Mae'r heriau staffio ar ddydd Gwener yn yr ysgolion prif ffrwd yn rhwystr enfawr wrth geisio cefnogi disgyblion trochi gyda'r cwricwlwm arferol ond hefyd eu cynnydd wrth gaffael y Gymraeg. Gwelwyd tystiolaeth yn yr astudiaeth hon ei bod yn medru bod yn heriol i athrawon ysgolion prif ffrwd fedru cynnig cefnogaeth ieithyddol briodol i'r disgyblion.

Er bod ysgolion prif ffrwd yn cydnabod bod deunyddiau gwerthfawr ar gael i gefnogi datblygiad ieithyddol disgyblion, nid yw'r adnoddau staffio ganddynt i ddefnyddio'r adnoddau a'r gefnogaeth yn effeithiol.

Athro 1

"Wel, does gennyn ni ddim staff i fod yn gallu rhoi'r amser i eistedd... i fynd drwy'r gwaith yna chwaith. Blwyddyn 3, un athrawes, 28 o blant. Fel dwi'n deud, 'di'r staff ddim yma gennyn ni i fod yn medru rhyddhau pobl i fod yn cymryd y plant."

Roedd staff y canolfannau iaith a staff yr ysgolion prif ffrwd yn mynegi pryder bod disgyblion yn colli sesiynau strwythuredig ar ddydd Gwener yn y canolfannau iaith (e.e. gwaith sgript, chwarae rôl ayb) sydd mor allweddol wrth gaffael iaith. Mae'n rhaid ystyried bod hyn yn cael traweffaith ar hyder disgyblion ar eu taith i ruglder.

Athro trochi 10

"Fel arfer, oedd y dydd Gwener yn bora yn adolygu patrymau'r iaith yr wythnos i gyd, a dydd Gwener oedden nhw'n neud y sgript, actio'r sgript. Ond erbyn rŵan, 'da ni'n teimlo, neu dwi'n teimlo bod y cyfnod yna ddim ar gael, bod 'na rywbeth yn gorfod mynd o bob wsnos, os 'di hynny'n neud synnwyr, bod 'na ddim gymaint o gyfle iddyn nhw fod yn adolygu fel oedden ni ar fore dydd Gwener."

Er bod rhai ysgolion yn tynnu ar adnoddau oedd wedi eu rhannu gan y canolfannau er mwyn cefnogi datblygiad ieithyddol y disgyblion, a chefnogi'r broses o ddychwelyd ac integreiddio'n ôl i'r ysgolion prif ffrwd, roedd anghysondeb yn lefel y gefnogaeth yr oedd disgyblion yn ei derbyn ar ddyddiau Gwener yn yr ysgolion prif ffrwd gan yr athro dosbarth.

Adnoddau

Roedd y canolfannau trochi yn rhannu y cynnwys dysgu ac adnoddau cefnogol gyda'r disgyblion a'r ysgolion prif ffrwd drwy *Google Classroom*. Roedd yr ysgolion prif ffrwd sy'n ymgysylltu gyda'r deunyddiau digidol ar *Google Classroom* ac yn ei weld yn gyfrwng defnyddiol i rannu gwybodaeth a phatrymau iaith allweddol. Mae'r adnoddau hyn yn cael eu gweld fel adnodd defnyddiol i gefnogi'r disgyblion trochi pan maent yn dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd, a gwelwyd tystiolaeth o'r rhain yn cael eu defnyddio ar y dydd Gwener mewn ychydig iawn o arsylwadau.

Athro 2

"Da ni yn cael deunydd drwodd gan yr athrawes (trochi). Wedyn mae hi yn danfon ar ddiwedd yr wythnos y patrymau iaith sydd 'di bod am yr wythnos flaenorol. Maen nhw'n ddefnyddiol hefo pawb, i fod yn hollol onest."

Er hynny, nid oedd pob ysgol prif ffrwd yn ymgysylltu gyda'r deunyddiau ar *Google Classroom* o gwbl, gyda rhai ysgolion yn ei gweld yn anodd dod â'r cynnwys dysgu iaith yn rhan o'r ffocws addysgol ar y dydd Gwener.

Athro 3

"Er bod fi'n trio rhannu fo hefo pawb, ac mae'r deunyddiau yn ddefnyddiol ofnadwy, anodd ydi trio ffitio fo i mewn jyst ar gyfer un, mewn ffordd."

Roedd y rhan fwyaf o athrawon trochi yn gweld prinder adnoddau cefnogol, yn enwedig i gefnogi dysgwyr oed Uwchradd gyda'r iaith, neu ddysgwyr sydd wedi pasio'r lefel gychwynnol o ddysgu'r iaith.

Athro Trochi 5

"Mae 'na gap mawr yn y farchnad o ran llyfrau Cymraeg i ddysgwyr, yn sicr. Mae 'na rai cychwynnol syml, rhai 'da ni 'di dysgu darllen hefo nhw, y rhai fel Sali Mali, er enghraifft. Ond mae 'na ryw naid wedyn. A dwi'n teimlo bod 'na ryw le gwag yn fanno."

Wrth drafod argaeledd adnoddau cyffredinol i gefnogi'r addysgu a dysgu ym maes trochi, roedd yr adborth yn gymysg. Nodwyd bod adnoddau defnyddiol ar Hwb, ond eu bod yn medru bod yn anodd i'w cyrchu. Nodwyd byddai datblygiadau digidol i gefnogi disgyblion trochi gyda'u medrau darllen yn cael ei groesawu, a bod modd dadlau bod gofod i ddatblygu adnoddau pellach yn y maes hwn.

Athro Trochi 1 a 3

"Athro 1: Mae 'na lot yn Saesneg, Reading Eggs i helpu hefo darllen, Darllen Co yn Gymraeg. Fysa fo'n neis ella 'sa rhywun yn creu rhywbeth ar gyfer disgyblion trochi. Lle mae rhywbeth fatha Darllen Co, maen nhw'n defnyddio pan yn mynd yn ôl i ysgol ella'n rhy anodd iddyn nhw pan maen nhw'n mynd yn ôl. Ella 'sa fo'n neis 'sa rhoi cyfle i greu rhywbeth yn benodol ar gyfer dysgwyr trochi."

"Athro 3: Ia, dyna ydi o. Mae rhywun yn gorfod creu adnoddau ei hun, i bob pwrpas, o ran pethau felly."

Cynnydd Disgyblion

Roedd athrawon a disgyblion fel ei gilydd yn cydnabod gwerth y ddarpariaeth drochi o ran datblygu sgiliau llafar Cymraeg disgyblion, gan bwysleisio bod y ddarpariaeth drochi yn darparu cefnogaeth gadarn ac amhrisiadwy tuag at hyfiedredd iaith disgyblion.

Disgybl 1

"When I first joined, well, when we first joined, they said in a meeting in school, they said, "You won't be fluent, but you'll know a lot. And I was thinking I might not catch it in time. But I think I've learnt a lot so far."

Disgybl 2

"Some of my friends who have done the Welsh unit, and they told me that you won't learn everything. You won't learn like how to write in Welsh, but if you get caught in a conversation, you'll know. If you need to talk, you're good. You learn most of the basics and most of the stuff you'll need."

Roedd y data ansoddol yn amlygu bod gwaith o ansawdd uchel yn digwydd o fewn y canolfannau trochi, sy'n arwain at gynnydd sylweddol mewn rhuglder nad yw'n bosibl ei gyflawni i'r un graddau o fewn cyd-destun addysgol arferol yn yr ysgolion prif ffrwd.

Athro 1

"Y cryfder ydi, fyswn ni byth yn medru gwneud y gwaith maen nhw'n neud mewn deg wythnos mewn ysgol prif lif."

Er hyn, roedd rhai athrawon yn mynegi pryder bod y model 10 wythnos newydd yn llai effeithiol, gan nodi efallai nad yw cynnydd sgiliau ieithyddol disgyblion bellach mor gadarn ag yr oeddent o dan y system flaenorol. Roedd rhai disgyblion yn cael trafferth ymgorffori'r Gymraeg i fywyd yr ysgol ar ôl gadael y ddarpariaeth drochi yn ôl safbwyntiau rhai athrawon yn yr astudiaeth hon.

Ar hyn o bryd mae'r canolfannau trochi yn asesu cynnydd y disgyblion yn unol a'r Fframwaith Llythrennedd Genedlaethol a'r llinyn llafaredd i dracio ac asesu. Mae bwriad cenedlaethol i edrych y mesuryddion hyn yn unol â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd (CEFR).

Ymhlygiad

Mae cyfle i archwilio ymhellach sut mae disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg ac yn integreiddio'n ôl i'r ysgol, flwyddyn ar ôl bod yn rhan o'r cynllun trochi.

Cymhelliant Disgyblion

Roedd y themâu oedd y codi o gyfweiliadau'r disgyblion yn dangos bod llais y dysgwr yn amlygu profiadau cadarnhaol yn y Ganolfan Drochi sy'n cael eu hategu gan strategaethau addysgu ail iaith pwrpasol.

Roedd y data yn arddangos bod agweddau mwyafrif y disgyblion yn rhai cadarnhaol tuag at fod yn y ganolfan drochi a thuag at ddysgu Cymraeg. Amlygwyd bod disgyblion ar y cyfan yn mwynhau dysgu Cymraeg, ac yn gweld y strategaethau addysgu yn rhai effeithiol wrth feithrin mwynhad a chymhelliant, ond heb roi gormod o bwysau.

Disgybl 2

"So I'm grateful that we do it in fun songs and fun ways and games and stuff instead of someone pushing us to do it and pushing us to do it."

Roedd disgyblion yn mynegi eu bod yn mwynhau ymgysylltu gyda'r dulliau addysgu, yn benodol gemau iaith, caneuon a yb.

Roedd y canolfannau yn gwneud defnydd da o system wobrwyo 'Class DoJo', sy'n ategu cymhelliant disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ac roedd y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i hyn. Roedd y system wobrwyo wedi ei strwythuro'n eglur ac yn cael ei wau'n naturiol i ystod o weithgareddau dysgu ac addysgu'r diwrnod a'r wythnos.

Roedd y canolfannau wedi cynllunio'r system wobrwyo i atgyfnerthu eu dulliau addysgu er mwyn cefnogi'r disgyblion gyda chaffael y Gymraeg, hyd yn oed pan oeddent yn cael eu gwobrwyo.

Athro Trochi 8

"Maen nhw'n cael targed ar ddechrau'r wsnos, deud 80 pwynt, ac maen nhw'n cael rhyw un pwynt am ymdrech dda canu, neu maen nhw wedi eistedd yn daclus wrth ymyl y bwrdd. Neu maen nhw 'di bod yn siarad Cymraeg ar yr iard, ella fod hwnna'n tri phwynt."

Mewnbwn yr Athro a Dulliau Trochi

Roedd tystiolaeth o'r athro trochi yn defnyddio iaith yn effeithiol, drwy arafu a symleiddio patrymau iaith, a modelu defnydd cywir. Mae defnydd effeithiol o'r strategaethau addysgu iaith hyn yn gymorth wrth i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r iaith. Roedd disgyblion yn disgrifio sut oedd athrawon trochi yn defnyddio mewnbwn cynhwysfawr yn gadarnhaol, sy'n effeithiol wrth sicrhau bod sgaffaldau iaith priodol mewn lle i gefnogi rhuglder disgyblion (Tedick a Lyster, 2019).

Roedd disgyblion yn nodi bod cyfarwyddiadau penodol o amgylch gwybodaeth a sgiliau sylfaenol i ddatblygu rhuglder yn ddefnyddiol e.e.. dod i ddeall Yr Wyddor Gymraeg, sy'n allweddol i gefnogi datblygiad disgyblion wrth ynganu'r iaith darged.

Roedd defnydd o strategaethau yn y canolfannau megis ailadrodd patrymau yn cael ei nodi fel arfer werthfawr gan ddisgyblion ac yn amlygu arferion addysgu iaith effeithiol a oedd yn galluogi disgyblion i ddeall ystyron yn reddfodol.

Disgybl 1, 2 a 3

"Disgybl 1: Even if they say something you don't know, then they kind of slow it down and say it again, emphasise every word, and then you figure it out."

Disgybl 3: Yeah. 'Cause they don't say a Welsh word like diolch and then tell you that it means thank you. They say it and say it and say it, and then you just know that it is thank you."

Disgybl 2: Yeah. You just process that, and you understand."

Roedd dadansoddiad o grwpiau ffocws athrawon yn atgyfnerthu agweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at eu profiadau yn y canolfannau iaith. Gwelir perthynas gadarn rhwng cymhelliant ac agweddau cadarnhaol y disgyblion a'r arddulliau addysgu ail iaith bwriadus a gaiff eu defnyddio gan athrawon y canolfannau trochi.

Athro Trochi 8

"Ti'n gwybod, deud y gair neu'r gair gynta' jyst i giwio nhw i mewn, i atgoffa nhw. Dwi'n meddwl bod hynna'n help. Lluniau, mae 'na lot o luniau, does, ar y wal. Sgwennu, lluniau, iwsio ystumiau, beth bynnag, pethau felly."

Roedd amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu darparu yn y ddarpariaeth drochi, ac roedd trefn ac arfer yn cael eu cynllunio'n fwriadus, e.e.. disgyblion yn ffonio'r ffreutur i roi archeb cinio, system wobrwyo yn cael ei atgyfnerthu'n gyson.

Roedd amgylchedd y dosbarth wedi ei gynllunio'n fedrus, gan arddangos cysondeb ar draws y canolfannau o ran y defnydd o'r gofod addysgol i ddarparu ciwiau gweledol drwy luniau a geirfa allweddol ar y waliau i gefnogi'r disgyblion.

Roedd yr athrawon yn y canolfannau trochi yn hyderus wrth ddewis a dethol strategaethau priodol i gefnogi'r disgyblion gaffael yr iaith, boed hynny drwy iaith y corff, ystumio, ail-adrodd, sy'n allweddol i ddatblygu dealltwriaeth a chaffael iaith hir dymor. Cryfder arall oedd bod hyfedredd yr athrawon trochi wrth ddefnyddio'r strategaethau hyn yn golygu nad oes dibyniaeth ar ddefnyddio'r Saesneg yn y dosbarth.

Athro Trochi 7

"Symleiddio a meimio pethau os 'dyn nhw'm yn deall. A deud y gair yn Saesneg mond os sydd rhaid. Ac wedyn ti jyst yn ail-ddeud y gair Cymraeg lot o weithiau. Ia, ail-ddeud, symleiddio. Modelu'r iaith iddyn nhw. Maen nhw'n cael sampl o'r cwestiwn. "

Nid oedd ddarpariaeth a'r gefnogaeth ieithyddol i ddisgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgolion Prif Ffrwd mor gadarn. Nid oedd cynnig dysgu proffesiynol strwythuredig wedi ei ddarparu i staff ysgolion prif ffrwd fedru datblygu'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi datblygiad iaith y disgyblion yn effeithiol o fewn y model trochi newydd. O ganlyniad i hyn, ni arsylwyd defnydd cyson o strategaethau dysgu ail iaith, megis defnydd bwriadol ac effeithiol o'r iaith darged, modelu iaith, defnyddio ciwiau gweledol, nac ychwaith ddefnydd o adnoddau pwrpasol i gefnogi datblygiad ieithyddol y plant.

Dysgu Proffesiynol

Roedd rhai aelodau o staff y canolfannau iaith yn ymgysylltu gyda thrafodaethau rhyngwladol yn y maes addysgu ail iaith ac yn rhannu arferion da drwy rwydweithiau cenedlaethol. Er hynny, mae llwybrau dysgu proffesiynol ym maes trochi iaith yn brin ar lefel genedlaethol ar gyfer staff trochi. Mae'n ymddangos bod ymgysylltiad ag arferion da rhyngwladol yn dibynnu ar ymdrechion unigol neu arweinyddiaeth canolfannau ar lefel leol yn hytrach na gweledigaeth a llwybr dysgu proffesiynol cenedlaethol.

Athro Trochi 4

“ Yn bersonol, dwi 'di bod yn gwneud lot o waith ymchwil personol fy hun o ran Saesneg fel iaith ychwanegol, hefyd o ran Gwlad y Basg, a gweld be 'di'r egwyddorion yn America o ran dysgu Sbaeneg hefyd fel iaith ychwanegol yn fanna.”

Yn ychwanegol, roedd nifer o staff y canolfannau yn defnyddio rhaglenni ymyrraeth megis ELSA. O ganlyniad, roedd staff y canolfannau yn nodi eu bod yn ymgorffori patrymau iaith yn effeithiol i strategaethau cefnogi lles.

“ Wedi dwi 'di cynllunio yn ieithyddol gwersi amser cylch i fedru edrych ar yr elfen o lesiant hefo'r plant, ond bod ni'n gallu neud o drwy'r Gymraeg, bod ni'n adeiladu ar batrymau iaith o wsnos un, edrych ar emosiynau ac adeiladu ar hynny.”⁴

Ymhlygiad

Mae diffyg cyfleoedd Dysgu Proffesiynol strwythuredig i staff ysgolion prif ffrwd yn cyfyngu ar eu gallu i gefnogi disgyblion sy'n mynychu'r gyfundrefn drochi yn llawn. Nid yw'r goblygiadau ar gyfer uwch- sgilio staff prif ffrwd fydd yn cefnogi'r disgyblion yn ystod y cyfnod trochi wedi eu hystyried yn ddigonol wrth ddatblygu'r model newydd.

Cyfathrebu

Er bod gweithdrefnau cadarn mewn lle mewn ymgais i rannu gwybodaeth allweddol rhwng y canolfannau iaith, a'r ysgolion prif ffrwd, fel y gwelir yn Nhabl Wyth, ymddengys nad oedd y wybodaeth yn cyrraedd y staff perthnasol.

Tabl 9:Gweithgareddau cefnogi i staff ysgolion a rhieni yn ystod y model

Rhaglen Gefnogi Staff a Rhieni	Cyfathrebiad Rhwng y Ganolfan a'r Ysgol Prif Ffrwd
Cyn i'r disgybl gyrraedd y ganolfan	Athro Trochi yn mynd i'r ysgol prif ffrwd i gyfarfod y plentyn a'r athro dosbarth
Bore Agored Cyn Cychwyn y cwrs	Disgybl a rhieni yn ymweld gyda'r canolfannau

⁴ Ni arsylwyd y strategaethau hyn ar waith yn ystod yr astudiaeth hon.

	Darparwyr lleol, e.e. Dysgu Cymraeg GO, Menter Iaith yn bresennol i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau allgyrsiol i gefnogi dysgu Cymraeg
Wythnos 1	Cyfarfod ar-lein i gefnogi athrawon a staff prif ffrwd Rhannu amserlenni Rhannu mynediad i <i>Google Classroom</i> Rhannu strategaethau trochi effeithiol gyda athrawon prif ffrwd Rhannu patrymau iaith
Wythnos 6	Cyfarfod ar-lein i gefnogi athrawon prif ffrwd Rhannu patrymau iaith pellach Cyfle i drafod a rhannu gwybodaeth
Wythnos 10	Bore agored yn y ganolfan Rhieni, athro dosbarth a phenaethiaid yn cael gwahoddiad
Wythnos 11	Staff y ganolfan yn mynychu'r ysgol prif lif i rannu gwaith y plant Cyflwyno tystysgrif cwblhau i'r disgyblion trochi

Er bod y canolfannau iaith yn rhannu'r deunydd dysgu drwy gyfrwng digidol megis *Google Classroom*, nid oedd y wybodaeth na'r adnoddau yn cyrraedd yr athro dosbarth prif ffrwd bob tro, ac roedd presenoldeb ysgolion prif ffrwd yn y digwyddiadau cefnogi yn amrywio.

Athro 1

“Cyfwelydd: Sut mae'r athro dosbarth yn gwybod am y gwaith iaith a lefel y gwaith sy'n cael ei gwblhau yn y ganolfan drochi er mwyn i chi fedru cyfeirio ato fo ar ddydd Gwener yn y gwersi?”

***Athro:** Dwi'm yn meddwl bod nhw'n gwybod o ran hynny.”*

Athro Trochi 4

“Ac os oedd y pennaeth, yn amlwg, wedi rhaeadru'r wybodaeth i gyd hefo bob un aelod o staff o ran gallu ieithyddol plentyn, 'di rhannu'r patrymu iaith a bod yr athrawon yn defnyddio'r un patrymau iaith bob dydd Gwener ac yn y gwersi, yna mae 'na botensial. Ond mae o'n anghyson.”

Er bod rhai enghreifftiau o negeseuon e-bost wythnosol yn cael eu rhannu gan athrawon y canolfannau, ymddengys bod ysgolion prif ffrwd yn gweld y negeseuon hyn yn afreolaidd, a bod gwybodaeth allweddol ddim yn cyrraedd yr athrawon dosbarth cywir.

Athro 2

“Dydw i ddim yn cael bob wsnos. Ges i chydig wsnosau yn ôl am gyfnod, a ges i ddechrau'r cyfnod am gyfnod. Felly dwi'm yn cael yn wythnosol na bob pythefnos. Ond mae'r e-bost yna, mae un e-bost hefo pum uned neu rywbeth ynddo fo, dwi'n siŵr.”

Ymddengys hefyd bod athrawon y canolfannau yn ansicr ar brydiau pwy ydy athrawon dosbarth y disgyblion, yn enwedig pan mae'n dod i ysgolion prif ffrwd mwy eu maint neu ysgolion Uwchradd, sy'n achosi heriau pellach wrth rannu gwybodaeth allweddol am ddatblygiad a darparu cefnogaeth ar gyfer cynnydd a lles y disgyblion.

Athro Trochi 1 a 2

“Athro 1: Dwi'n e-bostio'r athrawon dosbarth hefyd. Gei di'm ateb gan bawb. Rhai sy'n ateb e-byst, deud y gwir.

Athro 2: Dwi'n trio e-bostio'r athrawon dosbarth. Ond y rhai dwi'm yn siŵr iawn pwy ydi'r athro dosbarth, dwi yn gofyn i'r pennaeth i basio'r neges ymlaen.

Athro 1: Mae o'n anodd mewn ysgol fawr, dydi.”

Ymddengys hefyd mai sgysiau anffurfiol oedd y prif ddull o gyfathrebu wrth ddiweddarau ysgolion prif ffrwd am gynnydd wythnosol disgyblion ar y dydd Gwener ac eithrio'r rhaglen a amlygwyd yn Nhabl 8. Nid oedd cyfarfodydd na strwythurau ffurfiol wythnosol mewn lle i rannu gwybodaeth rhwng y ddau leoliad.

Athro Trochi 6 a 7

“Athro 6 :Jyst sgwrs sydyn. Dim byd ffurfiol yn benodol, jyst er mwyn adrodd yn ôl. Ac wedyn weithiau mae ganddyn nhw gwestiynau am yr unigolyn neu batrymau iaith a ballu. Ond dim cyfarfodydd. Mond sgwrs fel'na dwi'n cael.”

“Athro 7: 'Sw'n i'm yn deud bod o'n rhywbeth sy'n digwydd bob wsnos ar ddydd Gwener, bod ti'n siarad hefo bob athro a thrafod, achos lot o'r amser, 'sgennyn nhw'm amser, a 'sgen titha ddim llawer o amser chwaith...”

Mae anffurfioldeb o'r fath, er ei fod yn fuddiol i ysgolion bach lle mae ymgysylltu a rhannu gwybodaeth yn haws ac yn digwydd yn naturiol, gall fod yn broblematig mewn sefydliadau mwy, gan arwain at gyfathrebu tameidiog neu annigonol. Yn yr ysgolion mwy, roedd staff yn aml yn ei chael hi'n anodd cadw cysylltiad rheolaidd, gan ddibynnu'n helaeth ar gyswllt gyda'r penaethiaid neu staff gweinyddol i rannu gwybodaeth allweddol, sy'n effeithio ymhellach ar y gefnogaeth a'r cysondeb cyfathrebu er mwyn sicrhau lles a datblygiad y disgyblion sy'n mynychu'r canolfannau.

Athro Trochi 3

“O ran cyfathrebu hefyd, dwi'n meddwl bod o'n dibynnu ar yr ysgol. Dwi'n mynd i dair ysgol. Mae 'na ambell ysgol ella dwi'n gweld yr athro neu athrawes yn wythnosol achos dwi'n gorfod mynd drwy'r dosbarth i fynd i'r ystafell lle dwi'n gweithio hefo'r plentyn. Ond mae 'na ysgol, mond yr ysgrifenyddes dwi'n gweld a 'na fo achos mae pawb yn brysur a ballu.”

Roedd yr arfer o rannu patrymau iaith wythnosol trwy lwyfannau fel *Google Classroom* yn cael ei groesawu. Er hynny, roedd y modd y caiff yr adnoddau hyn eu dosbarthu a'u defnyddio yn parhau'n anghyson, gan ddibynnu'n helaeth ar flaengaredd staff unigol yn yr ysgolion prif ffrwd yn hytrach na phrosesau a strwythurau sefydliadol cadarn.

Athro 2

“Dwi'n licio bod ni'n cael gweld yr adnoddau a be maen nhw 'di bod yn neud o wsnos i wsnos. Fwy ella nag oedden ni'n cael gwybod cynt pan oedden nhw yna. Oedd o'n fwy o gyfnod o oedden nhw yna am amser, ac wedyn oedden nhw'n dod yn ôl a 'na fo. O leia' rŵan 'da ni yn cael gweld y patrymau.”

Athro Trochi 2

*“Mae bob pennaeth a bob athro dosbarth wedi cael gwahoddiad i'r *Google Classroom* 'da ni'n defnyddio yn yr uned fel medran nhw ddefnyddio'r rheini hefo'r dosbarth cyfan os 'dyn nhw eisiau.*

Er bod staff o'r canolfannau trochi yn mynychu'r prif ffrwd i gefnogi disgyblion trochi ymhellach ar ddyddiau Gwener, nid oedd cyfle i gyfathrebu a chydweithio gyda'r athro dosbarth prif ffrwd bob tro. Roedd colli cyfle yma i rannu gwybodaeth o'r naill leoliad dysgu er mwyn sicrhau'r profiadau cyfoethocaf i'r disgyblion trochi. Gwelwyd bod diffyg dealltwriaeth ymysg rhai aelodau o staff am y cynnwys dysgu oedd yn cael ei gwblhau yn y canolfannau trochi, golygai bod sicrhau parhad ag ymgysylltiad y disgyblion gyda'r iaith yn y prif ffrwd yn llai effeithiol nac y gallasai fod.

Athro 1

“Na, 'sgennyn ni'm syniad, wel, 'sgen i ddim, be maen nhw'n neud yn y dosbarth ar hyd yr wsnos, i fod yn hollol onest.”

Ymhlygiad

Mae angen datblygu strwythurau systematig i wella cyfathrebu ar draws y ddarpariaeth gan yr holl randdeiliaid allweddol, yn cynnwys yr ysgolion prif ffrwd. Gall tynhau systemau cydweithio wella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysgol a chanlyniadau dysgwyr o ran caffael y Gymraeg, ond hefyd o ran cynnal eu ymgysylltiad academaidd mewn meysydd cwricwlaidd eraill dros y deg wythnos.

Defnydd Allgyrsiol

Mae prosesau mewn lle i geisio sicrhau cydlynw rhwng y darpariaethau hamdden ar lefel leol a chefnogaeth Gymraeg i'r disgyblion trochi. Mae tystiolaeth yn yr astudiaeth hon o gydweithio agos rhwng y canolfannau iaith a chyrff sefydliadol e.e.. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Menter Iaith i gyflwyno strwythurau cefnogi eglur i deuluoedd i gefnogi eu plant wrth gaffael y Gymraeg.

Er hynny, mae'r astudiaeth hon wedi amlygu heriau wrth geisio sicrhau darpariaeth Gymraeg ar y cyd gyda gwasanaethau hamdden lleol.

Athro 1

"Mae'n anodd iawn yn yr ardal yma o ran y ffaith bod lot o'r clybiau a'r gweithgareddau yn cael eu cynnal drwy'r Saesneg."

Ymhlygiad

Gellid ystyried datblygu rhaglen o weithgareddau cyfoethogi iaith ar gyfer y disgyblion trochi a'u teuluoedd a hynny mewn cydweithrediad gyda gwasanaethau hamdden, clybiau a sefydliadau lleol, Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin (Dysgu Cymraeg GO) a'r Fenter Iaith.

Cyfleoedd Allgyrsiol yn y cyd-destun Addysg

Roedd defnydd anffurfiol disgyblion neu ddefnydd iaith yn tueddu i fod yn Saesneg yn bron pob un o'r ysgolion a arsylwyd ynddynt, hyd yn oed ymysg disgyblion nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth drochi. Yn bron pob un o'r sefyllfaoedd a gafodd eu harsylwi, mae trwch y dystiolaeth yn nodi mai Saesneg ydy iaith anffurfiol y buarth, yn yr ysgol prif ffrwd ac yn y canolfannau trochi.

Disgybl 13

"I don't really speak Welsh with my friends. Nobody speaks Welsh when they're out of the classroom."

Gwelwyd bod agweddau'r disgyblion tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgolion prif ffrwd yn tueddu i fod yn fwy negyddol nac agweddau tuag at ei defnyddio yn y Canolfannau Iaith, gyda disgyblion yn amlygu nad oedd cymheiriaid yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd, ac mai Saesneg ydy iaith eu grŵp o ffrindiau yn naturiol.

Athro Trochi 5

"A fydda i'n trio gofyn wrth y rhai dwi'n meddwl 'swn i'n cael y gwir ganddyn nhw. A 'chydig iawn o Gymraeg. Dwi'n meddwl arferiad ydi o, ond dim jyst gan ffrindiau a phlant eraill mae o'n digwydd chwaith. Mae staff ac athrawon hefyd yn jyst arfer (Siarad Saesneg)."

Roedd y diffyg defnydd o Gymraeg gan ddisgyblion ar draws yr ysgolion prif ffrwd a gafodd eu harsylwi yn destun pryder. Mae hyn yn golygu bod integreiddio'r disgyblion trochi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gofod prif ffrwd yn fwy heriol, ac yn eu rhoi mewn gofod cwbl gyferbyniol i'r amgylchedd ieithyddol sydd yn y canolfannau trochi.

Er hynny, mae'r data yn arddangos bod ysgolion llai eu maint yn ei gweld yn haws monitro'r defnydd iaith mewn cyd-destunau mwy anffurfiol, megis ar y buarth.

Athro 2

"'Da ni'n ysgol fach hefyd (x nifer) o ddisgyblion sydd gennyn ni yma o flwyddyn meithrin i Flwyddyn 6. Felly mae o'n haws i ni glywed yn ystod amser cinio neu ar y buarth os 'dyn nhw'n siarad Saesneg, a bod ni'n ail-atgoffa yn hytrach na bod ni angen rhoi strategaeth benodol fawr mewn lle i sicrhau o. 'Da ni'n gallu monitro fo'n haws"

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai disgyblion yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg pan maent yn byw mewn cymunedau bach lle mae'r iaith yn parhau i gael ei defnyddio'n gymdeithasol yn yr ardal leol.

Disgybl 1

"It depends who's there for me. Because I know quite a few people in my village. So, like, if I know them as like a friend or something, I would speak like a whole conversation with them, and then they'll help me learn if I say something wrong."

Mae disgyblion sy'n mynychu canolfannau trochi yn y sector uwchradd yn nodi gwerth y Gymraeg o ran cyflogaeth achlysurol, tra bo eraill yn pwysleisio pwysigrwydd gallu cyfathrebu â phobl yn y pentref drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydnabod cefnogaeth i'r iaith a'u taith nhw i gaffael yr iaith yn lleol.

"I have a job at the (enw tafarn leol), so people speak to me in Welsh. I have to say, "I can't speak Welsh yet." So it will help me communicate with people."

Agweddau a Chefnogaeth y Cartref

Mae'r data'n amlygu effaith sylweddol agweddau a gweithgarwch teuluol ar gynnydd ieithyddol disgyblion sy'n dysgu Cymraeg yn y canolfannau trochi. Mae enghreifftiau o rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn ymraffael â dysgu Cymraeg eu hunain er mwyn cefnogi'r plant ac ymgysylltu gyda'r gymuned, sydd yn meithrin ymgysylltiad dyfnach gyda'r iaith tu allan i'r dosbarth ac yn annog defnydd gweithredol o'r iaith yn y cartref.

Disgybl 13

"I tell my mum and dad what I learnt today. And I do with my brother sometimes, but not much because, usually, he's messing around somewhere other than with me. I just speak Welsh with my mum and dad. My dad's learning Welsh on Tuesdays."

Disgybl 1

"My parents are going to a Welsh class, so we all try and help each other."

Mewn sawl achos, roedd disgyblion yn rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu gyda'u rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd, gan gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae'r gefnogaeth emosiynol ac ymarferol hon yn cyfrannu at hyder a chymhelliant ieithyddol y disgyblion.

Athro Trochi 4

"Mae agwedd rhieni yn bwysig, dydi. Mae hwnna'n bwydo i mewn i gymaint."

Ar ben hynny, roedd y data yn nodi bod athrawon yn gweld gwahaniaeth pan mae agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg yn dod o'r cartref, a phan mae gwerth cymdeithasol a diwylliannol y Gymraeg yn cael ei gydnabod gan rieni, mae agweddau'r disgyblion tuag at ddysgu'r iaith yn fwy cadarnhaol.

Disgybl 2

"Disgybl 2: My nan knows a lot of people in (enw pentref wedi ei hepgor), like here and about, so she introduces me to people, and more than half of them probably only speak Welsh. And, obviously, I speak back, and I try to do it. They're normally quite impressed when I speak it 'cause they don't know that I'm learning Welsh."

Cyfwelydd: *And how does that make you feel?*

Disgybl 2: *Definitely happy and proud. I'm progressing. I'm learning. I'm not at a stop point where I don't know anything. I'm moving forward in my knowledge."*

Roedd data'n amlygu pwysigrwydd agweddau perthnasau o'r genhedlaeth hŷn wrth gefnogi'r disgyblion i ddysgu'r Gymraeg, ynghyd â chymorth teuluol wrth feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Yn aml, roedd dysgwyr yn dibynnu ar gyfalaf ieithyddol aelodau hŷn o'r teulu, yn enwedig neiniau a theidiau, sy'n galluogi cyfleoedd dilys i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Roedd tystiolaeth bellach yn dangos bod teulu disgybl yn cymryd rhan weithredol wrth gefnogi'r disgybl i ddysgu'r iaith tu allan i'r ganolfan drochi drwy ddefnyddio adnoddau digidol fel Google Classroom i atgyfnerthu' dysgu yn y cartref. Roedd yr enghreifftiau hyn yn awgrymu bod aelodau'r teulu, yn enwedig mewn cymunedau

Cymraeg eu hiaith, yn gweithredu fel modelau ieithyddol cadarnhaol ac yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol sy'n cyfrannu at ddatblygiad ieithyddol a hyder y dysgwr.

Casgliad

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn arddangos bod disgyblion yn mwynhau mynychu'r canolfannau trochi ac yn gweld cynnydd yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Er hynny, roedd athrawon yn y canolfannau iaith ac yn yr ysgolion prif ffrwd yn teimlo rhwystredigaethau sylweddol o amgylch y model trochi yn ei ffurf gyfredol.

Nid yw dyluniad y model cyfredol wedi llawn ystyried lles disgyblion wrth ddychwelyd i'r prif ffrwd. Mae athrawon y canolfannau, athrawon prif ffrwd a disgyblion fel ei gilydd yn aml yn teimlo rhwystredigaethau gyda'r model, boed hynny drwy golli amser ymgysylltu mewn gofod arbenigol, diffyg amser i gwblhau tasgau, neu ddiffyg systemau i drosglwyddo gwybodaeth yn ddigon effeithiol.

Tra bod ystod o arferion cadarn iawn, a dulliau addysgu iaith arbenigol yn cael eu defnyddio ar draws y canolfannau trochi. Mae amrywiaeth eang iawn yn y gefnogaeth sydd ar gael yn y prif ffrwd, gyda rhai arferion cadarn ac effeithiol i'w gweld, ond arferion eraill nad ydynt yn llwyddo i gefnogi'r disgyblion yn ddigon effeithiol wrth ddychwelyd ar ddydd Gwener.

Mae'r adran nesaf yn cyflwyno dwy Astudiaeth Achos sy'n tystiolaethu'r ystod o brofiadau a welwyd fel rhan o'r data arsylwi â gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1

Cefndir

Roedd Plentyn A, yn ddisgybl ym Mlwyddyn 6, wedi symud i'r ardal leol yn ystod haf 2024. Saesneg oedd iaith y cartref, ac roedd wedi cofrestru mewn ysgol gynradd fechan oedd yn darparu addysg mewn dosbarthiadau blynyddoedd cymysg. Dechreuodd Disgybl A fynychu'r Ganolfan Drochi iaith ar ddechrau tymor yr Hydref, yn dilyn cyfnod o bythefnos yn yr ysgol prif ffrwd.

Wythnosau Cynnar: Wythnos 1-2

Yn ystod yr wythnos gyntaf yn y Ganolfan Drochi, roedd Plentyn A yn hynod frwdfrydig ac yn ymateb yn dda i'r addysg drochi, gan ymgysylltu'n gadarn, gan arddangos parodrwydd i ateb cwestiynau a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus. Sefydlodd berthnasau cadarnhaol gyda chyfoedion yn gyflym gan arddangos boddhad amlwg wrth gyfrannu i weithgareddau dosbarth.

Wrth ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd yn ystod yr ail wythnos, roedd Plentyn A yn cymryd rhan mewn tasg dosbarth mewn grŵp bach gyda dau ddisgybl arall. Er mai dim ond pythefnos o brofiad oedd ganddynt yn y rhaglen drochi, dangosodd ymrwymiad pendant i siarad Cymraeg. Roedd y disgybl yn gallu cyfathrebu anghenion sylfaenol (fel gofyn am fynd i'r toiled) yn Gymraeg yn hyderus, ond roedd yn fwy petrusgar wrth geisio ateb cwestiynau o flaen y dosbarth cyfan. Ar lefel y grŵp bach, roedd yn llawer mwy hyderus, gan ddefnyddio strategaethau fel cyfnewid cod (Saesneg a Chymraeg) a chydweithio gyda chyfoedion i oresgyn rhwystrau ieithyddol. Roedd yr athro yn darparu cefnogaeth barhaus trwy roi adborth, anogaeth a modelu'r iaith yn rheolaidd.

Yn ystod 'amser chwarae' neu 'Amser Aur', roedd Plentyn A yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol mewn gweithgareddau, e.e. gweithgareddau mathemategol ar gyfrifiadur, er bod defnydd o Saesneg hefyd yn amlwg yn y rhyngweithio cymdeithasol.

Datblygiad yn ystod Wythnosau 8-9

Wrth ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd yn wythnos 8, roedd ethos ieithyddol Gymraeg yr ysgol yn amlwg ac yn effeithiol wrth gryfhau a datblygu hyder ieithyddol Plentyn A. Defnyddiodd y Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu gydag aelodau staff a chyfoedion, gan ddibynnu ar gyfnewid cod dim ond pan oedd yn ansicr neu'n mynegi syniadau mwy cymhleth. Roedd ymatebion staff bob amser yn Gymraeg. Roedd hyn yn hybu defnydd Plentyn A o'r Gymraeg.

Yn ystod sesiynau ymarfer sioe Nadolig, dangosodd Plentyn A allu amlwg i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg. Defnyddiodd strategaethau gweledol, megis dilyn arweiniad yr athro, i ymdopi gydag ansicrwydd, a gwelwyd mwynhad clir pan oedd yn gyfarwydd â'r cynnwys.

Erbyn wythnos 9 yn y Ganolfan Iaith, roedd Plentyn A yn gallu cyflwyno ei hun yn hyderus trwy ddefnyddio brawddegau Cymraeg sylfaenol o flaen y dosbarth. Roedd Plentyn A yn medru defnyddio strategaethau iaith yn effeithiol, gan ofyn am gymorth mewn Cymraeg yn gyntaf. Roedd cymorth cyson yr athro yn galluogi Plentyn A i oresgyn rhwystrau ieithyddol wrth ddatblygu hyder ac annibyniaeth wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn gyffredinol, dangosodd Plentyn A gynnydd sylweddol mewn hyder ac ymgysylltiad â'r Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i raglen drochi strwythuredig a chefnogaeth barhaus yn yr ysgol brif ffrwd. Sefydlodd Plentyn A berthnasoedd cadarnhaol a chryf gyda chyfoedion ac aelodau o staff, gan arddangos brwdfrydedd ac awch i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Astudiaeth Achos 2

Cefndir

Roedd Plentyn B yn ddisgybl ym Mlwyddyn 5, oedd wedi symud i'r ardal leol yn ddiweddar. Saesneg oedd iaith y cartref ac roedd wedi cofrestru mewn ysgol gynradd fawr ei maint oedd yn darparu addysg fesul blwyddyn ysgol. Dechreuodd Disgybl B fynychu'r Ganolfan Drochi Iaith yn dilyn tair wythnos yn yr ysgol prif ffrwd.

Wythnosau Cynnar: Wythnos 1-2

Roedd Disgybl B yn ymgysylltu yn briodol gyda'r Gymraeg yn ystod arsylwad Wythnos 1. Er nad oedd Disgybl B yn hyderus yn defnyddio'r iaith, roedd yn barod i ymgysylltu gyda gweithgareddau hwyliog ar lawr y dosbarth, neu dasgau llafar gyda chymheiriaid. Roedd Disgybl B yn ymateb i gwestiynau'r athro, er nad oedd yn hyderus wrth wneud hynny. Roedd ymgais i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r athrawon a'r staff cefnogi, e.e. i ofyn am offer, neu ganiatâd.

Yn y Prif Ffrwd, arsylwyd Disgybl B ar ddechrau gwers, ble gofynnwyd i blant y dosbarth fynegi beth oeddent wedi ei fwynhau yn ystod yr wythnos. Gwelwyd plant y dosbarth yn codi eu dwylo ac yn trafod yn frwd. Fodd bynnag, roedd Disgybl B yn edrych ar goll ac yn parhau i liwio, heb gymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd yr athro yn ailadrodd ymatebion y plant yn naturiol ac yn defnyddio technegau i atgyfnerthu'r dysgu e.e. clicio bysedd a phwyntio at frawddegau ar y bwrdd gwyn. Er bod Disgybl B yn ceisio ymgysylltu gyda'r dasg tua'r diwedd, ni chafodd ei chynnwys yn weithredol yn y drafodaeth.

Pan osodwyd cyfarwyddiadau i Ddisgybl B gwnaed hynny drwy gyfrwng y Saesneg. Nid oedd cyfle i Ddisgybl B gwblhau'r un gwaith â gweddill y disgyblion yn y dosbarth, ac roedd tuedd i dynnu sylw at hynny, gan amlygu gwahaniaeth yn hytrach nag ymdrechu i ddefnyddio dulliau addysgol trochi cynhwysol i gefnogi disgybl B wrth gaffael yr iaith.

Pan nad oedd yr athro yn goruchwyllo rhyngweithio'r grŵp ar lawr y dosbarth, roedd y disgyblion yn troi i'r Saesneg a nid oedd Disgybl B yn rhan o'r trafodaethau hynny chwaith. Roedd y sefyllfa yn parhau ar y buarth, gyda disgyblion yn defnyddio'r Saesneg ymysg ei gilydd, a Phlentyn B yn chwarae ei hun tan ymunodd dau ddisgybl o ddosbarth arall, oedd hefyd yn mynychu'r uned drochi. Rhyngweithiodd Disgybl B gyda'r ddau ddisgybl hynny a disgyblion eraill drwy gyfrwng y Saesneg.

Yn ystod gwers Fathemateg, roedd Disgybl B yn gweithio ar dasg wahanol a symlach na chyfoedion yn y dosbarth. Yn ddiweddarach, pan symudodd hanner y dosbarth i wers ddrama, parhaodd Disgybl B i weithio ei hun heb unrhyw arweiniad pellach ar y gwaith.

Gwelwyd enghraifft o Ddisgybl B yn ymdrechu i ddefnyddio'r iaith pan ofynnodd i fynd i'r tŷ bach yn Gymraeg, ond yn hytrach na chanmol Disgybl B am ddefnyddio'r iaith, atgoffwyd Disgybl B i ddefnyddio "os gwelwch yn dda" ar ddiwedd y frawddeg.

Datblygiad yn ystod Wythnosau 8-9

Wrth ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd yn wythnos 8, roedd plant y dosbarth i gyd yn ymarfer ar gyfer sioe Nadolig yn y neuadd. Fodd bynnag, roedd Disgybl B (ynghyd â disgyblion trochi eraill) wedi cael cyfarwyddiadau i weithio ar *Chromebook* i gwblhau gwaith a osodwyd gan yr uned drochi. Nid oedd Disgybl B yn sicr o'r drefn ar gyfer defnyddio gliniaduron ac os oedd gliniadur wedi ei neilltuo yn benodol i Ddisgybl B. Ar ben hynny, roedd anawsterau ychwanegol yn codi wrth geisio mewngofnodi (e.e., methu dod o hyd i gyfrinair). Roedd Disgybl B yn edrych yn ansicr ac yn ddryslyd, ac roedd angen cymorth gan y tîm gweinyddol i'w cynorthwyo gyda'r gwaith.

Wrth ddychwelyd i'r neuadd at weddill y disgyblion, rhoddwyd Disgybl B i eistedd ar fainc yng nghefn y neuadd, ar wahân i weddill y dosbarth. Gofynnwyd i Ddisgybl B weithio ar dasg wahanol i weddill y dosbarth eto. Er bod Disgybl B yn ymddangos yn hapus ac yn cyfathrebu yn Saesneg gyda chymheiriaid eraill oedd hefyd yn ddisgyblion yn y ddarpariaeth drochi, gofynnwyd i Ddisgybl B fod yn dawel ac nid oedd cyfle i ddefnyddio'r iaith darged mewn amgylchedd dosbarth. Nid oedd cefnogaeth i annog defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol nac fel cyfrwng cyfathrebu gyda staff neu ddisgyblion eraill.

Ar y buarth, roedd Disgybl B ac un aelod arall o'r uned drochi yn edrych yn hapus ac yn ymgysylltu mewn chwarae cymdeithasol gyda phlant eraill. Roeddent yn rhan o'r un criw ac yn dangos arwyddion o integreiddio cymdeithasol. Roedd pob cyfathrebu rhwng y plant yn cael ei wneud yn Saesneg.

Mae achos Disgybl B yn arddangos cymhlethdod wrth geisio cefnogi disgyblion trochi yn y lleoliadau prif ffrwd mewn modd ystyrlon. Mae angen ystyried cyfleoedd pellach wrth gefnogi pob disgybl trochi yn yr ysgol prif ffrwd o ran mynediad i'r Gymraeg, ond hefyd i ddiwylliant ysgol, y gymuned ddosbarth, yr ysgol yn ehangach ac wrth ddatblygu perthnasau gyda staff a chyfoedion.

Erbyn wythnos 9 yn y Ganolfan Iaith, roedd Disgybl B yn arddangos llawer mwy o hyder wrth ryngweithio gyda disgyblion eraill ac wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Er hynny, roedd tuedd i ddefnyddio'r Saesneg gyda chymheiriaid hyd yn oed yn y dosbarth os nad oedd athro yn atgoffa'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg. Saesneg oedd iaith Disgybl B wrth ryngweithio'n anffurfiol ar y buarth.

Casgliad ac Argymhellion

Casgliad

Mae'r astudiaeth hon wedi amlygu nifer o gryfderau o fewn y ddarpariaeth drochi. Mae dulliau addysgu cadarn mewn lle i gefnogi disgyblion ar eu taith i ddod yn siaradwyr newydd. Mae cydweithio effeithiol rhwng y canolfannau a sefydliadau megis Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i gefnogi teuluoedd gyda dysgu'r iaith.

Mae'r disgyblion sy'n mynychu'r canolfannau ar y cyfan yn mwynhau ac yn gweld y profiad yn un cadarnhaol. Er hynny, mae'r ymchwiler wedi amlygu heriau a diffygion gyda'r model cyfredol, 10 Wythnos.

Mae'r astudiaeth fanwl hon wedi amlygu bod mwyafrif o'r rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys yr athrawon trochi ac arweinwyr yr ysgolion prif ffrwd, yn gweld diffygion i'r model cyfredol, sydd yn cael effaith ar ba mor effeithiol mae'r disgyblion yn caffael y Gymraeg, ond hefyd ar eu lles a'u hymgysylltiad academaidd pan maent yn dychwelyd i'r prif ffrwd ar ddydd Gwener.

Bydd y rhan nesaf yn amlygu'r prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o amgylch y cwestiynau ymchwil, cyn cyflwyno **pedwar argymhelliad i Gyngor Gwynedd** er mwyn datblygu'r ddarpariaeth drochi yn unol â'r cwestiynau ymchwil.

Pa mor addas ac effeithiol ydy'r model wrth sicrhau defnydd disgyblion o'r iaith darged pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol prif-ffrwd?

Nid yw'r model cyfredol mor effeithiol ag y gallai fod wrth sicrhau defnydd disgyblion o'r iaith darged pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgolion prif ffrwd ar ddydd Gwener. Yn mwyafrif y lleoliadau a gafodd eu harsylwi, nid oedd cynllunio bwriadus i gefnogi'r disgyblion trochi pan oeddent yn dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd er mwyn defnyddio'r iaith.

Gwelwyd tystiolaeth o ddisgyblion yn dychwelyd i sefyllfaoedd prif ffrwd, ble nad oedd y Gymraeg yn cael ei hatgyfnerthu'n ddigonol. Yn fwy aml na pheidio roedd disgyblion yn cwblhau gwaith anaddas ar y diwrnod prif ffrwd, a phrin yn ymgysylltu gyda'r cynnwys cwricwlaid arferol, nac ychwaith yn cael cyfle i gymhwyso'r iaith darged yn bwrsol.

Yn sicr, nid Cymraeg oedd iaith anffurfiol mwyafrif y disgyblion yr ysgol yn y cyd-destunau prif ffrwd (ac eithrio rhai ysgolion bach mewn cymunedau gwledig), ac roedd hyn yn arbennig o wir tu allan i'r dosbarth e.e.. ar y buarth.

Mae lle i gryfhau strwythurau cyfathrebu rhwng y canolfannau iaith a'r ysgolion prif ffrwd wrth gynllunio a pharatoi cynnwys cwricwlaidd ar draws y deg wythnos, i gefnogi datblygiad ieithyddol y disgyblion yn y Gymraeg, ond hefyd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm prif ffrwd fel bod ganddynt well dealltwriaeth o gynnwys dysgu'r dyddiau Gwener.

Pa mor effeithiol ydy'r model o safbwynt galluogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg yn ddigonol?

Nodwyd yn gadarn bod colli deg diwrnod o'r amserlen drochi draddodiadol yn y Cynradd yn cael effaith ar hyder ac ymgysylltiad y disgyblion gyda'r iaith, ond hefyd ar eu lles. Roedd cefnogi'r disgyblion yn heriol i'r athrawon prif ffrwd, ac nid oedd strwythurau'r ysgolion yn gyffredinol yn hwyluso nac yn atgyfnerthu'r bwlch hwn yn addysg y disgyblion torchi mewn modd effeithiol.

Er hyn, o fedru sicrhau buddsoddiad tu ôl i'r weledigaeth a'r model hwn, mae sylfaen yma i ddatblygu model fyddai'n gwreiddio addysg drochi drwy ysgolion yr awdurdod lleol ac o fewn addysgeg athrawon. Drwy dynnu ar yr arferion cadarn a arsylwyd yn y canolfannau iaith a buddsoddi mewn gwell systemau i ddatblygu cyfleon dysgu proffesiynol staff ysgolion prif ffrwd, bydda addasu'r model hwn yn gallu arwain at ddarpariaeth drochi fyddai'n medru arwain y sector yn genedlaethol a thu hwnt.

Oes cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg ymhellach yn y Gyfundrefn Drochi ac yn yr Ysgolion prif-ffrwd?

Er bod arferion da i gryfhau'r Gymraeg wedi eu harsylwi a'u cofnodi yn y canolfannau iaith, mae lle pendant i gryfhau'r cyfleoedd hyn ar ddyddiau Gwener. Roedd adnoddau yn cael eu rhannu gan y canolfannau trochi drwy gyfryngau megis *Google Classroom*, ond nid yw'r adnoddau hyn o reidrwydd yn cyrraedd yr athro dosbarth prif ffrwd perthnasol bob tro, sy'n cefnogi'r disgyblion trochi. Mae amser hefyd yn ffactor i athrawon prif ffrwd sydd wedi derbyn yr adnoddau, ond yn ei gweld yn heriol ymgysylltu gyda'r gwaith a pharatoi o amgylch hynny. Nid yw'r canolfannau iaith o reidrwydd yn ymwybodol o waith cwricwlaidd na themâu sy'n cael eu dilyn yn y prif ffrwd, felly nid oes unrhyw gyfleoedd i atgyfnerthu'r addysg arferol yn y canolfannau neu yn ystod sesiynau un-i-un yn y prif ffrwd. Drwy ail ddylunio trefniadau cefnogi, gall hyn fod yn gyfle i gryfhau'r cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng y ddau leoliad.

Er bod mwyafrif o'r ysgolion a gafodd eu harsylwi yn gwneud defnydd o adnoddau'r Siarter Iaith, mae'r defnydd anffurfiol o Saesneg ymysg disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd yn her anferth ar draws yr ysgolion a gafodd eu harsylwi yn yr awdurdod lleol ar hyn o bryd. Mae lle felly i ystyried cynlluniau ehangach i weithredu'r Gymraeg yn fwy cadarn yn y gofodau hyn, nid yn unig o safbwynt y disgyblion trochi. Heb sylw dyledus i ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Saesneg mae perig bod y cynnydd y mae'r disgyblion trochi yn ei wneud o ddydd Llun i ddydd Iau yn mynd yn ofer os nad yw defnyddio'r Gymraeg wedi ei normaleiddio yn y prif ffrwd.

Mae cydweithio agos yn digwydd rhwng rhai rhanddeiliaid allweddol a'r canolfannau trochi, ond gellid cryfhau'r rhain ymhellach drwy sicrhau mewnbwn yr ysgolion prif ffrwd hefyd wrth adnabod cyfleoedd allgyrsiol addas yn y cymunedau lleol i'r disgyblion a'u teuluoedd fedru dysgu a defnyddio'r iaith.

Pa mor addas ac effeithiol ydy'r model wrth ystyried llesiant y disgyblion yn ystod y cyfnod trochi?

Mae mynychu'r ysgolion prif ffrwd am ddiwrnod yr wythnos yn arbennig yn ystod yr wythnosau cyntaf pan nad oes ganddynt afael gref ar yr iaith yn golygu bod mwyafrif y disgyblion yn teimlo'n ansicr pan maent yn dychwelyd i'r ysgol prif ffrwd. Gall hyn effeithio ar lesiant disgyblion yn negyddol mewn rhai achosion. Mae'r disgyblion yn hapus yn y canolfannau trochi ac yn meithrin perthnasau cadarn gyda'u cymheiriaid, sy'n ymddangos yn fwy heriol yn y prif ffrwd.

Argymhellion

1. Mae angen ailedrych ar y model trochi presennol i sicrhau oriau cyswllt digonol i ddisgyblion mewn gofod trochi, fel nad ydynt yn derbyn llai o oriau cyswllt yn y daith i ddod yn rhugl. Argymhellir archwilio lles a sicrwydd emosiynol ochr yn ochr â datblygiad ieithyddol disgyblion wrth gynllunio'r model. Mae cyfleon i ystyried datblygu defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi cyswllt parhaus gyda'r prif ffrwd yn hytrach na dychwelyd i'r prif ffrwd yn ystod yr hanner cyntaf, gan integreiddio'n raddol gyda'r prif ffrwd yn ystod ail hanner y bloc trochi yn ystyriaeth bellach. Awgrymir y dylid ail-edrych ar y model o ddychwelyd i'r prif-ffrwd ar ddydd Gwener i ddychwelyd ar ddydd Llun gyda'r cyfle i fwydo modelau iaith sy'n gysylltiedig â gwaith dosbarth y disgyblion a chael cyfleoedd i wneud defnydd o'r iaith honno wrth gadw mewn cysylltiad yn rhithiol.
2. Dylid edrych ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol sut i gryfhau llwybrau dysgu proffesiynol i athrawon prif ffrwd, athrawon llanw a chymorthyddion er mwyn datblygu strategaethau addysgu trochi effeithiol i gefnogi caffael y Gymraeg mewn cydweithrediad gyda'r canolfannau trochi ac arbenigwyr, gan eu gwreiddio yn addysgeg pob athro. Gyda dyfodiad yr *Athrofa* fel rhan o'r Bil Addysg (Cymru), *Adnodd* (Llywodraeth Cymru) a'r cynlluniau cenedlaethol newydd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol i athrawon, byddai'n briodol sicrhau bod addysgeg trochi yn rhan annatod o'r gefnogaeth hon i athrawon.
3. Dylid datblygu strwythurau cydweithio mwy effeithiol rhwng y canolfannau iaith a'r ysgolion prif ffrwd yn ystod y cyfnod trochi a thu hwnt. Mae lle i edrych ar sut y defnyddir y staff trochi yn y prif ffrwd ar y dydd Gwener er mwyn cefnogi a chynnal y disgyblion yn fwy effeithiol o fewn yr ysgol prif ffrwd, yn hytrach na thynnu'r disgyblion o'r dosbarth i weithio'n ynysig gyda'r athro trochi.
4. Argymhellir archwilio dulliau ysgol-gyfan yn yr ysgolion prif lif er mwyn hybu hyder plant wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Dylid rhoi sylw arbennig i ddiwylliant ieithyddol y buarth, gan fod yr amgylchedd anffurfiol hwn yn greiddiol i ddatblygiad ieithyddol disgyblion trochi, ond hefyd i ethos yr ysgol.

Llyfryddiaeth

Baker, C. (1997). *Foundations of bilingual education and bilingualism* (2nd ed.). Multilingual Matters Ltd.

Baker, C. (2011). *Foundations of bilingual education and bilingualism*. Multilingual Matters.

Baker, C., & Wright, W. E. (2017). *Foundations of bilingual education and bilingualism* (6th ed.). Multilingual Matters.

Cyngor Gwynedd. (2025). *Addysg yng Ngwynedd*. <http://canolfannau-iaith-gwynedd.cymru/cefndir.html>

Dewaele, J.-M., & MacIntyre, P. D. (2014). The two faces of Janus? Anxiety and enjoyment in the foreign language classroom. *Studies in Second Language Learning and Teaching*, 4(2), 237–274.

Duibhir, P. Ó. (2018). Immersion education: Lessons from a minority language context (Vol. 111). Multilingual Matters.

Estyn. (2022). *Addysg Drochi Cymraeg Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed*. Caerdydd Estyn

Fortune (2014). The Immersion Teaching Strategies Observation Checklist. The Centre for Advanced Research on Language Acquisition Ar gael yn: <https://archive.carla.umn.edu/immersion/checklist.pdf>

García, O., & Lin, A. M. Y. (2017). Translanguaging in bilingual education. Yn O. García, A. M. Y. Lin, & S. May (Eds.), *Bilingual and multilingual education* (pp. 117–130). Springer. Ar gael yn: https://doi.org/10.1007/978-3-319-02246-8_9

Genesee, F. (1983). An invited article: Bilingual education of majority-language children: The Immersion experiments in review. *Applied Psycholinguistics*, 4, 1 - 46. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1017/S0142716400001739>.

Genesee, F., & Jared, D. (2008). Literacy development in early French immersion programs.. *Canadian Psychology*, 49, 140-147. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1037/0708-5591.49.2.140>.

Genesee, F. (2013) Insights into Bilingual Education from Research on Immersion Programs in Canada. yn Abello, C., Chandler, P., López, M. D., & Chacón, R. (2013). *Bilingual and Multilingual Education in the 21st century. Ontario: Multilingual Matters*.

Hodges, R. (2024). Defiance within the decline? Revisiting new Welsh speakers' language journeys. *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 45(2), 306-322.

Hodges, R. S. (2012). Welsh-medium education and parental incentives – the case of the Rhymni Valley, Caerffili. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 15(3), 355–373. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/13670050.2011.636796>

Jones, K., Jones, I., Rhys, M., Young, K. a Pierce, A. (2023). Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 37/2024. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cyrchddulliau-dulliau-effeithiolmewn-addysg-drochi-asesiad-cyflym-or-dystiolaeth>

Llywodraeth Cymru. (2017) Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru Ar Gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Maxwell, N., Doughty, J., Slater, T., Forrester, D., & Rhodes, K. (2020). Home education for children with additional learning needs—A better choice or the only option? *Educational Review*, 72(4), 427–442.

Ofsted. (2019). Exploring moving to home education in secondary schools. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/home-education-in-secondary-schools>

Parsons, S., & Lewis, A. (2010). The home-education of children with special needs or disabilities in the UK: Views of parents from an online survey. *International Journal of Inclusive Education*, 14(1), 67–86.

Robert, E. (2009). Accommodating “new” speakers?: An attitudinal investigation of L2 speakers of Welsh in south-east Wales. *International journal of the sociology of language*, (195), 93-116.

Steele, J., Slater, R., Zamarro, G., Miller, T., Li, J., Burkhauser, S., & Bacon, M. (2017). Effects of Dual-Language Immersion Programs on Student Achievement. *American Educational Research Journal*, 54, 282S - 306S. <https://doi.org/10.3102/0002831216634463>.

Tedick, D. J., & Lyster, R. (2019). Effective scaffolding and questioning techniques. *Scaffolding language development in immersion and dual language classrooms*. New York, NY: Routledge, 129-149.

Trebits, A., Koch, M., Ponto, K., Bruhn, A., Adler, M., & Kersten, K. (2021). Cognitive gains and socioeconomic status in early second language acquisition in immersion and EFL learning settings. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25, 2668 - 2681. <https://doi.org/10.1080/13670050.2021.1943307>.

Williams, N., & Thomas, E. M. (2017). Exploring minority language input sources as means of supporting the early development of second language vocabulary and grammar. *Applied Psycholinguistics*, 38(4), 855–880. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1017/S0142716416000473>

Sut rydym yn arolygu (y broses arolygu)

Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol

Ar gyfer arolygiadau o 2024



Mae'r arweiniad hwn ar gyfer arolygwyr yn amlinellu ymagwedd Estyn at arolygu trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â 'Beth rydym yn ei arolygu'.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

® Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad.....	1
Diben y llawlyfr arolygu ‘Sut rydym yn arolygu’	1
Y sail gyfreithiol a’r cefndir polisi ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol	1
Cefndir polisi	1
Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr	2
Cyflwyniad.....	2
Egwyddorion ein gwaith.....	2
Ein meddylfryd	3
Disgwyliadau o ran arolygwyr	3
Disgwyliadau o ran darparwyr.....	4
Y Gymraeg	4
Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles	4
Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd – Ymagwedd at arolygiadau.....	6
Yr Ystafell Arolygu Rithwir	6
Y tîm arolygu	6
Cysylltu â’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am drefniadau trochi yn y Gymraeg cyn arolygiad craidd	7
Cynllunio’r arolygiad a pharatoi’r tîm.....	8
Yn ystod yr arolygiad	8
Ar ôl yr arolygiad	11
Gwirio cywirdeb ffeithiol.....	11
Sicrhau ansawdd arolygiadau	12
Rhan 3: Arweiniad ar weithgarwch dilynol.....	13
Ymweliad monitro.....	13
Tynnu o’r categori gweithgarwch dilynol	13

Cyflwyniad

Diben y llawlyfr arolygu ‘Sut rydym yn arolygu’

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ein hymagweddau at arolygu trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol i arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu. Gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd i ategu eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a methodolegau arolygu.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â [‘Beth rydym yn ei arolygu’](#), sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall awdurdodau lleol a darpariaethau trochi yn y Gymraeg ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, bydd arolygwyr yn cynnwys ciplun ar yr arfer hon fel rhan o'r adroddiad arolygu. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig yn ymwneud â safonau, ansawdd y ddarpariaeth a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gael ar dudalen 13 y llawlyfr hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru

Y sail gyfreithiol a'r cefndir polisi ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Cynhelir arolygiadau o GALIL o dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 sy'n nodi y 'gall' Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

(PAEF) 'drefnu arolygu unrhyw awdurdod lleol, ac os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo arolygu unrhyw awdurdod lleol'. Bydd arolygiad 'yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu addysg ar gyfer (a) personau o oedran ysgol gorfodol (p'un a yw yn yr ysgol neu fel arall) neu (b) ar gyfer personau o unrhyw oedran uwchlaw neu islaw'r oedran hwnnw sydd wedi eu cofrestru fel disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod'.

Mae Adran 51 Deddf Plant 2004 yn newid Deddf Addysg 1997 fel bod 'Arolygiad o awdurdod addysg lleol yng Nghymru o dan yr adran hon yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni:

- unrhyw swyddogaeth a roddwyd iddynt yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod addysg lleol
- y swyddogaethau a roddwyd iddynt o dan adrannau 25 a 26 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid'

Cefndir polisi

Mae'r llawlyfr arweiniad hwn yn ystyried polisiâu presennol Llywodraeth Cymru.

Gellir cael mwy o wybodaeth am bolisiâu Llywodraeth Cymru yn [Addysg a sgiliau | Pwnc | LLYW.CYMRU](#)

Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn berthnasol ar draws ehangder ymgysylltiad Estyn ag ysgolion a darparwyr eraill. Rydym yn disgwyl i'r holl arolygwyr, gan gynnwys y rhai sydd dan gcontract i Estyn a'r rhai sy'n gweithio fel arolygwyr cymheiriaid, lynu at yr egwyddorion hyn.

Egwyddorion ein gwaith

Rydym yn disgwyl i'n harolygwyr weithio yn unol â nifer o egwyddorion allweddol. Byddant:

- yn dwyn ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y disgybl tuag at unrhyw weithgarwch ac ymgysylltu
- yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu bob tro
- yn cymryd cyd-destun penodol y darparwr i ystyriaeth ac yn addasu eu dulliau yn unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau a dulliau arolygu teilwredig er mwyn gwerthuso ehangder gwaith y darparwr yn gadarn ac yn deg
- yn mabwysiadu dull adeiladol sy'n sicrhau bod y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff

Yn ystod arolygiadau, rydym yn disgwyl i arolygwyr ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad 'beth' a 'sut' rydym yn arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r meysydd i'w gwella yn unig.

Yn ychwanegol, bydd ein harolygwyr:

- yn sicrhau bod ein gweithgarwch a'n hymgysylltu yn ymatebol i anghenion pob disgyblion
- yn sicrhau bod gwerthusiadau'n gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennau a pharatoadau gan y darparwr
- yn cael safbwynt y disgyblion a'r rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg i'n holl weithgarwch

Mewn arolygiadau, bydd ein harolygwyr:

- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys y cyfle i'r awdurdod lleol ddewis enwebai (a ddylai fel arfer fod yn gynrychiolydd o'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am drefniadau trochi yn y Gymraeg)
- yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau gwella a ddewiswyd gan y darparwr, yn ogystal â meysydd allweddol eraill a nodwyd gan y tîm arolygu
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu

Ein meddylfryd

Mae ymagwedd Estyn tuag at weithgarwch ymgysylltu fel a ganlyn:

- **Teg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn gadarn ac yn gyson yn ein gwaith. Rydym yn pwysu a mesur y dystiolaeth a'i harwyddocâd i gynnig barn onest, gredadwy a chywir o gryfderau a meysydd i'w gwella'r darparwr.
- **Cefnogol** – rydym yn gweithio i lywio darparwyr i roi gwelliannau ar waith sydd o fudd i ddisgyblion. Ble bynnag y bo'n briodol, rydym yn annog arloesedd ac yn cydnabod bwriadau da. Mae ein hymagwedd yn gyfeillgar ond yn broffesiynol bob amser. Rydym yn cefnogi diwygiadau addysg. Rydym yn gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd ystyrlon â darparwyr, a sefydliadau lleol a rhanbarthol.
- **Myfyriol** – rydym yn eangfrydig. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn feddylgar, yn bwylllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am ganfyddiadau'r arolygiad a'u trafod ag aelodau eraill o'r tîm.
- **Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio ein hymgysylltu a'n gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hybu ymddiriedaeth a pharch.

Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau o ran arolygwyr yn esbonio sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o ran ymddygiad.

Wrth ymgysylltu â darparwr, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu ac yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â disgyblion ac oedolion, fel ei gilydd
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb, parch a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen i'r eithaf yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a thrylwyr
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd ac yn ddiragfarn
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y disgyblion
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'n gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cynorthwyo pob un o'r disgyblion i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y maent yn derbyn hysbysiad am ymgysylltu, er enghraifft eu bod yn rhan o dîm arolygu darparwr.

Disgwyliadau o ran darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol a buddiol, mae'n bwysig fod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol, gan drin arolygwyr a staff cymorth arolygu â pharch
- gweithredu er lles pennaf y disgyblion
- darparu tystiolaeth – neu fynediad at dystiolaeth - sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, disgyblion a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- gweithio gydag arolygwyr i gymryd yr holl gamau rhesymol i leihau tarfu, straen a biwrocratiaeth i'r eithaf
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai
- rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch, a lles arolygwyr tra byddant ar y safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad terfynol
- sicrhau bod timau arolygu yn cael mynediad at ardal breifat i drafod tystiolaeth arolygu a chynnal trafodaethau cyfrinachol
- i beidio â thynnu ffotograffau neu recordio fideos yn ystod y broses arolygu, gan gynnwys o werthusiadau drafft a ddatblygwyd yn ystod yr arolygiad

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng ac offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Pan gânt eu hysbysu am yr arolygiad, dylai yr awdurdod lleol adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwr yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltu, er enghraifft cyn eu harolygiad ar y safle.

Y Gymraeg

Byddwn yn cynnal unrhyw ymgysylltu, gan gynnwys arolygiadau, yn unol â'n [Polisi Iaith Gymraeg](#), sydd ar gael ar ein gwefan. Bydd arolygwyr hefyd yn defnyddio ein harweiniad atodol ynghylch llythrennedd a'r Gymraeg, ble bynnag y bo'n briodol.

Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl i

ddiogelwch staff, ymwelwyr neu bobl ifanc, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y ddarpariaeth a'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am y ddarpariaeth.

Os daw arolygydd yn ymwybodol o honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol '[Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu](#)', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi manylion am y pryder. Dylent roi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol (ACof). Wedyn, dylai'r ACof gysylltu ag un o swyddogion arweiniol diogelu Estyn. Bydd y swyddog arweiniol yn rhoi gwybod i'r ACof am y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys beth i'w gofnodi yn sail y dystiolaeth ar gyfer y maes arolygu priodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw risgiau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles pobl ifanc. Bydd y swyddog hefyd yn rhoi gwybod i'r ACof p'un a ddylid rhannu'r pryder â'r awdurdod lleol ai peidio.

Lle mae'r risgiau hyn yn peri pryder difrifol yn ystod gweithgarwch arolygu craidd, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad.

Byddwn yn anfon llythyr lles at yr awdurdod lleol, yn gofyn iddynt amlinellu sut byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

Os yw arolygydd yn nodi pryder ynghylch diogeledd ar y safle, dylai roi gwybod i'r ACof. Os yw'r ACof yn ystyried y gellir mynd i'r afael â'r pryder yn gyflym, dylai roi gwybod i'r awdurdod lleol a bydd disgwyl iddynt ddarparu tystiolaeth fod y pryder yn cael ei ddatrys yn ystod yr arolygiad. Os yw'r pryder(on) yn fwy difrifol ac ni ellir mynd i'r afael ag ef / â nhw yn gyflym, dylai'r ACof roi gwybod i'r ACof a fydd yn cyflwyno llythyr rheoli safle i'r awdurdod lleol. Eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau yr eir i'r afael â'r mater(ion). Dylid rhoi gwybod i'r ganolfan am hyn, hefyd. Os nad eir i'r afael â mater llai sylweddol yn foddhaol yn ystod yr arolygiad, yna bydd y broses hon yn berthnasol, hefyd.

Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd – Ymagwedd at arolygiadau

Gall hyd yr arolygiad a maint y tîm amrywio yn ôl nifer y darparwyr trochi Cymraeg yn yr awdurdod lleol.

Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) i reoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lanlwytho gwybodaeth cyn yr arolygiad, a lawrlwytho arweiniad gennym ni ar y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall enwebeion fynd at yr holiaduron ôl-arolygiad (HOA).

Rydym yn sicrhau diogelwch gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion diogelwch ar yr YAR. Mae'r profi hwn yn gwerthuso diogelwch systemau. Rydym yn nodi ac yn cymryd unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl ddefnyddwyr system YAR Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sydd wedi eu cofnodi ac yn cael eu cynnal yn ddiogel o fewn cyfeiriadur gweithredol. Hefyd, mae gan y system nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu diogelu, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

Y tîm arolygu

Mae gwahanol rolau o fewn y tîm arolygu.

Aelod tîm	Esboniad	Rôl
Arolygydd Cofnodol (ACof), gellir cyfeirio ato hefyd fel yr arolygydd arweiniol	Bydd yr ACof ar gyfer arolygiad yn un o Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (AEF). Caiff AEF eu penodi gan y goron. Maent yn weision sifil a gyflogir yn uniongyrchol gan Estyn.	Mae'r ACof yn arwain a rheoli'r tîm arolygu. Mae'n cysylltu â'r awdurdod lleol / y ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg a'r tîm cyn yr arolygiad, ac yn sicrhau ansawdd gwaith ei dîm. Yr ACof yw'r pwynt cyswllt cyntaf i bawb yn ystod y rhan o'r broses arolygu sy'n digwydd ar y safle.
Arolygwyr Tîm (AT)	Pennir nifer yr arolygwyr tîm gan nifer y darpariaethau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol. Gall arolygwyr tîm fod yn AEF neu'n arolygwyr ychwanegol dan gontract sydd wedi cael eu hyfforddi gan Estyn. Mae pob un o'r arolygwyr tîm yn athrawon cymwys.	Gallai arolygwyr tîm gymryd cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiad y tîm am wahanol agweddau ar yr arolygiad. Mae'r ACof yn cyfarwyddo a rheoli gwaith eu gwaith.

Arolygydd Cymheiriad (AC)	Mae arolygydd cymheiriad yn uwch arweinydd mewn awdurdod lleol, ysgol neu ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg sydd wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiad Estyn ar gyfer Arolygwyr Cymheiriad. Mae gan bob tîm arolygu arolygydd cymheiriad yn aelod o'r tîm.	Mae arolygwyr cymheiriad hefyd yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiadau'r tîm. Maent yn rhan annatod o'r tîm arolygu. Mae'r ACof yn cyfarwyddo ac yn rheoli eu gwaith.
Enwebai (o'r awdurdod lleol sy'n destun arolygiad)	Byddwn yn gwahodd cynrychiolydd o'r awdurdod lleol i fod yn enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Mae'r enwebai yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu.	Gall darparwyr fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad trwy ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan y Cydlynnydd Arolygu (CydAr), ac sydd ar gael drwy'r YAR.

Cysylltu â'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefniadau trochi yn y Gymraeg cyn arolygiad craidd

Bydd yr awdurdod lleol yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am arolygiad craidd.

Bydd y cydlynnydd arolygu yn ffonio'r awdurdod lleol i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y cydlynnydd arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad a gwneud y trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth yn electronig trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn frifio gyffredinol i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- yn canfod a yw'r darparwr yn dymuno cael enwebai ac, os ydyw, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac yn esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi'r gyfres o holiaduron cyn-arolygiad ar-lein (e.e. disgyblion, rhieni, staff, ac ati)
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a all godi yn ystod yr arolygiad
- yn trefnu bod athrawon a staff cymorth o fewn y canolfannau trochi yn y Gymraeg yn cyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn trefnu bod penaethiaid ysgolion lle mae disgyblion wedi'u cofrestru yn cyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel ystafell sylfaen ar gyfer yr arolygwyr, parcio a mynediad i'r rhyngwyd ar draws pob safle, lle bo'n briodol
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r arolygiad

- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiaduron ôl-arolygiad (HOA)
- yn rhoi gwybod i'r darparwr yn ysgrifenedig, drwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol, am drefniadau allweddol yr arolygiad

Bydd y Cydlynnydd Arolygu yn gofyn am wybodaeth gan y darparwr drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad:

- gwybodaeth gefndir allweddol, e.e. enwau staff a gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau
- manylion am leoliad yr holl ddarpariaethau trochi yn y Gymraeg a darparwyr sy'n manteisio ar gymorth ar gyfer trochi
- manylion am nifer y disgyblion sy'n mynychu pob darparwr, lle bo'n briodol
- copi o'r cynllun datblygu neu'r cynllun gwella diweddaraf
- copi o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol
- manylion am yr amserlenni ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- rhestr o wiriadau staff y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (SCT gynt) gyda rhifau'r, dyddiad cyhoeddi a lefel y gwiriad a gwblhawyd e.e. archwiliad datgelu a gwahardd uwch

Os caiff yr arolygiad ei gynnal ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, efallai yr hoffai darparwyr rannu samplau o waith disgyblion o'r flwyddyn flaenorol ag

arolygwyr, os oes rhai ar gael. Os na all darparwyr rannu gwaith blaenorol disgyblion, bydd arolygwyr yn ystyried y wybodaeth hon wrth drafod gwaith a chynnydd gyda staff a disgyblion.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i fynd at holiaduron ar-lein ar gyfer disgyblion, rhieni / gofalwyr, staff a phenaethiaid. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygiad yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn cynorthwyo arolygwyr i ffurfio'u gwerthusiadau.

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu, gan ystyried blaenoriaethau gwella'r darparwr ac unrhyw wybodaeth arall.

Rydym yn gofyn i ddarparwyr roi cynllun llawn o'r holl weithgareddau yn ystod wythnos yr arolygiad yn yr YAR. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio gweithgareddau'r tîm yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd.

Yn ystod yr arolygiad

Y cyfarfod tîm cychwynnol

Mae'r cyfarfod tîm cychwynnol yn debygol o gynnwys:

- brîff iechyd a diogelwch gan y darparwr
- brîff gan yr awdurdod lleol am gyd-destun trefniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer trochi yn y Gymraeg. Ni ddylai hyn bara mwy nag 20 munud

- datganiad sefyllfa byr gan yr awdurdod lleol i amlinellu blaenoriaethau strategol y darparwr a'i gyfnod datblygu presennol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- trafodaeth â'r awdurdod lleol (dan arweiniad yr ACof) am y blaenoriaethau gwella a nodwyd gan y darparwr a'r cynnydd hyd yma yn ei waith gwella
- trafodaeth ynghylch sut bydd arolygwyr yn gallu mynd at wybodaeth bwysig

Bydd yr ACof yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r awdurdod lleol yn ystod yr alwad Teams cyn yr arolygiad.

Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant ymdrin â'r gofynion adrodd yn y tri maes arolygu. Bydd yr ACof yn cynllunio'r gweithgarwch arolygu yn hyblyg, i ymateb i amgylchiadau unigol y darparwr. Mae hyn yn golygu nad yw'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio mewn un darparwr efallai'n adlewyrchu'r rhai sydd wedi'u cynllunio mewn un arall. Yn ychwanegol, mae arolygwyr yn adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y bydd y tîm bob amser yn ystyried popeth o fewn y meysydd arolygu ond ni fydd yr adroddiad terfynol efallai'n cynnwys pob agwedd ar y fframwaith.

Mae'r prif fathau o dystiolaeth fel a ganlyn:

- arsylwi'r addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy arsylwadau addysgu a dysgu
- samplau o waith disgyblion
- trafodaethau â disgyblion (cyn a chyfredol), staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion ac eraill
- ymatebion i'r holiadur cyn-arolygiad
- tystiolaeth ddogfennol neu electronig, e.e. gwybodaeth am gynnydd disgyblion
- gwybodaeth berthnasol gan yr awdurdod lleol

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith disgyblion, lle bynnag y bo modd, i gasglu tystiolaeth i ategu eu gwerthusiadau. Gallai arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith disgyblion, os oes angen, i gefnogi eu gwerthusiadau o agwedd benodol.

Dylai darparwyr drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio cychwynnol ac asesiadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i werthuso cynnydd disgyblion, llunio barn am y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni o gymharu â'u manau cychwyn, a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau i ddylanwadu ar eu cynllunio a'u gwersi.

Bydd y tîm yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y darparwr ac yn profi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni tystiolaeth yn electronig fel rhan o system ddigidol Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau'r arolygiad.

Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol cywir, dibynadwy a dilys

am ddysgu ac ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn rhoi cyfleoedd i arolygwyr:

- profi dilysrwydd prosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn y sail dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Deialog broffesiynol

Trwy gydol yr arolygiad, bydd arolygwyr yn ymgymryd â deialog broffesiynol ag ymarferwyr. Gallai'r deialog hon gynnwys cyfarfod ag athrawon unigol, yn aml yn eu hystafelloedd dosbarth, i drafod sut maent yn cynllunio ac yn asesu gwaith disgyblion. Efallai bydd arolygwyr eisiau cyfarfod â grwpiau o staff cymorth, os yw'n briodol. Efallai bydd arolygwyr yn penderfynu cyfarfod ag arweinwyr fel penaethiaid ysgolion sy'n cynnal darpariaethau trochi yn y Gymraeg, penaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion neu benaethiaid ysgolion sy'n derbyn cymorth peripatetig, i ddeall effaith arweinyddiaeth yr awdurdod lleol ar ysgogi gwelliannau i ddeilliannau disgyblion.

Mae deialog broffesiynol yn galluogi arolygwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol gan ymarferwyr y gellir ei thiongli â ffynonellau eraill o dystiolaeth. Bydd y ddeialog yn darparu canfyddiadau dros dro, sy'n dod i'r amlwg, ar agweddau ar sail y dystiolaeth. Gellir diwygio'r canfyddiadau hyn, ar ôl myfyrio arnynt, er enghraifft ar ôl craffu ar waith disgyblion neu siarad â disgyblion neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm.

Fel arfer, ar ôl arsylwi gwers, bydd arolygwyr yn cynnig deialog broffesiynol fer â'r aelod o staff ar y dysgu a welwyd. Efallai bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y ddeialog broffesiynol bob amser fod ar y disgyblion, y cynnydd a wneir ganddynt yn ystod y wers a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu mewn perthynas a'r gwaith.

O ganlyniad i natur y teithiau dysgu, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i uwch arweinwyr fel cynrychiolwyr ac uwch arweinwyr yr awdurdod lleol.

Dylai'r adborth ganolbwyntio ar brif ganfyddiadau'r arolygiad, gan gynnwys yr argymhellion. Mae'r cyfarfod adborth yn cynnig cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed a myfyrio ar ganfyddiadau'r tîm. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys yr argymhellion. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio wrth y darparwr y gellir egluro materion ac y gellir cywiro materion ffeithiol. Fodd bynnag, diben y cyfarfod yw bod yr awdurdod lleol yn deall canfyddiadau'r tîm arolygu yn hytrach na'u trafod.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm yn ystyried a oes unrhyw arfer effeithiol sy'n werth ei rhannu â darparwyr eraill. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynnwys ciplun o'r arfer hon fel rhan o'r adroddiad arolygu.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu'n ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i arweinwyr os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Mae'r holl werthusiadau a chanfyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn ystod arolygiad, gan gynnwys gweithgarwch dilynol, os yw hynny'n briodol, yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEF. Maent yn gyfrinachol i staff a rheolwyr y ddarpariaeth. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

Cwynion am y broses arolygu

Os bydd yna unrhyw faterion yn ymwneud â'r broses arolygu yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r enwebai godi'r rhain yn uniongyrchol â'r arolygydd cofnodol, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r enwebai aros tan ar ôl yr arolygiad; dylai godi unrhyw faterion tra bydd y tîm ar y safle. Ambell waith, bydd materion yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth ac, fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol, yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad ar ein gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ar ein gwefan.

Mae rhai pethau nad ydym yn mynd i'r afael â nhw trwy ein gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion, er enghraifft cwynion neu heriau am werthusiadau neu benderfyniadau dilynol a wnaed ar ôl arolygiad neu adolygiad gan Estyn. Mae hyn oherwydd bod yr awdurdod lleol yn cael cyfle cyn arolygiad i ddarparu'r holl dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn i'r tîm arolygu lunio'i farnau'n gywir ac yn deg.

Ar ôl yr arolygiad

Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg, ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae awdurdod lleol wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg.

Byddwn yn llunio'r adroddiad cyn pen graddfeydd amser statudol.

Gwirio cywirdeb ffeithiol

Byddwn yn rhoi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol cyn ei gyhoeddi, er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Fel arfer, bydd gan yr awdurdod lleol bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw wallau.

Mae'r gwiriad yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar ein gwefan.

Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cefnogi a lleoli arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd â'r enwebai yn ystod arolygiadau
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio ag arweiniad arolygu
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar clir ar brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd yr awdurdod lleol i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael yn yr YAR. Dylai'r awdurdod lleol lenwi'r rhan gyntaf o'r HOA cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gallant lenwi ail ran yr HOA ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, eto drwy system yr YAR.

Rydym yn cymhwyso proses sicrhau ansawdd gadarn i'n holl arolygiadau. Bydd yr arolygydd cofnodol yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm, yn y lle cyntaf. Ar ôl diwedd y gweithgarwch ar y safle, caiff ansawdd yr adroddiad a'r sail dystiolaeth eu sicrhau gan AEF profiadol na fu'n rhan o'r arolygiad, hyd yn hyn. Mae'r sail dystiolaeth lawn yn cael ei chraffu a'i chyfateb i destun yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y ddau ohonynt yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r broses sicrhau ansawdd hefyd yn ystyried priodoldeb y lefel gweithgarwch dilynol a'r argymhellion sy'n deillio o'r arolygiad. Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd, gallai argymhellion gael eu diwygio, eu dileu neu eu hychwanegu.

Yna, ceir proses safoni pellach. Bydd y cyfarwyddwyr cynorthwyol priodol yn craffu ar y sail dystiolaeth a'r adroddiad. Pa bryd bynnag y bydd arolygiad yn arwain at weithgarwch dilynol statudol, yn ogystal â chyfarwyddwr cynorthwyol, bydd y cyfarwyddwr strategol yn safoni'r adroddiad ochr yn ochr â'r sail dystiolaeth ar ran PAEF. Mewn achosion prin, gallai'r broses safoni hon arwain at newid y lefel gweithgarwch dilynol.

Rydym hefyd yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau trwy ymweliadau ar y safle. Mae ein trefniadau llawn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.

Rhan 3: Arweiniad ar weithgarwch dilynol

Bydd un categori gweithgarwch dilynol ar gyfer arolygiadau o drefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol, sef: 'yn achosi pryder sylweddol'. Mae'r arweiniad isod yn amlinellu sut byddwn yn gweithio gydag awdurdod lleol lle mae trefniadau'n achosi pryder sylweddol ar ôl eu harolygiad. Gallai gweithgarwch dilynol gynnwys cyfarfodydd rhithwir yn hytrach na chyfarfodydd ar y safle. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio â disgresiwn, naill ai lle mae amgylchiadau neu reoliadau'n golygu bod angen hyn, neu ble mae'n effeithlon heb atal effeithiolrwydd y broses arolygu na pheri trafferth i unrhyw un sy'n gysylltiedig â hyn.

Ymweliad monitro

Byddwn yn cynnal ymweliad monitro tua blwyddyn ar ôl yr arolygiad craidd. Byddwn yn hysbysu'r awdurdod yn ffurfiol 15 diwrnod ymlaen llaw. Bydd maint y tîm a chynllun yr ymweliad yn cael eu teilwra i gyd-destun penodol yr awdurdod lleol a natur yr argymhellion.

Gallem ddefnyddio arolwg i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid perthnasol cyn ymweliad monitro. Gallem hefyd gynnal gweithgareddau rhagarweiniol gyda rhanddeiliaid perthnasol, wyneb yn wyneb neu ar-lein, fel cyfarfod â grŵp o benaethiaid.

Bydd YAR yn cael ei threfnu ar gyfer yr ymweliad, a fydd yn galluogi'r awdurdod lleol i rannu ychydig o ddogfennau allweddol a gwybodaeth ategol sy'n berthnasol. Yn ystod yr ymweliad monitro, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion a faint o gynnydd a wnaed yn gyffredinol.

Tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol

Ar ôl unrhyw ymweliad monitro, gallai arolygwyr argymhell i PAEF nad yw'r trefniadau trochi yn y Gymraeg ar gyfer awdurdod lleol, yn achosi pryder sylweddol mwyach ac y gellir ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad am yr ymweliad monitro. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd, sylwadau crynodedol ar gynnydd a barn gyffredinol ar gynnydd, a fydd yn cadarnhau p'un a yw'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol ai peidio. Os nad yw arolygwyr yn fodlon â'r cynnydd, byddwn yn dychwelyd ymhen blwyddyn ar gyfer ymweliad monitro pellach.

Arweiniad i arolygwyr

**Beth rydym yn ei arolygu:
Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn
awdurdodau lleol**

Ar gyfer arolygiadau o 2024



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

® Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen
---------	---------

Cyflwyniad i ‘Beth rydym yn ei arolygu’	1
Gwerthuso pob maes arolygu (MA)	1
Yr adroddiadau arolygu.....	1
Ynglŷn â’r trefniadau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol	1
Crynodeb	2
Argymhellion	2
Beth sy’n digwydd nesaf	2
Meysydd arolygu.....	4
Fframwaith drafft 2024	5
1 Addysgu a dysgu	5
2 Lles, gofal, cymorth ac arweiniad.....	6
3 Arwain a gwella.....	7

Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r tri maes arolygu ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu, gan gynnwys yr enwebai. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef ['Sut rydym yn arolygu'](#).

Mae'r tri maes arolygu wedi'u hamlinellu isod:

MA1: Addysgu a dysgu

MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3: Arwain a gwella

Mae mwy o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn llunio gwerthusiad cadarn a thrylwyr o'r trefniadau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol a'i heffaith ar ddysgu a lles disgyblion.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir yn gysylltiedig â'r prif ffocysau ym mhob maes arolygu, fel y dangosir. Fodd bynnag, efallai y bydd yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu yn wahanol yn dibynnu ar gyd-destun ac arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn dod o hyd iddo ym mhob awdurdod lleol. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau dim ond lle mae cryfderau neu feysydd i'w gwella penodol.

Pan fydd arolygwyr yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol sy'n werth ei rhannu'n ehangach, byddant yn cynnwys ciplun o fewn yr adroddiad (paragraff byr). Byddwn yn arddangos amrywiaeth o'r cipluniau hyn ar ein gwefan. Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un maes arolygu neu fwy, bydd angen lefel o weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol yn gysylltiedig â'i drefniadau ar gyfer trochi yn y Gymraeg. Ceir mwy o arweiniad am weithgarwch dilynol yn 'Sut rydym yn arolygu'.

Yr adroddiadau arolygu

Yn dilyn arolygiad, bydd pob darparwr yn cael adroddiad. Cyhoeddir yr adroddiadau ar wefan Estyn. Bydd dyddiadau cyhoeddi i'w gweld ar y wefan. Mae'r canlynol yn amlinellu beth sy'n cael ei gynnwys ym mhob un o adrannau'r adroddiad.

Ynglŷn â'r trefniadau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y trefniadau ar gyfer trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol. Ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Mae'r arolygydd cofnodol fel arfer yn

cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r awdurdod lleol yn ystod yr arolygiad ac yn ystod y gwiriad ffeithiol o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Os oes anghytuno am gynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w gynnwys yn yr adroddiad. Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- natur a lleoliadau'r darparwyr trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol
- cefndir ac amgylchiadau'r disgyblion, unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel cyfran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r graddau y mae disgyblion yn gadael neu'n ymuno â'r darparwr yn ystod y flwyddyn academiaidd (yn dibynnu ar niferoedd)
- dyddiad agor y darparwr trochi yn y Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol
- mis/blwyddyn arolygiad trochi Cymraeg blaenorol yr awdurdodau lleol

Crynodeb

Bydd crynodeb o adroddiad arolygu yn crynhoi prif bwyntiau'r adroddiad arolygu. Bydd y crynodeb yn cynnwys y prif gryfderau, y prif feysydd i'w gwella a'r argymhellion.

Argymhellion

Dylai argymhellion ddod yn uniongyrchol o gynnwys yr adroddiad, nodi beth mae angen ei wella, a'u hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn mae angen i'r darparwr ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai nodi unrhyw cipluniau arfer ddiddorol neu arloesol yr ydym wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn esbonio a oes angen gweithgarwch dilynol ar drefniadau trochi yn y Gymraeg yr awdurdod lleol. Bydd y rhesymau dros y gweithgarwch dilynol fod yn glir ym mhrif gorff yr adroddiad.

Y prif werthusiad

Bydd y prif werthusiad yn adrodd ar:

- (a) ansawdd yr addysg a ddarperir yn y ganolfan
- (b) i ba raddau y mae'r addysg a ddarperir yn y ganolfan yn bodloni anghenion ystod y disgyblion
- (c) y safonau addysgol a gyflawnir yn y ganolfan
- (ch) ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth trefniadau trochi yn y Gymraeg yr awdurdod lleol, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol

(d) cyfraniad y ganolfan at les y disgyblion hynny

Bydd cipluniau yn cael eu cynnwys yn yr adran hon, hefyd. Bydd yn cynnwys pennawd byr sy'n dal thema'r ciplun, ac wedyn y naratif. Bydd y pennawd a'r naratif yn cael eu cynnwys mewn blwch ar wahân. Yn ogystal, efallai y byddwn yn gwahodd yr awdurdod lleol i gyfrannu astudiaeth achos fanylach pan fo hynny'n briodol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Mae arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau dystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddynt ynghyd ag ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd ganddynt yn ystod eu hymweliad.

Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a beth mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo yn 1 – 3, ond maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd.

Bydd yr adroddiad arolygu'n cwmpasu pob un o'r meysydd arolygu. Mi fydd bob amser yn adrodd ar bob un o'r prif ffocysau, ond nid yn nhrefn y llawlyfr hwn, o reidrwydd. Dyma'r prif ffocysau ar gyfer pob maes arolygu:

1. Addysgu a dysgu	2. Gofal, cymorth a lles	3. Arwain a gwella
Ffocws Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm, asesu ac addysgu yn cynorthwyo'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i: - ddysgu a gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg? - ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau? - ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu?	Ffocws Pa mor effeithiol yw'r trefniadau gofal a chymorth o ran sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i: - yn ddiogel a saff? - yn mynychu'n rheolaidd? - yn cael eu parchu a'u trin yn deg? - yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldeb? - yn derbyn yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, gan gynnwys cymorth tra yn eu hysgolion cofrestredig?	Ffocws Pa mor effeithiol y mae arweinwyr: - yn rheoli trefniadaeth y darparwyr ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys trefniadau derbyn? - yn rheoli'r adnoddau ar gyfer trochi yn y Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol? - yn sicrhau bod pob digybl yn dysgu ac yn gwneud cynnydd mewn caffael y Gymraeg? ((Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o ganlyniadau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi'n effeithio arnynt, ag ADY neu rwystrau a nodwyd i ddysgu.) - yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles yr holl ddisgyblion? - yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a rheoli? - yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o'r staff i gyflawni eu rolau?

Bydd y tîm arolygu'n ystyried pob maes arolygu. Mae'n bosibl na fydd yr adroddiad yn adrodd ar bob un ar wahân, nac yn dilyn y drefn uchod ond byddant yn creu cysylltiadau rhwng y meysydd i adrodd stori unigryw'r darparwr a'i gyd-destun.

Mae cyfres o ddogfennau arweiniad atodol ar gael ar ein gwefan. Mae'r rhain yn rhoi mwy o wybodaeth am ein hymagweddau at arolygu agweddau penodol ar y fframwaith hwn.

Fframwaith drafft 2024

Ar draws y fframwaith arolygu, bydd arolygwyr yn ystyried y meysydd ffocws o ran yr effaith y maent yn ei chael ar ddysgu a lles yr holl ddisgyblion.

1 Addysgu a dysgu

Ffocws

Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm, yr addysgu a'r asesu yn cynorthwyo'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i:

- ddysgu a gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg
- ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i ddysgu'r disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:

- yn sicrhau bod eu **haddysgu**:
 - yn galluogi disgyblion i gaffael a datblygu eu medrau Cymraeg mewn ystod o gyd-destunau
 - yn symud dysgu yn ei flaen ar y cyflymdra cywir ac yn rhoi'r lefel briodol o her a chymorth i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd ag ADY, a disgyblion y caiff tlodi ac anfantais effaith anffafriol arnynt
 - yn dangos disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion
 - yn defnyddio holi ac adborth i gefnogi cynnydd disgyblion
 - yn ymateb i ddysgu'r disgyblion yn ystod gwersi a thros gyfnod, ac yn addasu yn unol â hynny
 - yn helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a'r meysydd i'w gwella a datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol
 - yn gwneud yr amgylchedd dysgu yn ysgogol a difyr
 - yn trefnu darpariaeth sy'n gweddu'n dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion
 - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd
 - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, lle bo'n briodol
 - yn cynnwys darpariaeth i athrawon ddefnyddio staff ychwanegol i gefnogi dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn deall beth maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu a pham trwy **gyflwyno cwricwlwm** sydd:
 - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg o fewn ehangder a dyfnder dysgu addas ar draws meysydd dysgu a phrofiad
 - yn adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol, ac amrywiol y gymuned leol, Cymru, a'r byd ehangach

- **yn datblygu medrau disgyblion** yn systematig ac yn raddol yn ystod gwersi a thros gyfnod fel eu bod:
 - yn caffael y medrau Cymraeg angenrheidiol mewn siarad a gwranddo, a darllen ac ysgrifennu, lle bo'n briodol
 - yn cymhwyso'u medrau ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm
- yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu **agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu**, fel eu bod:
 - yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau dysgu
 - yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau
 - yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag oedolion a'u cymheiriaid
 - yn ymateb yn gadarnhaol ac yn bwrpasol i adborth

2 Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Ffocws

Pa mor effeithiol yw'r trefniadau gofal a chymorth i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd i:

- yn ddiogel ac yn saff
- yn mynychu'n rheolaidd
- yn cael eu parchu a'u trin yn deg
- yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau
- yn derbyn yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, gan gynnwys cymorth tra yn eu hysgolion cofrestredig?

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i les a datblygiad y disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:

- yn creu ac yn cynnal **diwylliant o ddiogelu** gan gynnwys dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant fel bod disgyblion:
 - yn ddiogel ac yn saff
 - yn cael eu parchu a'u trin yn deg
 - yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu
 - yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol
- yn sicrhau bod disgyblion yn **mynychu'n rheolaidd**, er enghraifft trwy:
 - hyrwyddo a monitro presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb grwpiau penodol
 - herio absenoldeb parhaus

- gweithio mewn partneriaeth, er enghraifft gydag ysgolion partner, gwasanaethau lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, ac asiantaethau eraill
- yn cydlynu cymorth addas ar gyfer disgyblion ag **anghenion dysgu ychwanegol**, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol
- yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol
- yn sicrhau bod disgyblion sydd â hanes o gael eu gwahardd yn dangos ymddygiad gwell ac agweddau gwell at ddysgu
- yn annog disgyblion i ddylanwadu ar fywyd a gwaith y ganolfan, yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau
- yn rhoi cyngor effeithiol a diduedd i ddisgyblion yn ymwneud â'r camau nesaf yn eu datblygiad, er enghraifft o ran eu cyfnod pontio i'r cam dysgu nesaf

3 Arwain a gwella

Ffocws

Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- yn rheoli trefniadaeth y darparwyr ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys trefniadau derbyn
- yn rheoli'r adnoddau ar gyfer trochi yn y Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol
- yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu'r rhai â rhwystrau eraill a nodwyd rhag cynnydd, yn dysgu ac yn gwneud cynnydd mewn caffael y Gymraeg
- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles yr holl ddisgyblion
- yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, rheoli a llywodraethu
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliant ac yn arfogi pob un o'r staff i gyflawni eu rolau

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i ddysgu, lles a datblygiad y disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr:

- yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg yn eu hawdurdod lleol
- yn datblygu ac yn cynnal darpariaeth ar gyfer trochi yn y Gymraeg yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)
- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio'n addas ar wella'r ffordd y mae disgyblion yn dysgu'r Gymraeg a'u lles
- yn gosod ac yn cyfleu **disgwyliadau uchel** ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain
- yn meddu ar weithdrefnau derbyn clir
- **yn gwerthuso** cryfderau'r darparwyr a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac yn

ysgogi gwelliant

- wedi sefydlu hanes da o wneud a chynnal gwelliannau, a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- yn cynllunio ac yn cyflwyno **cyfleoedd dysgu proffesiynol** ar gyfer staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- yn rheoli **perfformiad** staff i wella'u harfer a mynd i'r afael â thanberfformio lle mae angen
- yn hyrwyddo'r **Gymraeg**, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill, lle bo'n briodol (er enghraifft, tegwch, diwygio ADY, y Cwricwlwm i Gymru)
- yn darparu **llywodraethu** effeithiol sy'n cynnig cymorth a her
- yn dosbarthu **rolau a chyfrifoldebau** i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliant yn y ddarpariaeth ar gyfer trochi yn y Gymraeg
- yn ystyried baich gwaith a lles staff
- yn datblygu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni, ysgolion partner / UC Dau, cyrff allanol a'r gymuned ehangach
- yn defnyddio **adnoddau** i sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chymorth ar gyfer lles disgyblion
- yn defnyddio cyllid grantiau i wella deilliannau

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Awdur: Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Dyddiad: 9/23/2025 12:00:00 AM

Fersiwn: Fersiwn 1

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

Polisiâu, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Bwriedir arfarnu modelau a chyfleoedd posib sydd wedi eu hadnabod gan Estyn a Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r Gyfundrefn Addysg Drochi ar gyfer y dyfodol.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Disgyblion

Rhieni

Staff y Canolfannau Trochi

Ysgolion Gwynedd

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Adroddiad Prifysgol Bangor	2024 - 2025	Gwybodaeth am ymgysylltu wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad
Grwp Ffocws Penaethiaid	Medi 17eg, 2025	Ymgynghori ar lafar gyda'r Penaethiaid sydd wedi cyfeirio dysgwyr i'r canolfannau yn ystod Tymor yr Hydref 2025
Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GCSU)	Hydref 15fed, 2025	Ymgynghori yn sgil argymhellion yr adroddiadau
Penaethiaid Cynradd Gwynedd (GYDCA)	Hydref 14eg, 2025	Ymgynghori yn sgil argymhellion yr adroddiadau
Staff canolfannau trochi Gwynedd	Medi 2024	Ymgynghori pellach yn sgil cyhoeddi adroddiad Prifysgol Bangor , Gorffennaf 2025

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol		Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i holl newydd-ddyfodiaid Gwynedd er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn ohoni.	Does dim effaith wedi cael ei hadnabod o unrhyw ail fodelu posib.

Anabledd	Dim gwybodaeth newydd i'w chyflwyno. Mae ysgolion yn cyfeirio disgyblion sy'n newydd ddyfodiad i Wynedd a rhennir CDU a CMU gyda'r canolfannau er mwyn sicrhau bod y gweithredu'n unol â DDY y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r canolfannau yn hygyrch ac yn ofodau sydd wedi eu cynllunio er mwyn rhoi mynediad rhwydd a llawn i ddysgwyr gydag unrhyw anghenion corfforol meddygol. Trefnir cludiant priodol i'r canolfannau trochi.	Does dim gwahaniaethu ar sail anabledd wedi cael ei adnabod ac nid yw unrhyw ail fodelu posib yn debygol o gael unrhyw effaith.
Rhyw	Mae'r canolfannau yn cynnig darpariaeth i bob plentyn rhwng blynyddoedd 2 a 9 sy'n symud i Wynedd. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau mynediad llawn at gyfleusterau i bob unigolyn.	Ni ragwelir unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol wrth ystyried ail fodelu ac felly nid oes unrhyw effaith wedi ei adnabod.
Oedran	Mae'r Gyfundrefn Addysg Drochi yn darparu cwrs trochi hwyr mewn canolfannau ar gyfer disgyblion rhwng blynyddoedd 2 a 9. Mae'n fwriad cydweithio gydag ysgolion i gyflwyno adnoddau cyfoes ar gyfer dysgwyr hŷn.	Wrth ail fodelu, ni ragwelir y bydd newid i'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer disgyblion o flynyddoedd 2 i 9 felly nid oes effaith wedi ei hadnabod. Gallai darparu adnoddau trochi hwyr ar gyfer dysgwyr hŷn - blynyddoedd 10 ac 11 yn benodol -gael effaith gadarnhaol ar eu gallu i ddysgu'r Gymraeg fel siaradwyr newydd.
Crefydd a Chred	Mae pob plentyn o flynyddoedd 2 i 9 yn cael mynediad at y Ddarpariaeth Addysg Drochi. Bydd ysgolion yn darparu gwybodaeth am ofynion diet, cod gwisg ac am wyliau neu weithgareddau crefyddol. Ymatebir i gyfnodau o ymprydio drwy bolisi ymprydio rennir gyda rhieni. Mae pob plentyn yn cael ei annog i deimlo'n gadarnhaol am ei deulu, ei ddiwylliant a'i ffydd.	Ni ragwelir y bydd ail fodelu yn cael unrhyw effaith sydd wedi ei adnabod.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae'r canolfannau yn cynnig darpariaeth i bob plentyn rhwng blynyddoedd 2 a 9 sy'n symud i Wynedd. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau mynediad llawn at gyfleusterau i bob unigolyn yn ddieithriad, gan ddilyn polisiau Cyngor Gwynedd.	Gan na fydd newid i'r ddarpariaeth o ail fodelu, does dim effaith wedi cael ei adnabod.
Ail-bennu rhywedd	Mae'r canolfannau yn cynnig darpariaeth i bob plentyn rhwng blynyddoedd 2 a 9 sy'n symud i Wynedd. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau mynediad llawn at gyfleusterau i	Does dim effaith wedi ei adnabod yn sgil unrhyw ail fodelu posib.

	bob unigolyn yn ddieithriad gan ddilyn polisïau Cyngor Gwynedd.	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Nid yw hyn wedi ei adnabod fel ystyriaeth berthnasol i'r Gyfundrefn Addysg Drochi.	Does dim effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Mae'r Gyfundrefn Addysg Drochi yn dilyn canllawiau Uned Contractau a Chyflogau Cyngor Gwynedd ac ni fydd unrhyw ail fodelu yn newid hawliau statudol na hawliau galwedigaethol.	Does dim effaith wedi ei adnabod
Iaith Gymraeg	Un o argymhellion adroddiad Prifysgol Bangor yw : - <i>Mae angen ailedrych ar y model trochi presennol i sicrhau oriau cyswllt digonol i ddisgyblion mewn gofod trochi.</i> Nodir yn adroddiad Estyn bod "<i>staff yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau diddorol a chreadigol sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol wrth gaffael y Gymraeg. Trwy hyn, o'u manau cychwyn, mae bron bob disgybl (gan gynnwys y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi) yn gwneud cynnydd hynod gadarn yn eu medrau Cymraeg o fewn hyd y cwrs.</i>" Yn sgil y canfyddiadau uchod a'r ymgynghori sydd wedi digwydd gydag ysgolion, disgyblion, rhieni a staff y canolfannau trochi byddwn yn cynllunio'r camau nesaf i sicrhau bod disgyblion yn gwneud defnydd llawn o'r Gymraeg a hynny'n benodol wrth ddychwelyd i'r ysgolion ar ddyddiau Gwener.	<u>Cadarnhaol</u> Gallai cynyddu oriau o fewn y canolfannau trochi sicrhau fod disgyblion yn fwy hyderus wrth ddychwelyd i'r ysgolion ac yn fwy parod i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwersi ac yn gymdeithasol. Gallai hwyluso mynediad at hyfforddiant ac adnoddau rymuso'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth i ddisgyblion trochi ddychwelyd i'r ysgolion. Gallai newid y trefniadau pan fydd staff y gyfundrefn yn mynd i'r ysgolion ar ddyddiau Gwener rymuso'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnig cefnogaeth ymarferol yn y gwersi i ddysgwyr trochi. <u>Negyddol</u> Gallai cynyddu'r oriau yn y gofod trochi arwain at effeithiau negyddol ar lesiant disgyblion gan na fyddai'r un cyfleoedd i gadw cysylltiad gyda'u hysgol a'u cyfoedion. Gallai cynyddu'r oriau yn y gofod trochi arwain at lai o gydweithio rhwng y Gyfundrefn a'r ysgolion, llai o rannu arbenigedd o safbwynt egwyddorion trochi a llai o gyfleoedd i'r Gyfundrefn Addysg Drochi allu rhoi arweiniad, cefnogaeth a rhannu adnoddau gydag ysgolion i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Mae'r canolfannau wedi eu lleoli'n strategol mewn chwe ardal ar draws y Sir er mwyn rhoi mynediad hylaw iddynt. Mae tair safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a thair safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr blynyddoedd 5 a 6 a dysgwyr oedran uwchradd. Sicrhair hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw. Darperir	Nid yw ail fodelu'r ddarpariaeth wythnosol yn debygol o gael unrhyw effaith economaidd gymdeithasol y gelir ei adnabod.

	cludiant i'r holl ganolfannau trochi a sicrheir fod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael hynny. Mae pob canolfan yn darparu brecwast bob bore er mwyn sicrhau fod y disgyblion i gyd yn cael cynnig pryd wrth gyrraedd.	
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Mae'r Gyfundrefn Addysg drochi yn dilyn polisïau a gweithdrefnau Sirol. Cynigir lle i bob disgybl sydd wedi cofrestru mewn ysgol yng Ngwynedd.	Does dim effaith wedi ei adnabod o ystyried newid y model
Hawliau Dynol	Ystyrir Hawliau Dynol a'r erthyglau yn unol â holl wasanaethau Cyngor Gwynedd.	Ni ragwelir y bydd unrhyw newid o fabwysiadu model newydd.
Arall	Maer' Gyfundrefn drochi yn rhoi mynediad i bob plentyn o flynyddoedd 2 i 9 sy'n gwneud cais. Rhoddir ystyriaeth lawn i sefyllfa pob disgybl a thrafodir sut y gellir hwyluso mynediad.	Nid yw'n bosib rhagweld unrhyw effaith gan na fydd y newid i'r model yn dylanwadu ar y materion hyn.

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Mae data wedi ei gasglu fel rhan o ymchwil Prifysgol Bangor ac arolygiad Estyn. Ers i'r Gyfundrefn gael ei sefydlu ar ei newydd wedd mae data wedi ei gadw am sawl agwedd gan gynnwys lefelau cyflawni, lefelau hyder, niferoedd, presenoldeb, boddhad, cyfranogiad. Rhennir holiaduron ar ddechrau a diwedd pob cwrs ac mae'r ddarpariaeth yn cael ei haddasu yn unol â'r canfyddiadau tymhorol. Cynhelir cyfarfod gyda'r ysgolion ar ddechrau pob cwrs ac yn sgil adborth o'r cyfarfodydd hynny mae addasiadau i drefniadau yn cael eu hwyluso. Mae staff y canolfannau yn ymweld â'r ysgolion yn wythnosol ac yn manteisio ar gyfleoedd i drafod cynnydd, llesiant a chefnogaeth.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnu)?

Mae argymhellion Prifysgol Bangor yn awgrymu nad yw dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Gwener yn drefniant llwyddiannus ymhob ysgol.

Barn Penaethiaid o fewn y grŵp ffocws yw fod yn trefniant yn sicrhau cyswllt wythnosol gyda'r ysgol a chyfle i gydweithio gyda staff y canolfannau trochi.

Barn staff y canolfannau trochi ydy y byddai cynyddu'r oriau yn y canolfannau trochi ar ddechrau'r cwrs yn sicrhau bod yr iaith yn cael ei hymarfer a'i gwreiddio cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgolion ond maent yn cwestiynu a fyddai hynny'n cael effaith negyddol ar lesiant ac ar barodrwydd teuluoedd i ymgysylltu.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Effaith Cadarnhaol ar Gydraddoldeb – Cynyddu oriau yn y Canolfannau Trochi

- Dileu gwahaniaethu: Mae diwrnod ychwanegol yn lleihau'r risg o eithrio disgyblion oherwydd cyfyngiadau amseroedd
- Hyrwyddo cyfle cyfartal: Yn cynyddu mynediad i bawb
- Meithrin perthnasau da: Yn lleihau straen ar ysgolion ar ddyddiau Gwener ac yn cefnogi profiad cadarnhaol yn y canolfannau

Effaith Negyddol – Cynyddu oriau yn y Canolfannau Trochi

- Dileu gwahaniaethu: Mae diwrnod ychwanegol yn cynyddu'r risg o eithrio disgyblion o gwricwlwm yr ysgol ac yn cynyddu'r risg bod disgyblion ddim yn barod i ymarfer eu Cymraeg yn yr ysgolion.
- Meithrin perthnasau da: Yn lleihau straen ar ysgolion ar ddyddiau Gwener dros dro ond ddim yn cyfarch yr angen i ddisgyblion ffurfio perthynas gadarnhaol gyda'u cyfoedion yn yr ysgolion wrth i sgiliau Cymraeg y disgyblion gynyddu.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Nid yw'r modelu posib yn cau bylchau o ran anghydraddoldeb maent, yn hytrach, yn newid darpariaeth i bawb.

Model 1: Parhau gyda'r model presennol sef 10 wythnos yn y Ganolfan Drochi - 4 diwrnod yn y Ganolfan, dydd Gwener yn yr ysgol.

Model 2 : Addasu'r model presennol 10 wythnos yn y Ganolfan Drochi - 4 diwrnod yn y Ganolfan , dydd Llun yn yr ysgol. .

Model 3 : Addasu'r model presennol- 10 wythnos yn y Ganolfan Drochi - 5 diwrnod yn y Ganolfan am 5 wythnos , yna gyfwerth â 3 diwrnod yn y Ganolfan a 2 ddiwrnod yn yr ysgol am 5 wythnos

Model 4: Cynyddu'r amser yn y Canolfannau Trochi gyfwerth â 10% - 10 wythnos yn y Ganolfan Drochi - 5 diwrnod yn y Ganolfan am 5 wythnos , yna gyfwerth â 4 diwrnod yn y Ganolfan ac 1 diwrnod yn yr ysgol am 5 wythnos.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar egwyddor bod y Gymraeg yn iaith naturiol y Cyngor ac mai'r Gymraeg yw'r brif iaith weinyddol a chyhoeddus, gyda phob gwasanaeth, cyfarfod, gohebiaeth ac arwydd yn ddwyieithog ond gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. Mae'n sicrhau bod y cyhoedd a staff yn cael gwasanaeth llawn yn Gymraeg, bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol i bob swydd, ac mae disgwyl i gyrff sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor hefyd hyrwyddo'r Gymraeg. O ran addysg, mae'r polisi'n pwysleisio rôl ganolog ysgolion a darparwyr addysg wrth drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf ac atgyfnerthu ei defnydd fel prif iaith dysgu a chymunedol. Mae'r modelau oll yn cyfrannu at yr egwyddor hon ac cyflwyno opsiynau i addasu rhywfaint ar y ddarpariaeth er mwyn grymuso gwasanaeth.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Mae trefniadau'r Gyfundrefn drochi yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Ddeddf mewn sawl ffordd:

1. **Cymru lewyrchus** – mae sgiliau dwyieithog yn cynyddu cyfleoedd gwaith ac yn cryfhau'r economi.
2. **Cymru gydnerth** – mae'r iaith yn rhan o'n hunaniaeth.
3. **Cymru iachach** – mae trochi'n cefnogi lles emosiynol a hunaniaeth bositif, sy'n gysylltiedig â chryfhau iechyd meddwl.
4. **Cymru fwy cyfartal** – mae mynediad at drochi yn sicrhau tegwch ieithyddol a chymdeithasol i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir.
5. **Cymru o gymunedau cydlynus** – mae'r iaith yn cysylltu pobl â'u cymunedau ac yn meithrin teimlad o berthyn.
6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – dyma'r prif gysylltiad uniongyrchol: trochi yw un o'r prif ddulliau i wireddu'r nod hwn.
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – drwy amddiffyn iaith leiafrifol, mae Cymru'n cyfrannu at amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol y byd.

Mae'r pum ffordd o weithio ar waith

Hirdymor – adeiladu sylfeini ieithyddol cadarn er mwyn cynnal y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Atal – sicrhau nad yw plant yn colli'r cyfle i ddod yn rhugl yn y Gymraeg trwy weithredu'n gynnar.

Integreiddio – cysylltu ag addysg, diwylliant, iechyd a chydaddoldeb.

Cydweithio – partneriaethau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni i ddarparu llwybrau trochi.

Cynnwys – rhoi llais i deuluoedd a dysgwyr wrth lunio a datblygu trefniadau trochi.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

I2. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?
Na fydd

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Partneriaeth:

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

I3. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Mae angen ystyried y modelau er mwyn gweld pa un sydd yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar allu'r disgyblion i gaffael y Gymraeg ond nid yw'n bosib rhagweld beth fydd maint yr effaith ac os bydd yr effaith honno'n sylweddol. Mae lefelau cyflawni disgyblion trochi wedi aros yn gadarn dros gyfnod yr ail strwythuro. Nid yw cynnwys disgyblion Blwyddyn 2 yn model presennol wedi cael effaith arwyddocaol ar gyflawniad.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Mae angen ystyried y modelau er mwyn gweld os byddai effaith negyddol ar allu'r disgyblion i integreiddio nôl i'r ysgolion. Nid yw'n bosib rhagweld beth fydd maint yr effaith ac os bydd yr effaith honno'n sylweddol.

I4. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Er bod posibilrwydd na fyddai rhieni mor gefnogol i anfon eu plant i ddarpariaeth drochi sydd yn cael ei chynnal gyda llai o gyswllt gyda'r ysgolion, mae manteision ieithyddol o safbwynt caffael hanfodion yr iaith ar ddechrau'r cwrs trochi. Mae dau fodel posib ar gyfer hynny sef mynychu'r canolfannau trochi am 5 diwrnod am 5 wythnos ar ddechrau pob cwrs ac yna naill ai 3 diwrnod yn y ganolfan a 2 yn yr ysgol am 5 wythnos neu 4 diwrnod yn y ganolfan ac 1 yn yr ysgol am 5 wythnos.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

n/a

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Byddwn yn edrych ar y dystiolaeth o ymgynghori ac yn ystyried unrhyw gamau pellach.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r ystyriaethau hyn yn dangos yn glir fod y Gyfundrefn Drochi rhoi **sylw dyledus i leihau anghydraddoldeb** ac yn cyd-fynd â dyletswyddau'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cydraddoldeb** :

- Sicrhau cludiant ar gyfer disgyblion ac ystyried ehangu cyfleoedd trochi o fewn y canolfannau
- Addasu dulliau addysgu a chynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy'n profi anfantais
- Sicrhau bod lleisiau teuluoedd o bob cefndir yn rhan o ddatblygu a gwerthuso'r ddarpariaeth.
- Cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb cyn cyflwyno polisiâu neu gynlluniau newydd.
- Mesur effaith trochi nid yn unig ar sgiliau iaith ond hefyd ar gyfranogiad gymdeithasol, hyder a thegwch cyfleoedd.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mae unrhyw newidiadau yn narpariaeth y Gyfundrefn Drochi yn sgil ymrwymiad i sicrhau tegwch ieithyddol a chymdeithasol i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir. Mae'r iaith yn rhan o'n hunaniaeth, sgiliau dwyieithog yn cynyddu cyfleoedd gwaith ac yn cryfhau'r economi. Anelir i adeiladu sylfeini ieithyddol cadarn er mwyn cynnal y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, sicrhau nad yw plant yn colli'r cyfle i ddod yn rhugl yn y Gymraeg trwy weithredu'n gynnar, cysylltu ag addysg, diwylliant, iechyd a chydaddoldeb, cynnal partneriaethau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni i ddarparu llwybrau trochi. Rhoi llais i deuluoedd a dysgwyr wrth lunio a datblygu trefniadau trochi.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r ymarfer.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arewiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Dim				Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Hydref 16eg	Pennaeth Cyfundrefn Drochi	
i'w benderfynu yn dilyn craffu	i'w bennu	Pennaeth Cyfundrefn	

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	16eg o Hydref 2025
TEITL	Strategaeth Caffael 2025 – 2030
RHESWM DROS GRAFFU	Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus
AWDUR	Ian Jones, Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Llio Elenid Owen

1. Pam fod angen ei graffu?

- 1.1. Yn sgil deddfwriaeth newydd yn y maes caffael, mae'r Cyngor yn adolygu ei Strategaeth Caffael.
- 1.2. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael nwyddau, gwasanaethau a gweithiau sylweddol gan gwmnïau a mentrau allanol. Mae'r Cyngor yn awyddus i weld busnesau lleol yn cystadlu am y cytundebau hyn gyda'r nod o geisio cadw gwariant y Cyngor yn lleol. Mae caffael hefyd yn arf i gwblhau blaenoriaethau eraill megis datgarboneiddio a chyflawni ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- 1.3. Craffwyd y cynnydd a wnaed o ran y prosiect Cadw'r Budd yn Lleol, sy'n brosiect blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor, yng nghyfarfod 8 Rhagfyr 2022. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan ofyn i'r Gwasanaeth Caffael adrodd yn ôl ar ganlyniad y peilot 'Caffael Arloesol – Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol' i'r Pwyllgor.
- 1.4. Bydd blaengraffu'r Strategaeth yn gyfle i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y Strategaeth Caffael a chynnig sylwadau.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- Yr hyn sydd wedi ei wneud mewn ymateb i Ddeddf Caffael 2023
- Cynnwys y Strategaeth Caffael newydd
- Beth yw canlyniad y peilot 'Caffael Arloesol – Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol'?
- Pa lwyddiannau sy'n deillio o'r ffrwd gwaith i uchafu gwerth cymdeithasol?
- Beth yw'r camau nesaf?

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

- 3.1. Yn gynharach yn 2025, daeth y Ddeddf Caffael 2023 i rym gan greu newidiadau sylweddol yn y maes caffael cyhoeddus.

- 3.2. Mae'n amserol i'r Cyngor lunio Strategaeth Caffael newydd, ac mae drafft o Strategaeth Caffael wedi cael ei llunio yn ddiweddar. Nod y Strategaeth yw gosod cyfeiriad a gweledigaeth strategol ar gyfer holl weithgaredd caffael y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Gweler drafft o'r Strategaeth wedi ei atodi i'r adroddiad hwn (Atodiad 1).
- 3.3. Bydd y Strategaeth yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth wrth sefydlu blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau bod gwariant y Cyngor yn rhoi'r gwerth gorau am arian tra'n rhoi'r budd gorau i drigolion y Sir.
- 3.4. Rydym yn cyflwyno'r Strategaeth Caffael gerbron y Pwyllgor Craffu er pwrpas blaengraffu a derbyn sylwadau ar y Strategaeth.

4. Cefndir / Cyd-destun

Beth yw caffael

- 4.1. Caffael yw'r broses o sicrhau nwyddau, gwasanaethau neu waith. Yn aml iawn caiff caffael ei weld fel y weithred o brynu yn unig, ond rhan fechan o'r broses gaffael yw'r prynu. Mae caffael yn ddull hirdymor o sicrhau nwyddau, gwasanaethau a gwaith, ac yn cynnwys camau megis ymgysylltu â'r farchnad, negodi, a rheoli contractau. Mae prynu yn ddull mwy tymor byr, adweithiol.
- 4.2. Mae caffael cyhoeddus yng Nghymru ac ymhellach yn y Deyrnas Unedig (DU) yn faes sydd wedi ei reoleiddio'n dynn, gan adlewyrchu'r egwyddor sylfaenol bod cyrff cyhoeddus yn gwario arian trethdalwyr a rhaid iddynt wneud hynny'n gyfrifol. Caiff caffael yn y sector cyhoeddus ei lywodraethu gan ystod o gyfreithiau a pholisïau sy'n gorfodi tryloywder, tegwch, atebolrwydd ac yn sicrhau gwerth am arian. Fel llywodraeth leol, mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r fframwaith gyfreithiol hon.

Caffael yng Nghyngor Gwynedd

- 4.3. Mae caffael yn chwarae rhan allweddol o holl weithgarwch Cyngor Gwynedd. Yn wir, heb brosesau caffael priodol, ni fyddai'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol wrth gaffael a gosod contractau, a fyddai'n arwain at anallu ein swyddogion i ddarparu gwasanaeth i bobl Gwynedd.
- 4.4. Trwy weithgarwch caffael, mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn y flwyddyn ar wasanaethau megis gofal, cludiant, gwastraff ac ailgylchu, fflyd, adeiladau, systemau a llawer mwy.
- 4.5. Mae'r gwariant hwn yn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol neu statudol yn cael eu cyflawni, er enghraifft, bod posibl i ddisgybl gael cludiant i'r ysgol, trigolyn i gael cartgylchu newydd, un o'n henoed yn cael gofal addas mewn cartref gofal, neu i'r gwasanaeth Eiddo sicrhau bod adeiladu'r Cyngor yn ddiogel i drigolion Gwynedd.
- 4.6. Rydym yn gweithredu trefniadau caffael rheolaeth categori yn y Cyngor, sef pan mae gwariant sefydliad yn cael ei grwpio i gategorïau. Mae tri phrif gategori yn y Cyngor sy'n gyfrifol am gydlynw gweithgareddau caffael o fewn eu categori. Y tri

chategori sydd gennym yn y Cyngor yw: Amgylchedd; Corfforaethol; a Phobl. Mae tîm o swyddogion ar gyfer pob categori, a lleolir y timau hyn o fewn yr adrannau canlynol: Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC; Adran Amgylchedd; a'r Adran Tîm Arweinyddiaeth, ac maent yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Caffael canolog sydd yn eistedd yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r Gwasanaeth Caffael canolog yn cynnig arweiniad strategol a gweithredol, ynghyd â chefnogaeth ar faterion caffael ar draws y Cyngor, megis drwy lunio strategaeth, polisïau ac ati, ac yn gyfrifol am lunio deunyddiau ar drefniadau caffael a chodi ymwybyddiaeth o drefniadau a datblygiadau'r maes caffael.

Yr hyn sydd wedi ei wneud mewn ymateb i Ddeddf Caffael 2023

- 4.7. Mae'r Ddeddf Caffael 2023 a'r deddfwriaethau cysylltiedig â'r diwygio caffael yn golygu gweddnewidiad sylweddol i gaffael cyhoeddus yn y DU.
- 4.8. Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ac mae ystod eang o weithgaredd wedi bod ar y gweill i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion newydd ac yn paratoi ar gyfer y newid.

Cyfathrebu

- 4.9. Cyn i'r Ddeddf Caffael 2023 ddod i rym, trefnodd y Gwasanaeth Caffael i arbenigwr o Lywodraeth Cymru gynnal sesiynau gwybodaeth i swyddogion sy'n caffael er mwyn rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am y newidiadau oedd ar droed – roedd hyn yn rhoi'r cyfle i gael gwybod am newidiadau ynghyd â chyfle i drafod beth oedd angen ei wneud mewn ymateb i'r Ddeddf Caffael.
- 4.10. Roeddem hefyd yn cyfathrebu'r diweddariadau perthnasol yn gyson â swyddogion y Cyngor yn ystod y cyfnod cyn i'r Ddeddf Caffael ddod i rym, fel bod dealltwriaeth gyson ar draws y Cyngor o'r newidiadau oedd ar y gweill.
- 4.11. Er mwyn paratoi busnesau ar gyfer y newidiadau, fe wnaeth y Gwasanaeth Caffael gyd-weithio gyda'r Adran Economi a Chymuned i ddarparu gwybodaeth a diweddariadau am y newidiadau oedd ar ddod yn y Bwletin Busnes Gwynedd i fusnesau lleol.

Adolygu trefniadau llywodraethu

- 4.12. Yn fuan wedi i'r Ddeddf Caffael 2023 ddod i rym, diweddarwyd Rheolau Gweithdrefn Contractau y Cyngor (adran 17 o Gyfansoddiad y Cyngor) mewn ymateb i'r Ddeddf, gan dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2023. Gweler paragraff 9.1 o'r adroddiad hwn ar gyfer dolen i'r Cyngor Llawn perthnasol.
- 4.13. Wrth ymateb i'r Ddeddf, mae'r Gwasanaeth Caffael wedi datblygu ac adolygu amrywiaeth o dempledi a deunyddiau ategol i gefnogi swyddogion y Cyngor. Mae'r adnoddau hyn wedi'u llunio i gefnogi'r newidiadau yn y trefniadau caffael yn sgil y diwygiadau diweddar ac i gynorthwyo swyddogion i ddeall y gofynion newydd yn glir, gan sicrhau cydymffurfiaeth.

- 4.14. Yn dilyn y diwygio caffael, roedd yn amserol i lunio Strategaeth Caffael newydd i'r Cyngor – mae drafft o'r Strategaeth wedi'i llunio ac wedi'i atodi i'r adroddiad hwn (Atodiad 1). Pan fydd drafft terfynol o'r Strategaeth wedi'i chymeradwyo, bwriadwn adolygu a diweddarw Polisi Caffael y Cyngor yn ogystal.
- 4.15. Ar lefel genedlaethol, mae newid sylweddol wedi bod i'r plattform cenedlaethol sy'n cyhoeddi hysbysiadau am gontractau. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y system, mae cryn dipyn o adnodd wedi'i roi gan y Cyngor i brofi'r system newydd, ymgyswrtio â'r trefniadau newydd, addysgu swyddogion eraill yn y Cyngor am y newidiadau, a darparu adborth i'r Llywodraeth a'r partïon priodol.

Hyfforddiant

- 4.16. Lluniwyd ystod o hyfforddiant ar y diwygio caffael gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac mae swyddogion perthnasol y Cyngor wedi cael mynediad i'r adnoddau hyfforddiant hynny.
- 4.17. Yn ogystal â hyfforddiant y Llywodraeth, mae Gwasanaeth Caffael y Cyngor wedi llunio a chynnal nifer o sesiynau hyfforddiant i adrannau a gwasanaethau'r Cyngor, i addysgu staff am y newidiadau sydd wedi deillio o'r diwygio caffael. Mae'r adborth wedi bod yn bositif hyd yma, ac mae'r gwaith yn parhau gyda sesiynau a hyfforddiant pellach wrthi'n cael eu trefnu.

Casgliad

- 4.18. Mae'r Gwasanaeth Caffael wedi bod yn adrodd yn ar y gwaith o ymateb i'r Ddeddf Caffael 2023 a'r diwygio caffael yn ehangach yn ystod cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol.
- 4.19. Mae'r diwygiad diweddar o ganlyniad i'r Ddeddf Caffael 2023 yn sylweddol ac felly mae'r gwaith o ymateb i'r Ddeddf yn parhau. Yn ogystal, rydym hefyd wrthi'n paratoui'n rhagweithiol ar gyfer gweithredu gofynion caffael y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, y disgwylir iddynt ddod i rym yn 2026, gan sicrhau bod ein prosesau'n cyd-fynd â'r disgwyliadau deddfwriaethol newydd.

Cynnwys Strategaeth Caffael newydd Cyngor Gwynedd

- 4.20. Fel sydd wedi ei grybwyll uchod, mae drafft o Strategaeth Caffael newydd wedi cael ei llunio yn ddiweddar. Nod y Strategaeth yw gosod cyfeiriad a gweledigaeth strategol ar gyfer holl weithgaredd caffael y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Gweler drafft o'r Strategaeth wedi ei atodi i'r adroddiad hwn (Atodiad 1).

Cefndir a phwrpas y Strategaeth

- 4.21. Mae'r Strategaeth gyfredol wedi dyddio ac mae'n amserol ei diweddarw yn dilyn y diwygio caffael diweddar. Mae'n bwysig bod cyfeiriad strategol unedig wedi'i osod ar gyfer pawb sy'n caffael yn y Cyngor, er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio tuag

at yr un nodau a blaenoriaethau, gan gryfhau canlyniadau caffael y Cyngor a sicrhau'r budd mwyaf i drigolion Gwynedd.

- 4.22. Bydd y Strategaeth nid yn unig gosod cyfeiriad a gweledigaeth strategol ar gyfer gweithgaredd caffael yn y Cyngor ond hefyd yn sefydlu blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni er mwyn sicrhau bod gwariant y Cyngor yn rhoi'r gwerth gorau am arian wrth roi'r budd gorau i drigolion y Sir.
- 4.23. Bydd cyhoeddi Strategaeth nawr hefyd yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gadarn ar gyfer gofynion deddfwriaethol newydd sydd i'w disgwyl yn 2026 (Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023) ble bydd gofyn statudol i gyrrff cyhoeddus baratoi a chyhoeddi strategaeth caffael.
- 4.24. Oherwydd ein bod fel awdurdod lleol yn gwario arian cyhoeddus, mae'r maes caffael yn faes sy'n cael ei reoleiddio'n drwm, ac mae sawl gofyniad cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â hwy wrth gaffael. Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny ac maent wedi cael eu hystyried yn llawn wrth lunio'r Strategaeth er mwyn sicrhau bod holl weithgaredd caffael y Cyngor yn gywir, yn briodol ac yn gydymffurfio a'r holl reolau perthnasol.
- 4.25. Mae gan y Cyngor hefyd Bolisi Caffael Cynaliadwy. Y Strategaeth sy'n gosod gweledigaeth a blaenoriaethau lefel strategol, tra mae'r Polisi yn ymdrin â'r manylion gweithredol. Fel sydd wedi'i nodi eisoes, pan fydd drafft terfynol o'r Strategaeth wedi'i chymeradwyo, bwriadwn adolygu a diweddarau Polisi Caffael y Cyngor, gan anelu iddo fod yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2026, er mwyn sicrhau bod trefniadau gweithredol o gaffael y Cyngor yn gadarn.

Cynnwys y Strategaeth

- 4.26. Mae'r Strategaeth yn cynnwys saith maes blaenoriaeth ar gyfer cyfnod y Strategaeth, sef y pum mlynedd nesaf, gyda phob maes blaenoriaeth wedi'i adnabod fel meysydd allweddol yng nghyd-destun caffael yng Nghyngor Gwynedd.
- 4.27. Mae pob maes blaenoriaeth yn nodi cefndir i'r maes blaenoriaeth hwnnw, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â pham ei fod yn flaenoriaeth, beth sydd wedi cael ei wneud hyd yma ac ati. Gosodir y weledigaeth o le ydym eisiau bod ar gyfer pob maes blaenoriaeth a gwybodaeth am sut y byddwn yn cyflawni'r weledigaeth honno.
- 4.28. Mae cyd-destun deddfwriaethol a chyfansoddiadol y Cyngor hefyd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth.
- 4.29. Rhestrir y saith maes blaenoriaeth yn nhrefn yr wyddor, ac maent yn cynnwys:
 - **Budd lleol – cefnogi busnesau lleol i ffynnu**
Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd caffael a lleihau rhwystrau i fusnesau a mentrau lleol geisio am waith gyda'r Cyngor

- **Carbon sero – cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero**
Datblygu'r ddealltwriaeth o allyriadau carbon contractau'r Cyngor a chydweithio gyda gwasanaethau'r Cyngor i gynorthwyo i leihau allyriadau carbon y sefydliad
- **Gwerth am arian – sicrhau gwerth am arian**
Sicrhau bod yr holl arian a gaiff ei wario drwy weithgaredd caffael yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor ac i bobl Gwynedd
- **Gwerth cymdeithasol – uchafu'r gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael**
Uchafu'r gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a ddaw o gcontractau a gweithgaredd caffael i gefnogi cymunedau lleol Gwynedd
- **Technoleg – cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg**
Gwneud y gorau o ddatblygiadau yn y maes technoleg er mwyn rhoi sylfaen gadarn i gaffael
- **Trefniadau llywodraethu – rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith**
Sicrhau bod ein gweithdrefnau mewnol, dealltwriaeth ac arbenigedd o gaffael a threfniadau rheolaeth contract yn ein galluogi i weithredu'n gywir ac yn effeithiol
- **Y Gymraeg – hybu ffyniant y Gymraeg**
Sicrhau bod gweithgaredd caffael y Cyngor yn hybu'r Gymraeg a bod y Gymraeg yn derbyn lle amlwg yn ein prosesau.

Casgliad

- 4.30. Yn dilyn derbyn sylwadau gan y Pwyllgor Craffu, bwriedir mynd ymlaen i ofyn am sêl bendith Cabinet y Cyngor ar gyfer cyhoeddi'r Strategaeth.
- 4.31. Wedi i'r Strategaeth fynd yn fyw, bydd y Gwasanaeth Caffael yn arwain ar lunio Cynllun Gweithredu, fydd yn amlinellu'r camau i'w cymryd i wireddu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth.

Beth yw canlyniad y peilot 'Caffael Arloesol – Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol'?

- 4.32. Ar yr 8fed o Ragfyr 2022, cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ac yn rhan o'r adroddiad hwnnw roedd gwybodaeth am beilot oedd yn cael ei dreialu ar y pryd, yn edrych ar gyflwyno methodoleg asesu tendrau newydd drwy'r Cyngor.
- 4.33. Er hwylustod i Aelodau, mae dolen i'r adroddiad hwnnw wedi'i chynnwys ym mharagraff 9.2 o'r adroddiad hwn. Yn gryno, roedd y peilot yn treialu trefn newydd o asesu gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael, gan defnyddio'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru (TOMs), sy'n drefn gydnabyddedig yn

y maes caffael i fesur, adrodd a rheoli gwerth cymdeithasol. Mae'r drefn yn cynnwys themâu (sydd yng Nghymru, yn adlewyrchu saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) ac ystod o fesurau meintiol yn gysylltiedig â'r themâu hynny - mae gan bob mesur werth procsi sef amcangyfrif ariannol o'i effaith gymdeithasol.

- 4.34. Treialwyd y drefn newydd o asesu gwerth cymdeithasol ar draws sawl maes o fewn y Cyngor.
- 4.35. Wedi i'r cyfnod peilot ddirwyn i ben, cyflwynwyd adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 7fed o Dachwedd 2023 yn crynhoi'r peilot a gwneud argymhellion o ran y ffordd ymlaen – gweler paragraff 9.3 o'r adroddiad hwn ar gyfer dolen i'r eitem Cabinet perthnasol.
- 4.36. Ar y cyfan, drwy ddefnyddio'r drefn newydd fe wnaeth gontractwyr gynnig ystod o fuddion cymdeithasol positif i Wynedd, er enghraifft:
- cyflogaeth i bobl sy'n byw yng Ngwynedd;
 - gwariant yn deillio o'r contractau yn cael ei wario yn y gadwyn gyflenwi leol;
 - rhoddion ariannol i elusennau a chlybiau cymuned;
 - amser gwirfoddol i gefnogi elusennau lleol;
 - datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- 4.37. Casglodd y peilot bod y drefn newydd yn cynnig ffordd dryloyw a meintiol o asesu gwerth cymdeithasol fel rhan o werthusiad bidiau cwmnïau. Nodwyd bod y drefn newydd o asesu gwerth cymdeithasol yn gallu helpu busnesau a mentrau lleol, megis drwy'r mesurau cyflogaeth lleol a gwariant lleol. Ond gwelwyd hefyd bod cynnwys asesiad o werth cymdeithasol mewn tendr yn cynyddu'r tebygolrwydd bod cwmni yn creu buddion i Wynedd hyd yn oes os yw'r cwmni wedi eu lleoli tu allan i Wynedd.
- 4.38. Argymhellwyd yn yr adroddiad Cabinet i newid y Polisi Caffael Cynaliadwy. Fodd bynnag, oherwydd y newidiadau oedd ar y gweill gyda'r diwygio caffael fel sydd wedi'i grybwyll yn barod, penderfynwyd y byddai'n well oedi diwygio'r Polisi yn sgil y newidiadau oedd ar y gorwel. Fel sydd wedi'i nodi eisoes yn yr adroddiad, gan fod y mwyafrif o'r newidiadau yn sgil y diwygio caffael mewn lle erbyn hyn, mae bellach yn amserol i ni gyhoeddi Strategaeth Caffael ac yna adolygu a diwygio'r Polisi Caffael.
- 4.39. Argymhellwyd hefyd i barhau i werthuso gwerth cymdeithasol mewn tendrau perthnasol. Yn dilyn hynny, aethpwyd ymlaen i wneud defnydd ehangach o'r drefn newydd, gan ei defnyddio mewn ystod o dendrau yn dilyn cyfnod y peilot. Mae hynny wedi caniatáu i ni gasglu mwy o wybodaeth am ei defnydd a'i effeithiolrwydd, a rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r manteision ac anfanteision sydd ynghlwm. Nodir rhai enghreifftiau a llwyddiannau yn y rhan nesaf o'r adroddiad.

Casgliad

- 4.40. Cyflwynwyd canlyniadau'r peilot 'Caffael Arloesol - Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol' i Gabinet Cyngor Gwynedd yn 2023. Ar y cyfan, gwelwyd

canlyniadau positif wrth i ystod o fuddion cymdeithasol gael eu cynnig gan gontractwyr.

Pa lwyddiannau sy'n deillio o'r ffrwd gwaith i uchafu gwerth cymdeithasol?

- 4.41. Mae gwerth cymdeithasol yn derm eang a ddefnyddir i ddisgrifio effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd camau a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion.¹
- 4.42. Yn y maes caffael, gellir cynnwys gwerth cymdeithasol yn rhan o werthusiad tendr a/neu amodau contract gyda'r bwriad i sicrhau canlyniadau sy'n cynnig gwerth ychwanegol cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.
- 4.43. Yn gyffredinol, rydym yn gweld bod cynnwys gwerth cymdeithasol fel rhan o'r broses dendro yn rhoi canlyniadau positif o ennill buddion cymdeithasol i Wynedd. Ers i ni ddechrau defnyddio'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru (**TOMs**) fel dull o fesur gwerth ariannol y buddion cymdeithasol, mae cwmnïau wedi cynnig gwerth dros **£4 miliwn** o fuddion cymdeithasol i Wynedd o ganlyniad i gontractau'r Cyngor, drwy amryw o ffyrdd, megis:
- Cyflogaeth i drigolion Gwynedd;
 - Gwariant gyda chyflenwyr lleol a chyflenwyr Cymreig;
 - Cynigion amrywiol o brofiadau gwaith;
 - Rhoddion ariannol i elusennau lleol.
- 4.44. Fe wnaeth y gwaith ynghlwm â gwerth cymdeithasol ar gyfer ein contract cyflenwi bwyd i ysgolion a chartrefi gofal gyrraedd rhestr fer ar gyfer gwobr caffael genedlaethol.
- 4.45. Fel y gwelir uchod, mae'r enghreifftiau yn dangos effaith positif ar gymunedau yng Ngwynedd. Fel sydd wedi ei grybwyll eisoes, mae asesu gwerth cymdeithasol yn defnyddio'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru yn gallu rhoi hwb i fusnesau lleol, megis os ydynt yn cyflogi gweithwyr lleol ac yn gwario gyda'r gadwyn gyflenwi lleol.
- 4.46. Hyd yn oed os yw cwmni sydd wedi eu lleoli tu allan i Wynedd yn ennill contract gan y Cyngor, mae rhai o'r enghreifftiau yr ydym wedi eu gweld hyd yma yn dangos gall cynnwys asesiad o werth cymdeithasol mewn tendr gynyddu'r tebygolrwydd bod cwmni o'r fath yn dod â buddion i Wynedd. Mae enghreifftiau positif o werth cymdeithasol y mae cwmnïau o du allan i Wynedd wedi eu cynnig yn cynnwys: cyflogi unigolion lleol o Wynedd i weithio ar gontract y Cyngor; rhoddion i elusennau yng Ngwynedd; profiad gwaith i drigolion yng Ngwynedd gyda chwmni cenedlaethol.
- 4.47. Un o'r prif anfanteision sy'n gysylltiedig â'r drefn newydd o werthuso gwerth cymdeithasol yw ei bod yn gofyn am fwy o adnoddau, amser ac arbenigedd i'w gweithredu'n effeithiol, gan greu pwysau ychwanegol ar swyddogion caffael a'r swyddogion sydd yn rheoli contractau yn y Cyngor. Yn ogystal, gall fod yn her yn yr

¹ Llywodraeth Cymru (2025) Nodiadau Polisi Caffael Cymru WPPN 003: Cymalau gwerth cymdeithasol/buddion cymunedol drwy gaffael cyhoeddus, <https://www.llyw.cymru/wppn-003-caffael-canllawiau-ar-gwerth-cymdeithasol-buddion-cymunedol.html>

un modd i fusnesau a mentrau llai, gan beri rhwystrau i'w gallu i gystadlu'n llawn ac i gyflwyno ymatebion cryf i dendrau.

- 4.48. Mewn ymateb i'r rhwystr posib i fusnesau a mentrau lleol, mae ystod o gamau wedi eu rhoi mewn lle i geisio lleihau'r rhwystr posib:
- Caiff pecynnau gwybodaeth i fusnesau eu cynnwys yn y dogfennau tendro pan mae gwerth cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn rhan o'r gwerthusiad, er mwyn cynyddu dealltwriaeth busnesau o'r trefniadau
 - Rydym hefyd yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd ymgysylltu â'r farchnad cyn mynd allan i dendr i sicrhau bod busnesau yn cael y cyfle i ddeall ein hanghenion a'r cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau
 - Ymhellach i hyn, rydym wrthi'n llunio fersiwn ysgafn o'r gofynion gwerth cymdeithasol a all fod yn fwy addas mewn rhai tendrau.

Casgliad

- 4.49. Ar y cyfan, mae ychwanegu gwerth cymdeithasol fel rhan o'r broses dendro yn dod â buddion ychwanegol i Wynedd, a hefyd yn gallu cydnabod y budd y mae elfennau megis cyflogaeth leol a gwariant lleol drwy ein contractau yn gallu ei roi i'r Sir.
- 4.50. Fel sy'n rhan o'r Strategaeth Caffael, bwriadwn i barhau gyda'r gwaith o uchafu gwerth cymdeithasol ym mhrosesau caffael y Cyngor.


5. Ymgynghori

- 5.1. Wrth lunio'r Strategaeth, cymerwyd y cyfle i ymgynghori gyda sawl gwasanaeth ar draws y Cyngor er mwyn derbyn mewnbwn ac adlewyrchu safbwynt a barn gwahanol adrannau fydd yn defnyddio a gweithredu'r Strategaeth.
- 5.2. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys y Tîm Categori Amgylchedd (Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC), y Tîm Categori Corfforaethol (Adran Amgylchedd) a'r Tîm Categori Pobl (Adran Tîm Arweinyddiaeth). Trafodwyd cynnwys y Strategaeth gyda'r Adran Economi a Chymuned hefyd.
- 5.3. Yn dilyn derbyn sylwadau a thrafodaeth o gwmpas y sylwadau hynny, fe wnaed addasiadau wrth i'r Strategaeth gael ei llunio i adlewyrchu'r sylwadau hynny.
- 5.4. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth i'r Strategaeth, byddwn ni fel Gwasanaeth Caffael canolog yn arwain ar lunio Cynllun Gweithredu, a byddwn yn cydweithio gyda'r Timau Categori a swyddogion caffael y Cyngor wrth ei lunio. Byddwn hefyd yn ymgynghori gydag unrhyw wasanaeth arall yn y Cyngor fel bo'r angen yn codi.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 6.1. Mae caffael yn gallu cyfrannu yn sylweddol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn enwedig pan gaiff ei arwain gan egwyddorion cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol.

- 6.2. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyriaeth lawn wrth ddrafftio'r Strategaeth, a gellir gweld pa rai o'r nodau llesiant y mae pob maes blaenoriaeth yn eu cyfarch yn y Strategaeth, gweler enghraifft isod. Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i weithredu'r Strategaeth a chaffael yn gyffredinol ar draws y Cyngor.



- 6.3. Mae gwerth cymdeithasol a gaiff ei wireddu drwy gaffael yn chwarae rhan hanfodol i gyflawni rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy ymgorffori gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael, gallwn sicrhau bod y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith yr ydym yn eu caffael yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan gefnogi saith nod llesiant y Ddeddf, ac yn y pen draw, sicrhau bod ein gwariant yn cyflawni canlyniadau hirdymor a chynaliadwy sy'n gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- 6.4. Mae'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru wedi cael eu llunio i gefnogi nodau llesiant y Ddeddf, felly gellir mesur effaith y gwerth cymdeithasol yn erbyn y nodau llesiant.
- 6.5. Pan fydd dyletswyddau caffael y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn dod i rym, bydd gofyn i ni fel Cyngor Gwynedd a chyrrff cyhoeddus eraill wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy gaffael mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfrifol. Bydd y dyletswyddau hyn yn ategu'r dyletswyddau llesiant presennol sydd gan gyrff cyhoeddus penodol o dan y Ddeddf Llesiant.

7. **Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

- 7.1. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau ar ffurf drafft i gyd-fynd â'r Strategaeth Caffael, ac fe fydd copi terfynol yn cael ei gyflwyno pan fydd y Strategaeth yn mynd gerbron y Cabinet.
- 7.2. Gweler copi o'r drafft Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i atodi i'r adroddiad hwn (Atodiad 2 - Asesiad Effaith).

- 7.3. Nid yw'r asesiad ar hyn o bryd yn dangos unrhyw ardrawiadau sylweddol. Yn gyffredinol, nid yw'r Strategaeth yn cael unrhyw effaith negyddol, ond mae effaith bositif i weld ar sawl nodwedd.
- 7.4. Ystyrir bod y Strategaeth yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg – mae hybu'r iaith Gymraeg yn faes blaenoriaeth yn y Strategaeth. Rydym yn hybu'r Gymraeg yn ein prosesau caffael, boed hynny wrth ddelio â chwmnïau Cymraeg neu gwmnïau di-Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn uchafu defnydd o werth cymdeithasol wrth nodi y dylid ei gynnwys yn rheolaidd fel rhan o feini prawf gwerthuso tendrau, ble'n briodol, sydd hefyd yn hybu'r Gymraeg wrth i rai o'r mesurau gwerth cymdeithasol adlewyrchu'r nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
- 7.5. Mae'r Strategaeth hefyd yn cael effaith bositif ar elfennau economaidd-gymdeithasol, gyda'r maes blaenoriaeth o uchafu gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael yn cynyddu'r siawns o gael buddion cymdeithasol ac economaidd i Wynedd drwy wariant y Cyngor gyda chontractwyr, megis cyflogaeth leol, cefnogi pobl ifanc ac unigolion dan anfantais i gael cyflogaeth, cefnogi ymdrechion i hyrwyddo iechyd, cefnogaeth i'r difreintiedig, lleihau troseddu, adeiladu cymunedau cryfach ac ymdrechion i amddiffyn bywyd gwyllt a diwylliant.

8. Camau Nesaf

- 8.1. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o ymateb i anghenion y Ddeddf Caffael 2023 a chodi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd ar draws y Cyngor.
- 8.2. Yn dilyn derbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu, bwriedir cyflwyno'r Strategaeth Caffael i Gabinet y Cyngor ym mis Tachwedd 2025.
- 8.3. Wedi i'r Strategaeth dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet, bydd y Gwasanaeth Caffael yn arwain ar lunio Cynllun Gweithredu, fydd yn amlinellu'r camau i'w cymryd i wireddu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth.
- 8.4. Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Caffael, bwriedir adolygu a diweddarau Polisi Caffael y Cyngor, gan anelu i'r Polisi diwygiedig fod yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2026 ymlaen.
- 8.5. O ran gwerth cymdeithasol, byddwn yn parhau i uchafu'r defnydd o werth cymdeithasol ac mae wedi ei gynnwys fel un o'r meysydd blaenoriaeth yn y Strategaeth Caffael ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

9. Gwybodaeth Cefndir

- 9.1. Cyngor Llawn Cyngor Gwynedd, 6ed o Fawrth 2025, Eitem 14 – Newidiadau Cyfansoddiad – Rheolau Gweithdrefn Newydd (Adran 17) [Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 6ed Mawrth, 2025, 1.30 y.h.](#)
- 9.2. Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd, 8fed o Ragfyr 2022, Eitem 5 – Adroddiad Cynnydd – Cadw'r Budd yn Lleol [Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar Dydd Iau, 8fed Rhagfyr, 2022, 10.30 y.b.](#)
- 9.3. Y Cabinet Cyngor Gwynedd, 7fed o Dachwedd 2023, Eitem 9 – Caffael Gwerth Cymdeithasol [Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 7fed Tachwedd, 2023, 1.00 y.h.](#)

10. Atodiadau

- 10.1. Strategaeth Caffael Cyngor Gwynedd 2025 – 2030 – fersiwn drafft
- 10.2. Asesiad Effaith Cydraddoldeb – fersiwn drafft

Strategaeth Caffael

2025 - 2030

*“Gwneud y mwyaf o
werth y bunt yng
Ngwynedd”*



Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno Strategaeth Caffael 2025-2030, sy'n gosod gweledigaeth a blaenoriaethau strategol ar gyfer gweithgaredd caffael y Cyngor am y 5 mlynedd nesaf.

Yn y Strategaeth hon, anelwn nid yn unig i barhau i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian, ond hefyd i gefnogi amcanion economaidd a chymdeithasol ehangach Gwynedd, gan gyflawni'r hyn sy'n bwysig i Wynedd wrth sicrhau cydymffurfiaeth gydag ystod o rwymedigaethau cyfreithiol a chenedlaethol.

Mae gan gaffael rôl ganolog i'w chwarae er mwyn galluogi'r Cyngor i ddarparu ystod o wasanaethau hollbwysig i drigolion Gwynedd. Cyda'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu, ac awdurdodau lleol yn wynebu heriau ariannol sylweddol, mae'n allweddol ein bod yn defnyddio ein grym gwariant i'w lawn botensial. Golyga hyn nid yn unig sicrhau ansawdd da a gwerth am arian, ond gall caffael hefyd chwarae rhan ganolog wrth gyflawni blaenoriaethau ehangach. Drwy hyn oll, bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob punt a gaiff ei wario yn uchafu'i gwerth i gymunedau a phobl Gwynedd.

Mae'r Strategaeth yma yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o werth y bunt yng Ngwynedd. Edrychaf ymlaen at weld y Strategaeth yn gwireddu ei gweledigaeth ac amcanion.

Y Cyngorydd Llio Elenid Owen

Aelod Cabinet Gwasanaethau
Corfforaethol, Cyfreithiol a'r
Gymraeg



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cyd-destun rheolaethol cenedlaethol	3
Cyd-destun rheolaethol lleol	6
Meysydd blaenoriaeth	8
Budd lleol	9
Carbon sero	11
Gwerth am arian	13
Gwerth cymdeithasol	15
Technoleg	17
Trefniadau llywodraethu	19
Y Gymraeg	21
Gweithredu	23
Cysylltu	24

Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac mae caffael gwasanaethau, nwyddau a gwaith yn rhan allweddol er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn, megis:



Adeiladu, a
chynnal a
chadw



Cludiant a
thrafnidiaeth



Gofal i
blant ac
oedolion



Systemau,
ac offer
technolegol



Cyflenwad
biniau



Fflyd - ceir,
faniau, ac
ati

Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn yn flynyddol drwy weithgarwch caffael gydag ystod o gyflenwyr, o sefydliadau bach a chanolig, y trydydd sector, a chwmnïau mawr. Mae'n hollbwysig sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario mewn modd cyfrifol sy'n sicrhau gwerth am arian.



Yn ogystal â hyn, mae caffael yn cael ei gydnabod yn gynyddol fel arf allweddol i gyflawni ystod o flaenoriaethau – boed yn flaenoriaethau lleol neu genedlaethol ynghyd ag amcanion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaeth y dyfodol.

Mae digwyddiadau ar draws y byd yn y blynyddoedd diwethaf wedi creu heriau i gadwyni cyflenwi gan amlygu'r angen i gaffael allu bod yn hyblyg wrth fod hefyd yn wydn, ac mewn byd cymhleth a chynffwrdd, nid yw'r heriau hyn yn debygol o ostegu. Mae felly yn parhau i fod yn gyfnod o newid, gan gynnwys diwygiad sylweddol ym maes caffael cyhoeddus gyda newidiadau deddfwriaethol a statudol sylweddol yn y maes. Mae'r dirwedd newidiol hwn yn cyflwyno cyfleoedd a heriau, ac yn amlygu pwysigrwydd caffael.

Tud. 220

Beth yw caffael?

Caffael yw'r "broses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd."¹



Mae'r broses yn cwmpasu'r holl gylch caffael – o'r cam cychwynnol o adnabod anghenion, hyd at ddiwedd contract gwasanaethau neu ddiwedd oes ddefnyddiol ased.

Nod y Strategaeth

Nod y Strategaeth hon yw amlinellu gweledigaeth strategol ar gyfer holl weithgaredd caffael yng Nghyngor Gwynedd ynghyd â sefydlu blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni tra'n rheoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol ac yn effeithiol.

Lluniwyd y Strategaeth, y cyfeiriad a'r blaenoriaethau allweddol yn dilyn ymgynghori gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cyfarch anghenion o bob math. Dim ond y dechrau yw llunio a chyhoeddi'r Strategaeth, bydd gwireddu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau yn ddibynnol ar ymrwymiad a chefnogaeth gan holl adrannau a gwasanaethau'r Cyngor.



Cyd-destun rheolaethol cenedlaethol

Mae ystod o gyfreithiau, rheolau a pholisïau sydd wedi eu gosod i reoli'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn caffael. Mae'n hollbwysig bod y Strategaeth Caffael yn cydnabod ac yn cyd-fynd â'r rheiny er mwyn sicrhau bod trefniadau caffael y Cyngor yn cydymffurfio â'r rheoliadau, ac yn ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol.

Deddf Caffael 2023

Prif ddeddfwriaeth caffael yn y Deyrnas Unedig (DU) a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025, gan ddisodli'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Nod y Ddeddf yw gwneud y drefn gaffael gyhoeddus yn gyflymach, yn symlach, yn fwy tryloyw ac i ddiwallu anghenion y DU yn well tra hefyd parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.



Deddf Caffael 2023

Mae Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 hefyd yn berthnasol i Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023



Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael
Cyhoeddus (Cymru) 2023

2023 dsc 1

Mae'r Ddeddf hon yn adeiladu ar ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae dyletswyddau caffael y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 yn cynnwys dyletswydd i gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol (ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) er mwyn defnyddio pŵer y pwrs cyhoeddus i ysgogi gwelliannau a sicrhau canlyniadau sydd o fudd i'r gymdeithas.

Disgwylir y bydd y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn dod i rym yn 2026.

Datganiad Polisi Caffael Cymru

Mae'r Polisi yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, drwy nodi deg egwyddor y dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn. Mae'r deg egwyddor yn seiliedig ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Uchelgais y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, a thrwy hynny helpu i lunio Cymru i fod yn le gwell i fyw ynddi, nawr ac i'r dyfodol.



Mae caffael wedi'i nodi fel un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yn y Ddeddf, ac wedi'i adnabod yn faes ffocws allweddol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt weithredu eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011


Cymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol o ran defnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi'r hawl i'r Comisiynydd osod Safonau Iaith penodol ar sefydliadau cyhoeddus.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i Safonau'r Iaith Gymraeg a osodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 4A Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Statws Carbon Sero-Net erbyn 2030

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais gyfunol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn y flwyddyn 2030. Mae caffael wedi cael ei adnabod fel maes gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer cyrraedd y nod erbyn 2030.



Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ystod eang o ddeddfwriaethau mewn i un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig, ac yn gosod dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ac ati newydd ar bobl â nodweddion gwarchodedig.



Cyd-destun rheolaethol lleol

Ynghyd â'r rheoliadau a pholisïau cenedlaethol sydd angen eu dilyn, mae ystod o flaenoriaethau lleol sy'n dylanwadu gweithgaredd caffael y Cyngor, sydd wedi cael eu hystyried wrth lunio'r strategaeth hon.

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor yn gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y cyfnod 2023-2028 o dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory** – rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc;
- **Gwynedd Lewyrchus** – cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng;
- **Gwynedd Glyd** – cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau;
- **Gwynedd Ofalgar** – cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau;
- **Gwynedd Cymraeg** – sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned;
- **Gwynedd Werdd** – gwarchod harddwch naturiol y Sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd;
- **Gwynedd Effeithlon** – rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.



Cyfansoddiad y Cyngor

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys rheolau a phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli busnes y Cyngor.

Mae Adran 17 o'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Rheolau Gweithdrefn Contract sydd yn nodi'r prosesau y dylai'r Cyngor eu dilyn wrth gynnal ymarferiad caffael ac yn benodol unrhyw ymarfer caffael sy'n disgyn tu allan i'r deddfwriaethau caffael. Adolygwyd a diweddarwyd adran 17 o'r Cyfansoddiad yn unol â'r diwygio caffael cenedlaethol yn 2025.

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur



Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn amlinellu pa gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd rhwng 2022 a 2030 er mwyn cyrraedd y nod o fod yn Gyngor carbon sero net. Mae caffael yn un o'r themâu sydd wedi eu nodi yn y Cynllun er mwyn ceisio dod yn Gyngor carbon sero net.

Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd

Mae'r Polisi yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i weithwyr yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Mae Adran 9 o'r Polisi yn cyfeirio yn benodol at brosesau caffael a thendro.



POLISI IAITH GYMRAEG
CYNGOR GWYNEDD 2022

Polisiau ehangach

Yn ogystal â'r uchod, mae polisiau ehangach y Cyngor hefyd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth a'u gweithredu wrth lunio'r Strategaeth hon.

Meysydd blaenoriaeth

Dyma'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi cael eu hadnabod ar gyfer cyfnod y Strategaeth hon:

► Cefnogi busnesau lleol i ffynnu

Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd caffael a lleihau rhwystrau i fusnesau a mentrau lleol geisio am waith gyda'r Cyngor

► Cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero

Datblygu'r ddealltwriaeth o allyriadau carbon contractau'r Cyngor a chydweithio gyda gwasanaethau'r Cyngor i gynorthwyo i leihau allyriadau carbon y sefydliad

► Sicrhau gwerth am arian

Sicrhau bod yr holl arian a gaiff ei wario drwy weithgaredd caffael yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor ac i bobl Gwynedd

► Uchafu'r gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael

Uchafu'r gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a ddaw o gontractau a gweithgaredd caffael i gefnogi cymunedau lleol Gwynedd

► Cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg

Gwneud y gorau o ddatblygiadau yn y maes technoleg er mwyn rhoi sylfaen gadarn i gaffael

► Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith

Sicrhau bod ein gweithdrefnau mewnol, dealltwriaeth ac arbenigedd o gaffael a threfniadau rheolaeth contract yn ein galluogi i weithredu'n gywir ac yn effeithiol

► Hybu ffyniant y Gymraeg

Sicrhau bod gweithgaredd caffael y Cyngor yn hybu'r Gymraeg a bod y Gymraeg yn derbyn lle amlwg yn ein prosesau

Cefnogi busnesau lleol i ffynnu

Cefndir

Un o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd yw cryfhau'r economi leol, a thrwy hynny mae'r Cyngor yn awyddus i geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod busnesau a mentrau lleol yn gallu cystadlu am ei gcontractau gyda'r nod bod cymaint â phosib o wariant y Cyngor yn aros yn lleol.

Mae prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn un o brosiectau Gwynedd Lewyrchus yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. Nod y prosiect yw sicrhau ein bod fel Cyngor yn ymdrechu i gefnogi busnesau lleol i ymgeisio am gyfleon, o fewn ffiniau'r rheolau perthnasol, tra hefyd yn sicrhau fod y Cyngor yn cael y gwerth gorau am arian sy'n cael ei wario.

Mae'r Cyngor eisoes wedi ceisio adnabod rhwystrau i fusnesau a mentrau lleol i dendro ac wedi rhoi ystod o gynlluniau ar waith i'w lleihau, megis:

- Codi ymwybyddiaeth am ffyrdd i leihau neu atal rhwystrau a chyfyngiadau a wynebwr gan gyflenwyr/darparwyr lleol wrth gystadlu am gcontractau gyda'r Cyngor
- Cyhoeddi rhestr o gcontractau cyfredol y Cyngor
- Paratoi'r farchnad gan drefnu a chynnal sesiynau cwrdd â'r prynwr pan yn mynd allan i dendr.

Mae'r Ddeddf Caffael 2023 yn cyflwyno nifer o ddiwygiadau sydd â'r bwriad o roi cyfle teg i fentrau bach a chanolig i ymgeisio am gcontractau cyhoeddus. Gyda'r mwyafrif o fusnesau lleol Gwynedd yn fusnesau bach a chanolig,² gall hyn fod o fudd i leihau rhwystron i fusnesau lleol.

[2] Busnes yn y DU: gweithgaredd, maint a lleoliad, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024



Cefnogi busnesau lleol i ffynnu

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Busnesau a mentrau gydag ymwybyddiaeth dda o gyfleon bidio gyda'r Cyngor
- ▶ Y Cyngor yn parhau i adnabod a lleihau rhwystrau pellach i fusnesau a mentrau lleol geisio am waith gyda'r Cyngor
- ▶ Ymwybyddiaeth dda, yn fewnol ac allanol, o'r prosiect Cadw'r Budd yn Lleol

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Datblygu'r gofrestr contractau ymhellach fel bod gan fusnesau a mentrau well ymwybyddiaeth o gyfleon bidio gyda'r Cyngor
- ▶ Defnyddio'r cyfleoedd a gyflwynwyd drwy'r diwygio caffael er mwyn lleihau'r rhwystrau i fentrau bach a chanolig
- ▶ Cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gallu'r farchnad leol i geisio am gontractau cyhoeddus



Llewyrchus



Mwy
cyfartal



Cymunedau
cydlynus



Diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg
yn ffynnu



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero

Cefndir

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Yn 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddatganiad yn nodi bod argyfwng hinsawdd, ac ymrwymwyd i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu at ddyfodol di-garbon yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod nod i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030.

Bwriad Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd yw amlinellu pa gamau y bydd yn cael eu cymryd o 2022 i 2030 er mwyn cyrraedd y nod o fod yn gyngor carbon sero net a gwireddu'r uchelgais o fod yn "garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."³

Mae oddeutu 72% o allyriadau carbon y Cyngor yn dod drwy weithgaredd caffael.⁴ Tra nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth uniongyrchol dros yr allyriadau hyn, wrth gaffael mae cyfleoedd i ni yrru newidiadau a all leihau'r allyriadau sy'n deillio o'n cadwyni cyflenwi.

Mae gan y Cyngor Bolisi Caffael Cynaliadwy, ac un o nodau'r Polisi yw i leihau ein heffaith amgylcheddol drwy well detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

[3] Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 - 2029/30, Cyngor Gwynedd, 2022

[4] Adroddiad Blynyddol 2024/25 - Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, Cyngor Gwynedd, 2025



Cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Gwell dealltwriaeth gan y Cyngor o allyriadau carbon y gadwyn gyflenwi
- ▶ Camau yn cael eu cymryd yn y broses gaffael i adnabod a lleihau effaith amgylcheddol

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Datblygu cyfres o adnoddau cynaliadwyedd i'w defnyddio yn y broses gaffael
- ▶ Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig darparwyr lleol, i allu mesur ôl-troed carbon
- ▶ Gwella trefn adrodd ar allyriadau carbon
- ▶ Cydweithio gyda sefydliadau eraill i rannu a dysgu am leihau allyriadau carbon



Llewyrchus



Cydnerth



Iachach



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Sicrhau gwerth am arian

Cefndir

Diffinnir 'gwerth am arian' fel y "cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan, o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, yn ogystal â sicrhau budd i gymdeithas, i'r economi ac i'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol."⁵

Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £200 miliwn ar gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae ystod o ffyrdd y gall y Cyngor sicrhau gwerth am arian – megis wrth ddyfarnu contractau drwy gystadleuaeth deg, defnyddio fframweithiau neu gaffael ar y cyd sy'n cynyddu darbodion maint, neu ystyried ac adolygu opsiynau ar ddechrau'r broses gaffael.

Cyda llywodraethau lleol yn wynebu heriau ariannol sylweddol, mae Cyngor Gwynedd yn wynebu pwysau ariannol digynsail ar gyllidebau. Law yn llaw â hynny, mae tuedd prisiau yn gyffredinol wedi bod yn codi yn y blynyddoedd diwethaf (oherwydd elfennau megis digwyddiadau byd-eang, cynnydd prisiau tanwydd, chwyddiant, rhwystrau masnach). Mae felly yn hollbwysig bod unrhyw weithgaredd caffael yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer arian cyhoeddus wrth gynnal gwasanaethau o ansawdd uchel a lleihau risg.

[5] Nodyn Polisi Caffael Cymru, WPPN 01/20, Llywodraeth Cymru, 2023



Sicrhau gwerth am arian

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Gall y Cyngor ddangos ei fod yn cyflawni gwerth am arian drwy'r hyn a gaffaelir
- ▶ Datblygu tryloywder o wariant drwy drefniadau caffael

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Parhau i adrodd ar sut y sicrheir gwerth am arian mewn contractau wrth adrodd ar berfformiad
- ▶ Cydweithio gyda sefydliadau cyhoeddus eraill ble'n briodol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf
- ▶ Adolygu a herio gwariant, gan adnabod cyfleoedd ar gyfer darparu effeithlonrwydd
- ▶ Adeiladu ar drefniadau monitro i sicrhau gwerth am arian drwy gydol cyfnod y contract



Llewyrchus



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Uchafu gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael

Cefndir

Mae 'gwerth cymdeithasol' yn derm eang sy'n disgrifio "effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd y camau a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion".⁶ Gall grym gwario'r Cyngor gyda sefydliadau allanol gael effaith sylweddol ar yr economi a chymdeithas leol a gall greu cyfleoedd i gyflawni canlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach, gan ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Yn y broses gaffael, bydd gwerth cymdeithasol yn ymrwymiad a wneir gan dendrwy'r i ddarparu gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ychwanegol drwy gyflawni'r contract gyda'r Cyngor.

Yn 2023, treialwyd methodoleg caffael gwerth cymdeithasol newydd ar draws sawl maes yn y Cyngor. Yn dilyn hynny, mabwysiadwyd dull gwerth cymdeithasol newydd. Bellach, mae'r Cyngor yn defnyddio tri dull gwahanol o werth cymdeithasol wrth gaffael - craidd, anghraidd, a'r Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal drwy gynnal caffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i osod a chyhoeddi amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posib at gyflawni'r nodau llesiant.

[6] Nodyn Polisi Caffael Cymru, WPPN 01/20, Llywodraeth Cymru, 2023



Uchafu gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Gwerth cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn rheolaidd fel rhan o feini prawf gwerthuso tendrau, ble'n briodol
- ▶ Ymwybyddiaeth dda, yn fewnol ac yn allanol, o werth cymdeithasol yn gyffredinol a'r methodolegau gwerth cymdeithasol
- ▶ Sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion cenedlaethol o ran gwerth cymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Hyrwyddo ac addysgu, yn fewnol ac allanol, ar werth cymdeithasol
- ▶ Datblygu'r drefn monitro ac adrodd ar ganlyniadau gwerth cymdeithasol
- ▶ Cydweithio gyda sefydliadau eraill i rannu a dysgu o ran gwerth cymdeithasol



Llewyrchus

Cydnerth

Iachach

Mwy
cyfartal

Cymunedau
cydlynus

Diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg
yn ffynnu

Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg

Cefndir

Mae datblygiadau a newidiadau technolegol yn digwydd ar gyflymder a maint sylweddol. Mae'r datblygiadau hyn yn cyflwyno cyfleoedd i drawsnewid y Cyngor a'i wasanaethau a thra mae'n bwysig manteisio ar y cyfleoedd hyn, mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol o'r risgiau a cheisio eu lliniaru.


Gall technolegau newydd hefyd drawsnewid caffael cyhoeddus – o awtomeiddio gweinyddiaeth ailadroddus i ddarparu gwybodaeth a dadansoddiad o batrymau gwariant – gall technoleg newydd alluogi gwell penderfyniadau, costau is a chynyddu tryloywder.

Yn 2023, cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Digidol sy'n strategaeth i amlinellu'r llwybr y mae'r Cyngor am ei ddilyn er mwyn addasu i'r 'dyfodol digidol'. Uchelgais y Cynllun yw "datblygu, gwella a gwreiddio meddylfryd a datrysiadau digidol yn naturiol ac effeithiol ym mhob ystod o weithgaredd, cryfhau a gwella ein gwasanaethau, gweinyddu'n fwy effeithlon, a meddu ar y wybodaeth i wneud penderfyniadau dysg ac ystyrlon, a hynny mewn amgylchedd diogel a gwydn."⁷

Gall caffael hefyd fod yn alluogwr canolog i allu manteisio ar dechnolegau newydd – er enghraifft bydd rhai o'r eitemau blaenoriaeth yn y Cynllun Digidol angen eu caffael er mwyn eu gwireddu'r weledigaeth y mae'r Cynllun yn ei gosod.

Ynghyd â datblygiad technolegol cyffredinol mae galluoedd deallusrwydd artiffisial yn datblygu ar gyflymder rhyfeddol, ac mae'n gwreiddio ei le fwyfwy mewn caffael. Mae'n cynnig cyfleoedd megis drwy ddadansoddi data, a gallu deallusrwydd artiffisial i wella awtomeiddio o fewn prosesau caffael. Ond nid yw heb ei heriau a'i risgiau – megis o gwmpas defnyddio data a diogelu data, y gost gychwynnol, neu wrth beidio â chael dealltwriaeth drylwyr o sut y gellir ei ddefnyddio a beth yw'r cyfyngiadau.

[7] Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28, Cyngor Gwynedd, 2025



Cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Ymwybyddiaeth dda o ddatblygiadau technolegol a chymryd mantais o'r rheiny ble'n briodol
- ▶ Cryfhau y gaffael ar ddata allweddol er mwyn rhoi sylfaen cadarn i gaffael

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Gwerthuso technolegau newydd yn barhaus i wella'r broses gaffael, lleihau costau, a chynyddu effeithlonrwydd
- ▶ Cydweithio gyda phartneriaethau a sefydliadau cyhoeddus eraill i ddatblygu gwell mewnwelediad i'r datblygiadau technolegol a rhannu profiadau



Llewyrchus



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith

Cefndir

Fel sydd eisoes wedi ei amlygu yn y Strategaeth hon, mae ystod o gyfreithiau a pholisïau sydd angen cydymffurfio â hwy yn y maes caffael sector cyhoeddus – o reoliadau penodol yn y maes caffael, i ystod o reoliadau a pholisïau ehangach megis y Gymraeg, llygredd, iechyd a diogelwch.

Mae'r diwygio caffael yn rhoi pwyslais ar drefniadau llywodraethu yn y maes caffael. Un o nodau'r Ddeddf Caffael 2023 yw i wreiddio tryloywder drwy gydol y cylch caffael fel y gellir craffu ar wariant arian trethdalwyr. Bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) hefyd yn datblygu ar y nod o dryloywder wrth osod angen ar gyrff cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi strategaeth caffael, paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol a chyhoeddi cyfleoedd caffael mewn cofrestr.

Wrth i unrhyw ddatblygiadau yn y maes caffael ddod i rym, mae'n holl bwysig sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth a gwybodaeth o'r newidiadau, bod unrhyw ddogfennau wedi eu diweddarau'n briodol, a bod prosesau a pholisïau mewnol yn cyd-fynd â'r newidiadau.

Yn ychwanegol i'r gofynion deddfwriaethol a chenedlaethol, mae rheolau mewnol caffael y Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Rheolau Gweithdrefn Contractau a'r Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cynnwys rheolau am y broses gaffael yn ei chyfanrwydd.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau llywodraethu da yn eu lle ac yn cael eu dilyn. Bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw risgiau a sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni drwy ein gweithgaredd caffael.



Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Sicrhau bod y rheolau a gweithdrefnau caffael yn cael eu gweithredu'n gywir ar draws y Cyngor
- ▶ Bod polisïau, canllawiau a dogfennaeth caffael yn gyfredol ac yn bwrpasol
- ▶ Trefniadau rheolaeth contract effeithiol mewn lle ym mhob adran
- ▶ Dealltwriaeth ac arbenigedd caffael gadarn ar draws y Cyngor

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Adolygu templedi, canllawiau a dogfennaeth yn gyson a gwneud unrhyw newidiadau fel bo'r angen yn codi, gan gyfathrebu unrhyw newidiadau gyda'r swyddogion perthnasol yn y Cyngor
- ▶ Datblygu a gweithredu trefniadau safonol rheoli contract
- ▶ Cynyddu dealltwriaeth ac arbenigedd caffael ar draws y Cyngor, trwy ddulliau megis creu adnoddau a hyfforddiant pellach
- ▶ Datblygu trefniadau monitro a chefnogi ymhellach



Llewyrchus



Cyfrifol ar lefel
fyd-eang

Hybu ffyniant y Gymraeg

Cefndir

Mae Gwynedd yn sir unigryw o ran y Gymraeg, ac mae ymrwymiad i fod ar flaen y gad wrth hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn cael ei nodi fel un o'r prif flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor.

Mae Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor (2022) yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith. Nodir egwyddorion a safonau i'w cydymffurfio â hwy wrth gaffael a thendro yn Adran 9, megis:

- Bydd y Cyngor, wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, yn gwarchod a sicrhau anghenion trigolion Gwynedd o safbwynt derbyn gwasanaethau dwyieithog;
- Manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda chyd-ddarparwyr.

Mae caffael eisoes yn gwneud cyfraniad i hybu'r Gymraeg drwy amryw o ffyrdd: cynnwys cymalau mewn cytundebau gyda chontractwyr yn nodi gofynion a disgwyliadau y Gymraeg; cyhoeddi dogfennau allanol yn ddwyieithog.

Mae'r prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn ceisio uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol, a thrwy fod Gwynedd yn sir unigryw o ran y Gymraeg, mae hyn yn hyrwyddo a datblygu'r iaith.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu defnydd o'r Fframwaith Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru, sef fframwaith o fesurau amrywiol gwerth cymdeithasol sy'n adlewyrchu'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gellir defnyddio'r fframwaith i fesur a gwerthuso'r elfennau meintiol ac ansoddol o werth cymdeithasol a gynigir gan dendrwyr fel rhan o'r ymateb tendr. Mae dau fesur sy'n adlewyrchu'r nod llesiant o 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.



Hybu ffyniant y Gymraeg

Lle ydym eisiau bod

- ▶ Bod holl weithgaredd caffael yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau statudol y Cyngor o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau cysylltiedig, ynghyd â Pholisi Iaith y Cyngor
- ▶ Bod y Gymraeg yn cael ei hybu a'i hannog ym mhrosesau caffael a chontractau'r Cyngor

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

- ▶ Cwrdd â'r Safonau Iaith a chydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor
- ▶ Cynnwys gofynion iaith perthnasol yn y dogfennau caffael a chytundebau
- ▶ Uchafu defnydd o fesuryddion gwerth cymdeithasol i annog defnydd o'r iaith



Diwylliant bywiog
lle mae'r Gymraeg
yn ffynnu

Gweithredu

Bydd cyflawni'r Strategaeth hon yn ddibynnol ar nifer o elfennau a fydd yn galluogi'r weledigaeth a'r blaenoriaethau i gael eu gwireddu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymrwymiad a chefnogaeth gan holl adrannau a gwasanaethau'r Cyngor;
- gweithwyr proffesiynol caffael medrus sydd â gwybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth ac arferion gorau;
- ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid i feithrin cydweithio a thryloywder; a
- prosesau effeithlon wedi'u diffinio'n glir sy'n cefnogi cysondeb, cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus.

Cyda'i gilydd, bydd y rhain yn cefnogi canlyniadau caffael effeithlon, cydymffurfiol a chyfrifol yn gymdeithasol.

Dylid cydnabod yr angen i fod yn realistig ynghylch yr hyn sy'n bosibl ei gyflawni o fewn y cyfyngiadau adnoddau presennol. Byddwn yn ymrwymo i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael, gan weithredu'n effeithlon ac effeithiol. Yn ogystal, byddwn yn ceisio nodi a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill, er mwyn cryfhau'r effaith a'r gwerth a gaiff ei greu.

Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu yn flynyddol, ac unrhyw ddiwygiadau yn cael eu gwneud fel bo'r angen yn codi.

Cynllun Gweithredu

Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r Strategaeth, gan amlinellu'r camau gweithredu penodol i'w cymryd wrth weithredu'r Strategaeth, a bydd y Cynllun yna yn cael ei ddefnyddio i reoli a monitro cynnydd.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn.





caffael@gwynedd.llyw.cymru



Gwasanaeth Caffael
Adran Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH



**GWASANAETHAU
CORFFORAETHOL**

CYNGOR GWYNEDD

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Awdur: Arwel Evans (GC)

Dyddiad: 9/1/2025

Fersiwn: Drafft 1

CAM I - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth laith Gymraeg)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Mae'r Strategaeth Caffael flaenorol wedi dod i ben, gan greu'r angen am Strategaeth newydd sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth a'r diwygio caffael cyhoeddus diweddar, ac yn cyfuno blaenoriaethau lleol ac oblygiadau cenedlaethol, er mwyn gosod cyfeiriad strategol unedig i holl weithgaredd caffael ar draws y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2025-2030.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys saith maes blaenoriaeth ar gyfer cyfnod y Strategaeth, gyda phob maes blaenoriaeth wedi'i adnabod fel meysydd allweddol yng nghyd-destun caffael yng Nghyngor Gwynedd:

- Budd lleol - cefnogi busnesau lleol i ffynnu
- Carbon sero - cyflawni rôl allweddol yn y nod o gyrraedd carbon sero
- Gwerth am arian - sicrhau gwerth am arian
- Gwerth cymdeithasol - uchafu gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael
- Technoleg - cefnogi a galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o dechnoleg
- Trefniadau llywodraethu - rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith
- Y Gymraeg - hybu ffyniant y Gymraeg.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Y prif grŵp ymgynghorol yw Timau Categori y Cyngor (timau a swyddogion caffael sy'n gweithredu ar gyfer gwahanol adrannau yn y Cyngor).

Mae rhai o'r budd-ddeiliaid eraill yr ydym wedi ymgynghori â hwy yn cynnwys:

- Adran Economi a Chymuned
- Aelodau Cabinet y Cyngor
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Adborth gan y Timau Categori	2024	Cafwyd adborth gan Reolwyr y Timau Categori yn cadarnhau'r angen am Strategaeth Caffael newydd wedi i'r Strategaeth flaenorol ddod i ben.
Trafodaethau gyda'r Timau Categori	Gwanwyn-Haf 2025	Cynhaliwyd sesiynau gyda Rheolwyr y Timau Categori i dderbyn sylwadau a thrafod cynnwys drafft o'r Strategaeth Caffael.
Adran Economi a Chymuned	Gwanwyn-Haf 2025	Trafod gweledigaeth a chynnwys y Strategaeth Caffael a'r Strategaeth Economi Gwynedd gyda'r Adran Economi a Chymuned.

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Hydref 2025	Bydd y Strategaeth yn cael ei chraffu ym Mhwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ym mis Hydref 2025.
-----------------------------------	-------------	--

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Anabledd	Mae'r Strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys gwerth cymdeithasol fel rhan o feini prawf gwerthuso tendrau ble'n briodol. Ymhellach i hyn, mae'r Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru yn cynnwys mesur sy'n adlewyrchu'r gwerth o roi swyddi i bobl anabl.	Gall uchafu pwysigrwydd cynnwys gwerth cymdeithasol yn y Strategaeth a thrwy hynny bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cenedlaethol Cymru, bwysleisio pwysigrwydd rhoi cyflogaeth i bobl ag anabledd, ac o bosib felly yn cynyddu'r siawns o gwmnïau sy'n gweithio i'r Cyngor yn rhoi swyddi i bobl anabl.
Rhyw	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Oedran	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Crefydd a Chred	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Ail-bennu rhywedd	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.

Iaith Gymraeg	Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae 64.4% o boblogaeth Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hybu ffyniant y Gymraeg yn faes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd. Mae hybu ffyniant y Gymraeg hefyd yn un o feysydd blaenoriaeth y Strategaeth Caffael.	Rhagwelwn y bydd y Strategaeth Caffael yn arwain at effaith bositif ar y Gymraeg trwy hybu'r Gymraeg yn ein prosesau caffael, boed hynny efo cwmnïau Cymraeg, neu gwmnïau di-Gymraeg; byddwn yn croesawu a hwyluso cyflwyno tendrau yn Gymraeg; cynnwys mesurau yn ein model gwerth cymdeithasol sy'n hybu'r Gymraeg; fel rhan o werth cymdeithasol hefyd, gall buddion gynnwys cyflogi gweithwyr lleol a all fod yn siaradwyr Cymraeg o ystyried bod mwyafrif o bobl Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg; sicrhau bod contractau gyda chyflenwyr yn cydymffurfio gyda Pholisi Iaith y Cyngor.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod pŵer gwario sefydliadau cyhoeddus yn creu cyfleoedd i wireddu canlyniadau economaidd gymdeithasol ac amgylcheddol, gyda gwerth cymdeithasol yn gallu cyfrannu yn sylweddol i gwrdd â'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol. Mae'r canlyniadau y mae'r Cyngor eisoes wedi eu gwireddu drwy ddefnyddio gwerth cymdeithasol fel rhan o werthusiad tendrau hefyd yn dangos bod y gwerth cymdeithasol a gawn drwy gontractau'r Cyngor yn rhoi canlyniadau economaidd gymdeithasol positif.	Rhagwelir y bydd y Strategaeth Caffael, wrth roi pwyslais ar werthuso tendrau gan gynnwys gwerth cymdeithasol, yn creu canlyniadau positif economaidd gymdeithasol.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd â'u Teuluoedd	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.
Hawliau Dynol	Dim sylwadau.	Nid yw'r Strategaeth Caffael ei hun yn ymwneud ag elfennau megis hawliau dynol, caethwasiaeth, cyflogaeth foesegol ac ati gan fod hynny yn rhan fwy

		gweithredol o gaffael. Er enghraifft, yn ein termau ac amodau safonol (megis y cymalau hawliau dynol a chyflogaeth foesegol), a'r cwestiynau cyn-gymhwyso sy'n gwirio os yw cyflenwyr wedi bod yn euog o unrhyw dor-cyfraith cysylltiedig. Ond fe all y maes blaenoriaeth o 'Roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith' a'r gwaith fydd ynghlwm â'r maes blaenoriaeth hynny sicrhau bod y trefniadau mwy gweithredol o gaffael yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac felly gael effaith gadarnhaol o sicrhau ein bod yn cynnal safonau ein cadwyni cyflenwi.
Arall	Dim sylwadau.	Dim effaith wedi'i ragweld nac adnabod.

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Dim bylchau wedi eu hadnabod.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid oes effaith gynyddol wedi ei hadnabod.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae'r Strategaeth Caffael yn gosod nod a chyfeiriad strategol, lefel uchel i gaffael ar draws y Cyngor, ac mae pob dyletswydd a chyfraith berthnasol wedi cael ei hystyried wrth ei llunio. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn cael ei chyfarch ar lefel Polisi, i sicrhau bod yr ystyriaethau cydraddoldeb perthnasol yn cael eu hystyried wrth gynnal

pob ymarferiad caffael. Nodir yn y Polisi Caffael cyfredol y dylid ystyried cydraddoldeb ar y cam o lunio dogfennaeth caffael, sydd yn gyfrifoldeb i ba bynnag wasanaeth sy'n caffael. Mae'r templedi y mae'r Gwasanaeth Caffael yn gyfrifol amdanynt ac y mae'r Strategaeth yn cyfeirio atynt yn y maes blaenoriaeth 'Trefniadau llywodraethu' yn rhoi sylw i'r ddyletswydd cydraddoldeb - megis telerau ac amodau safonol y Cyngor fydd yn llunio sail contract gyda chwmnïau yn cynnwys cymalau sy'n ymdrin â chydraddoldeb, peidio â gwahaniaethu, cyfleoedd cyfartal.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae ein pŵer gwario fel llywodraeth leol yn creu cyfleoedd i wireddu canlyniadau economaidd cymdeithasol positif, ac yn benodol mae'r elfen gwerth cymdeithasol yn ein prosesau caffael yn gallu cyfrannu i'r ymdrech o fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru wedi eu llunio yn benodol i fesur gwerth cymdeithasol o ran cyfraniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Caiff pwysigrwydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Pholisi iaith y Cyngor eu hamlygu ar ddechrau'r Strategaeth ble rhoddir crynodeb o gyd-destun rheolaethol ar gyfer y Strategaeth. Mae hybu ffyniant y Gymraeg wedi ei adnabod a'i gynnwys fel maes blaenoriaeth yn Strategaeth.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ystyriaeth lawn wrth ddrafftio'r Strategaeth, a gellir gweld pa rai o'r nodau llesiant y mae pob maes blaenoriaeth yn eu cyfarch yn y Strategaeth. Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i weithredu'r Strategaeth a chaffael yn gyffredinol ar draws y Cyngor.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na fydd

Unrhyw sylwadau

Er bod y Strategaeth yn gosod cyfeiriad ar gyfer gweithgaredd caffael, mae gweithredu a gwireddu'r Strategaeth Caffael o fewn rheolaeth fewnol y Cyngor.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Fel sydd wedi'i nodi uchod, ystyrir bod y Strategaeth Caffael yn cael effaith bositif ar sawl nodwedd gan gynnwys anabledd, yr iaith Gymraeg ac ystyriaethau economaidd gymdeithasol. Trwy lunio Strategaeth, rydym yn gosod cyfeiriad strategol unedig i holl weithgaredd caffael yn y Cyngor, gan uchafu gwerth y bunt a chryfhau canlyniadau caffael, a thrwy hynny yn sicrhau'r budd mwyaf i drigolion Gwynedd drwy ein contractau.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Ni ystyrir y bydd effaith negyddol sylweddol nag unrhyw ganlyniadau anghyfartal yn sgil y Strategaeth Caffael.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Dim yn berthnasol.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Ystyrir bod sylw dyledus wedi cael ei roi i'r elfennau hyn, megis bod creu perthnasau da gyda rhanddeiliaid i gydweithio a rhannu arfer dda ac ati yn rhan allweddol o gyflawni nifer o feysydd blaenoriaeth. Mae'r elfennau o gyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu eisoes yn cael eu gweithredu yn ein prosesau caffael ac yn cael eu cyfarch gan y Polisi Caffael.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ystyrir bod sylw dyledus wedi ei roi i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r Strategaeth Caffael. Rydym yn disgwyl y bydd uchafu pwysigrwydd cynnwys gwerth cymdeithasol yn ein prosesau caffael yn creu canlyniadau economaidd-gymdeithasol positif.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rydym eisoes yn cymryd pob cyfle, o fewn ein gallu ac o fewn ffiniau deddfwriaeth caffael gyhoeddus, i hybu'r Gymraeg drwy ein Strategaeth Caffael a gweithgaredd caffael yn gyffredinol, ac yn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith y Cyngor. Nid yw'r Strategaeth yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, nac yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Llunio Cynllun Gweithredu fydd yn amlinellu'r camau i'w cymryd i wireddu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth	2025-2030	Blynyddol	Arwel Evans	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Monitro Cynllun Gweithredu	Pob 6 mis	Arwel Evans	Na
Herio a Chefnogi Perfformiad	Cylch adrodd	Arwel Evans	Na

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	Hydref 16, 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol
RHESWM DROS GRAFFU	Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol
AWDUR	Ian Jones – Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol
AELOD CABINET	Y Cyngorydd Llio Elenid Owen

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet dros Adran Gwasanaethau Corfforaethol, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Awst 2025.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Awst 2025. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar chwe phrosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 2023 - 2028, sef:

1. Cadw'r Budd yn Lleol
2. Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd
3. Cynllunio'r Gweithlu
4. Sicrhau Tegwch i Bawb
5. Merched Mewn Arweinyddiaeth
6. Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod dan sylw, ac mae Atodiad 1 yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y chwe blaenoriaeth.

Sylwer bod llithriad ar gynnydd dwy garreg filltir prosiect 'Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch'. O ran y garreg filltir gyntaf mae'r llithriad oherwydd newidiadau corfforaethol i system gyfrifiadurol y Cyngor, mae hynny'n cael effaith uniongyrchol ar y garreg filltir yma.

Yng nghyswllt y drydedd carreg filltir mae oedi wedi bod wrth gyflwyno'r cynllun gweithredu manwl i Dim Rheoli'r Cyngor, nid yw wedi bod yn bosib symud ymlaen i gynnal trafodaethau gyda rheolwyr adrannol ynghylch datblygu'r rhaglen archwiliadau pum mlynedd. Er hynny, mae cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio'r Fforwm Corfforaethol a'r Fforymau Adran fel llwyfannau i hwyluso'r trafodaethau hyn. Bydd y dull hwn yn galluogi rheolwyr i gyfrannu'n uniongyrchol at y broses, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth dros y cynllun a sicrhau bod y model archwilio yn adlewyrchu anghenion gweithredol y sefydliad.

Rydym yn ffyddiog fod y prosiect hwn ar y trywydd cywir a bydd y gwaith yn cael ei gyflawni'n llawn.

Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Mae Atodiad 2 yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau'r Adran. Mae'n cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, cyd-destun a sylwadau yn esbonio perfformiad yr holl feysydd.

Mae gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol nifer o wahanol wasanaethau a meysydd cyfrifoldeb amrywiol. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

Adroddiadau Archwiliwyr Allanol (os yn berthnasol)

Yn adroddiad mis Mehefin adroddwyd ar y pryder a fynegwyd o ran perfformiad y Cyngor o ran y gyfradd ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Comisiynwyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gynnal archwiliad i drefniadau'r Cyngor. Roedd hyn yn weithred wirfoddol ar ran y Cyngor er mwyn darganfod os oedd diffygion yn ei drefniadau a bod y rhain yn arwain at oedi neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda gofynion y Ddeddf. Cynhaliwyd yr archwiliad mis Ebrill, 2025 a chyhoeddwyd yr adroddiad drafft ddechrau mis Mai, 2025.

Barn yr Archwiliwr oedd bod gan y Cyngor drefniadau 'rhesymol' o ran ymateb i ofynion y Ddeddf. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eisoes wedi derbyn copi o'r adroddiad ac wedi ei drafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2025.

Lluniwyd rhaglen waith manwl er mwyn mynd i'r afael a'r argymhellion. Mae'r argymhellion wedi eu blaenoriaethu (ar sail uchel, canolig ac uchel) ac ar waith. Hoffwn adrodd fod cynnydd cadarnhaol iawn yn cael ei wneud yn erbyn yr argymhellion. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ail ymweld a'r Cyngor fis Hydref.

3. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gyda'r Pennaeth Adran, Pennaeth Cynorthwyol, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau Cynnydd Meysydd Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

Gwynedd Lewyrchus: Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Cadw'r Budd yn Lleol	1. Datblygu strategaeth caffael newydd i yrru egwyddorion a nod y cynllun cadw'r budd yn lleol.	Ebrill – Awst 2025 Mae Strategaeth Drafft wedi cael ei chyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ar y 6 ^{ed} of Fai. Bydd y Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y 16 ^{eg} o Hydref 2025.	Ydi
	2. Adrodd ar berfformiad caffael y Cyngor – gwariant lleol.	Ebrill – Awst 2025 Rydym yn parhau i allu adrodd a dadansoddi gwariant lleol y Cyngor	Ydi
	3. Codi ymwybyddiaeth o'r prosiect a'r amcanion prynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon (hinsawdd) gyda swyddogion y cyngor a busnesau'r Sir.	Ebrill – Awst 2025 Yn ogystal â chreu Strategaeth Caffael newydd, mae yna ddeunyddiau dysgu yn cael ei datblygu gyda sesiynau hyfforddi yn cael ei trefnu yn ogystal.	Ydi

Gwynedd Gymraeg: Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i erbyn diwedd y flwyddyn chwblhau ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd	1. Gweithredu Rhaglen Waith Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033.	Ebrill – Awst 2025 Rhoddwyd sylw i gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd a'r heriau recriwtio. Bu cydweithio gydag Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn er mwyn llunio briff ar gyfer comisiynu cwmni i gyflawni adnoddau digidol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus sy'n chwalu mythau am y Gymraeg ac o gymorth i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Rhoddwyd sylw hefyd i gefnogi gweithwyr mewn cartrefi gofal a rhai sy'n darparu gofal cartref i wella eu sgiliau Cymraeg. Cychwynnwyd ar y gwaith o geisio cael busnesau i roi mwy o sylw i'r Gymraeg drwy gynllunio diwrnod o weithgareddau ar gyfer Wythnos Busnes Gwynedd. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar gynllunio achrediad	Ydy o ran yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni erbyn diwedd flwyddyn ariannol 25/26.

		ar gyfer busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg. Lluniwyd cynllun ymateb drafft i argymhellion Comisiwn Cymunedau ar gyfer cefnogi a chynnal cymunedau sydd gyda dros 60% o siaradwyr Cymraeg. Mae rhai camau eto angen eu datblygu, gan gynnwys sicrhau cyllid digonol i'w ariannu. Rhoddwyd grant i Fenter Iaith Gwynedd ar gyfer gwireddu rhai elfennau o strategaeth iaith Gwynedd a chyfrannu tuag at gostau staff 2025-2026 gan gynnwys teuluoedd, plant a phobl ifanc a'r gymuned. Rhoddodd swyddog fewnbwn i Siarter Twf y Gymraeg yn y Gwaith TUC Cymru a mynychu'r lansiad swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu hefyd yn aelod o banel trafod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle a beth all eraill wneud i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae Menter Iaith Gwynedd wedi derbyn grant er mwyn cyfrannau at gostau cyflogi a phrosiectau amrywiol sy'n cyflawni rhai o amcanion a	
--	--	---	--

		blaenoriaethau strategaeth iaith Cyngor Gwynedd. Blynyddoedd cynnar Bu'r fenter yn cydweithio gyda Sesiwn Fawr Dolgellau i gynnal digwyddiad Hwiangerddi i rieni a phlant. Mae'r prosiect hwn yn un mae'r Fenter yn ei ddatblygu gyda cherddorion gwerin i gyflwyno/ ail gyflwyno pobl Gwynedd i hwiangerddi traddodiadol sydd modd eu canu i blant. Mae'r gwaith yn cynnwys rhestr chwarae fydd yn cael ei recordio yn broffesiynol fel bod pobl yn gallu gwrandao a chyd ganu adref. Cynhaliwyd hefyd sesiwn chwarae gemau buarth yn Gymraeg yn Ysgol y Garnedd ym Mangor a gweithgareddau i blant, gyda'r cyfle i drafod efo'r rheini, yn ysgol y Faenol ym Mangor yn ystod eu ffair haf. Iaith Dysgu Rhoddwyd sylw i godi ymwybyddiaeth a chreu negeseuon cadarnhaol i bobl ifanc am y Gymraeg a'i gwerth yn y byd Gwaith. Bu cydweithio gyda swyddogion Siarter Iaith Gwynedd i gynnal taith gan Gareth yr Orangwtan a Hywel Pitts i ysgolion uwchradd Arfon, 5 ysgol i gyd. Sioe i blant yr oed pontio oedd hon gydag elfennu o'r sioe yn trafod pa swyddi sydd angen y	
--	--	--	--

		Gymraeg ynddynt ar ôl gadael Ysgol. Cynhaliwyd hefyd daith cerddoriaeth ysgolion Gwynedd, gyda Ed Holden yn gwneud gweithdai rapio a Mei Emrys yn gwneud gweithdai sylwebu gydag ymweliadau i Frynrefail, Tywyn, Ardudwy, Friars, Moelwyn a Dyffryn Nantlle. Mynychodd swyddog y fenter gyfarfod Cyngor Iaith yr ysgol (cyngor ysgol llawn mewn rhai ysgolion) a gwnaed sesiwn ymwybyddiaeth iaith a thrafod sut gall y Fenter eu cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr Ysgol. Gwaith a Gwasanaeth Rhoddwyd sylw i ddatblygu defnyddio'r Gymraeg gan fusnesau a chynnig mwy o wasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg gan dargedu 20 o fusnesau yn Nolgellau a Porthmadog yn y cyfnod hwn. O ganlyniad mae 20 busnes bellach yn arddangos yr arwydd "Hapus I Siarad" Cymraeg yn dilyn ymweliad ac anogaeth. Bydd ymgyrch sirol i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, hynny ymysg dysgwyr, siaradwyr Cymraeg a Busnesau, ar y cyd gydag Uned Iaith ac Adran Economi Cyngor Gwynedd, yn Nhachwedd 2025. Cymunedau Rhoddwyd sylw i gynyddu cyfleoedd hyfforddi a dysgu anffurfiol yn y	
--	--	--	--

		gymuned a sicrhau bod cyfleoedd ar gael ym mhob rhan o'r sir drwy drafod gyda'r Urdd, Gwasanaeth Ieuenctid a Byw'n Iach i sicrhau nad oes dyblygu gweithgareddau mewn rhai ardaloedd a bod adnoddau yn cael eu targedu yn y mannau gorau. Mae cynlluniau i gefnogi gwirfoddolwyr lleol i gychwyn aelwyd newydd i bobl ifanc yn Llanystumdwy ac ym Mhenrhosgarnedd o feddi 2025 ymlaen. Cynhaliwyd hefyd 13 o weithgareddau a sesiynau sgwrsio cymunedol i ddysgwyr, un ymhob ardal llesiant yng Ngwynedd, sydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a magu hyder mewn awyrgylch anffurfiol. Cefnogwyd mudiadau cymunedol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol gan gynnwys pwyllgor neuadd Rhiwlas a chriw yn Ninas Mawddwy. Gwnaed cynnydd hefyd gyda'r Prosiect Clybiau Chwaraeon. Ymgynghorwyd gyda chlybiau chwaraeon a chreu sgerbwd o becyn fydd yn eu cefnogi i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg/ parhau yn Gymraeg tra hefyd yn croesawu newydd ddyfodiaid at eu clybiau ac at yr iaith. Daeth clybiau - CPD y Felinheli, CPD Cae Glyn, Clwb Rygbi Bethesda, Clwb Rygbi Caernarfon, CPD Dolgellau a CPD	
--	--	--	--

		Llanystumdwy I ddigwyddiad arbennig i weld cynnwys y pecyn a mewnbynnu syniadau iddo ym Mhorthmadog ganol Awst.	
	2. Gweithredu Rhaglen waith enwau lleoedd 2025/26.	Ebrill – Awst 2025 Cydweithiwyd gyda Pheirianwyr ardal Arfon a Dwyfor i osod tua 12 o arwyddion strydoedd newydd. Parhawyd i gynghori Rheolaeth Adeiladu ar enwi eiddo yn ogystal â chynghori Cyngor Conwy a Chyngor Mynwy ar ein prosesau mewnol yn ymwneud ag enwi eiddo, map enwau digidol ac ap enwau i staff. Cyhoeddwyd mwy o erthyglau 'Yr Enw a'r Hanes' ar y Fewnwyd a darparu dogfen ar enwau lleoedd Bangor i Fenter Iaith Gwynedd. Cyfrannwyd hefyd at Fforwm Enwau Lleoedd Cenedlaethol. Cynhaliwyd Bwrdd Prosiect i ddiweddarau holl aelodau ar y cynnydd a chychwyn ar baratoi pecyn trosglwyddo rhai o agweddau o'r prosiect i eraill pan fydd ariannu'r prosiect yn dod i ben ym Mawrth 2026.	Ydy

	3. Datblygu Prosiect 15 ymhellach er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.	Ebrill – Awst 2025 Ers cychwyn Ebrill mae Mentera wedi cychwyn ar y gwaith o reoli cynnwys cyfryngau cymdeithasol Prosiect 15. Mae twf wedi bod mewn dilynwyd Prosiect 15 ar bob platfform cymdeithasol gyda sylw arbennig wedi ei roi i'r prif blatfformau a ddefnyddir gan bobl ifanc sef TikTok ac Instagram. Mae pyst wedi eu cyhoeddi sy'n gysylltiedig gyda Gŵyl Fwyd Caernarfon, cymeriadau AI, Wythnos Balchder LGTBQ, tirwedd Gwynedd, Eisteddfod yr Urdd, Ffeithiau am Wynedd mewn 15 eiliad, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a chydweithio gyda dylanwadwyr amrywiol. Mae un clip fideo o Oshi G, dylanwadwr amaethyddol 16 oed o Wynedd, o ddillad poblogaidd yn y sioe wedi denu dros 161,000 o wylwyr.	Ydy
	4. Cynnal a Datblygu Fforwm Iaith Gwynedd.	Ebrill – Awst 2025 Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o Fforwm Iaith Gwynedd yn Siambr Dafydd Orwig yng Nghyngor Gwynedd. Cafwyd cyfle hefyd i gyfrannu tuag at greu strategaeth iaith i'r fforwm. Tra bo gwaith y Fforwm yn symud ymlaen, mae'n parhau'n ddibynnol ar swyddogion Cyngor Gwynedd i arwain.	Ydy

		Cafodd canlyniadau ymgynghoriad agweddau pobl ifanc tuag at yr iaith Gymraeg eu rhannu gyda'r is-grŵp pobl ifanc Fforwm Iaith Gwynedd. Cafwyd 200 ymateb i'r holiadur a gafodd ei rannu ymysg rhai 16-18 mlwydd oed oedd yn byw neu weithio yng Ngwynedd a chynhaliwyd 4 grŵp ffocws er mwyn cael mwy o fanylder ar eu hagweddau. Amlygodd y data bod gwahaniaeth yn nefnydd y Gymraeg a'r hyder i'w ddefnyddio gyda chyfryngau cymdeithasol lle mae'r Gymraeg ar ei gwanaf a hefyd cwmp ym y rhai sydd yn hyderus yn ysgrifennu yn Gymraeg, o gymharu â'i siarad. Bydd trafodaethau yn parhau fel is-grŵp ynglŷn â'r ymyraethau i ymgymryd â'r heriau, gyda dau gam yn dod i'r amlwg; sef sicrhau bod cyrsiau Cymraeg i bobl ifanc eu dilyn, bydd yn arwain at yrfaedd Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth pobl ifanc fod galw am y Gymraeg gan gyflogwyr.	
	5. Ymchwilio i ddewis defnydd iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio ein gwasanaethau a deall mwy am agweddau pobl at y Gymraeg.	Ebrill – Awst 2025 Yn dilyn canlyniadau peilot mesur defnydd o'r Gymraeg cychwynnwyd y gwaith o geisio canfod ymyraethau addas i gynyddu defnydd o'r Gymraeg	Ydy

		mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac wrth ddarparu gwasanaethau digidol. Bu swyddogion y Cyngor yn arwain ar yr ymgynghoriad at agweddau pobl ifanc tuag at yr Iaith Gymraeg ar ran is-grŵp pobl ifanc Fforwm Iaith Gwynedd gan gynnwys dadansoddi'r canlyniadau (gweler uchod).	
--	--	---	--

Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio’n dda ac yn effeithiol

Adran a Phrosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Diweddariad CRYNO ar y cynnydd gyda’r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad)	Ydi’r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o’i erbyn diwedd y flwyddyn chwblhau ariannol (Ydi / Nac Ydi)
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Hefyd Trawsadrannol Prosiect: Cynllunio’r Gweithlu	1. Cydweithio ag adrannau a gwasanaethau i gynhyrchu cynlluniau gweithlu, trwy gynghori rheolwyr ar ddilyn y camau canlynol: a. Adnabod swyddi allweddol, wedi eu hasesu ar sail risg i barhad gwasanaeth. b. Dadansoddi proffil gweithlu’r timau, er mwyn adnabod risgiau posib i lefelau staffio / anghenion sgiliau. c. Cynhyrchu cynlluniau gweithredu. - ch. Sefydlu trefniadau adolygu cynlluniau.	Ebrill – Awst 2025 Y cynllun o'r newydd i'w gyflwyno i'r timau arweinyddiaeth a rheoli yn ystod yr hydref. Grŵp prosiect trawsadrannol o'r newydd yn cyfarfod ym Medi i gytuno ar ddatblygu cerrig milltir manwl i symud y prosiect yn ei flaen.	Ydi
	2. Adolygu'r broses a dulliau o ddenu staff i weithio i’r Cyngor, er mwyn parhau i wella’r profiad ar gyfer ymgeiswyr swyddi a sicrhau fod y Cyngor yn denu’r gweithlu mwyaf cymwys posib. Camau i gynnwys: a. Adolygu sut rydym yn hysbysebu swyddi a denu ymgeiswyr, a chyflwyno dulliau newydd.	Ebrill – Awst 2025 Y cynllun o'r newydd i'w gyflwyno i'r timau arweinyddiaeth a rheoli yn ystod yr hydref. Grŵp prosiect trawsadrannol o'r newydd yn cyfarfod ym Medi i gytuno ar ddatblygu cerrig milltir manwl i symud y prosiect yn ei flaen.	Ydi

	b. Adolygu'r broses o gyflwyno ceisiadau, ac addasu fel bo'r angen. c. Dod i gasgliad ar sut y gellir cyflwyno ychwanegiadau neu addasiadau i'r pecyn amodau a thelerau gwaith, ac addasu yn ôl y gofyn.		
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Sicrhau tegwch i bawb	1. Adolygu a newid ein dulliau o recriwtio pobl i'r gweithlu, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r profiad gorau posib i ddarpar ymgeiswyr, ond hefyd yn cynnig ein hunain fel cyflogwr blaenllaw i bawb o bob rhan o'r gymdeithas	Ebrill – Awst 2025 Mae'r garreg filltir hon yn cael ei chynnwys yn y rhaglen waith ar y Prosiect Cynllunio'r Gweithlu .	Ydi
	2. Creu dashfwrdd o ddata am Wynedd i'w ddefnyddio i greu asesiadau effaith sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth ac yn gwella ein gwasanaethau.	Ebrill – Awst 2025 Gwaith datblygu yn parhau.	Ydi
	3. Parhau i godi ymwybyddiaeth rheolwyr ar bwysigrwydd defnyddio asesiadau effaith cydraddoldeb yn effeithiol.	Ebrill – Awst 2025 Adnodd ar gael ar yr Hwb Arwain a Rheoli. Swyddogion i godi ymwybyddiaeth ymysg timau rheoli dros y misoedd nesaf.	Ydi
	4. Cynnal Asesiad Cyflog Cyfartal ar systemau tâl y Cyngor, ac ymateb i unrhyw negeseuon sydd yn codi o'r canlyniadau.	Ebrill – Awst 2025 Byddwn yn edrych i gomisiynu ymgynghorydd annibynnol dros y misoedd nesaf i ymgymryd â'r gwaith, gyda golwg ar gynhyrchu'r adroddiad erbyn Mawrth 2026 - bydd union amserlen cwblhau'r asesiad i'w gadarnhau eto, yn ddibynnol ar yr ymgynghorydd.	Ydi

Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Merched Mewn Arweinyddiaeth	1. Parhau i gynnal a datblygu'r gweithgareddau sy'n ffurfio sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial, Sgyrsiau dros Baned;	Ebrill – Awst 2025 Sgyrsiau dros baned - Cyfres yr Haf o'r cyfrwng poblogaidd "Sgyrsiau Dros Baned" wedi ei chynnal gyda siaradwyr mewnol. Sgwrs gyda Keira Sweenie, Rheolwr Cynllunio, wedi ei chynnal ar y 4.6.25 ac yn dilyn ei phenodiad i swydd Cyfarwyddwr yn y Parc, a sgwrs gyda'r Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor, wedi ei gynnal ar y 7.7.25. Mae trefniadau ar waith i drefnu sgyrsiau pellach ar gyfer cyfres y Gaeaf. Y bwriad parhaus yw i fod yn targedu mwy o amrediad mewn lefelau swyddi mewn siaradwyr i fod yn cynnwys Rheolwyr ac Arweinyddion Tîm gyda'r bwriad o dargedu merched ifanc i gymryd y cam cyntaf. Rhaglen Ddatblygol - Mae chweched gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol wedi ei threfnu ac yn cychwyn ar y 17.9.25. Mae 13 merch deilwng o amrywiaeth o adrannau'r Cyngor wedi eu dewis i fod yn rhan o'r gyfres. Bydd y gyfres yn cael ei chynnal rhwng mis Medi a Rhagfyr eleni.	Ydi
	2. Cynnal ymyraethau i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion;	Ebrill – Awst 2025 Bwriad i gynnal 'Sgwrs Dros Baned' penodol ar gyfer dynion gyda	Ydi

		siaradwyr o Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC yn egluro'r hyn maent wedi ei wneud i newid diwylliant o fewn yr Adran. Trefniadau i'w cadarnhau maes o law.	
	3. Parhau i adeiladu ar y sylfaen ystadegol sydd eisoes wedi ei sefydlu er pwrpas mesur llwyddiant y prosiect;	Ebrill – Awst 2025 Mae data ar gynnydd ac effaith y prosiect yn cael ei ddiweddarau'n gyson. Ar hyn o bryd mae'r ffigwr o ferched mewn swyddi rheolaethol yn 45% sydyn gynnydd o 15% ers cychwyn y prosiect. Mae yna wahaniaethau rhwng Adrannau, a gwahaniaethau hefyd rhwng haenau swyddi. Bydd gwaith parhaus yn digwydd dros y flwyddyn i ddiweddarau'r data.	Ydi
	4. Parhau a'r gwaith o ddarganfod beth mae Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ei wneud i annog merched i ymgeisio am swyddi uwch er mwyn adnabod a rhannu arfer da, a theilwro ymyraethau yn ôl gofyn Adrannau ble fo angen;	Ebrill – Awst 2025 Gwaith yn parhau i gwblhau sgysiau a phob Pennaeth Adran.	Ydi
	5. Trefnu digwyddiad i ddathlu llwyddiant gwaith y prosiect hyd yma	Ebrill – Awst 2025 Mae gwaith cynllunio ar y gweill er mwyn dathlu llwyddiant gwaith y prosiect hyd yma. Yn edrych i'r posibilrwydd o greu fideo byr.	Ydi
	6. Defnyddio rhwydweithiau megis 'Rhwydwaith Rheolwyr', 'Sesiwn Byw gyda'r Prif Weithredwr' er mwyn codi ymwybyddiaeth bellach o waith y prosiect.	Ebrill – Awst 2025 Fideo wedi ei chynhyrchu ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Ferch ac wedi ei rhannu drwy'r cyfryngau cyfathrebu mewnol arferol. Ynghyd a hynny,	Ydi

		lansiwyd brand newydd ar gyfer y prosiect. Yn ystod ‘Sesiwn Byw’ y Prif Weithredwr mis Gorffennaf tynnwyd sylw at y fideo a gynhyrchwyd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Ferch a rhannwyd y linc i’r fideo yn y panel sgwrsio.	
Adran Gwasanaethau Corfforaethol Prosiect: Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch	1. Parhau â chyflwyno’r system TG newydd ar gyfer Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor. Mae’r gwaith wedi’i strwythuro yn dri cham, gyda’r cam cyntaf – datblygu’r ffurflen ddamwain electronig – yn agosáu at ei gwblhau.	Ebrill – Awst 2025 Mae newidiadau corfforaethol i system cyfrifiadurol y Cyngor am gael effaith uniongyrchol ar y prosiect yma. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â’r tîm TG i geisio cwblhau’r cam cyntaf – datblygu’r ffurflen ddamwain electronig – gan fod tua 95% o’r gwaith eisoes wedi’i gwblhau. Mae’r penderfyniad i barhau â’r cam hwn yn adlewyrchu ymrwymiad strategol i sbarduno newid diwylliannol drwy symud o brosesau papur i brosesau digidol. Mae cais wedi’i gyflwyno i’r Panel Dysgu a Datblygu i hwyluso sesiynau hyfforddi i reolwyr dros gyfnod y gaeaf, gan gynnwys pecyn ‘hyfforddi’r hyfforddwr’ i alluogi trosglwyddiad effeithiol o wybodaeth i’r gweithlu ehangach.	Nac ydi – Rhaglen wedi llithro, ond gobaith bydd y cam cyntaf wedi ei gwblhau.
	2. Parhau i gyflwyno’r cynllun gweithredu manwl (drafft) i Dîm Rheoli’r Cyngor, sy’n amlinellu’r camau tuag at gyflawni model integredig ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch.	Ebrill – Awst 2025 Er bod y cyflwyniad o’r cynllun gweithredu manwl wedi’i ohirio	Ydi

		ddwywaith oherwydd amgylchiadau gweithredol ehangach, mae trefniadau ar y gweill i aildrefnu'r cyflwyniad. Mae'r tîm prosiect yn parhau i weithio'n rhagweithiol i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu'r camau strategol tuag at weithredu model integredig ar gyfer rheoli lechyd a Diogelwch, gan gynnal momentwm a chefnogi ymrwymiad y Cyngor i wella arferion a strwythurau ar draws y sefydliad.	
	3. Datblygu rhaglen archwiliadau pum mlynedd, yn seiliedig ar y data a gasglwyd drwy'r Holiaduron Modelau Diogelwch.	Ebrill – Awst 2025 Oherwydd yr oedi wrth gyflwyno'r cynllun gweithredu manwl i Dîm Rheoli'r Cyngor, nid yw wedi bod yn bosib symud ymlaen i gynnal trafodaethau gyda rheolwyr adrannol ynghylch datblygu'r rhaglen archwiliadau pum mlynedd. Er hynny, mae cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio'r Fforwm Corfforaethol a'r Fforymau Adran fel llwyfannau i hwyluso'r trafodaethau hyn. Bydd y dull hwn yn galluogi rheolwyr i gyfrannu'n uniongyrchol at y broses, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth dros y cynllun a sicrhau bod y model archwilio yn adlewyrchu anghenion gweithredol y sefydliad.	Nac ydi – Gwaith ymgynghori angen digwydd.



Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol

Switch to
English

Crynodeb Mesuryddion Meintiol

Adrannol

Caffael

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyswllt Cwsmer a Cofrestru

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Gwasanaethau Cefnogol

Democratiaeth a Iaith


Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Ymchwil a Gwybodaeth


Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Mesuryddion Adrannol



Mesuryddion Gwasanaeth



Pwrrpas

Switch to English

GC1 - Teitl Mandadol - Cam-drin Domestig (Chwarterol)

Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Cam-drin Domestig

Blwyddyn

● 2025-2026

Canran

100%

50%

0%

96.7%

Chwarter1

Sylw

Mae 96.7% o staff yr Adran wedi cwblhau’r hyfforddiant mandadol ar Gam-drin Domestig. Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog y staff sydd heb gwblhau’r hyfforddiant i’w wneud cyn gynted â phosibl.

GC2 - Teitl Mandadol - Diogelu (Chwarterol)

Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Diogelu

Blwyddyn

● 2025-2026

Canran

100%

50%

0%

96.1%

Chwarter1

Sylw

Mae 96.1% o staff yr Adran wedi cwblhau’r hyfforddiant mandadol Diogelu. Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog y staff sydd heb gwblhau’r hyfforddiant i’w wneud cyn gynted â phosibl.

GC3 - Nifer Dyddiau Salwch (Chwarterol)

Cyfradd absenoldeb salwch fesul pen yn yr Adran (ffigwr cronnus)

Blwyddyn

● 2025-2026

Cyfradd

10

5

0

3.14

Chwarter1

Sylw

Mae ffigwr absenoldeb salwch y pen yn yr Adran yn 3.14 diwrnod, sy’n is na ffigwr y Cyngor cyfan o 4.43 diwrnod. Mae gwaith rhagweithiol yn cael ei wneud o fewn yr Adran er mwyn mynd i'r afael a materion salwch.

GC4 - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (Chwarterol)

Canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith yn yr Adran

Blwyddyn

● 2025-2026

Canran

100%

50%

0%

100.0%

Chwarter1

Sylw

18 allan o 18 cais rhyddid gwybodaeth wedi eu hateb o fewn 20 diwrnod yn ystod Chwarter 1.

GC5 - Asesiadau Iaith (Chwarterol)

Canran staff yr Adran sydd wedi cwblhau'r Asesiad iaith

Blwyddyn

● 2025-2026

Canran

100%

50%

0%

95.3%

Chwarter1

Sylw

164 allan o 172 aelod o staff wedi cwblhau asesiad iaith. Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog y staff hynny sydd heb gwblhau’r asesiad i wneud hynny cyn gynted a phosib.

Pwrpas

Galluogi'r Cyngor i anelu at werth am arian, cadw'r budd yn lleol a gwella safon caffael y Cyngor

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch


Risgiau Oren

Risgiau Melyn8

Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

CA01 - Cyflenwyr Lleol (Chwarterol)



Sylw

Refeniw yn Unig


Mae'r canran lleol wedi cynyddu 4% i 61% o gymharu a'r cyfnod yma flwyddyn diwethaf. Mae'r prif resymau am y cynnydd ynghlwm a:

- Cynnydd o £470k gyda cwmni adeiladwaith lleol sydd yn ymgymryd a gwaith rheoli llifogydd.
- Cynnydd yng ngwariant gyda nifer o ddarparwr gofal sydd wedi ei leoli yng Ngwynedd. Mae hyn yn rannol oherwydd:

o Cynnydd yn y gost o ddarparu a'r galw am ofal o Amseriad y taliadau h.y. mae nifer o ddarparwyr gofal yn cael ei dalu mewn bloc ac felly mae swm uwch ac is yn gallu cael ei gofnodi pan yn edrych ar y sampl fychan o ddata yn Chwarter 1.

Mae cyfanswm gwariant yn Chwarter 1 yn £44.2m gyda £27m yn cael ei gadw yng Ngwynedd.

CA02 - Hunan-asesiad Caffael (Blyneddol)



Sylw

Ch1: 2025-26

Diweddariad ar ein hymdrechion i wella'r sgôr hyd at ddiwedd Awst 2025.

Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae'r rheoliadau caffael cenedlaethol mewn grym.

Mae yna drafferthion sylweddol wedi bod gyda'r system caffael yn sgil y newidiadau hyn, yn benodol cyhoeddi hysbysebion tendro ar 'gwerthwchigymru' (sell2wales).

Oherwydd y diffygion yn y systemau, nid yw'r trefniadau mor esmwyth â rhydd fel y gobaith i gwmnïau nac i awdurdodau sydd yn cynnal tendrau.

Mae'r strategaeth caffael newydd wedi drafftio a'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth. Bydd y strategaeth yn cael ei graffu dros y Gaeaf. (Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - 16eg o Hydref)

Mae'r gwaith diweddaru templedi a threfniadau yn parhau, yn ogystal â diweddau'r polisi caffael.

Mae yn ddolen Prynu'n Ddoeth newydd wedi cael ei greu, gyda'r angen i'r Timau Categori boblogi manylion cytundebau ar y safle.

Mae yna hefyd briff wedi paratoi i adolygu trefniadau rheolaeth categori a chaffael y Cyngor gyda bwriad i benodi cefnogaeth allanol i ymgymryd â'r adolygiad yma.

Rydym hefyd wedi comisiynu arbenigwr allanol i gefnogi gyda chreu a chynnal cyfres hyfforddiant Gwerth Cymdeithasol newydd.

Ar gais Timau Rheoli Adrannol, mae sesiynnau hyfforddiant Diwygio Caffael wedi cychwyn. Mae sesiynnau Hyfforddiant Caffael hefyd yn cael ei greu ar gyfer y Fframwaith Dysgu a Datblygu Corfforaethol.

Pwrrpas

- Cynnal gwybodaeth strwythur staffio Adrannau
- Recriwtio a Penodi unigolion yn gyfreithiol i swyddi
- Galluogi staff y Cyngor gael mynediad at wybodaeth yn y system Hunan Wasanaeth Staff
- Cynnal a datblygu rhaglen Buddiannau i staff y Cyngor
- Darparu Gwasanaeth Argraffu a Post ynghyd a gweinyddiaeth ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i Adrannau'r Cyngor, yn ogystal a prosesu archebion ac anfonebau
- Perchnogaeth a chyfrifoldeb am weithredu trefniadau Cwynion a Gwella Gwasanaeth y Cyngor

Switch to English

Risgiau Cyfredol



Cliciwch yma i weld y risgiau

CE01 - Cytundebau Cyflogaeth

Cyflwyno cytundeb cyflogaeth (sydd yn gyfreithiol i fod wedi eu cyflwyno) cyn neu erbyn dyddiad cychwyn y gweithiwr

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Ionawr

Chwefror

Mawrth

46%

52%

58%

55%

54%

Sylw

Mae methiant o 9% gan y Gwasanaeth Cefnogol i brosesu y cytundebau yn amserol ac mae hyn yn bennaf oherwydd salwch staff ac felly rydym yn gorfod blaenoriaethu gwaith i sicrhau bod Cyflogau yn cael eu talu yn amserol i staff. Mae'r Adrannau yn parhau i fod yn anfon gwybodaeth yn hwyr ymlaen (37%). Mae Cynllun mewn lle i dargedu Adrannau i fod yn ymwybodol o'r gofynion Cyfreithiol sydd ar y Cyngor i fod yn gyfreithiol fod wedi cyflwyno Datganiad Cyflogaeth i'r gweithiwr cyn neu erbyn y dyddiad cychwyn.

CE02 - Bodlonrwydd Cwsmer - Ymgeiswyr Swydd (Chwarterol)

Ymgeiswyr am swydd - "A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth y derbynioch gan Cefnogol?"

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

Chwarter1

Chwarter2

Chwarter3

Chwarter4

97%

Sylw

Cyflwynwyd 1075 o geisiadau am swyddi yn ystod y chwarter 1af ac mae 82% o ymgeiswyr wedi cwblhau adborth am ei bodlonrwydd o'r broses ymgeisio am swydd. Mae 97% o'r adborth yn hollol hapus gyda'r drefn. I'r 3% sydd wedi nodi sylwadau am y system, mae sylw wedi cael ei roi i'r adborth pennaf gan TG, h.y. mae'r "time out" oedd ar y system bellach wedi ei ymestyn fel nad ydi'r system yn cau i lawr wrth gwblhau y ffurflen.

Negeseuon diolchiadau yn cael eu derbyn gan y Cyhoedd am gefnogaeth y Swyddog Gwella Gwasanaeth am y drefn gwynion. Mae'r adborth yn weledol ar y ar y Mewnrrwyd.

CE03 - Bodlonrwydd Cwsmer - Gwasanaethau'r Cyngor (Chwarterol)

Gwasanaethau'r Cyngor - "A ydych yn hollol fodlon gyda'r Gwasanaeth y derbynioch gan Cefnogol?"

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

Chwarter1

Chwarter2

Chwarter3

Chwarter4

100%

Sylw

Canmoliaeth a diolch yn cael ei dderbyn gan Staff a Rheolwyr am y gefnogaeth sydd yn cael ei roi iddynt gan staff Cefnogol pan maent yn eu cynorthwyo gyda ymholiadau nau pan yn cwblhau tasgau gwaith.

CE04 - Tîm Cyllid a Gweinyddol - Amserlenni

Prosesu "Amserlenni" a dderbyniwyd i dalu cyflog i staff erbyn dyddiad cau y gyflogres

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Ionawr

Chwefror

Mawrth

100.0%

100.0%

100.0%

100.0%

100.0%

Sylw

Yr amserlenni wedi eu prosesu erbyn dyddiad cau y gyflogres

CE08 - Tîm Cyllid a Gweinyddol - HS11

Prosesu "HS11" o fewn y terfyn amser sydd wedi ei osod

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Ionawr

Chwefror

Mawrth

100.0%

100.0%

100.0%

100.0%

100.0%

Sylw

Ffurflenni damweiniau HS11 wedi eu mewnbynnu i'r system yn amserol

CE09 - DBS

Canran staff sydd heb adnewyddu DBS yn amserol

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Chwefror

Mawrth

0.9%

0.9%

1.0%

1.1%

1.2%

Sylw

Y sefyllfa bresennol heddiw ydi bod 58 o staff y cyngor heb DBS gyfredol. Mae 14 cais yn eistedd yn y DBS yn Lerpwl yn disgwyl eu prosesu. Mae 44 cais arall yn disgwyl i aelod staff neu rheolwr i fod yn gwirio'r dogfennau er mwyn eu rhyddhau i'w prosesu. Mae'r system yn cynhyrchu e-bost i'r aelod staff ar y 5ed diwrnod ac i'r rheolwr ar y 10fed diwrnod ac bob 5 diwrnod wedyn yn atgoffa yr angen i cwblhau y ffurflen DBS. Mae'r Grwp Gweithredol Diogelu chwarterol yn trafod perfformiad DBS yr Adrannau. Yn dilyn o'r Grwp yma sefydlwyd is grwp i drafod data DBS. Mae ffigwr yn newid yn dyddiol oherwydd bod staff yn cwblhau y ffurflenni a mwy o staff eraill yn dod i'r ffenest cyfnod adnewyddu.

CE11 - Cwynion a Llwyddiannau

Canran cwynion wedi eu ateb o fewn 20 diwrnod gwaith

Blwyddyn

2025-2026

Canran

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

76%

85%

74%

77%

Sylw

Nid yw'r ffigwr ar gyfer mis Awst ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

CE12 - Llesiant Staff - Buddiannau (Chwarterol)

Sylw

Mae rôl y Swyddog Gwella Gwasanaeth, sydd yn arwain ar gynlluniau Buddiannau i staff, wedi trosglwyddo o'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad i'r Gwasanaeth Cefnogol ers mis Ebrill eleni. Ers y trosglwyddiad mae sylw wedi ei roi i'r cynllun "Beicio i'r Gwaith" ble mae'r swm benthyciad yn ogystal a'r cyfnod lesu wedi cael ei godi i staff. Mae'r newid yma yn gymorth i fwy o staff fod yn manteisio ar y cynllun os oes ganddynt diddordeb mewn lesu beic ac mae dau ddigwyddiad wedi bod gyda "Evolution Bikes" i hyrwyddo beiciau i staff i fynychu.

Mae gwaith yn parhau i fod yn hyrwyddo Busnesau Lleol i staff fod yn ei cefnogi ac i fod yn elwa o fuddiant disgownt os yn prynu yn ystod y mis gan y busnes.

CE99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw

Hyfforddiant wedi ei lunio gan y Gwasanaeth i Reolwyr ac Arweinyddion Tim ar y newidiadau sydd wedi digwydd i'r drefn o wirio ceisiadau DBS staff, gyda'r dyddiadau hyfforddiant wedi eu trefnu yn ystod mis Medi a Hydref.

Pwrpas

Galluogi'r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal sgwrs ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor.
Galluogi'r cyhoedd i hunanwasanaethu ar wefan Cyngor Gwynedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.

Switch to English


Risgiau Cyfredol



Cliciwch yma i weld y risgiau

CY01 - Eitemau newyddion a/neu adroddiadau yn y wasg

Nifer ar gyfartaledd o eitemau newyddion a/neu adroddiadau yn y wasg sy'n deillio o ddatganiadau i'r wasg rhagweithiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn ystod y mis




Sylw

Rhagweithiol:
Cyhoeddwyd 10 o ddatganiadau i'r wasg yn ystod mis Awst, a wnaeth arwain at 43 eitem newyddion. Y tri datganiad a berfformiodd gryfaf dros y mis oedd – datganiad yn hyrwyddo'r ffaith fod mwy o drigolion bellach yn gymwys i dderbyn grant i adnewyddu tai gwag; diweddariad am Cynllun Prynu Cartref Gwynedd; a datganiad yn ymateb i gam-wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Arweiniodd y tri datganiad hyn at 6 eitem newyddion yr un. Roedd datganiadau am ganlyniadau Lefel-A a TGAU sirol hefyd wedi perfformio'n dda.

Ymatebol:
Derbyniodd y Cyngor 36 o ymholiadau gan y wasg yn ystod y mis gan gynnwys ymholiadau am broblemau parcio a chwynion am campervans mewn gwahanol leoliadau yn y sir; derbyniwyd hefyd amrywiol ymholiadau ar themâu lletya ceiswyr lloches.

CY02 - Sgôr y wefan

Canran unigolion ddefnyddiodd y teclyn bodlonrwydd i gynnig sgôr am y wefan wnaeth nodi sgôr o 5 allan o 5



Sylw

Ymweliadau â'r wefan: (Awst 2025) 230,171

Cyfanswm wnaeth lenwi'r holiadur bodlonrwydd: 153

Nifer wnaeth roi sgôr o 5 allan o 5: 141 = 92%

Manylion yr ymatebwyr wnaeth roi sgôr o 4 neu lai:

Cwyn am y wefan (o fewn rheolaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu) = 3, e.e. trafferth dod o hyd i wybodaeth / system chwilio

Cwyn am y wefan - cyfrifoldeb Gwasanaeth penodol = 1, e.e. dim data ar gael ar gyfer dyddiadau casglu gwastraff


Cwyn am Wasanaeth penodol = 7, e.e. pris parcio Morfa Bychan, amseroedd aros am chwiliadau tir, neb yn ateb y ffôn pan yn ffonio ac ati

Cwyn am system trydydd parti = 1, trafferth gweld cais cynllunio ar system Tascomi

Mae'r cwynion uchod yn cael eu pasio ymlaen i'r Gwasanaethau perthnasol ac rydym yn eu cefnogi i'w datrys pan yn briodol.

CY05 - Ceisiadau Gwasanaeth

Nifer ceisiadau gwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno ar-lein



Sylw

Mae'r nifer ceisiadau 2,295 yn fwy na Awst 2024.

Mae sawl gwasanaeth wedi gweld cynnydd bychan yn niferoedd y ceisiadau a gyflwynwyd, e.e. Cais am ostyngiadau Treth Cyngor, Cais i dderbyn bil Treth Cyngor yn electronig, Cais am gasgliad gwastraff swmpus, ond mae dau gais wedi gweld cynnydd sylweddol o'i gymharu â Awst 2024:

- Archebu slot canolfan ailgylchu - roedd 1,308 cais yn fwy eleni na'r llynedd
- Archebu cyfarpar gwastraff ac ailgylchu - roedd 754 cais yn fwy eleni na'r llynedd gan nad oedd modd archebu cyfarpar yn ystod mis Awst y llynedd tra roedd y gwasanaeth yn ymdrin ag ôl-groniad o geisiadau.

CY99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw

- Cynhaliwyd ymgynghra cyfryngau cymdeithasol ar y cyd gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i annog preswylwyr ac ymwelwyr i gadw'n ddiogel pan yn ymweld a mynyddoedd ac arfordir Gwynedd.

- Diweddarwyd Canllaw Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor a gofynnwyd i Wasanaethau sy'n rheoli cyfrifon unigol i ymrwymo i'r Canllaw newydd.

- Er mwyn sicrhau bod gwefan y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Hygyrchedd Cyrrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif. 2) 2018 a Deddf Cydraddoldeb 2010 mae angen newid templedi tudalennau'r wefan bresennol. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers 2 fis i symud holl gynnwys y wefan bresennol i feddalwedd newydd, fydd yn datrys y problemau hygyrchedd sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd y gwaith yn cymryd rhai misoedd i'w gwblhau, a'r bwriad yw cyhoeddi'r wefan ar ei newydd wedd yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Pwrpas

Pwrpas y Gwasanaeth / Uned: Cyswllt Cwsmer - "Rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor, drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth"

Pwrpas y Gwasanaeth / Uned: Cofrestru - "Cynnal seremonïau a galluogi'r cyhoedd i gofrestru digwyddiadau a darparu copïau tystysgrif yn unol â gofynion y ddeddf"

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch

Risgiau Oren


Risgiau Melyn

Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

2


CC03 - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt



Sylw

Mae nifer galwadau atebwyd / dod mewn i'r Cyngor wedi cynyddu yn ystod y pedwar mis cyntaf eleni, gyda niferoedd Awst yn debyg i Awst 2024. Nid oes rheswm amlwg am hyn ac mae'r cynnydd i weld mewn galwadau switsfwrdd yn hytrach na Gwasanaethau penodol yn yr IVR. Mae Galw Gwynedd wedi symud i fod yn defnyddio system ffôn newydd y Cyngor (Cisco Webex) ers cychwyn mis Mai, ac mae'r data yr ydym yn ei gael allan o'r system yn rhoi llawer mwy o fanylder i ni. Pan fydd gweddill y Cyngor wedi symud drosodd i fod yn defnyddio'r system ffôn newydd, byddwn mewn gwell sefyllfa i gychwyn gwella gwasanaeth i'n cwsmeriaid.


CC03a - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt



Sylw

Roedd gennym swyddi gwag yn y strwythur yn ystod y pedwar mis cyntaf eleni, yn golygu ein bod ni wedi colli galwadau yn ddi-angen. Yr ydym wedi penodi i'r swyddi erbyn hyn ac wedi recriwtio staff achlysurol dros gyfnod yr haf, sydd wedi arwain at welliant yn y perfformiad a llai o alwadau yn cael eu colli.


CC04 - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt



Sylw

Fel sydd wedi'i nodi yn y dangosydd blaenorol, mae lefelau staffio yn cael effaith ar ein gallu i ateb galwadau yn brydlon, gyda cwsmeriaid yn disgwyl yn hirach na munud i gael ateb yn ystod Ebrill a Mai, ond mae'r cyfartaledd ateb wedi dod lawr ar ôl recriwtio i swyddi gwag, a hefyd cyflwyno system ffôn newydd sydd yn ein galluogi i reoli perfformiad yn well.


CC05c - Bathodynau Glas



Sylw

Dros y flwyddyn diwethaf, Awst 24 i Gorffennaf 2025, ar gyfartaledd mae'n rhesymol i unigolyn ddisgwyl rhwng 2.04 a 9.75 diwrnod i ni ddod i benderfyniad ar eu cais, ar ôl i ni dderbyn cais cyflawn gan y cwsmer. Mae perfformiad wedi gwella rhywfaint ers Mawrth 2025, ond mae peidio cael mynediad i systemau DWP i wirio cymhwysedd unigolyn ar gyfer ceisiadau awtomatig, wedi nadu ni rhag gwella'n bellach. Yr ydym wedi derbyn gwybodaeth gan Llywodraeth Cymru fod y cwmni asesu annibynnol sydd yn cynnal asesiadau symudedd wedi atal masnachu ar 31/7 ac felly mae gennym geisiadau yn disgwyl asesiad symudedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi cwmni newydd ac yn debygol o gychwyn asesiadau yn fuan yn ystod mis Medi. Mae'n cynamserol i ni wybod beth ydi effaith y newid yma ar y perfformiad ond yr ydym yn monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau nad ydi unigolion yn disgwyl rhy hir i gael penderfyniad ar eu cais.


CC06 - Webchat



Sylw

Mae swyddi gwag ac absenoldebau ar y strwythur wedi nadu ni rhag cynnig gwasanaeth sgwrs fyw rheolaidd, dros y misoedd diwethaf ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o drafodion yr ydym wedi delio gyda. Yr ydym wedi penodi 3 swyddog, fydd yn cychwyn dros y mis nesaf gyda'r gobaith o allu cynnig gwasanaeth mwy sefydlog yn symud ymlaen

CC09 - Bodlonrwydd Cwsmer - Cofrestru



Sylw

Dim sylwadau i adrodd, pawb sydd wedi cwblhau holiadur bodlonrwydd cwsmer yn hapus gyda'r gwasanaeth sydd wedi cael ei ddarparu.

Pwrrpas

- Cefnogi a datblygu unigolion a thimau i gyflawni eu rôl i orau eu gallu, er mwyn darparu gwasanaethau o werth i bobl Gwynedd
- Datblygu a meithrin diwylliant sy'n galluogi staff ac Aelodau i roi o'u gorau ar gyfer pobl Gwynedd
- Denu a datblygu gweithlu briodol ar gyfer y dyfodol
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau sy'n gwella gwasanaethau er llês Trigolion, Cymunedau Gwynedd a Busnesau Lleol

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch

Risgiau Oren

Risgiau Melyn


Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

8

DD1.1 - Hyfforddiant - Bodlonrwydd

I ba raddau mae'r hyfforddiant yn eich helpu i gyflawni eich rôl? (sgôr/10)



Sylw

Mae'r ffigyrau yn parhau i ddangos bodlonrwydd uchel gyda safon yr hyfforddiant sydd yn cael ei ddarparu ar gyfer Staff y Cyngor.

DD1.2 - Rhaglenni Datblygol

Sylw

Fframwaith Dysgu a Datblygu – Gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu ar yr arlwy o hyfforddiant sydd ar gael i staff. Mae cyrsiau hyfforddi oedd wedi ‘eu colli’ yn ôl, yn ogystal a chyflwyno cyrsiau newydd. Mae nifer o staff y gwasanaeth Dysgu a Datblygu bellach yn rhan o'r staff hyfforddi ac mae fforwm wedi ei greu er mwyn cefnogi yr holl staff sydd yn hyfforddi. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r cyrsiau yma wedi eu hanelu at Reolwyr ac mae briodol o ehangu'r arlwy ar gyfer staff hefyd. Datblygu'r Sefydliad – Mae 8 aelod y staff sydd yn Bennaeth Adran neu'n Bennaeth Cynorthwyl yn cael cyfle i fynychu cwrs wedi ei drefnu gan Academi Cymru ar gyfer holl gynghorau'r gogledd, yn cychwyn mis Medi 2025. Talent a Phrentisiaethau – Bu i'r cylch diweddaraf o Ganolfannau Recriwtio wedi llwyddo i ddenu 10 prentis a 6 Hyfforddai Proffesiynol. Golyga hyn bod yr 16 yn ran o'r 46 prentis ac hyfforddai proffesiynol sydd ar y cynllun ar hyn o bryd.

DD1.3 - Datblygiadau

Sylw

Yn ychwanegol i'r gwaith o ddatblygu ac ehangu ar y Fframwaith mae gwaith yn digwydd o fewn y gwasanaeth i adnabod y gwahanol feysydd o fewn y gwasanaeth, ac mae cyfarfodydd maes penodol wedi eu sefydlu i drafod a blaenoriaethu gwaith.

Maes Aelodau – Mae llawer o ymdrech yn cael ei roi i annog a chefnogi Aelodau i gwblhau hyfforddiant Craidd a chysiau hyfforddiant eraill i gefnogi Aelodau wrth eu rôl.

Maes Busnes – Adnabod cyfleoedd i ehangu ar arlwy hyfforddiant a chydweithio gyda darparwyr allanol a'r drefn Caffael.

Maes Cefnogi – Dyma grŵp o staff y gwasanaeth sydd yn allweddol wrth sicrhau bod yr holl ddarpariaeth Dysgu a Datblygu yn ei le ac yn rhedeg yn esmwyth.

Maes Datblygu'r Sefydliad - Cynhelir trafodaethau am sut i ddatblygu gwahanol garfannau o staff y Cyngor. Mae sut i gefnogi a datblygu staff, Rheolwyr, Penaethiaid Cynorthwyl a'r Tîm Rheoli ar waith.

Maes Dysgu – Yn gwneud y gwaith o gynnal y Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd ac yn adnabod ffyrdd o wella ac ehangu ar y ddarpariaeth gan ddefnyddio sawl ffynhonnell wybodaeth.

Maes e-Ddysgu – Mae llawer iawn o waith datblygu e-fodiwlau, cyrsiau mandadol ac ati yn digwydd ar hyn o bryd yn ogystal ag adnabod dulliau newydd o ymgysylltu â staff.

Maes Hyrwyddo – Mae her bendant wrth geisio ymgysylltu gyda holl staff y Cyngor am weithgarwch y gwasanaeth Dysgu a Datblygu, ac mae syniadau a thrafodaethau am sut i wneud hynny yn fwy effeithiol.

Maes Iaith – Yn ogystal a darparu hyfforddiant i gefnogi safonau'r iaith Gymraeg i Staff ar draws y Cyngor, mae gwaith yn cael ei wneud i gefnogi llawer o brosiectau eraill i hyrwyddo, annog a chefnogi drwy gyd-weithio gyda'r Uned Iaith, adrodd ar y Dynodiadau Iaith ac ati.

DD2 - Newid Diwylliant (Cyfraniad i Ffordd Gwynedd)

Sylw

Mae gwaith o dreialu modiwlau hyfforddiant Ffordd Gwynedd ar waith.


DD3 - Blaenoriaethau

Sylw

Gweithredu a datblygu ar y Fframwaith Dysgu a Datblygu (2025/2026) gan sicrhau ansawdd, mireinio ymgysylltu pwrpasol a hyrwyddo'r gwaith. Datblygu Fframwaith ar gyfer Uwch Swyddogion ac Aelodau. Ehangu ar ein fframweithiau darpariaeth hyfforddi/cefnogi drwy gyfarch anghenion yr ystod lefelau swyddi. Parhau i ddatblygu a chefnogi gwaith Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent. Parhau i sefydlu a gosod trefniadau Busnes a Chomisïynr er mwyn cael camau pendant o gomisiynu gwaith ac i sicrhau ansawdd i waith y gwasanaeth.

DD4 - Hyfforddiant

Nifer hyfforddiant sydd wedi rhedeg yn fisol




Sylw

Bu i 128 o gyrsiau hyfforddi redeg dros y cyfnod pum mis rhwng Ebrill ac Awst. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod o oddeutu un cwrs pob dydd wedi ei gynnal dros y cyfnod.

DD5 - Staff a Chynghorwyr wedi derbyn Hyfforddiant

Nifer staff a chynghorwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant yn fisol



Sylw

Mae nifer y staff sy'n mynychu ac yn derbyn hyfforddiant yn dilyn patrwm tebyg i'r llynedd, lle rydym yn gweld gostyngiad yn y niferoedd ym mis Ebrill (oherwydd y flwyddyn ariannol) ac ym mis Awst (gan fod mwy o bobl yn tueddu i fod ar wyliau). Byddwn yn parhau i gyflwyno cyrsiau hyfforddi yn ystod y misoedd hyn.

DD6 - Adborth o Ddigwyddiadau

Sylw

Ebrill
DISC - Sesiwn dda iawn y byddaf yn mynd yn ôl i'm man gwaith gyda mi. Mae'n well gen i'r sesiwn hon na'r un 2 ddiwrnod yr oeddwn wedi'i wneud o'r blaen. Rwy'n credu y byddai'r sesiynau hyn yn dda iawn i'w rhoi i'r holl staff o fewn y cartref.
Cynnal Cyfarfodydd Effeithiol - Sesiwn ymarferol, gwerthfawr, efallai cyplysu yr hyfforddiant efo hyfforddiant sut i gadeirio Cyfarfod?
Eich Lles Ariannol - Mae'n bwysig fod pawb efo dealltwriaeth o'r maes yma. O bosib, roedd y cynnwys yn rhy fanwl.
I-ACT - Wedi cael agoriad llygad o'r pethau all fod yn effeithio lles a iechyd meddwl staff, a fi'n hun!
Mai
Cydraddoldeb - LHDTCA+ - Roedd y cyflwynydd yn dda iawn ac yn rhedeg y sesiwn yn naturiol ac effeithiol. Roedd yn tanio diddordeb trwyddo ac yn cael pawb yn y grwp i gyfrannu. Byddai'n dda tasa'r sleids wedi bod ar 2 slide per page, gan bod y text yn ofnadwy o fychan.
Croeso - Roedd hwn yn Weithdy Croeso go iawn, gan i ni gael croeso neis iawn i Gyngor Gwynedd. Diolch yn fawr.
Gofyn a Gweithredu (Ask and Act) - Edrych ar sleidiau ar alwad teams am fore yn heriol. Dim digon o drafodaeth, fideos ayyb. Byddai sesiwn wyneb i wyneb yn well bosib.
Mehfin
Rhwydwaith Rheolwyr - teimlo fod tair elfen wedi bod yn ormod - roedd y cyflwyniad AI a'r Siarter Cwsmer yn newydd ac amserol. Falle rhywfaint o fynd dros hen dir gyda Ffordd Gwynedd neu fod modd gwneud y cyflwyniad yma'n fwy byr? Roedd yr ystafell ei hun yn dda a llawer haws a brafiach sgwrsio ynddi nag yn Gleri. Beth oedd ddim crystal oedd y sgrin - yn fach, ac anodd gweld oherwydd golau o'r to. Tebyg ei bod yn anodd gwneud llawer am hyn ond mi fyddai cael copi o'r sleids / cyflwyniadau er mwyn eu darllen yn iawn yn ddefnyddiol rwan.
IOSH RHeoli'n Ddiogel - Roedd y hyfforddiant yma yn 'spot on' chwarae teg. Roedd hyn yn ymestyn o'r adnoddau a strwythur yr hyfforddiant i'r tiwtor(iaid) oedd yn arbennig - roeddent yn amlwg yn gwybod ei stwff ond hefyd yn nabod y sefydliad a sut oedd materion lechyd a Diogelwch yn berthnasol mewn cyd-destun awdurdod lleol.
Mae wastad yn dda gwneud hyfforddiant gyda cyd-weithwyr o adrannau eraill o fewn y Cyngor gan fod hyn yn gyfle i ddysgu am ei profiadau nhw a hefyd yn gyffredinol i rhwydweithio a crwdd a cyfoedion.
Dwi di cael lot allan o'r hyfforddiant - wedi dysgu tipyn a wedi mwynhau y profiad. Diolch yn fawr am y cyfle. Fe fyddaf yn annog y rheolwyr i gyd o fewn y Gwasanaeth, os dyw nhw heb yn barod, i ymgymryd a'r hyfforddiant yma. Anodd i weld perthnasedd gyda timau sydd yn y swyddfa trwy'r amser. Gweld o'n gwrs mwy perthnasol i staff maes.

Gorffennaf
i Gwynedd Sylfaenol - Roedd yn glir ac roedd medru gwneud gweithgaredd ein hun o gymorth gan ei bod yn haws cofio rhywbeth ar ôl ei wneud eich hun yn gyffredinol. Roedd y cwrs yn sylfaenol, ond i fod yn deg, iGwynedd Sylfaenol oedd o ond roedd cyfle i gael gofyn cwestiynau o fudd. Bydd yn ddefnyddiol cael yr hyfforddiant tim sydd ar gael ac o bosib hyfforddiant iGwynedd uwch i ddangos pethau nad ydym o bosib yn gwybod y gall y system ei wneud. Defnyddiol oedd cael gwybod am Porth 365 sy'n caniatáu rhannu dogfennau gyda Chynghorau a sefydliadau eraill.
Excel Sylfaenol – Cyflwyniad gwyb i Excel. Trwyadl iawn a ddim yn or-symil chwaith. Fuasai ychydig mwy o amser i orffen y tasgau tra yn y sesiwn yn ddefnyddiol.
Awst
Cydraddoldeb – LHDTCA+: Sam wedi gwneud pawb deimlo'n hyderus i allu siarad yn agored a rhannu barn. Mwynheais y cwrs LHDTQ+ ddoe. Roedd yn llawn gwybodaeth werthfawr ac yn ymdrin a phynciau pwysig a pherthnasol. Roedd y trafodaethau'n fywiog ac adeiladol, gan greu awyrgylch cynhwysol ac agored lle'r oedd pawb yn teimlo'n gyfforddus i rannu eu safbwyntiau. Roedd Sam yr hyfforddwraig yn rhagorol ac yn annog sgrysiâu gonest ac ystyriol. Sesiwn hynod werthfawr a gadawodd effaith gadarnhaol arnaf - mi fyswn yn awgrymu i unrhyw un fynychu. Efallai bod yn fwy cynhwysfawr o'r hanes er mwyn rhoi cefndir mwy pendant pam mae'n bwysig ein bod ni'n bod yn ymwybodol o ffyrdd i fod yn fwy inclusive yn y gwaith, dwi'n meddwl byddai hyn yn ychwanegu at dyfnder y sesiwn.
Sgrysiâu Gwerthuso Parhaus (ar gyfer Rheolwyr ac Arweinyddion Tim): Roedd Mari yn cyflwyno yn arbennig ac roedd y tool -kit a gafwyd yn dda dros ben. Byddwn yn annog i unrhyw reolwr neu arweinydd tim sydd am fod yn gwerthuso i'w ffinychu y cwrs, boed yn reolwr profiadol neu beidio. Ella fasa gweithgaredd neu bach mwy o focus ar cyflwyno'r sgwrs dwy ffordd i'n staff wedi bod o gymrodd oherwydd fod gwerthuso fel label yn barrier i rai a mae na weithiau bach o waith o ran dwyn perswad mai rhywbeth defnyddiol i gefnogi staff ydy o yn hytrach na tick box exercise hierarchical sy'n rhyw fath o test. ella fod o yn y powerpoint sydd ar i gwynedd ond wnaethon ni ddim i fanylion cynnwys honno.

Dewis Blwyddyn

▼

2025-2026

▼

Dewis Chwarter

▼

Chw 1

▼

Dewis Mis

▼

Awst

▼

Democratiaeth a laith - Vera Jones

Pwrrpas

Cefnogi trefniadau democratiaeth y Cyngor a hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus
Cyfieithu - Darparu gwasanaeth cyfieithu safonol i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion Gwynedd
Democratiaeth - Darparu cefnogaeth o safon i Gynghorwyr Gwynedd
laith a Chraffu - Hyrwyddo a hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd y sir ac arwain ar drefniadau craffu Gwynedd

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch

Risgiau Oren3

Risgiau Melyn4

Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

DI1 - Taflenni Penderfyniad

% taflenni penderfyniad wedi eu cyhoeddi yn ddwyieithog o fewn 5 diwrnod gwaith

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

100.0%

100.0%

100.0%

100.0%

100.0%

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Ionawr

Chwefror

Mawrth

Sylw

Mae pob Taflen penderfyniad wedi ei gyhoeddi ar amser ers mis Ebrill 2025. Cyhoeddwyd un yn unig ym mis Awst.

DI2 - Bodlonrwydd Aelodau (Blynnyddol)

Sylw

I'w adrodd ar sail blynnyddol – i'w adrodd diwedd 2025/26
I'w adrodd ar sail blynnyddol – i'w adrodd diwedd 2025/26

DI3 - Gwasanaeth Cyfieithu

Sylw

Mae'r tîm wedi parhau'n brysyr iawn yn y cyfnod yma, gyda galw mawr am ein gwasanaeth, yn enwedig cyfieithu ar y pryd, o fewn y Cyngor ac yn rhanbarthol a chenedlaethol.

Un rhwystr parhaus yr ydym wedi'i wynebu ydi nad yw'n bosib cynnig y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd hybrid anffurfiol yn ystafelloedd cyfarfod y Cyngor gan nad yw safon y sain yn ddigon da. Mae'r gwasanaeth TG yn dal i edrych i mewn i hyn ac yn gobeithio gallu dod o hyd i ddatrysiad boddhaol i wella'r sain yn yr ystafelloedd hyn.

Mae problemau pellach wedi codi'n ddiweddar gyda chyfieithu ar y pryd o fewn Teams. Mae'n ymddangos nad yw'r platfform hwn yn cefnogi rhai cyfranwyr o'r tu allan i'r Cyngor i wrando ar y cyfieithiad Saesneg, ac mae hyn wedi effeithio ar rai cyfarfodydd, gydag ambell un wedi gorfod cael ei aildrefnu ar fyr rybudd. Mae'r mater wedi'i godi gyda'r Gwasanaeth TG, ond bellach mae Llywodraeth Cymru yn edrych i mewn i hyn gyda Microsoft gan nad yw hon yn broblem sy'n unigryw i'r Cyngor.

Mae'r tîm wedi derbyn adborth ffafriol iawn gan ein cwsmeriaid o fewn y Cyngor a'r tu allan, a dyma ddetholiad o'r sylwadau hynny:

"Diolch yn fawr iawn i chi am ymateb i hwn ar fyr-rybudd."
"Dim ond nodyn o ddiolch i chi'ch dwy am y cyfieithu heddiw, mi oedd o'n help mawr i ni. Gobeithio bod bob peth wedi mynd yn iawn i chi gyda'r trefniadau."
"Gwasanaeth gwych gan y tîm cyfieithu, diolch am eich ymateb cyflym (Prawfddarllen)."
"Diolch am ei wneud mor gyflym, ac am ymateb i'r cais munud-olaf i'w ryddhau'n gynt yn sgil amserlen cyflwyno adroddiadau."
"Tro cyntaf yn defnyddio'r gwasanaeth - gwych! Diolch yn fawr iawn am y gwaith prydlon a cywir - Bargyfreithiwr hapus iawn."
"Diolch gan Grŵp Plaid Cymru am y gwaith cyfieithu ar y pryd o safon uchel ym mhob cyfarfod grŵp"
"Diolch mawr am rhoi sylw brys ar y cyfieithiad yma - wir gwerthfarogi!"
"Diolch yn fawr iawn, iawn am safon uchel yn y gwaith. Clodwiw iawn."
"Gwaith trylwyr fel arfer. Diolch Meleri"

Tud. 284

DI4 - Gwasanaeth Craffu ac laith

Pwrpas

Darparu arweiniad, cyngor a hyfforddiant arbenigol ym meysydd Iechyd Diogelwch a Llesiant mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol. Hynny er mwyn galluogi'r Cyngor i gyfarch gofynion a lleihau risgiau mewnol.

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch

Risgiau Oren


Risgiau Melyn

Risgiau Gwyrdd

Cliciwch yma i weld y risgiau

ID1.1 - Adroddiadau RIDDOR (Chwarterol)

Hyd cyfartalog i gwblhau adroddiadau RIDDOR yn ystod y chwarter diwethaf



Sylw

Mae'r siart newydd yn dangos dyddiadau y bu i ddigwyddiadau sy'n adroddiadwy o dan reoliadau RIDDOR ddigwydd ac yna y dyddiad y cafodd y digwyddiadau eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Mae digwyddiadau'n adroddiadwy o fewn 10 neu 15 diwrnod yn ddibynnol ar eu categori RIDDOR.

Yn Chwarter 1, roedd 4 allan o 10 digwyddiad wedi eu hadrodd o fewn yr amserlen sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.


Yn anffodus, roedd 3 digwyddiad yn hwyr yn cael eu hadrodd oherwydd fo'r adroddiad digwyddiad yn hwyr yn cyrraedd yr Uned Iechyd a Diogelwch gan y rheolwr perthnasol.

Roedd 2 digwyddiad yn hwyr oherwydd fo'r aelod staff heb golli gwaith ond yn dilyn ymchwiliad cychwynnol bu i ni ddeall fo'r aelod staff wedi cael addasiadau i'w dyletswyddau. Mae absenoldeb o dros 7 diwrnod yn adroddiadwy o dan RIDDOR, ac mae'r angen am addasiadau i ddyletswyddau am dros 7 diwrnod hefyd yn adroddiadwy. Gweler fod 1 digwyddiad, cyfeirnod 69628, wedi ei adrodd ar ddiwrnod 90 sy'n bell dros y gofyn cyfreithiol. Nid oedd sicrwydd mai'r Cyngor sydd berchen ar y tir, gyda posibilrwydd mai Network Rail oedd yn berchen arno. Roedd trafodaethau ac yna chytundeb mae'r Cyngor sydd yn gyfrifol am y tir, ac felly cafodd y digwyddiad yna'i adrodd gennym.

ID2.1 - Cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol

Canran o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cael cyngor gan IG yn dilyn iddynt gael eu cyfeirio

Blwyddyn ● 2025-2026



Sylw


Derbyniwyd 52 cyfeiriad i'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn ystod mis Awst. Mae'r nifer cyfeiriadau bob amser yn is ar gyfer Awst oherwydd gwyliau'r Haf. Mynychodd 48 aelod staff apwyntiad yn yr Uned. Roedd 40 allan o'r 48 apwyntiad yn absennol o'r gwaith.

Yn dilyn ymyraethau megis rhaglen dychwelyd graddol, addasiadau rhesymol i enwi rhai mae 19 unigolyn wedi datgan eu bod yn dychwelyd yn ol i'r gwaith.

ID3.1 - Hyfforddiant IOSH (Chwarterol)

Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026



Sylw


Mae 74% o reolwyr (gan gynnwys Dirprwy Benethiaid Adran, Penaethiaid Ysgol, Rheolwyr Gwasanaeth, Arweinyddion Tim/Goruchwylwyr, a rheolwyr safle) wedi cwblhau hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel o fewn y dair mlynedd diwethaf - unai'r cwrs gwreiddiol neu gwrs adnewyddu.

Erbyn diwedd 2025, ar sail faint o reolwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau mis Medi - Rhagfyr, dylai fo'r ffigwr yn cynyddu i 78-79%.

ID3.2 - Hyfforddiant Rheoli Safle (Chwarterol)

Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs Rheoli Safle

Blwyddyn ● 2025-2026



Sylw


Mae 54% o reolwyr safle wedi cwblhau cwrs Rheoli Safle o fewn y dair mlynedd diwethaf - unai'r cwrs gwreiddiol wyneb yn wyneb, neu cwrs adolygu ar-lein.

Mae'r cwrs adnewydd yn newydd yn y misoedd diweddaf ac mae gwaith i godi ymwybyddiaeth ohono ymysg rheolwyr safle yn parhau ac rydym yn gobeithio bydd y canran yma'n cynyddu'n sylweddol cyn diwedd y flwyddyn.

ID3.3 - Hyfforddiant i-Act (Chwarterol)

Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs i-Act

Blwyddyn ● 2025-2026




Sylw

Mae 40% o reolwyr (gan gynnwys Dirprwy Benaethiaid Adran, Penaethiaid Ysgol, Rheolwyr Gwasanaeth, Arweinyddion Tim/Goruchwylwyr) wedi cwblhau hyfforddiant i-act o fewn y dair mlynedd diwethaf.

ID4.1 - Profion Clyw (Chwarterol)

Canran o'r profion ychwanegol clyw yn dilyn newid yn y gyfraith sydd wedi cael eu cynnal

Blwyddyn ● 2025-2026




Sylw

Cynhaliwyd brofion ar 60 aelod staff yn ystod chwarter 1. Mae 54 o'r rheini angen ei galw nol am brofion pellach yn dilyn newid yn y gyfraith.

ID5 - Cwswela (Chwarterol)

Canran o weithwyr sy'n derbyn mwy na'r pedwar sesiwn cwswela craidd

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026



Sylw

Mae cyfanswm o 87 aelod staff wedi derbyn cyfeiriad at MEDRA yn ystod chwarter 1. Mae 20 o'r staff hynny wedi derbyn mwy na'r pedwar sesiwn craidd ar gyfer cwswela.

Pwrpas

Galluogi'r Cyngor i drin a rheoli gwybodaeth yn gyfreithlon a'i ddefnyddio i wneud y penderfyniadau gorau, a galluogi'r cyhoedd i gael mynediad i ddata a gwybodaeth.

Switch to English

Risgiau Cyfredol



YG1 - Digwyddiadau Gwybodaeth

Nifer digwyddiadau gwybodaeth wedi eu hadrodd i'r Swyddog Diogelu Data

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Nifer

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

Medi

Hydref

Tachwedd

Rhagfyr

Chwefror

Mawrth

4	3	2	4	1							
---	---	---	---	---	--	--	--	--	--	--	--

Sylw

Ar hyn o bryd mae'r nifer digwyddiadau gwybodaeth yn sylweddol is na llynedd (9 hyd at ddiwedd Awst, o'i gymharu â 24 yr adeg cyfatebol yn 2024/25 [mae rhai achosion yn parhau'n destun ymchwiliad, gyda phosibilrwydd felly bydd y nifer adroddir fyfryn yn uwch erbyn dyddiad y cyfarfod herio, gan bod y siart yn defnyddio data 'byw']).

'Does dim patrwm amlwg i'w weld yn y gostyngiad yma; y categori unigol mwyaf yw gwybodaeth e-bostiwyd at y derbynnydd anghywir (3 o'r 9 digwyddiad eleni); mae'r niferoedd yma wedi gostwng o'i gymharu â'r adeg yma llynedd (11 o'r 24 digwyddiad) ond cafwyd gostyngiad tebyg yn y categorïau eraill o ddigwyddiadau hefyd. Mae'n ymddangos felly y gallai'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth yn y maes yma, gan roi sylw arbennig i e-byst, fod yn dechrau dwyn ffrwyth ond fe fydd angen parhau i gadw golwg ar dueddiadau dros gyfnod hwy.

Wedi dweud hynny, mae'r nifer digwyddiadau oedd ddigon difrifol i'w hadrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth ar yr un lefel â llynedd (sef 2 ddigwyddiad).

YG1a - Digwyddiadau Gwybodaeth - Ysgolion

Nifer digwyddiadau gwybodaeth wedi eu hadrodd i'r Swyddog Diogelu Data

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Nifer

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Medi

Tachwedd

Rhagfyr

1	1	1	1	2		
---	---	---	---	---	--	--

Sylw

Hwn yn fesur newydd eleni yn dilyn trosglwyddiad y swyddogaeth cynghori ar ddiogelu data ysgolion i'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth.

Adroddwyd 3 digwyddiad gwybodaeth hyd yma eleni (Ebrill - Awst); bydd angen edrych ar batrymau dros y tymor hwy i sefydlu pa fath o lefel sy'n 'arferol' ar hyn o bryd (ar yr wyneb mae 3 digwyddiad yn edrych yn uchel o'i gymharu â'r cyfanswm o 4 adroddwyd llynedd, ond mae trefniadau cofnodi ac adrodd digwyddiadau gwybodaeth ysgolion wedi'u cryfhau ers hynny).

YG2 - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Canran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith

Blwyddyn

2025-2026

Canran

Ebrill

Mai

Mehefin

Gorffennaf

Awst

84.4%	92.2%	88.1%	89.3%	95.8%
-------	-------	-------	-------	-------

Sylw

* Ffigwr mis Awst yn amodol ar hyn o bryd gan nad yw dyddiad targed nifer o geisiadau gyrhaeddodd yn Awst wedi bod eto *

Yn cael ei fesur ar sail misol am y tro cyntaf eleni, ond perfformiad blwyddyn lawn 2024/25 oedd 76%.

Mae gwelliant sylweddol wedi bod felly, gyda perfformiad i weld wedi sefydlodi o gwmpas 90% erbyn hyn.

Tybir bod y gwelliant yma yn deillio o ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r maes a chryfhau trefniadau, a proffil uwch y pwnc yn gyffredinol yn dilyn archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar drefniadau'r Cyngor yn gynharach eleni. Mae'r rhaglen waith ar gyfer ymateb i hyn yn parhau.

Hefyd, mae dashfwrdd Power BI newydd wedi'i gyhoeddi er mwyn galluogi swyddogion i gadw golwg 'byw' ar niferoedd a pherfformiad ymateb ceisiadau fesul Adran ac ymateb i unrhyw broblemau fel maent yn codi.

YG3 - Ceisiadau Diogelu Data (Chwarterol)

Canran Ceisiadau Diogelu Data atebwyd o fewn yr amserlen

Blwyddyn

2024-2025

2025-2026

Canran

Chwarter1

Chwarter2

Chwarter3

Chwarter4

72.0%			
-------	--	--	--

Sylw

Derbyniwyd 18 cais yn ystod y chwarter, gyda 13 wedi'u hateb ar amser.

Mae'r canran ymateb yn tueddu i amrywio fesul chwarter o fewn niferoedd cymharol fach o geisiadau; hefyd roedd hanner y ceisiadau dderbyniwyd yn ymwneud â'r maes Plant gyda nifer o'r rhain yn gymhleth a heriol i ymateb iddynt. Mae pryder am yr adnodd sydd ar gael i ateb y ceisiadau pe bai niferoedd / cymhlethdod ceisiadau ym maes Plant yn parhau ar y lefel yma.

YG3a - Ceisiadau Diogelu Data - Ysgolion (Chwarterol)

Canran Ceisiadau Diogelu Data atebwyd o fewn yr amserlen

Blwyddyn

2025-2026

Canran

Chwarter1

100.0%

Sylw

Mesur ydd newydd, yn dilyn trosglwyddiad swyddogaeth cynghori ysgolion ar Ddiogelu Data i'r Gwasanaeth yma. Derbyniwyd 5 cais yn ystod y chwarter.

YG4 - Prosiectau Ymchwil a Gwybodaeth

Sylw

Rydym yn anfon holiadur bodlonrwydd cwsmer blynyddol i ddefnyddwyr y Ganolfan Gofnodion (storfa ffeiliau papur y Cyngor, ar lawr uchaf adeilad Penrallt). Mae canlyniadau'r holiadur diweddaraf yn dangos 100% o ddefnyddwyr yn barnu bod y gwasanaeth yn 'Ardderchog' neu 'Dda' (ar sail 30 ymateb), gyda sylwadau'n cynnwys:
"Dwi wedi derbyn gwasanaeth arbennig iawn gennyh chi"
"Proses a chamau clir yn ei le, mae'r staff yn amyneddgar, ffeind ac yn barod i helpu os tydi rhywun ddim yn sicr efo proses y Ganolfan"
Cafwyd nifer o sylwadau manwl defnyddiol hefyd y byddwn yn mynd ar eu hôl i wella elfennau o'r trefniadau.

Dros y misoedd diwethaf mae swyddogion y Gwasanaeth wedi bod yn cydweithio ag adrannau eraill ac ymgynghorydd allanol ar brosiect i drawsffurfio'r modd y mae'r Cyngor yn ymdrin â data, fel rhan o Gynllun Digidol y Cyngor. Mae'r prosiect (yn y ffurf yma) yn parhau tan fis Hydref a bydd y cynnyrch yn cynnwys:
- Siarter Data, fydd yn gosod fframwaith ac arweiniad i staff am bob agwedd o drin, rhannu a chyfleu data
- Astudiaethau achos yn dangos sut mae defnyddio data yn gallu arwain at well gwasanaethau i drigolion Gwynedd, y gallwn eu defnyddio wedyn i hyrwyddo'r agenda yma ar draws y Cyngor
- Eglurder i'r dyfodol ar ddefnydd y Cyngor o blatfformau dadansoddi a chyfleu data
- Sefydlu rhestr o systemau a meysydd data, fydd yn sylfaen i waith pellach ar wella safonau data.

Fel arall, mae gwaith diweddar y tîm Ymchwil wedi canolbwyntio ar anghenion tystiolaeth rhai o brif gynlluniau'r Cyngor gan gynnwys ym meysydd ail gartrefi, gofal, digartrefedd a thlodi. Mae'n werth nodi hefyd y bu'r tîm yn rhan o grŵp bychan o gynghorau gafodd fynediad i ganlyniadau cychwynnol ymarferiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddefnyddio data gweinyddol i amcangyfrif ffigyrau poblogaeth (y bwrriad oedd defnyddio hyn yn hytrach na chynnal Cyfrifiad). Fe godwyd pryderon gennym ni ac eraill am rai o'r canlyniadau yma, ac maent wedi cytuno bellach i argymell i Lywodraeth y DU gynnal Cyfrifiad unwaith eto yn 2031. Mae hyn yn newyddion da o safbwynt pa mor gywir a dibynadwy fydd ffigyrau poblogaeth i'r dyfodol (gan hefyd leihau'r risg cyllidol i ni pe bai ffigyrau anghywir yn cael eu defnyddio mewn fformiwlau cyllido), yn ogystal â sicrhau y bydd data Cyfrifiad yn parhau i fod ar gael ar gyfer meysydd fel nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn parhau i gadw llygad ar yr agenda yma.

Yn ôl

Ymlaen



Tud. 286

Pwrrpas

Cefnogi rheolwyr a staff i fod yn fodlon a chynhyrchiol yn eu gwaith, trwy roi cyngor ac arweiniad ar faterion cyflogaeth a chydaddoldeb a hyrwyddo arferion da yn y ddau faes. Arwain y gwaith o ddatblygu'r amodau gwaith lleol, a sicrhau fod materion cydraddoldeb yn ganolog i waith ein holl wasanaethau.

Switch to English


Risgiau Cyfredol



Cliciwch yma i weld y risgiau

AD01 - Dyddiau Salwch

Nifer o ddyddiau salwch staff y pen yn y Cyngor ar gyfartaledd




Sylw

Ar adeg ysgrifennu'r sylwadau hyn, mae'r ffigwr diweddaraf yn adlewyrchu'r cyfnod rhwng misoedd Ebrill ag Awst. Er ei bod hi'n gynnar yn y flwyddyn adrodd, mae'r patrwm hyd yn hyn yn dilyn y patrwm blyneddol, gyda ffigwr cyfartaledd cronnus o 4.43 diwrnod y pen wedi ei golli ar draws holl wasanaethau'r Cyngor (gan gynnwys ysgolion) i absenodebau salwch dros y tri mis dan sylw, o'i gymharu â 4.23 ar yr un cyfnod y llynedd.

Bydd dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ar gyfer 2024/25 i'r Tim Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol yn ystod yr Hydref, fel sail i ddatblygu camau gweithredu.

AD02 - Pwyllgor Apel Cyflogaeth (Blyneddol)




Sylw

I'w adrodd ar sail blyneddol - i'w adrodd wedi diwedd 2025/26

AD03a - Disgyblaeth

Nifer dyddiau gymerwyd i gwblhau achosion disgyblu staff




Sylw

Mae'r tuedd yn y graff yn dangos fod y cyfnod amser i ddatrys achosion disgyblu yn gostwng, gyda'r cyfartaledd dyddiau yn 44 erbyn hyn. Mae hyn yn galonogol iawn wrth gwrs, ond rhaid cofio fod perfformiad yn y maes hwn, boed yn galonogol neu bryderus, yn dibynnu ar lawer o ffactorau ac felly yn gallu bod yn anwadal; rhai o'r ffactorau hynny ydi cymhlethdod a ffactorau unigryw achos, heriau a phwysau gwaith ar y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, yr adrannau sydd yn cyflogi, ac ymwneud asiantaethau allanol weithiau ac amgylchiadau y sefyllfa.

AD03b - Cwynion (Chwarterol)

Nifer achosion cwynion staff




Sylw

Cyflwynwyd 4 o gwynion ffurfiol gan staff yn ystod chwarter 1. Mae 2 o'r rheini yn parhau yn agored. Yn ychwanegol i hynny, mae un achos o'r flwyddyn 2024/25 yn parhau i fod yn agored.

AD04 - Perfformiad cwblhau Arfarniadau Swydd

Nifer dyddiau i gwblhau arfarniad swydd



Sylw

Mae'r mesur yn dangos fod y cyfartaledd ar gyfer cwblhau arfarniadau ar swyddi yn gostwng. Ar ddiwedd 2024/25, roedd y cyfartaledd yn 49.04 diwrnod, ond erbyn diwedd Awst eleni roedd y ffigwr yn 35.09 diwrnod. Fel sydd wedi ei adrodd yn y gorffennol, mae'r wybodaeth yma yn adlewyrchu perfformiad y tîm yn y maes yma, ond mae'r perfformiad hwnnw hefyd yn dibynnu ar y nifer ceisiadau sydd yn cyrraedd, ochr yn ochr â'r materion eraill sydd angen eu blaenoriaethu gan y tîm.

AD99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw

Rydym yn aros am ganllawiau manwl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dilyn dilyn dyfarniad cyfreithiol For Women Scotland vs The Scottish Ministers. Er bod y dyfarniad wedi dod i rym yn syth ar ei gyhoeddiad yn Ebrill 2025, yn ymarferol mae'r dyfarniad yn golygu bod angen i sefydliadau ystyried sut y gallant gyfarch gofynion y cyfreithiau perthnasol yn llawn. Mae cyhoeddi canllawiau manwl gan y Comisiwn yn allweddol i hynny.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	16 Hydref 2025
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Corfforaethol a Chyfreithiol
RHESWM DROS GRAFFU	Cyflwyno perfformiad y Gwasanaethau Cyfreithiol dros y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau fod Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib.
AWDUR	Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol
AELOD CABINET	Cynghorydd Llio Elenid Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg

GWASANAETH CYFREITHIOL

Nia Grisdale – Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol

Pwrrpas : Darparu gwasanaeth cyfreithiol i'r Cyngor sydd yn ei alluogi i weithio yn effeithiol er budd pobl Gwynedd ”

% yn sgorio 5/5 neu Bodlon lawn gyda’r Gwasanaeth 2024 / 2025 93%	% yn sgorio 5/5 neu Bodlon lawn gyda’r Gwasanaeth 2023 / 2024 81%	% yn sgorio 5/5 neu Bodlon lawn gyda’r Gwasanaeth 2022/2023 100%
---	---	--

2025-2026														
Sgôr	Canran	Ebrill	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chw	Maw	
Bodlon lawn 5	91%	19	11	7	8	7								52
Bodlon 4	9%	1		1	3									5
Gweddol Fodlon 3														
Anfodlon 2														
Anfodlon lawn 1														
Cyfanswm holiaduron wedi ei dychwelyd		20	11	8	11	7								57
Nifer wedi ei yrru allan		40	29	23	74	77								243

Mae perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy geisio adborth yr Adrannau sydd yn derbyn gwasanaeth. Fe gloriannir barn yn erbyn graddfa 1-5 ar ffurf e-bost syml ac mae'r trefn fonitro wedi gwella. (5 = Bodlon iawn lawr i 1 = Hollol Anfodlon). Mae hefyd yn bosibl i adrannau ychwanegu sylwad ynghyd a sgôr. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024 – 2025, canlyniad y flwyddyn oedd fod 100% yn fodlon iawn neu yn fodlon gyda'r gwasanaeth. Gwelir fod y canran o fodlonrwydd llwyr wedi codi dros y misoedd diwethaf o'r flwyddyn ariannol sydd yn adborth bositif iawn.

Daethpwyd a system newydd o fod yn gofyn am adborth drwy lenwi holiadur ar e-bost i rym ers mis Mawrth 2024. Bu i broblemau technegol amharu ar y gwaith yma yn ystod cyfnodau o'r flwyddyn sydd wedi amharu ar y gwaith o gasglu data. Gwelir yn 2024-2025 mai dim ond tua 14% o'r holiaduron sydd wedi cael ei dychwelyd sydd yn amlwg yn isel ond tros y flwyddyn mae gwaith wedi ei wneud ar hyrwyddo ac annog Cleientiaid i gwblhau ymatebion. Yn sicr mae gwellhad i'w weld yn ystod misoedd cyntaf 2025-2026 gyda 23% yn dychwelyd yr holiadur.

O ran yr ymateb sydd wedi ei dderbyn, mae'n galonogol fod nifer o sylwadau ychwanegol yn cael ei rhoi ar yr holiadur gan ymateb yn dweud:

“Hapus iawn gyda safon ac amseriad y gwasanaeth”

“Boddhaol iawn - diolch yn fawr”

“gwaith gyflym gyda dim problemau i adrodd. Hapus iawn.”

“Gwasanaeth ardderchog unwaith yn rhagor”

“Gwasanaeth gwyb fel arfer”

“Profiad da iawn o weithio gyda'r gwasanaeth i godi arwystl yn erbyn y grant. Braf gallu cau un cyswllt penodol o fewn y gwasanaeth”

“Profiad gwyb, roedd y cyngor dderbyniais cyn rhyddhau'r cytundeb yn wych, ac wedi gweithredu ar selio'r ddogfen yn sydyn iawn.
gwaith gret ac ar amser.”

“Gwaith yn drylwyr ac wedi fy arwain drwy'r broses gan mai hwn oedd y tro cyntaf i mi ddelio gyda mater o'r fath. Canlyniad yr oeddwn i a'r cyhoedd wedi ei gyrraedd, oedd yn caniatáu i ni weithredu.”

“Wedi ymateb i'r cais am Drwydded yn gyflym iawn a hynny yng nghanol cyfnod y Nadolig gyda gwyliau ayyb wedi eu trefnu. Y clientiaid ar yr ochr arall heb fod yn rhwydd i ddelio â nhw ond wedi delio hefo nhw yn wych a llwyddo i'w cael i lofnodi'r cytundeb.”

“Mwy o adnoddau i cynorthwyo'r cyfreithwyr i chwblhau'r gwaith mewn amserlen mwy rhesymol.”

“Ansawdd gwaith ardderchog ond amserlen hir i gwblhau'r cyfrwyddiadau.”

“Gwasanaeth proffesiynol ac amserol”

“Siomedig bod yr achos wedi bod ar agor am nifer o flynyddoedd ac wedi cael ei ddelio gan sawl cyfreithiwr locwm heb gynnydd ondwedi dychwelyd ac wedi gweithio gwyrthiau i gwblhau'r mater yma mewn amserlen sydyn iawn ac wedi cyfathrebu diweddariad i ni yn rheolaidd.”

“Mwy o adnoddau i cynorthwyo'r cyfreithwyr i chwblhau'r gwaith mewn amserlen mwy rhesymol.”

“Ansawdd gwaith ardderchog ond amserlen hir i gwblhau'r cyfrwyddiadau.”

“-Pob peth yn positif iawn”

“hapus iawn ar Profiad”

“Dim problemau a bob dim wedi digwydd yn esmwyth - diolch Erin!”

Gwasanaeth proffesiynol ac amserol“

„Wedi cwblhau'r achos yma yn syth a hynny heb ddim rhag-rybudd ei fod ar y ffordd. „

„Profiad da ac agos ac onest adeiladol symud pethau ymlaen Adborth yn fan a'r lle – Cyswllt rheolaethol – Edrych ar sgwrs gyda Penaethiaid yn flynyddol – Drws yn agored. „

Yn ogystal ar holiadur ar ddiwedd pob achos, mae holiadur blynyddol wedi ei anfon i Benaethiaid a Rheolwyr adran yn gofyn am ei barn ynglŷn ar gwasanaeth ar y cyfan. Cafodd yr holiadur ei anfon ganol Chwefror ac cafwyd tua 33% o ymatebion. Cafwyd atebion cadarnhaol iawn gyda phob ymateb yn dweud fod y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd yn dda neu yn dda iawn.

- Rydym yn derbyn cyngor a chymorth cyfreithiol ym materion moderneiddio addysg ac eiddo addysg, prydles ayyb
- Credu bod y cyswllt wedi gwella yn ddiweddar ac yn ymateb i'n cwestiynau yn gynt. Mae'r cyswllt yn gyfeillgar ac yn hawdd siarad gyda nhw. Mae'r arweiniad yn safonol a thrylwyr.
- Rwy'n teimlo ein bod yn derbyn gwasanaeth gwych - ymateb amserol a wastad yn gefnogol i'r gwasanaeth.
- Ardderchog, hynod gefnogol a gwerthfawr
- Dros y flwyddyn diwethaf wedi cael tipyn o gefnogaeth gan yr adran gyfreithiol a'r broses wedi bod yn hwylus iawn. Wedi bod yn help mawr gallu cael cyswllt gyda un cyfreithiwr ar gyfer yr holl gefnogaeth ac hyn wedi hwyluso pethau
- cefnogaeth ardderchog. ymateb prydlon a trwyadl.

O ran awgrymiad sut i wella y gwasanaeth i'r dyfodol a beth yw'r heriau, cafwyd ymatebion i'w ystyried yn ogystal ag un cadarnhaol

- Yr her fwyaf yw eu capasiti ac mae amser weithiau rhwng ymatebion gan greu oedi, a fel mae'n digwydd mae gennym nifer o gwestiynau wedi codi y ddiwedder 'run pryd.
- dim angen gwella
- Bydd angen mwy o adnodd i ddelio gyda llwyth gwaith sydd i ddod gan yr adran yn y misoedd nesaf.

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn parhau i ddatblygu y Tim Cyfreithiol i greu gwytnwch o fewn y Tim

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r adran wedi bod yn rhan o Gynllun Yfory ers rhai blynyddoedd ac wedi elwa o gyflogi hyfforddai sydd wedyn wedi symud ymlaen i gymhwyso ac yn gweithio o fewn yr adran fel cyfreithiwr.

Ymhellach, mae'r adran hefyd wedi manteisio ar y cynllun prentisiaeth ac wedi cyflogi prentis paragyfreithol cyntaf yr adran. Mae hyn y gweithio'n dda ac mae'r prentis wedi dechrau ar ei chymhwyster Paragyfreithiwr ac yn gymorth mawr i gyfreithwyr yr adran.

Mae'r gwasanaeth wedi symud ymlaen o'i heriau recriwtio blaenorol a gall ganolbwyntio ar ddarparu a gwella'r gwasanaeth ar gyfer Adrannau'r Cyngor

Yn dilyn rhai o'r sylwadau sydd wedi ei dderbyn fel canlyniad i'r holiaduron a'r adborth gan benaethiaid bydd asesiad o gapasiti a arbenigedd o fewn yr adran yn cael ei ystyried yn reolaidd i sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion ein cleientiaid.

Byddwn yn edrych i gwblhau gwaith wedi ildio achrediad Lexcel ar gyfer cynnal systemau priodoldeb a safonau proffesiynol

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r adran bellach wedi ymgorffori system rheoli achosion newydd ac wedi edrych i gyfarch nodweddion o'r cymhwyster Lexcel a fyddai o fudd ar gyfer yr adran. Rydym yn edrych yn benodol ar ffurf o gefnogi ein gilydd drwy adborth cyd weithwyr ar achosion drwy adolygiadau ffeil (ildwyd yr

achrediad fel arbediad) Nid oes bwriad i geisio am y cymhwyster Lexcel ond yn hytrach i ddefnyddio rhai or egwyddorion i ddatblygu y ffordd o weithio ac i gryfhau sustemau.

Be ydan ni wedi bod yn ei wneud, esiemplau:

- Cefnogi Gwaith Erthygl 4, adran cynllunio, risgiau her
- Cefnogi penderfyniad i apelio dyfarniad yr Uchel Lys ar y gwaith Erthygl 4
- Achosion amddiffyn plant – nifer fawr yn ymwneud gyda anafiadau a ceisiadau am ofal 'secure'.
- Ymdrin a chynghori ar faterion cyflogaeth gan gynnwys gerbron Tribiwnlysoedd Cyflogaeth
- Cefnogi sawl prosiect Strategaeth Tai – Pryniant o oddeutu 15 tŷ newydd dros gyfnod o 12 mis yn ogystal a Chynllun grantiau prynu tro cyntaf a addasu tai gwag yn brysur
- Gwaith yn dal i fynd ymlaen ynglŷn a datblygu Menai Centre Bangor ar y cyd hefo Llyw Cymru a Betsi
- Wedi gweithredu grant i helpu Galeri brynu nifer o adeiladau a uwchraddio rhai eraill yng Nghaernarfon
- Adnewyddu prydles yn Penrallt sydd yn dod a incwm da i'r Cyngor Gwynedd
- Wrthi yn gweithio ar 'Joint Venture' Parc Busnes Eryri ar y cyd hefo Llyw Cymru
- Ymdrin a cheisiadau DOLS o flaen y Llys Gwarchod a materion "ordinary residence" gan sicrhau fod Awdurdodau eraill yn derbyn cyfrifoldeb am unigolion nad oedd yn gyfrifoldeb i Wynedd.
- Casglu dyledion Gwasanaethau Cymdeithasol (£800k wedi dod i mewn dros 18 mis)
- Nifer o erlyniadau gan gynnwys materion amgylchedd a chynllunio, materion iechyd a diogelwch, a hefyd rhieni sy'n methu sicrhau presenoldeb eu plant mewn ysgol;
- Gorchmynion Traffig
- Cefnogaeth gyfreithiol yn deillio o sefyllfa Friars.
- Paneli Apêl Addysg
- Gorchmynion wrth newid rhwydwaith hawliau cyhoeddus o fewn y sir.
- Cynghori ar Ddeddfwriaethau newydd – Deddfwriaeth Caffael 2023; Prosesau Arbennig o dan Ddeddf Iechyd Gyhoeddus;
- Memorandwm o Ddealltwriaeth Ymddiriedolwyr Amgueddfa Lloyd George

PRIODOLDEB

Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro.

Pwrpas : Cynnal hyder pobl Gwynedd yn y Cyngor drwy sicrhau a hyrwyddo priodoldeb ei weithgareddau a'r safon uchaf o ymddygiad ymhlith cynghorwyr .

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau y Cyngor o safbwynt sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddiaeth.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r gwaith yma yn barhaol ond yn benodol bwriedir cynnal cyfres o seminarau "Penderfyniadau Da" o Hydref ymlaen. Amcan y cyrsiau yw esbonio hanfodion penderfyniadau mewn cyrff

cyhoeddus ynghyd a'r fframwaith gyfansoddiadol a rheoleiddio sydd ynglŷn a'r maes yma. Rydym yn disgwyl i gadarnhau dyddiadau gyda'r Gwasanaeth Hyfforddiant .

Rydym yn darparu sylwadau a barn ar bob adroddiad Cabinet a Chyngor Lawn er sicrhau priodoldeb cyfreithiol a chyfansoddiadol ynghyd a chynghori yn gyffredinol ar faterion megis y corff penderfynu cywir a materion polisi a strategol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau ynghyd a swyddogion perthnasol i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae trefniadau ar gyfer gweithredu y dyletswydd arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn lle ond amlygwyd angen i ail sefydlu ffocws ar y gwaith .

Mae'r gwaith yn waith parhaus ac mae cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Arweinyddion Grwpiau yn ystod Medi . Bydd ffrwyth y gwaith yma yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Safonau ond mae'r canlyniadau yn gadarnhaol a'r lefel o gydweithio yn dda.

Byddwn yn cwblhau gwaith o hyfforddi aelodau Cyngor Gwynedd mewn materion Cod Ymddygiad drwy gynniig sesiynau hyfforddiant manwl ar y Cod i aelodau sydd heb fynychu.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Cynhaliwyd cyrsiau yn Rhagfyr a Ionawr 24/25 a darparwyd recordiad hefyd at ddefnydd yr aelodau sydd ar gael ar lein gyda prawf i'w gwblhau . Mae yn un o'r cyrsiau creiddiol ond mae yna dal aelodau nad ydynt wedi manteisio ar y cwrs ac mae hyn yn cael ei drafod gyda Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol unigol er tynnu sylw ac annog yr aelodau i gwblhau yr hyfforddiant. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Arweinyddion i bwysu ar aelodau nad ydynt wedi cymryd mantais or' cwrs ar lein bellach i gwblhau y gwaith.

Byddwn yn cefnogi y Pwyllgor Safonau i ddatblygu trefniadau i weithredu ei gyfrifoldebau tuag at Gynghorau Tref a Chymuned drwy gynniig sesiynau hyfforddiant.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Bu i'r Pwyllgor Safonau gynnal arolwg o'r cyd berthynas gyda Cynghorau Tref a Chymuned ac adnabod fod angen symud i gryfhau y bartneriaeth yma. I gyfarch hyn mae cwrs hyfforddiant rhithiol wedi ei baratoi ar eu cyfer a cynhaliwyd dau gwrs cychwynnol erbyn diwedd y flwyddyn gyda cynniig ar lein hefyd ar gael. Bydd y ddarpariaeth yma yn gynniig sefydlog i'r Cynghorau Tref a Chymuned wrth symud ymlaen .

Byddwn yn adolygu a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cefnogi gofynion ar y Gwasanaeth sydd yn deillio o waith rhanbarthol

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Wrth i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd symud i fod yn weithredol mae cynnydd ar draws y bwrdd mewn gofyn am adnoddau. Mae'r cyfnod cyfredol yn benodol heriol oherwydd fod nifer o elfennau o waith y CBC yn dod yn weithredol yn ystod y c chwarter cyfredol . Yn ogystal mae llywodraethau y DU a Chymru ar y cyd wedi gosod cyfrifoldeb corff atebol rhanbarthol am y Parth Buddsoddi (Investment Zone) Siroedd Flint a Wrecsam ar y CBC. Ychwanegwyd at hyn

wrth i gyfrifoldeb am grant Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei briodoli i'r CBC . Er fod cyfnod arwain mewn mae hyn yn cynyddu y gwaith. Yn ogystal mae'r tim gyda darpariaeth Locum wedi bod yn arwain ar y gwaith o sefydlu Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a dechrau ar y gwaith sefydlu y drefn craffu drwy'r Cyd Bwyllgor Craffu Rhanbarthol. Roedd y Gwasanaeth a rôl arweiniol yn sicrhau trosglwyddiad Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r CBC. Mae hyn wedi creu llwyfan i symud i gyfundrefn CLG tymor hir a rhyddhau adnoddau i recriwtio. Mae'r adnoddau ariannol mewn lle yng nghyllideb y Cyd Bwyllgor Corfforedig a bwriedir symud ymlaen i recriwtio swydd Cyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro CBC. Fodd bynnag mae twf yn y CBC yn golygu ei bod yn amserol hefyd i fod yn adolygu y gofynion yn y tymor canolig a hir,

Byddwn yn parhau i gadw y Cyfansoddiad dan adolygiad gan anelu i gwblhau y prif ddasgau erbyn Rhagfyr 2025

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Bydd hyn yn cynnwys:

Adolygu cynlluniau dirprwyo Swyddogion

Adolygu darpariaethau Adran 11 Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad ar cyd gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol

Cyfrannu at y gwaith o adolygu Trefn Canu'r Gloch

Diweddarau yn ôl yr angen

Rhaid cydnabod fod y gwaith yma yn lled barhaol ac yn ymateb i ofynion sydd yn newid hefyd.

Be ydan ni wedi bod yn ei wneud, esiamplau:

- Cyngori ar bob adroddiad Cabinet a Cyngor
- Cefnogi a chynghori ar faterion cyfansoddiadol sydd yn codi yn ôl yr angen
- Rhoi arweiniad priodoldeb ar faterion Tim Arweinyddiaeth
- Adolygu y Cyfansoddiad yn benodol swyddogaethau Cyngor Llawn ac Asesiad Perfformiad Panel
- Cyngori ar faterion Ysgol Uwchradd benodol
- Ymateb i gynnydd mewn cyflymder dod a prosiectau ymlaen yn sgil adolygiad o waith y Swyddfa Portffolio CBC
- Arwain ar y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Craffu rhanbarthol ar gyfer y CBC
- CBC – cynghori ar lywodraethant sefydlu Cyfansoddiad newydd ar gyfer y corff – Dechrau gwaith ar baratoi at drosglwyddiad BUE i CJC
- Cyngori ar faterion priodoldeb a chyfansoddiadol yn gyffredinol
- Cefnogi Aelodau gyda materion Cod Ymddygiad

ETHOLIADAU A CHOFRESTRU ETHOLIADOL

Siôn Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

Pwrpas : Sicrhau fod gan bobl Gwynedd y cyfle i bleidleisio'n hwylus, a bod eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd y maent yn ei fwriadu.

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn gweithio i gefnogi'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn benodol yn cyfarch:

Cynnal Etholiadau

Beth sydd wedi ei gyflawni ?

Cynhaliwyd is-etholiad sirol ar gyfer ward Abermaw ym mis Awst 2025. Mae'r gwaith o drefnu is-etholiad sirol pellach wedi cychwyn.

Paratoi ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2026

Bydd yr etholiad yn cael ei gynnal ar sail etholaethau newydd a chan ddefnyddio system bleidleisio newydd. Bydd yr etholaeth newydd 'Gwynedd Maldwyn' yn gyfuniad o etholaethau seneddol y DU Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn a Glyndŵr, ac yn cynnwys rhannau o ardaloedd pedwar awdurdod lleol. Prif Weithredwr Gwynedd sydd wedi ei benodi fel y Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholaeth, a bydd goblygiadau sylweddol i'r gwasanaeth yn sgil maint daearyddol yr etholaeth, nifer y pleidleiswyr a'r trefniadau traws-ffiniol angenrheidiol. Mae'r gwaith cynllunio wedi cychwyn yn ogystal ag archwiliad o'n hadnoddau. Bydd angen sefydlu trefniadau traws-ffiniol pellach mewn perthynas â'r rhan hynny o Wynedd fydd yn etholaeth 'Bangor Conwy Môn'.

Cynnal Arolwg Cymunedol Statudol

Byddwn yn cynnal proses Arolwg Cymunedol Statudol gan edrych ar ffiniau rhai cymunedau penodol a'r trefniadau etholiadol (wardiau a chynghorwyr) o fewn y cymunedau ar draws y sir.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Yn dilyn gwaith cychwynnol o gasglu a chloriannu gwybodaeth ac ymgysylltu cymeradwywyd y bwriad a'r cylch gorchwyl i gynnal adolygiad cymunedol ac adolygiad o drefniadau etholiadol yn gyfochrog. Ers hynny cynhaliwyd y camau statudol canlynol:

- Tachwedd/Rhagfyr 2024 – Cyfnod ymgynghori cyntaf ar y cylch gorchwyl
- Mawrth 2025 - Cymeradwyo cynigion drafft
- Mawrth – Mai 2025 - Cyfnod ymgynghori ar y cynigion drafft

Y camau nesaf

Bu llithriad yn yr amserlen sy'n golygu bod y cynigion terfynol wedi eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 3 Hydref 2025. Bydd rhaid i unrhyw newidiadau i ffiniau cymunedau dderbyn cymeradwyaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd a'r grym i wneud y gorchymyn angenrheidiol. Bydd y newidiadau yn dod rym yn 2027 mewn pryd ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf.

Cynllun Peilot Cofrestru Awtomatig Llywodraeth Cymru

Rydym wedi gwirfoddoli i fod yn un o'r pedwar awdurdod ar draws Cymru sy'n rhan o'r cynllun. Mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 wedi cyflwyno system cofrestru etholiadol heb gais ('cofrestru awtomatig') ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a Senedd Cymru, ond rhaid i'r drefn gael ei threialu cyn gall ddod i rym ar gyfer Cymru gyfan er mwyn asesu'r goblygiadau ymarferol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru etholwyr heb dderbyn cais, lle bydd ganddynt fanylion digonol . Bydd unigolyn cymwys yn derbyn hysbysiad ac yn cael cyfle i wrthwynebu i'r cofrestriad o fewn 60 diwrnod.

Beth sydd wedi ei gyflawni ?

Mae dwy brif ffrwd i'r gwaith.

1. Y broses graidd o gasglu a pharu data i adnabod unigolion a'u cofrestru.
2. Adnabod ac ymgysylltu ag unigolion na fydd y broses paru data yn debygol o'u hadnabod, a'u hannog a'u helpu i gofrestru. Mae cwmni 'Small Axe' yn arwain ar y gwaith yma ar ein rhan. Maent yn adnabod ardaloedd a grwpiau lle mae'r 'bwlch cofrestru' fwyaf ac yn gweithio gyda'r grwpiau a mudiadau perthnasol yn y gymuned i ddatblygu adnoddau a dulliau i gyrraedd y bobl yma. Byddant hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol gydag unigolion a'u cynorthwyo i gofrestru. Dim ond Gwynedd sy'n gwneud yr agwedd hon.

Amserlen

Cyfnod y peilot yn yw rhwng Ionawr a Rhagfyr 2025 gyda'r gweithgareddau cofrestru ac ymgysylltu yn digwydd rhwng Mehefin a Medi. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn mynd ati i gloriannu cynaniadau'r peilot.

Daeth y cyfnod lel roedd cofrestru awtomatig yn bosib i ben ar 30/09/25. Bydd rhywfaint o waith ymgysylltu yn parhau tan ddiwedd Hydref lle bydd cymorth i gofrestru yn cael ei gynnig i unigolion a gyflwynir drwy batrneriaid yn y sector wirfoddol.

Y Canfas Blynnyddol

Cychwynwyd ar y Canfas Blynnyddol yn ystod mis Medi. Mae hyn yn ddyletswydd statudol ac yn golygu cysylltu gyda phob eiddo yng Ngwynedd i sicrhau bod y Gofrestr Etholwyr mor gywir a chyfredol a phosib.

CRWNER

Sion Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

Cefndir

Mae Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Gwynedd a Môn. Ariannir y gwasanaeth ar y cyd gan y ddau awdurdod, ond Gwynedd sy'n cymryd y rôl arweiniol fel yr 'awdurdod perthnasol' statudol. Mae hyn gosod dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau adnoddau digonol i'r gwasanaeth. Y Cyngor sy'n penodi ac yn talu'r Uwch Grwner a'r Crwneriaid Cynorthwyol. Yr Uwch Grwner sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ei hun. Mae heddlu Gogledd Cymru yn darparu 'Swyddogion Crwner' sy'n cysylltu gyda theuluoedd, yr heddlu, tystion, meddygon, staff ysbyty ayyb ar ei rhan.

Kate Robertson yw'r Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol yw Sarah Riley. Rydym yn cyflogi un aelod o staff llawn amser fel cymhorthydd personol i'r Crwner gyda chefnogaeth ychwanegol yn dod o'r Uned Weinyddol a'r Uned Etholiadau.

Byddwn yn parhau i ddarparu a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Crwner

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Rydym wedi parhau i weithio i gryfhau'r gefnogaeth weinyddol, drwy edrych ar brosesau penodol a datblygu profiad a sgiliau o fewn yr Uned Weinyddol. Rydym hefyd wedi bod yn adolygu'r trefniadau gyda'r trefnwyr angladdau sy'n gweithio ar ran y Crwner gan gynnwys cynnal cyfarfod i roi cyfle iddynt i godi unrhyw faterion gyda'r Crwner, yr Heddlu (sy'n gyfrifol am alw'r ymgymrwyr allan i farwolaethau) a'r awdurdod.

Er bod cytuno ar gyflog yn fater i bob Uwch Grwner a'u (h)awdurdod yn unigol, yn ymarferol mae hyn wedi bod yn digwydd drwy Gyd-bwyllgor Negodi i Grwneriaid, lle cynrychiolir ochr yr awdurdodau lleol ac ochr y crwneriaid, sydd wedi cytuno ar fodel a graddfa tâl ar gyfer Cymru a Lloegr ac ar y cynnydd tâl blynyddol. Ym mis Mawrth eleni cyhoeddwyd fod ochr y crwneriaid wedi tynnu yn ôl o'r Cyd-bwyllgor am eu bod o'r farn nad yw bellach yn ddull priodol o osod eu cyflogau. Bydd angen felly gweithio i benderfynu ar y ffordd ymlaen i sefydlu trefniadau newydd. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Uwch Grwner i gytuno graddfa newydd. Ar yr un pryd byddwn yn adolygu'r trefniant ar gyfer trosi'r raddfa dâl ddyddiol ar gyfer Uwch Grwner rhan-amser i gyflog blynyddol ar sail asesiad o'r gwaith a ragwelir y bydd nagen ei gyflawni.

Eitem 9

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
DYDDIAD	16 Hydref 2025
TEITL	Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 2025/26
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 i'w mabwysiadu
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Cyngor, aelodau cyfetholedig, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'r cyhoedd i awgrymu eitemau posib i'w craffu yn ystod 2025/26.
2. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025, ystyriwyd yr eitemau posib i'w craffu yn ystod 2025/26.
3. Darparwyd gwybodaeth am yr eitemau posib ymlaen llaw i aelodau'r pwyllgor. Roedd yr eitemau yn cynnwys rhai oedd wedi eu hawgrymu yng nghyfarfodydd cyswllt y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda'r Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol ac eitemau a graffwyd a oedd angen dilyniant. Yn ogystal â dwy eitem oedd wedi eu hawgrymu gan aelodau'r Cyngor.
4. Blaenoriaethwyd eitemau yn y cyfarfod gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

5. Gofynnwyd i aelodau ystyried y ffactorau canlynol wrth flaenoriaethu eitemau:
 - ❖ *A yw'r mater yn effeithio trigolion Gwynedd?*
 - ❖ *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
 - ❖ *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*

- ❖ *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- ❖ *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

6. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Ni lwyddwyd i wneud hyn eleni gyda phedair eitem wedi ei raglennu ar gyfer bob cyfarfod. Roedd yr aelodau o'r farn bod yr eitemau a flaenoriaethwyd angen eu craffu yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.
7. Adnabuwyd 'Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd' a 'Gwasanaeth Gwella Ysgolion' fel eitemau i'w rhaglennu yn 2026/27.
8. Mae gwaith yr Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion yn parhau. Roedd bwriad i gyflwyno adroddiad drafft terfynol yr ymchwiliad i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Rhagfyr 2025.
9. Mae'r angen i sicrhau bod llais disgyblion yn cael sylw haeddiannol fel rhan o'r ymchwiliad wedi ei bwysleisio gan aelodau'r ymchwiliad ynghyd â'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i Droseddu. Er mwyn sicrhau hyn, mae'n anrffod bydd yr amserlen o gyflwyno adroddiad terfynol drafft i'r Pwyllgor yn gorfod llithro.
10. Nid oes amheuaeth mai drwy gynnal gwaith trylwyr a chyflawn y bydd yr ymchwiliad craffu yn cael yr effaith fwyaf posib ar wella trefniadau diogelu mewn ysgolion gan wneud argymhellion sydd wedi eu llunio gan roi sylw dyledus a haeddiannol i lais y disgyblion.
11. Anelir at gyflwyno'r adroddiad drafft terfynol er ystyriaeth y Pwyllgor yng nghyfarfod 12 Chwefror 2026.
12. O ganlyniad i ail-raglennu adroddiad yr ymchwiliad craffu, mae angen addasu'r rhaglen waith a luniwyd yn y cyfarfod anffurfiol. Cysylltwyd gyda'r adrannau perthnasol o ran y posibilrwydd o ail-raglennu eitem o gyfarfod mis Chwefror i gyfarfod mis Rhagfyr. Derbyniwyd cadarnhad gan yr Adran Addysg bod modd symud yr eitem 'Strategaeth Addysg' i gyfarfod 11 Rhagfyr 2025.
13. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.
14. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion yn codi wrth graffu perfformiad, eitemau ar flaenraglen y Cabinet a rhaglen waith y Cyngor mewn ymateb i'r Adolygiad Ymarfer Plant.
15. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2025/26.**

BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2025/26

Dyddiad	Eitemau	Rheswm dros graffu
19/6/25	- Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Polisi Iaith Addysg Drafft - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg	Grŵp Tasg a Gorffen
		Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
16/10/25	- Strategaeth Economi Gwynedd - Cyfundrefn Addysg Drochi - Strategaeth Caffael - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg	Blaengraffu / Cynllun Strategol
		Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Gymraeg
		Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Lewyrchus
		Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
11/12/25	- Strategaeth Addysg - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi - Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid	Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Yfory
		Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
12/2/26	- Adroddiad Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn ysgolion - Cludiant Addysg - Ardoll Twristiaeth - Budd y Cynllun Twf i Wynedd	Ymchwiliad Craffu
		Gorwariant yn y maes
		Effaith ar Wynedd
		Mater yn codi o graffu perfformiad

23/4/26	- Cynllun Digidol 2023-28 - Bwrlwm Canol Tref - Prosiect Datblygu Economi Gwynedd - Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Addysg Cyd-Berthynas a Rhywioldeb a pherthnasau iach	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Effeithlon
		Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Lewyrchus
		Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Lewyrchus
		Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 20 Hydref 2022

Eitemau i’w rhaglennu yn 2026/27 - Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd, Gwasanaeth Gwella Ysgolion